

GOBAITH AC ANOBAITH WALDO AC R.S.

Bobi Jones

CYNNWYS

1. Cymhariaeth thematig a diwinyddol rhwng Waldo ac R.S.	3
2. Adolygu Dail Pren	23
3. Cwyp	32
4. O Bridd	37
5. Amwysedd	43
6. Moeseg a Moeswersi	55
7. Y Plentyn	61
8. Cyfriniaeth Waldo	67
9. Moderniaeth Waldo	76
10. Barn a Gobaith	83
11. Amser Arall yr Isymwybod	89
12. R.S. Thomas a'r Genedl	98
13. R.S. Thomas a'r Mudiad	121
14. R.S. Thomas a'r Eingl-Gymry	137
15. R.S. Thomas a'r Gwacter Llawn	155
16. Brodyr	171

CYMHARIAETH THEMATIG A DIWINYDDOL RHWNG WALDO AC R.S.

Dau fardd sydd yma. Ac mae'r ddau'n gytûn mai Cymru – i feirdd, – ie, y peth distadl hwn, yw'r byd real i gyd mewn gwirionedd, o ben draw Môn i ben draw Penfro. Iddynt hwy, mae Cymru'n diriaethol gorffori ar y ddaear hon y greadigaeth, hunaniaeth dyn, cymdeithas, gwaith, methiant dyn, ynghyd â Duw (neu ddiffyg Duw). Mae traed y ddau fardd mewn lle daearyddol benodol. Dau fardd ydynt sy'n caru ac yn casáu Cymru gan ymateb i'r un amgylchfyd cynhwysfawr mewn ffyrdd cwbl annhebyg o gytûn.

Mae'r naill yn yr iaith Gymraeg (bardd Cymraeg mwyaf ei ganrif o bosib) yn canfod yr apocalyps cadarnhaol a negyddol, a hynny mewn cyd-ddyn yn bennaf. Mae'r llall yn Saesneg (bardd Saesneg mwyaf ei wlad erioed o bosib) yn canfod yr apocalyps cadarnhaol ym myd tir a natur, a'r apocalyps negyddol mewn cyd-ddyn a Duw. Dau weledydd unigryw fuont, yn ddiau, ar yr un darn o dir, dau a oedd yn fyw iawn i ddimensiwn ysbrydol. Ond wrth sôn am grefydd, bu'r ddau yn amwys, eithr nid yn gyd-amwys. Ac i ni, wrth eu hefyddu, mae eu syniadaeth ysbrydol wahanol yn allweddol.

O ran ysgogiad, i Waldo, cyd-ddyn a liwiodd iddo ei themâu cadarnhaol cymhlethog dyfnaf. I R.S., adar, ac yn y diwedd y wraig absennol, a gyflawnodd yr un swyddogaeth gadarnhaol iddo. Gobaith brith oedd pennaf thema Waldo. Anobaith brith oedd pennaf thema R.S.. Roedd y ddau'n ymrwymedig yn anghenion Cymru, heb fodloni ar eistedd cysurus – ar wahân – yn yr oriel uwchben. Roedd y naill yn anfodlon gaeth o fewn iaith orfodedig y 'gelyn'. Roedd y llall (er ei fod wedi caru'r iaith imperialaidd honno gydag angerdd) wedi dewis, – na, yntau hefyd wedi cael ei ddewis a'i orfodi gan ei gariad at gymdogaeth – i gamu'n gyfeillgar i mewn i'r ail iaith enciliol ei hun.

Yr wyf am ystyried *gobaith* yn ffactor sy'n cysylltu'u presennol, mewn modd deinamig, â'r dyfodol. Ffactor cysylltiol, elfen yw iddynt ill dau, sy'n uno bywyd drwy ddyhead. Sylfaenir rheidrwydd gobaith ar yr ymwybod bod popeth yn anorffen. Ysfa i gwplu'r hyn a ddechreuwyd yw. Oherwydd parhad amser, ymestynna'r meddwl tuag ymlaen at nod a ddisgwylir. Yn wir, gorfodol yw rhyw fath o obaith i bawb; cynneddf strwythurol yw yn yr ymennydd. Gall hyn efallai awgrymu mai gwth fyddai; ac mae'r disgwyl hwn yn erfyn dwyn dyhead rywfodd i ben, fel nodwedd mewn pwrpas; a chredaf fod hyn yn tarddu o ymwybod diddewis, hyd yn oed pe na bai'r dyhead ddim yn fwy na'r awydd i dynnu cerdd i ben.

Cymwysasid agwedd, arddull, a gweledigaeth y ddau fardd hyn yn gadarnhaol ac yn negyddol gan eu hamgylchfyd llenyddol cynnar. Ac yr oedd y wlad honno'n eithriadol o astrus, megis y byd i gyd. Darparai iddynt ill dau un llwybr union i'r meddwl, er na cherddent arno ar yr un ffordd â'i gilydd, ac er iddynt gerdded mewn modd ychydig yn wahanol i feirdd cyfoes iddynt mewn gwledydd eraill.

Nid dieithr i ni yng Nghymru yw gwrthgymreictod. Yn bur fynych, cyfyd cri o du'r Wasg Saesneg yng Nghymru, neu o'r tu allan iddi, ynghylch Cymreictod diangen a disynnwyr ein gwlad. Tynnir sylw yn achlysurol gan ryw arwr newydd dros y ffin (neu yn ein plith) sy'n mynegi dirmyg at y Gymraeg neu at Gymru. Mae'r enghreifftiau yn afrifed ac yn endemig. Ac mae'r cymhellion y tu ôl i'r fath ffenomen yn honni bod yn bur amrywiol ond yn anhiliol ddigon. Yn 2011 cafwyd pwl newydd, dros dro (fel y bydd newyddiaduraeth), pan gyhoeddwyd sylwadau gan lenor anhysbys o Gaerffili am lyfr o ymchwil hiraethlon am Gymreictod, *Bred of Heaven*, gan Jasper Rees. Cyfeiriai'r adolygydd at y Gymraeg fel 'appalling and moribund monkey language'. A gellid dod o hyd i nifer helaeth o lenorion galluocach nag ef sydd wedi cyfleu'r un math o gywair. Mae'n ffenomen fydeang gyfarwydd. Mae hefyd yn ffordd o dynnu sylw.

Wrth ddarllen R.S. Thomas, down o hyd i ffenomen lawer llai syml. Ceir hunan-gystwyo dihafal ynghylch ei Gymreictod. Nid oes prinder o ddirmyg ganddo at Gymru. Ond y mae wedi'i seilio ar wybodaeth, ar adnabyddiaeth, ac ar gariad. Ac wrth ymosod gyda ffyrnigrwydd ar y Cymry, bydd R.S. yn llwyddo i ddod drwodd atom wedi glanhau'r stablau yn ei feddwl. Ac er bod yr hen ymosod cyfarwydd yn parhau gan yr un hen griw o'i ddeutu allan o hen berfedd eu hisraddoldeb ynghylch hunaniaeth, ac oherwydd obsesiwn euog newydd o amddifadrwydd llygredig a dilead, mae R.S. rywsut wedi clirio'n serchog y dirmyg ysgafn yn ei brydyddiaeth ifanc. Gloywodd yr ymosodiad. A theimlwn fod barddoniaeth negyddol-Gymreig R.S. yn burach na'r rhelyw. Mae'n casáu'n lân. Dyma un o'r pethau sy'n ei wneud yn fardd mor nodedig. Wrth drafod themâu negyddol Cymru a Duw, y mae ei golled a'i glwyf, er perthyn i'r oes o'r blaen ar lawer cyfrif, yn dal yn iachus i'r sawl a fyfyria gydag ef heddiw.

Mae'n ymddangos i mi fod R.S. Thomas wedi llwyddo i ddringo'n weddol gyflym allan o un ddelwedd dreuliedig, ac o ryw bwll o adwaith ystrydebol Eingl-Gymreig go leidiog, ac allan o ryw ofn henffasiwn o gywilydd bychanus, – ac felly wedi agor ei

adenydd llydan iach. Heb golli'i hunan-ddirmyg Cymreig yn llwyr, mae wedi troi'i lygaid fel un a wyddai ym mha le y gellid edrych am eglurhad heb wadu'i gariad at Gymru. Ac nid y llenor Eingl-Gymreig hwn yw'r unig un a lwyddai i gasáu'r Cymry yn gadarnhaol. Felly rhai llenorion Cymraeg hefyd – Gwenallt a Saunders, ac – o bawb – Waldo.

Eto, pan sgrifennid yn Saesneg, ceid gan rai Cymry drwy'r ganrif ddiwethaf ddiffyg adnabyddiaeth ryfeddol am gyfanrwydd Cymru a rhagoriaethau'r Gymru unedol. Ymddangosai fel pe bai rhai llenorion yn byw ar gyfandir arall. Roedd yna hollt ddaearyddol yn eu heneidiau. Oherwydd bwlch seicolegol rhyngddynt a'u gorffennol, roedd y ddelwedd a fynegent o Gymreigrwydd yn fynych yn bur wyrdröedig gibddall. Effeithiai'r clwyf o beidio ag etifeddu Cymreictod, heb fod yn hyddysg yn y traddodiad cyn yr ugeinfed ganrif, ymhellach o lawer ar eu dealltwriaeth ac ar eu hagwedd at y *psyche* Cymreig llenyddol, nag y'i disgwyldid yn synhwyrol. Surwyd hwy weithiau; ar dro, llanwyd hwy gan fath o fwllch.

Mae hyn wedi'i niwlio yr un pryd gan ansicrwydd ynghylch pwy oeddent hwy eu hunain. Enghraifft drawiadol o hyn fu'r gwamalu yn eu plith ynghylch *y ffordd i'w disgrifio'u hwy eu hunain*, nes peri embaras i'r rhai a garai barchu'u dewis hwy a'u derbyn yn gwrtais, yn ôl terminoleg a wnâi synnwyr. A ddylid disgrifio'r gwaith a gynhyrchent fel 'llynyddiaeth Eingl-Gymreig', neu 'llynyddiaeth Saesneg yng Nghymru', 'llynyddiaeth Gymreig Saesneg', neu 'Welsh literature in English'? Y disgrifiad cyntaf yw'r un sy'n pwysleisio Cymreictod, gyda'r cyfuniad neu'r elfen Saesneg yn bresennol. Yr olaf yw'r un mwyaf amwys oherwydd bod y gair 'Welsh' yn Saesneg yn cyfeirio'n gyntaf at yr iaith ac yn ail at yr hunaniaeth. 'Llynyddiaeth yn Gymraeg' yw ystyr naturiol 'Welsh Literature' i bawb normal. 'Welsh literature in English' i rai yw 'Llynyddiaeth Gymraeg wedi'i chyfieithu' – o leiaf yn sythweliadol, – er y gellir gyda dryswch ganfod posibilrwydd arall. Ond bu'n rhaid cael term gweinyddol, ymarferol, sefydlog o ryw fath ar gyfer 'gwleidyddion' a fynnai wobrwyo gweithiau llenyddol, ac ar gyfer grantiau gwleidyddol, a phethau safonol felly. Dyna'r gwleidyddion ar ein gwarthaf, yn dylanwadu gyda'u nawdd hysbys. Mae'n rhaid cydnabod pawb yn diriogaethol. Y bobol yng Nghymru. Ni wna dim y tro ond darparu ar gyfer pobl sy'n talu'u trethi yng Nghymru oherwydd byw yma, neu wedi bod yma ryw bryd, neu a ddaw'n achlysurol yma'n ddaearyddol, ond sydd efallai'n llenyddia'n gyfan gwbl fel Saeson, heb wybod dim oll am Gymru, a heb feddu ar

ddim diddordeb ynddi chwaith, ac o bosib sy'n ceisio cael gwared â hi. Dylai'r rheina hefyd yn gyfiawn dderbyn gwobrau a grantiau yn bendant os yw'r gwaith yn llenyddol haeddiannol. Llenyddiaeth Saesneg a sgrifennent wrth gwrs, a gallent amrywio'u perspectif yn lleddf neu'n gryf. Ond enigma yw. Dyma inni gyflwr y buasai R.S. yn hoffi'i bortredu, dybiaf i. Rhyfedd na chaiff llenorion Cymraeg sy'n llenyddu yn Lloegr ddim o'r un drafferth wrth ymorol am arian grant; ond unplygrwydd yw unplygrwydd.

Erys *rhai* awduron Eingl-Gymreig go iawn yn ein plith sy'n adnabod Cymru fel pe bai o'r tu mewn. Nid arhosant yn seicolegol mewn un gornel na chyfnod yn unig, sef yn y de-ddwyrain dyweder, nac yn yr ugeinfed ganrif yn unig. Cynhwysfawr yw eu diwylliant Eingl-Gymreig, yn llenyddol ieithyddol felly, ac yn rhan wâr o'r canrifoedd. Eto, y maent wedi'u clwyfo yn gudd, a dyma'r holl undod sydd rhyngom oll. Dyma'r rheng sy'n cyfateb yn Saesneg i'r llenorion Cymraeg. Yma y safai R.S..

Un tro, bûm yn disgrifio cyflwr y llenorion Saesneg hyn fel clefyd, yn gwaedu'n ddrewllyd; a thybiai ambell un o'r rhai di-Gymraeg mai sarhau yr oeddwn. Na, na. Byth bythoedd. Canmol y bûm i, o leiaf yn y cyd-destun Cymreig unol, oherwydd yr adnabyddiaeth a oedd yn y cyflwr hwn. Yr oedd y llenorion Eingl-Gymreig i mi yn 'Gymreig' go iawn – Harri Webb, M.Wynn Thomas, Damian Walford Davies, R.S. Thomas, Gwyneth Lewis, ac eraill. Dyna'r rhai a rannai fywyd eu cyfrwng gyda'r Cymry ac a adwaenai'r Gymru a dreiddiai drwy bob cornel o'u bodolaeth Gymraeg. Dyma sut y disgrifiai M. Wynn Thomas y llenor rhamantaidd afieithus Glyn Jones: '*Glyn Jones is close not so much to the English-language writers of Wales as to the Welsh-language writers of the post-war generation. His next of kin, so to speak are Waldo Williams, Euros Bowen, ... and Pennar Davies.*'

Canu yn y clwyf hwnnw oedd natur rhai o'r llenorion Cymraeg hyn er nad o anghenraid. Teimlent yn syml fel Cymry llenyddol gyfoes. A gallai'r llenorion Eingl-Gymreig, a gynhwysai R.S., ganu'n ystyrion eiriau Gwenallt:

*'Paham y rhoddaist inni'r tristwch hwn,
A'r boen fel pwysau plwm ar gnawd a gwaed?
Dy iaith ar ein hysgwyddau megis pwn,
A'th draddodiadau'n hual am ein traed?'*

Felly, yn achos R.S. Thomas cymysgid canu bendith yn hyn o sefyllfa â thipyn go lew o ganu melltith. Ar y thema hon, ceid un man gwan go bendant ymhlith llawer, a

darddai o anwybodaeth o fath ynghylch Cymreictod naturiol y Cymry Cymraeg. Glynai rhai Cymry, yn Saesneg, wrth ddelwedd gyffredin y genhedlaeth cynt a ddisgrifiodd M.Wynn Thomas mor gytwys mewn cyfrol bwysig (sef yn *In the Shadow of the Pulpit*). Yno, soniai am *wrth-gapeleidd-dra* digrif a chartwnaidd anwybodus (ond egniol) Caradoc Evans, Rhys Davies, Gwyn Thomas, Dylan Thomas, ac yn od iawn (gan y dylai ef wybod yn well) Idris Davies. Nid y cartŵn na'r dychan sydd o'i le. Ond culni'r awduron a'r rhagdybiau 'grubby': 'Many of Wales's leading English writers ...still preferred to treat all Welsh-language writers as if they were either neurotically inhibited ministers of religion or their pathetic stooges.' Parhawyd yr un anwybodaeth esgeulus a rhagfarn hyd yn oed hyd amser Danny Abse a wyddai gymaint yn rhagfarnllyd am lenyddiaeth Gymraeg ag a wyddai ei frawd Leo am wleidyddiaeth Cymru.

Roedd beirmiadaeth y Cymry Cymraeg o gapeleidd-dra'n graffach. Yn anochel, y 'Welsh-language writers' a gyfatebai *o ran amser* i Caradoc, Rhys a Gwyn oedd T.Gwynn Jones, W. J. Gruffydd, Saunders Lewis, T.H. Parry-Williams, ac R.Williams Parry. Pob un yn agnostigaidd ddyneiddiol gwryfol, heblaw Saunders Lewis a oedd yn fwy Pabyddol na'r Pab, yn enwedig yn y dyddiau pryd y trôl'r Pab yn 'wrth-Ladinaidd'.

Gwedd ar anwybodaeth a gyfrifai am fath o gawl dwfn ymhlith rhai Eingl-Gymry. Caed awydd hen i fod yn genedlaethol gyfan, ac eto (gan rai) i ddisodli'r Gymru Gymraeg a oedd yn dreiddgar iawn yn y wlad (er gwaethaf pawb a phopeth), ac yn tarddu'n rhannol o is-ymwybod beichus o euogrwydd ac annigonolrwydd, ac o or-barodrwydd i ildio i'r imperialaeth a gawsent hwythau hefyd. Roedd ganddynt reddf a geisiai ddisodli gwlad-deyrngarwch gan drefedigaethrwydd. Ac eto, dymument goleddu hefyd hen ddelwedd o ail hanner Cymreig a phietistig y bedwaredd ganrif ar bymtheg, – iwtilitariaeth a chymhleth y taeog – a arhosai'n fyth o ddisgyblaeth eglwysig negyddol ac o ofn sicr gerbron moesoli deddfol, yn lle gobaith ysbrydol.

Iddynt hwy, yr oedd Cymru'n wlad fach greintachlyd. I'r Cymry Cymraeg, ar y llaw arall, yr oedd Cymru'n enfawr ac yn ymestyn yn gyffredinol i Alasca ac i Maoriaid Seland Newydd gan basio Tsietsnia *en route*.

Safai R.S. Thomas ar ymylon hyn oll o bryd i'w gilydd. Etifeddai gysgod o'r rhagdyb anwybodus arferol yn erbyn Protestaniaeth Galffinaidd, ond derbyniai hefyd deimladau o negydd credu mwy cyffredinol. Anadlai'r enciliad rhag y capeli a wacawyd

gan wacter ystyr a dyngarwch pell nifer go lew o'u gweinidogion. Ond er iddo ymgymysgu â nifer sylweddol o bregethwyr nodweddiadol yr oes a fu, rhwng Islwyn Ffowc Elis yn y pegwn anghrediniol, cenedlgarol, a dyngarol ac Euros Bowen yn y pegwn sagrafennaidd diwinyddol, fe drechwyd R.S. gan gynulleidfaoedd Saesneg-drwm a difater y myth. Eto, daliai ati i ganu. A hyn oedd y prawf. Gwydn oedd y clywed.

*You gave me
only this small pool
that the more I drink
from, the more overflows
me with sourceless light. ('Gift')*

Yn hyn o ddrysfa, fe geir ymagweddu trawiadol o wahanol gan y ddau fardd R.S. – a Waldo, ynglŷn â bron popeth – tuag at Loegr a Saesneg, tuag at deulu ac addysg, tuag at ddyfodol Cymru a thir Cymru a phobl Cymru, tuag at Dduw a'r nefoedd. Ynglŷn â phob un o'r pynciau hyn, gellid hawlio mai cadarnhaol yn y bôn oedd Waldo gan amlaf, gydag elfennau negyddol a garw ar ymylon pwysig; ac mai negyddol oedd R.S. gydag ambell belydryn annisgwyl cadarnhaol ar ei ymylon ef. Y cwestiwn chwilfrydig y byddai Waldo'n ei holi gan wrthrych ei farddoniaeth ei hun oedd 'Beth yw ei ystyr?' Cwestiwn rhethregol a ofynnai R.S. yntau gan wrthrych ei farddoniaeth oedd 'A oes ystyr o gwbl?'

Ac eto, gogwyddai'r ddau fardd at yr un Metanaratif cenedlgarol. Fe welent gymdeithas y byd drwy ddiriaeth eu disgwyliadau gweithredol am y Gymru hon a oedd dan eu traed. Nid tir daearyddol a oedd yn eu galw. Posibilrwydd oedd perthynas Cymru a Duw, addewid, baich i'r naill a'r llall; dyletswydd, fframwaith gwrthrychol i fywyd y ddau. Actorion yng Nghymru oeddent hwy er eu gwaethaf ar lwyfan gwlad golledig. A dyna'u Metanaratif: Cenedlaetholdeb Ysbrydol.

Galwad a geid gan y naill a'r llall, ac nid oedd y ddau fardd yn annhebyg iawn yn hynny o beth. Awyddai R.S. am ddysgu i'r Cymry Digymraeg rywsut fod yn ddigon hyderus ac yn ddigon deallus i gyd-ganu yng ngeiriau Waldo:

*Dyma'r mynyddoedd. Ni fedr ond un iaith eu codi
A'u rhoi yn eu rhyddid yn erbyn wybren cân.
Ni threiddiodd ond un i oludoedd eu tloidi
Trwy freuddwyd oesoedd, gweledigaethau munudau mân.*

Dyna'r sioc a gawsant ill dau. 'UN iaith!' protestiai ambell Eingl-Gymro arall; a pharchwn y brotest sy'n rhan briodol o'r cymhlethdod.

Metanaratif: Cenedlaetholdeb Ysbrydol.

Yng ngwaith y ddau fardd hyn a archwiliwn, yr oedd cenedlaetholdeb yn ffenomen lawer pwysicach na gwleidyddiaeth, ac yn fwy felly i R.S. nag i Waldo. Ym mryd llawer o academïwyr, gwleidyddion, neu'n ôl y wasg gyhoeddus (neu'r dyn-yn-y-stryd), cysylltiadau â gwleidyddion a ddisgwylid ar y blaen, ac yn llethol felly, pan sonient am genedlaetholdeb. Ac wrth gwrs, am y ddau fardd Cymraeg-Saesneg hyn, fe geid hefyd elfen o fath o wleidyddiaeth yn eu gwladgarwch. Ymhlith yr ychydig o droeon y cyfarfu'r ddau hyn â'i gilydd, caed un tro y buont ar eu heistedd yn cydbrotestio'n erbyn defnydd y Swyddfa Ryfel o dir Cymru, yn Nhrawsfynydd. Cyd-nesâd anochel oedd hyn.

Ond i'r ddau, mater ysbrydol yn bennaf oedd cenedlaetholdeb a Chymreictod. Hyn oedd eu Metanaratif cytûn. Mae iaith a gwlad yn hen gyswllt gweithredol yng Nghymru, ac yn fydeang. Mae'r cyswllt yn mynd yn ôl i'w ddechreuadau yn y bumed canrif. Fe barhaodd drwy'r canrifoedd (*Ysbryd y Cwlwm*). Fe'i cyfrifid yn gyfrifoldeb moesol a seicolegol ers y cyfnod cynharaf. Ildiodd nifer o'r bobl eu hysbryd i daeogrwydd, er yn gynnar. Ac arhosodd felly hyd heddiw. Peth diweddar iawn a chyfyngedig fu'r economi, er mor bwysig y ddi hynny erbyn yr ugeinfed ganrif, a hynny yn ôl po fwyaf materol yr aethai dyn. Eto, dadleuwn innau fod y pwyslais anrhydeddus (a'r pydredd) o hyd yn tarddu o'r wedd ysbrydol. Ac er mai bod yn feirdd i Gymru oedd osgo cadarnhaol y ddau hyn, bu'r 'drwg' iddynt yn ffactor mor ysbrydol bob dim â'r da.

Fel y gwelir, trafod yr ydys ddau fardd cenedlgarol go enigmatig yn yr ugeinfed ganrif. Efallai y byddai'r mwyafrif o feirniaid proffesiynol yn barod i ddadlau mai hwy oedd ein dau fardd blaenaf yn y ganrif honno, y naill (Waldo Williams) yn bennaf pencerdd yn yr iaith Gymraeg yn y cyfnod, a'r llall (R.S. Thomas) yn bennaf pencerdd Saesneg yng Nghymru. Fy mwriad yn yr ysgrifau hyn yw olrhain y gwahanol ffyrdd y bu i'r ddau hyn ymagweddu yn eu gweithredoedd at Fetanaratif Cenedlaetholdeb Ysbrydol. Codent hefyd ddwy wedd neu ddwy thema wrthwynebus eglur, y naill (at ei gilydd) yn llawn gobaith, a'r llall (at ei gilydd) yn llawn anobaith.

Pan ddefnyddiaf y gair '*Metanaratif*', syniaf am welediad cyflawn ynghylch ffordd o fyw. Bydd y '*Metanaratif*' yn ffurfio athrawiaeth gyffredinol am y byd i gyd i lenor, sy'n ymwneud â gwerthoedd a fydd yn cyffwrdd â phob rhan o feddwl a bywyd. Mae'r strwythur cyflawn hwn o farnau mewn amser yn cydblethu'n undod. Gall fod yn

ddigon rhyngwladol, fel yn yr achos hwn. Ond y mae'n gwyrho'i natur yn ôl safon a diben, trefn ac egni diriaethol, hyd at y manylion lleiaf ynghylch pob math o bynciau bob dydd.

Disgwyliad o fewn y meicrocosm Cymreig oedd y byd i'r ddau fardd hyn. Rhan o wreiddioldeb R.S. oedd ei gasineb go gyson at ei bobl ei hun, megis (yn unigol) at ei fam or-feddiannol. Gallai ef uniaethu gwrth-Gymreigrwydd â'i fam snobyddlyd, mewn modd mor eithafol â'r uniaethu a wnâi o'i dad byddar â Duw nad oedd yn gallu clywed ei weddiâu. Roedd 'absenoldeb' ei dad yn ddrych i absenoldeb Duw ac i absenoldeb Cymro. Yn 'Cadenze', fe gân am Dduw:

*What god,
fingers in its ears, leered at me
from above the lintel ...?*

Ac meddai R.S. am fudandod Duw felly:

'fedra' i ddim agosáu at Dduw fel tad ... Ac ella mai'r eglurhad seicolegol ydy 'doedd 'na ddim perthynas glòs rhyngof i a'm tad oherwydd 'doedd o ddim yn gallu 'nghlywed i.'

Ac eto, wyneb yn wyneb â Chymru, gall 'ganu', â'r un llais, yn delynegol o gadarnhaol, hyd yn oed yn eithafol o wirion yn ei fawl: *'Because all the things which make for Welsh identity, her mountains and light and skies and the speech which has christened them were made by God, she is sacred to us. Nations are part of the coat of many colours, which life wears and as each nation is absorbed into another, so the coat becomes drabber and less given to praise. And as God made Wales, so she has made us, and we must love her as a son a mother or a bridegroom his bride.'*

Yr hyn a gerir yn y fan yna yw'r hunaniaeth sydd gan Gymru – sef y tir yn yr iaith.

Sgrifennai ef hyn oll er hynny o fewn cyd-destun o brotest yn hytrach nag o fewn y cyd-destun uniongyrchol o adennill. 'Cadw' oedd ei gywair, ar ei orau, ar gyfer dyfodol, nid cynyddu ymarferol a geisiai. Byddai 'adennill' wedi golygu cydweithredu â phobl. A byddai hynny wedi tynnu allan ohono ef, ac allan o golyn ei ganu, wenwyn egniol ei besimistiaeth. Coleddai hyn, serch hynny, tan gasáu perthynas â'r iaith Saesneg.

Bu cariad Waldo'r Cymro at yr iaith Saesneg, a'i ganmoliaeth ohoni ('yr hyfryd iaith' yn 'Tri Bardd o Sais a Lloegr') yn fwy cytbwys ac iach. Nid yr iaith sy'n achosi'r clwyf iddo. Mae gan Damian Walford Davies (*Cof ac Arwydd* 94) yntau sylwadau praff am ymhyfrydu Waldo yn Wordsworth a Coleridge. A does dim dwywaith gen i am ei

edmygedd hoff o lenyddiaeth Saesneg yn ei helaethrwydd o uchafbwyntiau cain, yn ogystal ag at rai o'r encilion diarffordd. Doedd hi ddim yn elyn.

Ond fe awn ymhellach a dweud bod yna batrwm yn y fan hon. Ffaith yw cariad Waldo at Saesneg ac mae'n ffaith hefyd mai iaith ei berthynas â'i briod oedd hi: roedd hyn yn eilio parch a hyfrydwch digon cyfredol Saunders Lewis yntau hefyd at lenyddiaeth Lloegr, a'r ffaith mai Saesneg oedd iaith eu cartref ill dau. Eto, ni ellid chwaith wadu'r edmygedd gan Williams Parry, Parry-Williams, a Gruffydd at yr iaith honno a llenyddiaeth Lloegr. Datguddiai Waldo yntau yn ei ysgrif 'Brenhiniaeth a Brawdoliaeth' beth yn union oedd calon y berthynas negyddol ag imperialaeth, heb feio na'r bobl na'r diwylliant dwfn acw.

Yn 1944, sgrifennodd Waldo soned Saesneg gynnar i goffâu dau o'r beirdd Eingl-Gymreig, Alun Lewis a David Geraint Jones, a laddwyd yn y rhyfel. Meddai Alan Llwyd, 'Drwy alw David Geraint Jones yn "our own Geraint", roedd Waldo yn uniaethu Geraint â Hwlffordd, y dref lle y'i ganed ef ei hun ac yn uniaethu â Chymreictod Eingl-Gymry.'

Disgwyliad mewn gobaith oedd gogwydd Cymreictod yng nghanu Waldo, a hynny o'r cyfnod cynharaf ymlaen. Gwyddai wrth gwrs yn anochel am y clefyd. Ond –

*Dwysâ fy nghariad gyda'th glwyf,
A dynion oer dideimlad sych
A ddywed im mai ynyfyd wyf,
Mai marw y byddi yn dy nych.*

*O, am dy ddwyn o'th wely claf!
O, na chawn nerth i'm braich gan Dduw!
Ond er fy ngwanned, tyngu wnaif –
Na chei di farw tra bwyf byw. (Yr iaith a garaf)*

A thrachefn mewn cyfnod cynnar iawn, dyma'r modd y patrymai ac yr adeiladai strwythur '*Pe gallwn*'. Mae pob pennill yn gorffen fel hyn:

*mi ganwn
Nes delai Cymru'n rhydd*

*mi ganwn
Nes delai Cymru'n hardd*

*mi ganwn
Nes delai Cymru'n fawr*

*mi ganwn
Nes delai Cymru'n un.*

Credai fod 'canu' yn weithred arwyddocaol ac yn dwyn pethau i fod. Cyfeirio'r wyf at y pethau cynnar am eu bod yn arwyddo'r ymgyfeirio sylfaenol obeithiol, megis yn

(Y Dyhead:)

*A deffry tristwch obaith dan y fron ...
Ond wedyn, cyfyd gobaith yn ddi-oed.*

Ac eto:

(Yr Hen Allt:)

yn disgwyl awr datguddiad Meibion Duw.

Yn ddiweddarach, hyd yn oed yn un o gerddi pwysig ei aeddfedu cychwynnol:

(Y Tŵr a'r Graig)

*O, mae gwanwyn amgenach
Ar hyd y byd, i rai bach.*

Ac ymlaen i aeddfedrwydd praff 'Cyrraedd yn Ôl', ei gerdd gadarn am y Cwmp, ac i'r fenter a rydd Cleddyf Mihangel iddo. Gobaith yw deunydd y llinellau hyn.

Dyma'r Waldo gobeithlon unplyg, Waldo'r apocalyps. Waldo'r Cristion ffyddiog.

Os crebachwyd unrhyw fardd o Gymro gan ei grefydd, fe grebachwyd R.S. yn frawychus, ond yn achlysurol. Anghredu oedd normcrefydd R.S., gydag ambell gyrch i mewn i gredu. Ddi'r ambell gyrch yna, nid o gyfeiriad ei swydd (yr oedd yn ei chasáu yn weddol gyson), ond o ambell brofiad o bresenoldeb Duw (*sensus divinitatis*). Felly, yn ei gerdd 'Alive'. Does fawr o 'berthynas' yno byth, mae'n wir; dim ond 'bodolaeth'. Presenoldeb ffo yw'r afael agosaf. Ac wedyn ffy yn weddol gyflym yn ôl i ddiogelwch amheuaeth a phwysau syniadol ei gyfnod ei hun. Caiff ryw aroglau o ateb, melys, golau; a dychwel rhagddynt nerth ei draed at y cwestiynau. Mae R.S. yn ymdroi gormod fel y gwna'r amheuwyr proffesiynol â '*phresenoldeb*' Duw (*Laboratories of the Spirit* 46). Ond gofyn y cwestiwn anghywir a wna. Nid presenoldeb yw dechrau credu.

Rhinwedd y mae'n ei rhannu gyda Waldo yw cydnabod, yn wyneb gwyddoniaeth a materoliaeth ddiendaidd, fod ffyrdd Duw yn ddirgel. Ond '**perthyn**' yw un o eiriau mwyaf Waldo yn ei waith yn y dirgelwch. Nid yw R.S., fel arfer, yn barod i gydnabod llai na bod rhyfeddod gwybodaeth Duw y tu hwnt i ddyn. Ac y mae ef a Waldo'n gytûn ar hyn hefyd. Gwyddys rhywbeth, wrth gwrs, gwyddys digon drwy eiriau Duw; ond er gwybod rhywbeth sy'n ddigonol gerbron y cynllun mawr – rhyfeddu yw eu rhan. Ie; rhyfeddod yn achos R.S. yntau, heb berthyn. Eto, nid oedd hynny'n atal R.S. rhag canu amdano cyn cofleidio'r absenoldeb drachefn. Yn 'Message' clywir 'A message from God / delivered by

a bird / at my window, offering friendship.' Nid yw'n ei dderbyn. 'So that your Amen / is unsaid,' medd ef yn 'Revision'. Yn awr, bydd yr athronydd confensiynol weithiau'n trafod ebychiad fel hyn – a hynny'n arferol, yn ddiweddar, – o safbwynt yr 'Ego Trosgynnol', ond yr hyn a wna R.S. er gwaethaf y norm athronyddol yw llunio cerdd am y profiad ei hun, er nas gwna'n gadarnhaol. A dyna ymateb Waldo yntau, eithr ar sail derbyn.

Nid credu bodolaeth yw credu Cristnogol, ond pwysu ar Dduw. Y gwahaniaeth yng ngwaith Waldo yw perthynas ystyfnig neu adnabod: ei wraig, ei deulu, ei Gymru, ei iaith, cyd-ddyn, a Duw. Mae yna rywun yno i'r goddrych: ac nid yn unig hynny, gall Hwnnw estyn rhyw damaid o absenoldeb weithiau. Mae Waldo'n ymestyn hefyd at lais. Llais Duw, nid llais dyn. Y norm dynol yn y canrifoedd diweddar fu bod heb Dduw, ie hyd yn oed yn y cyfnodau tybiedig efengylaidd. Ffasiynau mewn amheuaeth fu'r syniadaeth lethol hon ym mhob cyfnod ers Adda. Ac i ddyn felly y mae canu syrffed yn reddfodol. Ceisio ateb drwy gwestiyna a wna'r dyn naturiol heddiw: ceisio ateb drwy wrando a wna'r Cristion. Yng Nghrist, a Christ ynddo yntau, clywir y dôn a'r geiriau. Dyma o fewn cyd-destun diriaethol gwlad a fu'n gorddiad canolog i Waldo ac R.S.

Ac wrth gwrs, er imi resynu gynau ynghylch anwybodaeth cynifer o'n llenorion Eingl-Gymreig o'r Gymru Gymraeg, brysiat i ddweud bod y sefyllfa'n graddol newid yma ac acw yn eu plith. A rhaid cofio mewn cymhariaeth rhwng Waldo ac R.S. fod modd bod yn dra ymwybodol o'r annhegwch y gellir ei wneud pe baem yn cyffredinoli ynghylch llenyddiaeth Eingl-Gymreig mewn modd anghyfrifol wrth ymglyfngu i R.S.. Ac felly y bu hi wrth gymharu â Waldo o bawb. Yn achos yr olaf, dyma fardd Cymraeg mwyaf ei ganrif, sy'n digwydd bod yn anwylach ei gymeriad na'r un bardd arall y gwn amdano nac a rodiodd y ddaear hon ers canrifoedd, a'i ddal gyferbyn â bardd Eingl-Gymreig go wrthun ei dymer i lawer (mae'n ymddangos), er gwaetha'r mêl dychmyglon braf a lifodd mor huawdl o'i enau o bryd i'w gilydd.

Ond beth am y Metanaratif?

Credai S.L. mai anfantais fawr i feirniad oedd cael bod Waldo'n 'eicon' i sentimentalwyr enwog Cymru. Ni ellid ymateb yn 'oer' i'w waith gan neb. Ond yr amhosibilrwydd hwn ydoedd Waldo ei hun. Gwerthoedd cadarnhaol yn ogystal â negyddol oedd ei fodolaeth. A'r rheini a ymledai am ben pob deunydd ganddo. Un fel yna oedd ef. Ac nid oedd yn bod heb hynny.

Roedd yna gymhlethdod 'anuniongred' o ryw fath yng nghrefydd R.S. yntau hefyd, yn ogystal ag yng nghrefydd Waldo. Sgeptigiaeth afreal y cyfnod oedd cyd-destun R.S., er na ellir gorffen gyda'r symlder hwnnw: Heddychiaeth oedd craidd crefydd Waldo er na ddylid byth ei symleiddio yntau'n ôl dull dyneiddiol dechrau'r ugeinfed ganrif pryd y caed math o ryddfrydwr gwlyb confensiynol, a phryd y gwnâi llawer o'i edmygwyr mwyaf sentimental yn union hynny.

Eto, roedd llawer mwy o uniongrededd yn plethu drwy gred Waldo nag y buwyd yn yr hen amser yn barod i'w gyfaddef ac fel y ceisir ei ddangos yn ddiriaethol yn yr ymdriniaeth hon. Gwthir ei heddychiaeth mor galed gan rywrai nes cyfleu ganddynt mai cartŵn o heddychwyr arferol oedd ef. Ond fel y caed hiraeth gwan am uniongrededd, neu am ffrwythau ac effeithiau uniongrededd, yn pwysu ar R.S., felly yr oedd yr Ethol a'r Cwmp a'r Groes a'r Atgyfodiad yn fyw odiaeth i Waldo, er gwaethaf dallineb ymhlith y rhai a'i darllenai ef ar y pryd. Nid Undodwr mohono.

Sylwer ar 'Llandysilio-yn-Nyfed':

*Pa olau o'r tu hwnt
Eglurodd Grist i'w etholedig rai?*

'Argyhoeddiad' oedd erlidiwr taer Waldo.

Perygl 'argyhoeddiad' i fardd yw bod clywed datgan yr 'argyhoeddiad' yn blaen yn ddigon i'w foddhau weithiau. Felly, pan ail-ddarllenai Waldo gerdd T.E. Nicholas 'Gweriniaeth a Rhyfel', cerdd hir ddiflas yn collfarnu'r rhyfel byd cyntaf, meddai'r darlennydd Waldo '*fe'i darllenis hi eto echnos ymhen mwy na hanner canrif, ac fe'm gwefreiddiwyd eto, lawn cymaint.*' Ni allaf lai na synied bod hyn o galon agored yn berygl, ac eto'n cael ei oresgyn mor fynych gan ei argyhoeddiad gweithredol yn ôl cyngor Gandhi. Gwyddai mai Argyhoeddiad oedd erlidiwr pennaf *Dail Pren*. Dyna'r fuddugoliaeth er hynny a ymddengys hefyd yn y gyfrol honno, ac a ganiataodd yn gyfiawn iddo ddywedyd: '*Gobeithiaf y bydd **Dail Pren** yn gymorth ymarferol i'm cenedl yn nryswch yr oes hon.*' Roedd yn barod iawn i ymddiried mewn gwir argyhoeddiad.

Dyma'i eiriau mewn llythyr at D.J.: '*Pan ddaeth Rhyfel Corea, chwi wyddoch fel yr oeddwn i'n teimlo am fy nghaneuon heddwch. Yr oeddwn i'n teimlo y byddai eu cael gyda'i gilydd mewn llyfr yn ofnadwy, yn rhagrithiol, yn annioddefol heb fy mod yn gwneud ymdrech i wneud rhywbeth heblaw canu am y peth hyn.*'

Alan Llwyd yn anad neb a ddangosodd orau'r obsesiwn hwn o eiddo Waldo ynghylch 'gweithredu' heddychiaeth. Gellid dweud bod hynny'n amlwg i lu. Ond i mi, Alan Llwyd a ddangosodd eithafirwydd yr ymrwymiad pan ddarluniai Waldo yn barod i *beidio* â barddoni ac i *beidio* â chyhoeddi barddoniaeth oherwydd rhyfel. Dyma beth sy'n swnio'n amhosibl neu'n hurt i fardd normal. Ond dechreuodd Alan ei gyfrol *Stori Waldo* gyda'r frawddeg annisgwyl: '*Bardd a heddychwyr oedd Waldo Williams neu efallai mai cywirach fyddai dweud mai heddychwyr oedd Waldo Williams, heddychwyr a gwrthwynebydd cydwybodol a ysgrifennai farddoniaeth er mwyn mynegi ei ddaliadau ac er mwyn hyrwyddo'i achos.*'

Ni allai lai. Y wyrth yw mai barddoniaeth oedd.

Soniodd am Waldo'n gohirio cyhoeddi'i waith oherwydd beirniadaeth Gandhi ar Rabindranath Tagore y bardd o Fengal: '*Yr wyt yn rhoi inni eiriau yn lle gweithredoedd.*' Ac meddai Alan, '*Gwrthododd Waldo Williams gasglu ei waith ynghyd nes y byddai gair a gweithred yn un yn ei fywyd.*' Dychrynwyd Waldo gan gyhuddiad Gandhi.

Mae'r gair 'heddwch' i Waldo yn gyfoethog ddirgel a dieithr. Mae'n fwy nag 'achos'. Mae'n ymestyn ymhellach o lawer na 'diffyg rhyfel', ymhellach na thangnefedd ysbryd personol. Mae a wnelo â phresenoldeb ei ymateb ef a phobl eraill, o ymwybod â daioni a llawenydd Duw, o berthynas. Fe'i ceisiai'n daer yn ei awdl 'Tŷ Ddewi', sy'n gorffen â'r pedair llinell lle y mae'n sylweddoli na chaiff ganu'r gân yn llawn ar y ddaear:

*Trwy'r grug lliw gwin troi o'r graig lle gweinwyd
I mi'r heddwch a ddaliai fy mreuddwyd,
A rhiniol ras y garn lwyd oedd gennyf,
A'i gwên, a chennyf y gân ni chanwyd.*

Sylweddolai'n burion mai rhodd oedd yr heddwch hwn. I'r sawl sy'n ceisio ac yn curo ac yn mynnu o ddifri, ymetyb Crist:

*Ond goleuni Crist a ddug
Rhyddid i bob dydd a'u clyw.*

Yr oedd gan R.S. fel gan Waldo, y naill a'r llall, – fel y gwyddom – ddyrnaid bach o ganeuon er cof am eu gwragedd. Gellid ymdeimlo yn y rhai tlws a geir gan R.S., – ac yn gywir felly – â chyfle a gollwyd, ag ymddygiad euog, ac â negyddiaeth. Cerddi hydeiml hiraethus sy'n cymryd eu lle gyda dyrnaid o ganeuon cadarnhaol eraill gan y bardd arferol chwerw hwnnw am hyfrydwch bywyd sy'n wrthddywediad allweddol. Tlws

a chywir oedd rhai Waldo hefyd. Ond dichon fod yna led awgrym a deimlaf i – ac efallai neb arall – o chwithigrwydd personol. Mewn un o'r cerddi a ganodd i'w wraig, y mae'r dechrau yn gwneud dewis arwyddocaol, a hynny mewn cyfeiriad a wna at un o dri bardd Saesneg y gallai ef ei uniaethu'i hun â hwy, sef Keats, Cowper, a Hardy (a lanwyd hyd at ei wddf mewn euogrwydd am ei wraig). Yn y gerdd nodedig hon a ganodd Waldo er cof am Linda, mae'n ei uniaethu'i hun â beirdd Saesneg; ond mae'n *dechrau* drwy gyfeirio at brofiad Hardy. Yn drawiadol felly. Teimlai Hardy euogrwydd aruthr ar ôl colli'i wraig. A blodeuodd edifeirwch yn ffrwydrol o gariad a hiraeth. Awgrymais dro y gallai hefyd fod Linda'n feichiog yr un adeg ag y diagnoswyd y darfodedigaeth arni, a bod gennyf gof am sgwrs gyda Waldo (y mae gennyf dyst arall i hyn) pryd y soniodd am daith mewn trê'n o Bwllheli tua'r De, yn union ar ôl colli Linda, pryd y bu yng nghwmni dau genedlaetholwr enwog na wnaent yr holl ffordd namyn clebran am eu babanod newydd. Bu'r daith honno'n ddirdynnol iddo. Tybed a oedd yna elfen o euogrwydd di-sail a chymhleth yn y golled a brofodd Waldo felly? Nid oes gennyf ond y ddau bwynt hyn i'm cefnogi.

Ac eto – gras yn wir fu Linda i Waldo. Ac mae ganddi hithau ei lle yn y gobaith trist hwn. Mae hi'n gymeriad canolog ym marddoniaeth Waldo. Ffitiodd ei marwoldeb i mewn i'w gywair gorfoleddus mwyaf cadarnhaol. Fe'i clywir yng ngerdd y 'Tri Bardd':

*A'th adar cerdd (sef y beirdd Saesneg) a dail y coed
Yn canu o gylch fy Linda lon.*

ac yn *sŵn traed fy eurferch* ('Oherwydd Ein Dyfod')
ond *mae gwiwer gwynfyd
Heno yn gwneud ei gwâl yn eu bodolaeth.*

Yr oedd hiraeth am Linda'n dod â llawenydd i ymgymysgu â galar garw. Dioddefai Waldo o byliau o iselder. I w'r mor hydeiml, ac mor eithafol groendenau o ddrwg dieflig y syniad a'r diriaethad o ryfel, yr oedd rheoleidd-dra rhyfelgar Prydeindod yn alar byw iddo, dro ar ôl tro. Dô'i rhyfel yn gynrychiolad o eithafrwydd yr ysbryd drwg ym mhob gwedd. A chredaf i mai'r sawl sy'n profi dyfnder y tristwch hwn yw'r un a all brofi orau hefyd obaith mewn ffurf lachar pan oleuir ef gan ei ffydd. Nid pawb sy'n heddychw'r a all brofi gobaith afieithus a diniwed Waldo, na phawb chwaith ddüwch ei adnabyddiaeth o'r drwg. Chwerwder R.S. a roes iddo yntau eithafiaeth ei felyster.

Wrth drafod y cyfuniad o'r golau a'r tywyll yng ngwaith Waldo, bydd gofyn inni oedi'n arbennig gyda phedair cerdd sydd yn ymwneud mewn rhyw ffordd neu'i gilydd â'i

wreiddiau ef yn Genesis. *Y Pedair Cerdd: Cyrraedd yn Ôl, O Bridd, Die Bibelforscher, Plentyn y Ddaear.* Hynny yw, dyma gychwynfan i lawer o fyfyrdd Waldo ynghylch anian yr ymyrraeth â'i obeithlonrwydd hiraethlon. Cawn gyfle i ymhelaethu ar y pedair. Wynebu'r grŵp rhyfedd hwn yw wynebu problem fawr Waldo; oherwydd ei hateb hi hefyd wna yr un pryd â'i hwynebu. I feirniad llenyddol o fardd, mynnir gonestrwydd – nwydd prin yn y dyddiau Ôl-Gristnogol hyn. Bwriedir blaenoleuo'r pedair cerdd hyn wrth olrhain thema annisgwyl – gobaith+anobaith. Ynddynt, dadlennir adnabyddiaeth o'r ddaear yn fan i gyfarfyddiad da rhwng y ddau fardd R.S. a Waldo.

Yr wyf am geisio gosod gorfoledd sylfaenol Waldo o fewn cyd-destun y Cwmp realistig sy'n ei ddyrchafu uwchlaw lefel y rhyddfrydwyr dyneiddiol. Seiliwyd tair o'r cerddi hyn ar Genesis 3-4, sef penodau'r Cwmp a'r Lladd (gwreiddyn rhyfel). Gwiw eu cymryd gyda'i gilydd cyn belled ag sy'n bosibl. Cryfheir 'O Bridd' gan gyd-destun 'Cyrraedd yn Ôl'. A thrafodir y ddwy hyn yn fanylach ymhellach ymlaen. Ond y mae'n nodedig mai dyma'r tro cyntaf y digwydd y gair 'pridd' yn y Beibl: Genesis 3:19. '*Trwy chwys dy wyneb y bwytei fara, hyd pan ddychwelech i'r ddaear, oblegid ohoni y'th gymerwyd: canys **pridd** wyt ti ac o'r **pridd** y dychweli.*' Dyna adnod y Cwmp a adleisir yn y ddwy gerdd, 'Cyrraedd yn Ôl' ac 'O Bridd'. Fe'i dilynir gan bennod lladdedigaeth Abel gan Gain, a hedyn rhyfela (4:10). '*Y mae llef gwaed dy frawd yn gweiddi arnaf i o'r **ddaear** (4:13): 'melltigedig fyddi gan y **pridd** a agorodd ei safn.*' Cwmp i'r ddaear hithau ydoedd yn ogystal ag i ddyn – 'Felly y **pridd** a felltithiodd yr Arglwydd.' Yn wir, uniaethir dyn â'r pridd yn y cerddi hyn.

Sonia Waldo eto am y felltith:

*Mae dy flodau coch yn frech,
Mae dy flodau melyn yn grawn.*

Ond hyd yn oed mewn cerdd fel 'Daw'r Wennol yn Ôl i'w Nyth' 1939 a 'Cyrraedd yn Ôl' Ebrill 1941, cerddi trothwy a dechrau'r rhyfel, ceir yr ymadrodd allweddol '*yn ôl*'. Daw hynny'n ôl eto yn 'Cyfeillach' – 'O! Faddeuant, dwg ni *yn ôl*', ac yn 'Adnabod' – 'Tyrd *yn ôl*', hen gyfannwr. Erys y duedd adferol hon hyd yn oed ym mygythiad y tywyllwch: 'Awen hen a ddeuai'n *ôl*' (Y Tŵr a'r Graig), ac yn 'Daffodil' wrth gwrs, 'Arolwg, dwg *ar dy ôl* /Do mawr yr ardd dymhorol.' Yn ôl oedd o felltith Cain.

Mae yna drydedd gerdd lle y ceir cyfeiriad arall at *Genesis* 3, sef *Die Bibelforscher*. Nid thema fechan felly yw hyn gan Waldo, ond un o'i brif themâu. Yn y gerdd hon defnyddir y gair 'daear' yn lle neu gyda 'phridd', fel y gwna *Genesis* ei hun yn y Gymraeg ar dro (e.e. W.M. *Genesis* 2:7). Ac unwaith eto, cyfeirir at y Cwmp a Barn:

*'Pwy fedr ddarllen y ddaear? Ond cawsom neges
Gan Frenin i'w dwyn mewn dirfawr chwys,
Ni waeth ai ymhell ai'n agos
Y seinio'r utgorn rhag Ei lys...*

*Pwy fedr ddarllen y ddaear? Hyn a wyddom,
Tarth yw'r llu lle geilw'r llais.
Mae wybren lle'r â'n ddiddym
Rym yr ymhonwyr, trwst eu trais.
Lle cyfyd cân yr Oen
A gogoniant yr apocalups o'r poen.'*

Methaf i â darllen y pennill hwn, heb uniaethu'r 'llais', a'r 'wybren lle'r â'n ddiddym Rym yr ymhonwyr, trwst eu trais' wrth yr 'Oen' a ddaw â'r 'apocalups o'r poen' yn *Genesis* 3:15. Dyma'n draddodiadol y cyfeiriad cyntaf yn y Beibl at weithred achubol Oen Duw.

Fe sylwn ar y gair 'daear' yn y pennill cyntaf a'r olaf (ac yn y canol hefyd o ran hynny). Mae yna amryw eiriau, mewn themâu megis 'tŷ' a 'pridd', sy'n plethu drwy gerddi Waldo. A charwn grybwyll pedwaredd gerdd sy'n perthyn, mewn estyniad i'r tair hyn. Ond estyniad yw nid i'r Cwmp, ond i'r gair 'pridd', sef 'Plentyn y Ddaear', 1939. Yn y fan hon, cyferbynna'r 'ddaear' ag un arall o eiriau neu themâu Waldo, sef 'wybren' neu 'nef'. Ond yn y fan hon, edrych ymlaen a wna at y 'ddaear newydd' a'r 'nef newydd'.

*'Tosturi, O sêr, uwch ein pennau,
Amynedd, O bridd, dan ein traed.'*

Brwydr rhwng 'Hwy' (y rhyfelwyr a'r lluosedd) a'r bychan (aneirif o 'fi') yw pwnc y ddau bennill a'r pedair cerdd. 'Hwy' biau uffern, 'hwy' sy'n meddiannu'r 'ddaear' yn nhrwst treisio ymylon 'nef'; ond yn ofer i gyd. Tenau yw'r 'hwy' yn y fan yma ochr yn ochr â'r un bach. Ac y mae'r ddaear, yn ei doethineb cysefin, yn blodeuo lle bynnag y byddo'r plentyn.

Yn y bôn, gweithreda'r 'ddaear' a 'phridd' yn y gerdd hon fel dau begwn yn strwythur datblygiad y gerdd. 'Daear' a 'nef' greedig loyw sydd yn y llinell gyntaf. Hon

yw'r ddaear sy'n cynnwys cof y croywder cysefin, y ddaear lle yr erys yr Hollbresennol Grëwr, a'r ddaear a brofir yn ei phrydferthwch a'i threfn a'i 'doethineb', yn ddaear y mae'r *sensus divinitatis* o hyd yn gallu synhwyro'r gweddillion daionus ohoni fel daear Duw. Yma, wedi'r trais a'r gaethglud a'r haearn, erys y dystiolaeth yn y bychan. Mae hyn yn arwain at ddaear newydd (O Bridd) ac at nef newydd (O Sêr).

Nid yw'r gerdd hon, wrth gwrs, yn union yn yr un fframwaith â Thair Cerdd y Cwmp. Ond ni ellir gwadu ei pherthynas ym mhatrwm cyson Waldo, fel y cawn weld.

Yn achos 'Mewn Dau Gae' ar y llaw arall y mae Waldo'n cael ei gynhyrfu i'w dehongli'n ddiweddarach fel hyn: "I mi, prif neges y gân hon, 'Mewn Dau Gae' yn nhermau'r funud hon, yw bod y Welch Regiment yng Nghymru o hyd, a chyhyd ag y goddefwn orfodaeth filwrol, ein caethion ni ydynt." Mae ganddo awgrym ymddangosiadol 'wirion' yn y fan yna. Sôn y mae ef yn awr, hanner can mlynedd wedyn, am weledigaeth a gawsai'n 14 oed. Roedd osgo ac ystyr y weledigaeth honno ynghylch brawdoliaeth a chyd-waed dynoliaeth wedi troi'n egwyddor i deithio drwy'r oesoedd. Egwyddor gyffredinol, athronyddol foesol oedd ym mhrofiad bardd (proffwydol?); ac felly y gellid ei chymhwyso nawr at rywbeth yn gyfan gwbl allan o gyd-destun, oherwydd bod rhyfel yntau'n egwyddor drwy'r oesoedd, ac yn beth a wenwynai'i fywyd. Gŵr a feddiannwyd oedd ef – megis R.S. mewn ffordd arall.

Felly, gyda cherdd arall 'Daw'r Wennol yn ôl i'w Nyth'. Fe'i hysgrifennwyd yn ymateb i raid y Weinyddiaeth Ryfel yn ne Sir Benfro – 6000 o aceri amaethyddol, tir a ddefnyddiwyd gan ffermwyr Preseli yn ystod y gaeaf – a gipiwyd i bractisio ar gyfer ymladd. Amlen yw'r gerdd o ran ffurf: dwy linell ddechreuol yn llawen, dwy linell olaf yn llawen; ond y 28 o linellau rhyngddynt yn mynegi tristwch ffaidd: amlen daioni o gylch drygioni, a'r cyferbyniad yn cryfhau'n sylweddol ansawdd y gwrthdrawiad. Yn y cyferbyniad y ceid yr arbennig yn gyffredinol. Rhaid cofio'r ddeuoliaeth dreiddiol hon (megis gydag R.S.) wrth sylwi ar y duedd gan rywrai i symleiddio un ochr ar ei brofiad. Cymhares oedd 'Daw'r Wennol yn ôl i'w Nyth' i gywydd arall, 'Y Tŵr a'r Graig'. Y cadarnhaol sy'n trechu yn y fan yna eto.

Apocalyps

Mae 'Y Tŵr a'r Graig', ymhlith pethau eraill, yn troi o gylch cyferbyniad rhwng tud.31 'A llefair y gair o'r garn / Erys hwy na'r oes haearn'; a'r ddwy linell olaf tud. 39, 'Nerth bywyd pob tud, pob tâl / Tawel foes yr oes risial.' Mae'r clo hwn yn dyfynnu Dat. 22:1. 'Ac efe a ddangosodd i mi afon bur o ddwfr y bywyd, disglair fel grisial, yn dyfod allan o orseddfainc Duw a'r Oen.' (cf. Dat.4:6). Yn yr adnod ar ôl hon ceir y cyfeiriad at Ddail Pren. Yr oedd llyfr y Datguddiad yn bwysig i Waldo: dyma ddiben yr ysgrythur o ran ffurf. Yr oedd Waldo'n un â'i farddoniaeth yn ei sgwrsio, yn ei weithredoedd, yn ei fywyd, yn ei ofid, yn ei freuddwydion, ond yn anad dim yn ei obsesiwn ynghylch tangnefedd meddiannol. Undod oedd ef; ond nid oedd yn anghymhleth.

Yr ydym yn ymwybod â Waldo felly fel bardd apocalyptig, ffenomen dra phrin ac anffasiynol yn ein cyfnod ni.

Disgwylid 'proffwydo' yn anad dim gan fardd apocalyptig. A hynny a geir ganddo dro ar ôl tro, er enghraifft yn 'Bydd Ateb' ar ei fwyaf anuniongyrchol ac amrwd bron:

*'Cans bydd cyffroi'r cof, ogof a egyr.
Bydd cynnal nerth a bydd canlyn Arthur.
Bydd hawlio'r tŷ, bydd ail alw'r towyr,
Bydd arddel treftâd yr adeiladwyr.
A'n henfoes yn wahanfur – lle bu rhwyll
Bydd cynnull ein pwyll, bydd cynllunio pur.'*

Meddiannu'r dyfodol a wna gobaith. cf. 'Daw'r Brenin Alltud a'r brwyn yn holli!' yn ei gerdd fwyaf gweledigaethus (Mewn Dau Gae); ac wrth yr awen fe leisia ymhlith cerddi ôl-Dail Pren yn 'Cân inni Wynt –

*'Cân inni, enau'r harddwch anorchfygol.
Ti wyddost am y pethau sydd i fod.'*

ac yna 'Cywydd Mawl i D.J.'

*'Trwy ffydd, Dafydd yn dyfod,
Rhoddi'i faich lle'r oedd i fwyd ...
Daw dy obaith toreithiog
I'r llwybrau hir lle bu'r og.'*

Mae yna fynydd o broffwydoliaeth, diymatal o wyllt yn aml yn y gobaith hwn, ond un broffwydoliaeth a ddaeth yn wir: (Y Dderwen Gam)

'Yma bydd llyn, yma bydd llonydd.'

Cywair rhyfedd fu hyn yn yr ugeinfed ganrif – gormod o her i fod yn henffasiwn. Hyd yn oed yn yr ergyd deimladol fwyaf a brofodd Waldo, ei fuddugoliaeth oedd y tangnefedd a'r gobaieth a ragwelai yn y sefyllfa waethaf. Pwy a obeithia'n gall am Gymru?

Seiliwyd y gerdd 'O Bridd' ar bennod y 'Cwyp' yn Genesis, sef Genesis 3. Pwysig cofio bod dwy bennod y pridd a'r lladd cyntaf yn dilyn ei gilydd, Genesis 3-4. Mae'r tro cyntaf y digwydd y gair 'pridd' yn y Beibl yn ymwneud â'r Cwyp, ac ag uniaethu dyn â'r pridd. 'Trwy chwys dy wyneb y bwyte'i fara, hyd pan ddychwelech i'r ddaear, oblegid ohoni y'th gymerwyd: canys pridd wyt ti ac i'r pridd y dychweli.' Genesis 3:19; Adeg lladdedigaeth Abel gan Gain: 'Y mae llef gwaed dy frawd yn gweiddi arnaf i o'r ddaear.' Genesis 4:10; 'Melltigedig fyddi gan y pridd a agorodd ei safn.' Genesis 4:11; 'y pridd a felltiodd yr Arglwydd'. Genesis 5:29.

Y mae rhuddin ffydd Waldo'n ei anesmwytho yng ngŵydd y pridd hwn. *Connoisseur* mewn amheuan oedd R.S. yntau. Deintiai bob tamaid ohonynt oherwydd yr oedd pob llwybr yn arwain tuag at amheuaeth, yn wahanol ond yr un fath. Dyna'i nod o hyd. Yn hyn o beth, yr oedd yn gonfensiynol yn ei amseroedd.

*'Why, then, do I kneel still
striking my prayers on a stone
heart? (The Empty Church).*

Connoisseur mewn credoau ar y llaw arall oedd Waldo – roedd ganddo fwy o gredu nag a allai'i ddal weithiau. Yn hyn o obaith, dieithryn oedd ef ar grwydr drwy'i amseroedd.

Eingl-Gymreig (bron heb yn wybod ac yn anwybodus felly) oedd R.S. yn ei agwedd at grefydd ymneilltuol yng Nghymru. Credaf ei fod yn ei gerdd 'The Minister', yn perthyn yn bendant, os yn annisgwyl i'r un cywair yn union ar dro â Caradoc Evans, Rhys Davies, a Gwyn Thomas. Gwrthryfelai'n rhy rwydd yn erbyn y cartŵn o anghydfurfiaeth. Yn fy marn i, mae'r gair a lefarodd Pennar Davies am y ddelwedd o Brotestaniaeth Cymru ganddo, sef 'lol', a'r gair a ddwedwn i 'anwybodaeth', yn adlewyrchu'n gywir bellter R.S. oddi wrth yr hyn a ddigwyddasai i garfan ers canrif dda cyn 'The Minister'. Ac y mae ei amddiffyniad i'r gerdd – fod Protestaniaeth Cymru wedi lladd 'yr hen ddawnsfeydd, yr hen firi' – yn perthyn i'r un hen symleiddiad. Bu R.S. yn darllen gormod o Caradoc Evans, yn ôl Pennar; ac yr oedd Pennar yn llygad ei le.

Perthynai'r llenorion Eingl-Gymreig yn y blodeuad cyntaf i'r cartŵn o Brotestaniaeth a oedd mor ddychrynlyd o bell o'r ddelwedd ymarferol a geid gan

baganiaid megis Williams Parry, T.Gwynn Jones a Parry-Williams. Pan gonsurient hwy'r genhedlaeth Gymraeg o'u blaen, hyd yn oed er bod y dirywiad o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn dal yn llwydaidd, buont yn hynod o garedig, a hiraethus hyd yn oed. Mae agwedd R.S. at y Beibl hefyd, megis yn y gerdd 'A Welsh Testament', yn adlewyrchu cyndynrwydd y rhyddfrydwyr gwannaf i'w ddeall yn symlaidd wrth geisio wynebu o'r newydd ddogfen mor aruthrol bwysig, yn wyneb yr ymosod mawr ond anysogolheigaidd a fu arni gan ragdybiau ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cydweddai'n llaes hefyd â'r gwrthwynebiadau cyfarwydd i 'athrawiaethau gras', megis cadwedigaeth ac etholedigaeth.

Gwnaethpwyd R.S. (megis Waldo mewn modd gwahanol) o fewn cymysgedd go gymhleth o ffrydiau ymddangosiadol wrthddywedol weithiau, mewn cyfnod o chwalfa. A'r hyn a geisïaf yn yr ysgrifau canlynol fydd dod o hyd i themâu eglurhaol a gydadeilada'r cyfoeth o argyhoeddiadau a wnaeth y ddau fardd hyn yn lladmeryddion mawr ac ysbrydoledig i'w hoes.

[*Yn achos R.S. Thomas, defnyddiaf* Collected Poems 1945-1990]

ADOLYGU DAIL PREN

Dail Pren, Waldo Williams, 1956 (o'r gyfres 'Adolygiadau Hwyr' yn *Barddas*)

Dyw'r adolygiad yma ddim yn hwyr. Ar ryw olwg, dyma gyfrol newydd gyrraedd yn gynamserol, – newydd gyrraedd am y filfed waith. Poraf drwyddi yn gyson o'r newydd. Onid hon a'm deffrôdd y bore 'ma am y tro cyntaf? Mae'n llyfr annisgwyl sy'n llawn addewid. Mae'r dail yn mynnu fy ysgwyd fel adenydd pendramwnwgl gwyfanod wrth ruthro am damaid o dorth ar rodfa'r môr.

Dyma fydd un o feirdd mawr diwedd yr unfed ganrif ar hugain. A bydd yn dod mewn pryd 'dwi'n siŵr – ar ôl i lenorion redeg ar ôl allanolion 'cyfoesedd' yn lle ansawdd, neu ar ôl 'symleiddio' yn lle gwirionedd wedi i'r rhannau fynd ar wahân am gyfnod – dyma ef yn cyrraedd â'i anadl yn ei ddwrn. Mae'n cyrraedd fel y cyrhaeddodd Pasternac – fel afalans, fel plentyn o afalans. (Mi welsoch oll blentyn o afalans, 'dwi'n siŵr, os oes gennych wyrion). Cawsom oll ŵyr newydd yn hyn o fyd heddiw: Waldo.

Daliwch yr afalans hon. Gall bara am ganrifoedd.

Fel gyda phob plentyn, rhaid dechrau yn y dechrau.

Yn saith mlwydd oed, dechreuodd siarad yr iaith ei hun. Cafodd fodolaeth newydd:

O, ennyd fy llawenydd mawr.

Ei dröedigaeth gyntaf fel person. Cofiai hyn yn dair ar hugain oed pan ganodd y gerdd deilwng gyntaf i'w chynnwys yng nghasgliad Gregynog o'i waith:

*Pan oeddw'n blentyn seithmlwydd oed
Dy lais a dorrodd ar fy nghlyw.
Fe lamaist ataf, ysgafn-droed,
Ac wele, deuthum innau'n fyw.*

Cawsai'i dröedigaeth ieithyddol; ac fel y digwyddasai, arweiniai at dröedigaeth lenyddol gyntaf.

Cerdd a gefnogai ryfel oedd cerdd gyntaf Waldo yn y Gymraeg. Ef, y propagandydd rhyfel, fel nas gŵyr pawb, oedd y 'llenor a'r heddychwr' mwyaf yn yr ugeinfed ganrif yng Nghymru. Eithr **dechreuodd farddoni yn y Gymraeg ym 1916** gyda cherdd yn pleidio gwrthryfel Iwerddon. Cofiai ef am yr achlysur hwnnw eto ym 1956 pan sgrifennodd Drydedd Adran 'Tŷ Ddewi':

*A'i wyrdd reng drwy bridd yr âr
Yw'r ceirch yn torri carchar.*

Yr oedd ef eisoes ym 1916, blwyddyn ymagor yr awen felly, **yn ddeuddeg oed. Cafodd ei ail dröedigaeth fel bardd**, troi iaith bodolaeth newydd yn fiwsig.

Ychydig bach bach yn baradocsaidd oedd hi, efallai, mai'r hyn a esgorodd ar Waldo'r awenydd oedd edmygedd o ryfel. Plentyn oedd, wrth gwrs, meddwch. Cafodd blentyndod go estynedig wedyn. Nid help i oresgyn y cyflwr hwnnw fu ei gyfeillgarwch gydag Idwal Jones. Byddaf yn synied (a chredaf y cytunai Waldo, megis y Chwaer Bosco hithau) fod y plentyndod hwnnw wedi para'n ddiwarafun tan ddiwedd ei oes. Cowboi o blentyn oedd, efallai. Os ydych yn gyfarwydd â'r llun ohono gyda'i ddisgyblion, fe welwch yn eglur fachgen ymhlith bechgyn. Dyma enedigaeth bardd ail iaith, felly, bardd mwyaf yr ugeinfed ganrif, yn awenydd dilys. Fel Islwyn yntau, ynghynt, (sef bardd Cymraeg mwyaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg); neu fel Iolo Morganwg, (bardd seciwlar mwyaf y ddeunawfed ganrif), cafodd Waldo estronwraig o ymwelydd ar ei wefusau cyn dyfod o'r barablwraig odidog hon i'r 'tawelwch'. Profasant ill tri, mewn canrifoedd gwahanol, eithafrwydd serch ieithyddol tuag ati a manylder sylw ar yr iaith newydd honno, ynghyd â ffresni clywed a gwefr darganfod. Agorwyd eu hisymwybod i'r iaith newydd syfrdanol annisgwyl hon. Nid dyna a wnaeth Waldo'n fardd mawr er hynny, er mai rhyfel eto a oedd yn cyniwair yn hynny o ddatblygiad. Oni bai am yr Ail Ryfel Byd, ac yn fwy penodol Berdiaef, buasai efallai wedi aros gyda 'Menywod', 'Yr Hen Allt' a 'Cofio'. Parhaodd cyfnod ei *juvenilia* mewn gwirionedd nes ei fod yn **ddeuddeg ar hugain oed**. Un o anfanteision trefedigaethol Cymru yn y cyfnod hwnnw oedd diffyg datblygiad chwaeth. Plentyneiddiwch, triagl, a stiltiau oedd y tri gelyn mawr. Ni châl'r beirdd Sioraidd gerdded yn oedolion praff i'r ugeinfed ganrif. Gorfodid hwynt beunydd gan ddisgwyliaid poblogaidd ac araf Cymru, gyda pharchusion fel Eifion Wyn yn eu mysg, i aros o fewn rhychwant ôl-gynnydd. Parhaodd hyn yn achos Waldo tan 1936 nes iddo fwrw (ym Mhenyberth) *Cerddi'r Plant* o'i berfedd a gweld dechrau answyddogol yr Ail Ryfel Byd. Arweiniai at drydedd dröedigaeth Waldo. Bellach, cawn gyfarfod â Waldo'r oedolyn, yr oedolyn o blentyn. Cafodd R. W. Parry yntau, ond i lai graddau, dröedigaeth gyffelyb ynghynt i fod yn oedolyn. Mae gan yr Ail Ryfel Byd (y Ddau Ryfel Byd mewn gwirionedd) dipyn i ateb drosto'n farddonol.

Cerddi rhyfel yn awr fyddai'r rhan fwyaf o *Dail Pren*, neu'n hytrach gerddi gwrth-ryfel o wrthryfel. Ymestynnent o 1938 'Y Tŵr a'r Graig' ar achlysur yr Arglwyddi'n cynnig consgripsiwn, hyd at y gerdd 'Preseli' ym 1946. **Dyma'r drydedd dröedigaeth**, ar ryw olwg (er y cawn ddarganfod awel gyntaf, awel fwy cadarnhaol y dröedigaeth honno, dipyn ynghynt). Dyma'r *trobwynt pynciol mawr cyntaf* hefyd yn Awen Waldo. Difrifolwyd ef. Dychwelodd i gael ail olwg – ac un oedolyn – ar bwnc ei ddeuddeg oed: rhyfel. Cafwyd bellach yr ymosodiad mawr cyntaf ar ei Gydwybod. Canu'r Gydwybod fyddai'r canu nesaf ar ei hyd: canu pechod, a gweithredu. Roedd yna dyndra thematig a pharhaol yn y canu hwn. 'Daw'r Wennol yn ôl i'w Nyth' oedd y gyntaf o ganeuon gobaiith 1939 ar achlysur ymosodiad y Weinyddiaeth Ryfel ar Sir Benfro. 'Roedd hyn yn fath o estyniad ar yr Ysgol Fomio, pryd y dechreuodd yr Ail Ryfel Byd o safbwynt Cymreictod. Ond nid cenedlaethol fel y cyfryw oedd ysgogiad cymdeithasol Waldo rhwng 1916 a 1946. Tybed onid 'heddychiaeth' ddilys hefyd yn wir, dair blynedd cyn caneuon 1939, sef ym 1936, oedd adwaith amryw Gymry diwylliedig i'r Tân yn Llŷn, ac mai gwyrriad lleiafrifol oedd y pwyslais a gafwyd gan Saunders Lewis, sef y pwyslais swyddogol o genedlaethol (o niwtraliaeth) a ddaeth i lawr yn uniongredded atom yn esboniad i ni bellach? Bid a fo am hynny, 'Daffodil' oedd trydedd gân ryfel Waldo ar ôl hyn, eto ym 1939. Ond howld! Beth yw hyn? Dyma lif. '*Daw'r Wennol ... Daffodil ... Rhodia Wynt ... Ar Weun Cas' Mael ... Caniad Ehedydd ...*' Beth sy'n digwydd? Canu pa fath o ryfel yw hyn? Wele fardd y plant yn ôl y teitlau, 'does bosib, blodau ac adar y mudiad rhamantaidd, a phetalau hydeiml heddychiaeth. A hwnnw yn cyfarfod yn ysgafndroed dost â'r bomiau. Rhyfel y blodau a'r adar a'r Sioriaid ...a Hiroshima! Tewch. Ond mae yna ragor ...

O fewn y cyfnod yr *ÿm* yn sôn amdano yn awr, digwyddodd dau beth arall a ddwysaodd ac a newidiodd y canu hwn ymhellach o lawer. Yr *ÿm* yn aros o fewn y rhyfel o hyd ac o fewn cylch sylweddol ei ganu rhyfel. Ar ganol y rhyfel dychrynlyd hwnnw, dyma yn awr y digwyddiad penodol mwyaf ysigol ym mywyd personol Waldo. Dyma'i wraig yn marw ym 1943, o fewn cyd-destun dwys y rhyfel. Canodd ef bedair cerdd dyner er cof amdani: 'Linda' (Hi fu fy nyth, hi fy nef), 'Oherwydd ein Dyfod', 'Tri Bardd o Sais a Lloegr', 'Nid oes yng ngwreiddyn bod'.

Ffoes ef yn ei ing i Loegr. Yno, yn Lloegr yn awr y daeth yn genedlaetholwr Cymreig unplyg o ddifri. Difyr yw cyferbynnu Preselau y Tŵr a'r Graig ym 1938 â Phreseli 1946. Ysgrifennwyd yr olaf yn Lloegr. Yn Lloegr hefyd yr ysgrifennodd yr hyn a ystyriaf fel ei gerdd fwyaf gorffenedig, 'Wedi'r Canrifoedd Mudan'. Lloegr ei iaith gyntaf a roddodd iddo lawer o Ddail y Pren ym myd ei ail iaith. Y rhan bwysicaf efallai. 'Does dim syndod ei fod wedi llunio cân o ddiolch i'r wlad honno. Heddychiaeth sosialaidd a ysbrydolodd 'Y Tŵr a'r Graig' ym 1938. Ym 1946 Cenedlaetholdeb heddychgar a ysbrydolodd 'Preseli'. Rhyngddynt yr oedd Linda; a Lloegr ei gas-serch.

Nid sôn yr wyf felly am bedwaredd dröedigaeth 'genedlaethol' sydyn ym mywyd Waldo yn ystod 'cyfnod Lloegr', eithr am dynhau neu grisialu graddol. Aethai'i genedlgarwch dwfn yn ôl, fel y gwelsom eisoes, i'w febyd; dwysaodd yn ystod ei gyfnod fel myfyriwr (dan ddylanwad T. Gwynn Jones o bosib). Eto, dichon y gellid rhoi bys ar un digwyddiad, yn wir ar un mis a fu'n dyngedfennol yn y broses honno. Sôn yr wyf am fis Ebrill, a gwyliau'r Pasg 1945, ac am un fangre, sef 6, Bryn Bedd, Blaendulais.

Beth a gafodd Waldo yn y tŷ hwnnw?

*Yn y tŷ mae Gwlad. Daw gwllith
O'i harhosol wybr i lawr.*

Ceir adroddiad am ei gyfnod yno o ganfasio dros y Blaid yng nghwmni D. J. Williams yn anad neb (cyfeillgarwch ffrwythlon a âi'n ôl i'r 20au), D. Mardy Jones, J. Seymour Rees (cyn-sboner Kate Roberts, gw. *Kate*, Alan Llwyd, 82, 86-87, 90), a Wynne Samuel, adroddiad a geir mewn gem o ysgrif gan Robert Rhys yn *Nedd a Dulais* gol. H.T. Edwards. 'Roedd hyn flwyddyn cyn y bygythiad i Bryselau o du'r Swyddfa Ryfel, er iddynt ddechrau'i lygadu eisoes ym 1939 pryd y dechreuai'r 'wennol' edrych yn wleidyddol yn ôl i'w nyth'. Erbyn 1946 yr oedd Cymru ynddo'n un.

Ochr yn ochr â'r tyndra rhwng gobaith ac anobaith, ceid cyfuniad o Gymru a heddwch.

Ond mae yna ddigwyddiad arall o fewn datblygiad y canu rhyfel hwn. Nicolái Berdiaef. Rhan oedd o'r drydedd dröedigaeth. Dyma ŵr go boblogaidd ymhlith deallusion Cymru ar y pryd. (Mae gan Isaac Thomas erthygl arno yn *Seren Cymru*, 1941.) Cyfarfu Waldo yn ei ddarllen ag enaid tal. 'Dwi ddim yn sôn yn hollol am ddau gyfnod yng nghanu rhyfel Waldo yn awr. Ac eto, yn fras wrth drafod cyfnod mawr Waldo o 1938

ymlaen, yn gyntaf rhaid ystyried presenoldeb 'Cydwbybod', gan gynnwys euogrwydd, ynghyd â Gobaith 'Cristnogol'. Ond o 1946 ymlaen rhaid ystyried yn ogystal ddau bwnc – 'Ymwybod o Dduw' (*sensus divinitatis*) a 'Pherthynas'. Trafodir y ddau gan Galfin a Morgan Llwyd fel petaent yn un ffenomen, a hawdd y gallaf ganfod hynny. Ond tueddaf i'w cyfrif ar wahân o ran hwylustod diffiniad. 'Ymwybod o Dduw' (*sensus divinitatis*) yw'r profiad byd-eang a geir yn rhyng-grefyddol ac ar draws y milenia fod Duw yn bod, yno. Gellir ei wybod drwy gynneddf sydd ar gael gan bawb er gwaethaf pob ymgais i'w thagu. Nid yw gwybod Duw ddim yn gwneud neb yn Gristion, wrth gwrs, gan fod y Diafol yn dra ymwybodol o'i fodolaeth. 'Cydwbybod' ar y llaw arall yw'r ymwybod o fodolaeth moesoldeb, y deddfau anweledig (megis deddfau ffisegol) ond rhwng y da a'r drwg. Gwrthosodiad yr uniongrededd Cristnogol yw o ran gwraidd. Perthynas yw gwrthrych *Cydwbybod*. Tardd *Cydwbybod* yn yr Absoliwt ac yn y ffaith fod pawb yn graddio gwerthoedd, ac yn gorfod dewis ar sail gwahaniaethau 'arwyddocaol'. Yn achos Waldo 'does dim gwahaniad cronolegol cwbl glir, yn sicr, er bod yna duedd i'r *Cydwbybod* fod ar ei chryfaf a mwyaf llosg ym 1936-1946; ac ymledodd yr ymwybod o bresenoldeb Duw yn lletaf ym 1946-1956. Ond hylifol yw'r sefyllfa. Meddai ym 1956, 'Ni wna dim y tro ond inni wynebu ein heuogrwydd a'i droi'n *gydwbybod*, a *chydwybod* yn gyfrifoldeb'. Cariad yw. Symudir o ymwybod *fod* Duw i wybodaeth am Ei gymeriad.

Wedi sylfaenu'i safiad ar Fathew 5: 39, 44, safai Waldo mewn traddodiad Cristnogol cynnar o heddychiaeth a gynhwysai Ignatius, Clement o Rufain, Polycarp, Athenegoras, Clement o Alecsandria, Jwstin Merthyr, Irenaeus, Cyprian ac Origen.

Pwysleisiai Berdiaef fod y drefn mewn hanes yn unigryw, ac y mae angen i'r unigolyn ei hun fwrw iddi yn y traddodiad hwnnw er mwyn deall ei ystyr. Fe wneir hanes gan unigolion yn ddiriaethol. Dyna pam (ynghyd â Gandhi) y mynnai Waldo gysylltu'i argyhoeddiadau mewnol â gweithredu allanol, yn ogystal ag â'r canrifoedd mudan. Ac ni ellir ei ddeall ond o'r tu mewn. Ni ellir amgyffred hanes chwaith ond yn ôl telerau sy'n oruwch-hanesyddol, sef y bywyd dwyfol ei hun.

Parodd myfyrio fel hyn, am ddirfodaeth ar ddechrau'r pumdegau (yn ogystal ag ymwybod â'r feirniadaeth a gyfeiriodd Gandhi at Rabindranath Tagore fod y bardd 'yn cyflwyno geiriau yn lle gweithredoedd'), i Waldo yn gyntaf roi'r gorau i ganu, ac yn ail, brotestio yn erbyn rhyfel Corea yn ymarferol drwy wrthod talu treth incwm. Credaf mai

Gandhi a ddirwynodd Awen Waldo am y tro i derfyn o fath. Dyna faterion ymddangosiadol all-lenyddol: gweithredu ymarferol yn ymyrryd â'r Awen.

Mae'r ddwy gynneddf y cyfeiriais atynt, yr Ymwybod o Dduw a'r Gydwybod, yn ddau o'r saith neu wyth tyst mawr sydd gan Dduw iddo'i hun. Y ddau hyn ynghyd â rhyfeddod y Greadigaeth yw tystion Gras Cyffredin, hynny yw, i bawb yn ddiwahân, a heb ei neilltuo felly i Gristnogion. Y tair hyn, y cyneddfau 'cyn-Grist' fel petai, yw'r rhai a gaiff y sylw pennaf gan Waldo o 1936 ymlaen. Nid materion iachawdwriaeth yw'r rhain, ond materion datguddiad. Gwybodaeth, nid Aileni. Bydd rhaid goleddfu'r diffiniad.

Ceisio sylwi yr wyf yn awr ar rai o'r llinynnau thematig sy'n dechrau dod at ei gilydd yng ngwaith Waldo yn ystod y rhyfel. Yn wyneb y tair rhinwedd Gristnogol adnabyddus, sy'n dechrau'n orfodol mewn Ffydd – Ffydd, Gobaith a Chariad – **Waldo yw bardd y Gobaith ewyllysïol cymdeithasol**. Man cyfarfod yr ewyllys â'r dyfodol yw Gobaith, nythle pwrpas. Dyma'r unig olygfan sy'n cyfiawnhau deinameg Gwerth:

Gobaith yr yrfa faith ar y drofa fer ...

Gobaith fo'n meistr, rhoed Amser inni'n was.

Gobaith a rydd ddeinameg i Ffydd a Chariad. Dyma'r hyn a eilw'r epistol at yr Hebreaid yn 'angor yr enaid'. Brad anymarferol yw ei wadu. Ac efallai mai fel Bardd Gobaith, yn fwy nag fel Bardd Ffydd na Chariad, y ceir gogwydd pennaf cyfraniad Waldo.

Dyna o leiaf y safbwynt crwn y ceisir dadlau drosto yn yr ymdriniaeth hon.

Byddaf yn teimlo bod yna dair gwedd arall yn dod at ei gilydd drwy ddawn Waldo yn y cyfnod dwys. *Yn gyntaf*, yr hwyl neu'r dychymyg rhythmig a dychmyglon, mewn arddeliad emosiynol a bwrlwm rhyfeddol. *Yn ail*, y moes neu'r genadwri ddaionus, sef y dathliad o fuddugoliaeth gynhenid y cadarnhaol. Dyma'r thema o gariad at gyd-ddyn yn ôl ei angen, megis ysbrydoliaeth gyfrin. Mae'r profiad hwn yn ymrithio wrth gwrs mewn cyfnod doeth o sgeptig a chynyddol ôl-fodernaidd – hygoelus felly, ac felly yn fwy na serch ac yn fwy o lawer nag ymhyfrydu gregaraid. Mae dyn sy'n ymostwng i ddyn arall (yn ôl ei angen) yn rhoi i Farcsaeth ddimensiwn ysbrydol. Ac *yna'n drydydd*, yn syfrdan efallai, ar draws y cwbl, yn realistig, sylweddola fod y cyd-ddyn hwn yn drist o syrthiedig. Yn yr hyn a alwn i yn '**Gyfes Drist**' o saith o ganeuon, ymglywn â byd ffaidd o greulon, sy'n falch o drahaus, yn sylfaenol wahanol i'r Cerddi

Gobaith, ond yn gysylltiedig, ac yn troi fframwaith y Gobaith yn sylweddoliad llawnach o Foeseg Gristnogol. Hynny yw, mae Waldo er ei waethaf ei hun – y Bardd yn erbyn y Beirniad – yn nannedd awydd ei ymennydd i fod yn unplyg gadarnhaol, yn mynd ati i'w ddadansoddi'i hun yng ngoleuni'r drwg a wêl o'i gwmpas. Nid yw'n fodlon o gwbl ar yr hyn a wêl, ac nid yw chwaith yn barod i gredu'r gwaethaf hwn. Ond dyna sydd wedi dod i'r golwg ym mhrofiad Waldo er ei waethaf. Aeth ei farddoniaeth yn groes i'r graen, '*O Bridd*', '*Y Plant Marw*', '*Cân Bom*', '*Gwanwyn*', '*Diwedd Bro*', '*Yr Hwrdd*', '*Dan y Dyfroedd Claeaf*'. Eisiau canu'r cadarnhaol yr oedd. O'r braidd y gallai gredu bod y Gerdd wedi sylweddoli'r fath fyd gwrthddynol negyddol. Ni ellid osgoi'r rheini.

Ond mae'r cerddi hyn mor unigryw, mor baradocsaid a rhyfedd, ac wedi dod ag elfennau all-resymol i mewn i waith Waldo, fel y carwn sôn am arwain at gyflawniad newydd yn ein barddoniaeth. **Arweiniwyd at Dröedigaeth arall** fel petai am mai dyma'r cwlwm mwyaf unigryw a gafwyd ym marddoniaeth Gymraeg yr ugeinfed ganrif.

Yr Awen a'i harweiniai er hynny, nid y Beirniad, a down i weld arwyddocâd hynny ymhellach ymlaen. Y gwrthdrawiad o fewn Waldo. Nid ei ddelwedd ohono'i hun sy'n sgrifennu'r cerddi creulon hyn. Nid dyna'r Gerdd fel y dymunai. Gwyddom oll am arbenigrwydd cymeriad Waldo. Yn ogystal â sgrifennu barddoniaeth, 'roedd yn cael ei sgrifennu'i hun gan farddoniaeth. Mae'r plentyn syml a gloyw bellach yn oedolyn caled. Mae'r gwir yn drech hyd yn oed na'r gobaith.

Ai dyma, yn syml, bwysau Moderniaeth hyll yr amseroedd arno? Ai dyma ef, y Modernydd, yn ymgymhwyso i'w gyfnod?

Nage, byth. 'Roedd yn bur ymwybodol o'r amseroedd ers tro. 'Roedd disgwyl i'r lliaws hygoelus oll ar y pryd fod yn sgeptig, yn eironig, ac yn y blaen. Gwyddai ef megis Saunders, Gwenallt ac Euros hwythau am gymaint â hyn. Profent yng nghefn eu meddyliau ffasiynau meddwl y pŵerau mawr. Ond ar y pryd, o safbwynt Cymru gwnaent ddadansoddiad gwahanol i'r rhelyw Ewropeaidd – yn wleidyddol, yn grefyddol: yn ein termau ni heddiw, o safbwynt pwysau'r Wasg, fe'u cyfrifid hwy yn 'boliticaidd anghywir'. Ni chydymffurfient â gogwydd ôl-fodernaidd y byd Gorllewinol slafaidd negyddol chwaith. **Moli** a gaent ... Eto, ynghanol y Mawl hwnnw, gwyddent hefyd dristwch, yn ddyfnach na Lloegr, yn ddyfnach na Ffrainc. Nid nihiliaeth, nid relatifrwydd a llusaeth

boblogaidd, na sinigiaeth bêr. Ond tristwch ysbrydol ac anfaterol Iddewig, tristwch y difflaniad. Prudd-der y Caddug oedd eiddo Modernwyr Cymru, gan mwyaf.

Unigolion plethog oeddent.

'Roeddent yn hunanlywodraethol unigolyddol *vis-à-vis* bod yn drendi Saesneg. Safent ar wahân. Ond safai Waldo ychydig ar wahân eto i'r tri arall hyn mewn un ffordd awenyddol go arwyddocaol. Ymddiriedai fwy na hwy mewn dyn, ond hefyd yn hunanlywodraeth yr Awen. Ildiai'n drylwyrach na hwy i'r isymwybod. Gallai wneud rhai pethau na allai'r lleill byth ei wneud, hyd yn oed rhai pethau eithafol o syml. Dioddefai'n llawnach. Medrai wthio'i ben weithiau yng ngenau, yn wir i lawr llwnc, naïfder Iwtopaidd. Ac fe sgrifennai wrth gwrs rai caneuon daionus sobr yr wyf wedi meiddio'u galw'n gerddi 'Band of Hope'. Yr wyf am ddychwelyd at y rhain. Dyma'r rhai a drôï stumog Saunders, ac yn wir a achosai ychydig bach o embaras i minnau pan ddarllenais hwy ym 1956. Yr wyf am eu harchwilio o'r newydd yn awr yng ngoleuni arglwyddiaeth yr Awen ym mhleth profiad Waldo. Nid oes dim mwy pleruser y gall beirniad ei wneud na chwilota o'r newydd ac o bosib ddarganfod mawredd nas canfu ynghynt.

Rhwysrwyd Saunders, gredaf i (fel finnau wedyn), oherwydd atalnwyd yn ei isymwybod ynghylch emyna'n obeithiol *am ddyn*. Saunders, gyda llaw, oedd yr un a ddarganfu wir faintioli Waldo, a dechrau'i ddiffinio tua Ionawr 1950. Saunders, rhaid cofio, oedd yr unig fardd yng nghanol yr ugeinfed ganrif y gellid ei gyfosod â Waldo mewn wyth o'i gerddi: 'Mair Fadlen' yn anad yr un, 'Marwnad Syr John Edward Lloyd', 'Difiau Dyrchafael', 'Mabon', 'Haf Bach Mihangel 1941', 'Y Saer', 'Y Dewis', a 'Gweddi'r Terfyn'. Dechreuodd ddynodi natur mawrhydi Waldo hyd yn oed cyn gweled 'Mewn Dau Gae', 'Yr Eiliad', 'Geneth Ifanc', 'Oherwydd ein Dyfod', 'Tri Bardd o Sais a Lloegr', 'Nid oes yng ngwreiddyn Bod', 'O Bridd', 'Y Dderwen Gam', 'Hi fu fy nyth, hi fy nef', a 'Cwmwl Haf'. 'Roedd gan Saunders ddawn *gwahaniaethu* a chefnidir rhyngwladol *uno* i adnabod athrylith. Ac felly, cyn gweld rhai o gerddi mwyaf yr iaith Gymraeg, gallai ymateb i anghyffredinedd hollol ysgubol Waldo. Yr oedd Saunders eisoes wedi gweld 'Y Plant Marw', 'Preseli', 'Cymru a Chymraeg', ac wrth gwrs 'Wedi'r Canrifoedd Mudan': yr olaf oedd achos ei orfoledd. 'Roedd hynny'n ddigon.

Sylwai Saunders fod gwaith Waldo'n anwastad. Y beirdd cyffredin sy'n 'wastad'. Mwynhau bod yn anwastad 'roedd Waldo: 'roedd yn angerddol anwastad. Rhan o'i awen

oedd hyn. 'Roedd yr annisgwyl yn ddisgwylidig gan Waldo. Gellid o'r herwydd gyfarfod â syfrdandod ganddo. Dyna pam 'roedd yn bwysig darllen popeth o'i waith: efallai mai'r gerdd nesaf a gaech fyddai un o dair cerdd fwya'r ugeinfed ganrif.

Hoffai snwffian yn ei gyfnod cynnar o gwmpas pyrth y sentimental, mae'n wir, ac mewn cyfnod diweddarach o gwmpas materion peryglus o gadarnhaol amlwg fel 'brawdgarwch'. Ond hyd yn oed yn y maes anfrwdol hwnnw, tyfai i mewn i ddifrifwch yn nannedd pob eciwmeniaeth anghyflawn. Dim ond gŵr hwyliog o'r fath ar ganol yr ugeinfed ganrif a allai drin difrifwch yn chwyslyd o unplyg anghoeg. A'r pryd hynny, dim ond digrifddyn yn go iawn efallai, a allai godi uwchlaw ffasiwn cyfriniaeth a'r sôn am undeb ysbrydol profedig ymarferol, heb lithro i fod yn destun dychan.

Ambell waith, yn y maes gorfoeseglyd hwnnw, caniatâi'i isymwybod grymus (mewn Awen) iddo wneud pethau dewinol. Yr wyf yn sicr fod rhagfarnau Saunders wedi bod yn rhy fyrbwyll wrth gyfyngu camp 'awdurdodol' Waldo i bump o gerddi. O leiaf, mentrais innau yn *Cyfriniaeth Gymraeg* estyn y rhestr ganolog hon i dair ar ddeg. Ond yn y 'parhad' sy'n dilyn allan o'r adolygiad hwn, carwn ystyried ymhellach isymwybod creiddiol Waldo, yr Awen, drwy ail edrych ar un o'i gerddi 'astrus', cerdd a all fwrw peth goleuni ar awdurdod yr Awen yn rhai o'r caneuon moesegol syml eraill, ac a all drwy olwg o gyfeiriad yr Awen annog ystyriaeth am rai o'r cerddi anghysurus, hwythau hefyd, yn 'awdurdodol'. Ceisiaf ailystyried y pryd hynny ddyfnder y Cerddi Gobaith oherwydd eu perthynas o fewn fframwaith ysbrydol a ddatgelir gan y Cerddi Anobaith. Heb y Gobaith, ni cheid y Mawl canolog. Y Gobeithlu o gerddi a olrheiniodd y cyfeiriad cudd i'r cerddi oll.

Ond dyna ddigon o glebran enigmatig am y tro.

CWYMP

Dail Pren Waldo Williams, 1956

Heddiw, o'r diwedd, 'dwi'n teimlo'n gartrefol.

Dyma ddatl ddiwinyddol o dras hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi codi ymhlith rhengoedd beirniadol lliwgar barddoniaeth Gymraeg ddiweddar. Mae ysbryd Owen Thomas wrth law yn wâr, ac yn ôl y cofnodion y mae ef wedi'u cyflwyno inni, mae yna bum cwestiwn pwysfawr gerbron:

1. *A oedd Waldo'n credu yn y Cwmp a'r pechod gwreiddiol?*
2. *A oedd ei ddehongliad o'r Cwmp yn glasurol uniongred?*
3. *Beth oedd natur y daioni sydd mewn dyn?*
4. *A yw Waldo'n sôn am ganlyniadau'r Cwmp yn 'O Bridd', ac a oes yna Farn yma?*
5. *A yw llinell olaf y gerdd yn amwys?*

Torchwn ein llewys Piwritanaidd, ac awn i wynebu'r rhyfel cartref.

Ni chredaf y gellid gwadu nad oedd Waldo'n cydnabod daioni cychwynol, creedig, cysefin, ysbrydol dyn. Pan soniwn am *Obaith/Anobaith* ym meddwl Waldo, sôn yr ym am Obaith yn Nuw ac Anobaith mewn dyn annibynnol. 'Nid oes yng ngwreiddyn bod (sef Duw'r Creawdwr neu'r Greadigaeth gynhwysol ei hun, am wn i) un wywedigaeth.' Dyna'r Gobaith. Wedyn, sut bynnag, yn 'Cyrraedd yn Ôl', darlunnir y Cwmp yn ddi-os. Dyma yn wir y darlun llawnaf o'r Cwmp mewn unrhyw gerdd Gymraeg nodedig gan unrhyw fardd mawr o'r ugeinfed ganrif. Cyfiawn oedd y gynnar lef

– *Ymaith yr ei di.*

*Lle gwnelych mwy dy dref,
Trwy chwys y bwyteï di.*

Taflwyd dyn o'r ardd, ac yn iawn felly:

Gweled ein gwir a'n gwael.

Hynny yw, drwy bechod, ac yna drwy ddawn y Gydwybod, daeth dyn i ymwybod â'r cyferbyniad rhwng y da a'r drwg mewn gradd o lawnder. Yn y fan yma y cyfleir mewn dwy ddelwedd briodolddau yr her ddynol – cwmp a phridd:

*Cychwyn y brwydro,
Myned o'n Heden hael*

a'r golled erchyll

Chwysu a chrwydro.

Chwys yr wyneb, sef y trymder a'r farn mewn llafur a bodolaeth sy'n rhan inni nes ein marw, o'r arwahanrwydd oddi wrth Dduw, sef y gosb ddaearol.

Bellach, llychwinwyd bywyd dyn. Nid oedd y drwg hwn yn greedig eisoes, wrth gwrs, ond fe'i cafwyd mewn digwyddiad canolog o arwyddocaol rhwng dyn a Duw. Bellach, rhaid i ddyn gario'r arwahanrwydd amhur, a'i had gydag ef. Drylliwyd pwrpas y greadigaeth oll.

Ym mhob rhyw ardd a wnawn

Dyn bellach sy'n ceisio gwneud gweithredoedd ei hun drwy'i ewyllys ei hun.

*Mae cwmp yn cysgu:
Dyfod rhagorach dawn,
Methu â'n dysgu.*

Nid drwy ddysgu, felly, eithr drwy ras – sef dawn – o hyd y ceir trechu. Mae'r rhagenw person cyntaf lluosog, hefyd, yn bwysig: nid 'nhw' ond 'ni' yn gyson. Mae yn ei gynnwys ei hun. Dyna un arwydd o argyhoeddiad o bechod yr amhur. Clywsoch y 'gair'. Nid y gwladwriaethau na'r awdurdodau yn unig yw'r pechaduriaid.

Cryfach ein gwir a'n gwael.

Dyna'r argyhoeddiad yn dwysáu. Bellach, gwyddys yn gryfach am y gwahaniaeth eglur hwn sydd ei angen bellach, a'i holl ymhlygion. Yn wreiddiol, yr unig wahaniaeth yr oedd angen ei wybod ym maes moeseg oedd yr un rhwng ufudd ac anufudd, sef cydymffurfio ag ewyllys Duw neu beidio. 'Gwneler dy ewyllys'. Bellach y mae ansawdd bodolaeth oll wedi'i hymhlygu'n gliriach. Gwahanwyd. Ysbrydoleiddiwyd.

*A'r cwmp yn hyllach
Diwedd pob Eden hael –
Crwydro ymhellach.*

Digwyddodd yr hen air bach 'cwmp' ddwywaith yn y pennill hwnnw. Bellach, y mae ei gysgod ar draws popeth. O edrych arni fel yna, y mae'r hyn a ddywedir yn unionged glasuroi. Yn sicr, anodd osgoi'r Cwmp sydd yma; ac yn sicr, ceir pechod yn tarddu yn y fan yma sy'n aros bob amser ar y ddaear hon. Ni all y gwrth-gwympwyr gael eu ffordd, felly, drwy warafun i Waldo feddu ar yr argyhoeddiad hwnnw.

Diddorol sylwi yn 'Cyrraedd yn Ôl' fel y mae Waldo, yn unol â'm pwyslais innau ar Waldo'r gŵr rhyfelgar (yn fysgrif ar y tröedigaethau o'r blaen), yn apelio yn awr at Fihangel, sef yr angel yn y Beibl sy'n rhyfela:

*Safed ym mwlch y berth
Filwr Mihangel.
Eirias uwch dwrn ei nerth
Cleddyf yr angel.*

Darlunnir y frwydr ysbrydol gerbron yn awr. Oherwydd y Cwyp, cafwyd cosb; ac 'roedd y gosb honno'n gyfiawn, 'roedd y farn yn ddaionus. Ni allai Waldo fod wedi taeru'n fwy uniongyrchol ei gred mewn Cwyp a'r farn arno. Mae'n aralleiriad bron.

Nid cwbl anghyffredin yn y traddodiad Cristnogol yw canfod rhyfel a heddwech yn yr un person. Oni chawn weledigaeth Eiseia o Grist yn datgan (Y Cyfieithiad Newydd): 'Cynghorwr rhyfeddol, Cawr o ryfelwr, Tad bythol, Tywysog heddychlon'.

Clywn am y Cwyp drachefn mewn manau eraill ganddo. A'r rhyfelwr.

Yn y gerdd 'Cân Bom', fel y'i cyhoeddwyd yn y fersiwn gwreiddiol yn *Y Faner*, 3/4/46, dechreuir gyda'r ddwy linell:

*Chwalwr i'r Chwalwr wyf;
Mae'r **Codwm** yn fy nghodwm.*

Y bom sy'n codymu yn y fan hon, ond mae yna rywbeth lletach ynddo: y Codwm cyffredinol. Eto, y bom sy'n llefaru, nid y bardd, y fi. Cyn belled ag y mae'r gerdd yn mynd, pobl eraill sydd yn y cwyp hwn. Diwygiwyd y testun gan Waldo erbyn cyrraedd *Dail Pren* fel yr oedd yr *C* fawr yn cael bod yn *c* fach; mae yna Feirniad ym mhob Bardd.

Soniodd hefyd yn ei gywydd 'Llwyd':

*Iach y cydi uwch **codwm***

Hynny yw, daw iachawdwriaeth i godi'r crediniwr uwchlaw'r Cwyp. 'Does dim amheuaeth, yn y dystiolaeth hyd yn hyn ganddo, mai cadarnhaol yw'r ateb i'r cwestiwn cyntaf a gofnododd ysbryd Owen Thomas. Credai yn burion mewn Cwyp.

Ond beth am yr ail gwestiwn? Nid gŵr uniongyrchol mo Waldo. Fe'i gwreiddiwyd yn deuluol ac yn gyfnodol yn rhyddfrydiaeth ddiwinyddol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cais ef ganfod manteision tybiedig y Cwyp.

*Daeth i'n hymwybod wawl
Rheswm deallus.*

*Cododd cydwybod hawl
Uwch yr ewyllys.*

Hynny yw, ymddengys fod Waldo'n dal yn y fan hon na chrewyd dyn yn wreiddiol yn greadur rhesymol a deallus mewn perthynas lawn a bywiol â Duw – er ei fod yn ôl y datguddiad dwyfol anniwygiedig yn medru siarad iaith cyn y Cwyp a 'gwahuno' wrth drafod y greadigaeth. Gallai ddadansoddi y ddaear i'w synnwyr ei hun. Dyma natur dyn cyn y geni. Ymddengys fod ganddo gyd-wybod mewn cyd-deimlad â Duw, ynghyd ag ewyllys rhydd a allai wahaniaethu rhwng ufudd-dod ac anufudd-dod gyfanswm ei foisoldeb ar y pryd. Ond rywfodd, yn ôl Waldo a'r traddodiad rhyddfrydol ymhlith rhywrai, adeg y Cwyp cafodd – ynghyd â marwolaeth – fudd rheswm. 'Roedd hyn yn gaffaeliad unol ag optimistiaeth cynnydd rhyddfrydiaeth ddiwinyddol a gwleidyddol oes Fictoria, ac fel petai yn ateb ail gwestiwn ysbryd Owen Thomas. (I mi, ni ellir gwadu Rheswm cyn y Cwyp, oherwydd presenoldeb gramadeg.)

Hynny yw, nid arddelai ei gred yn y pechod gwreiddiol yn yr ystyr glasurol. Credai i'r cwyp esgor ar reswm a chydwybod. A chwyp rhamantaidd oedd, i raddau.

Mae'r gair a'r cysyniad 'Cydwybod' yn y cyd-destun Cristnogol yn bwysig yn hanesyddol. Mae'n ganolog bwysig i Waldo. Mae gan Forgan Llwyd gyfrol gyfan amdani. Sonia ef amdani, fel y gwna Calfin, yn nhermau *sensus divinitatis* (synnwyr o Dduw), sef yr ymwybod o Dduw a blannwyd mewn dyn sy'n peri ei fod, wyneb yn wyneb â'r greadigaeth allanol a'r profiad mewnol, yn gallu bod yn arwyddocaol 'wybodus' ynghylch bodolaeth Duw a'i berthynas fywydol briodol ag ef. Cyd-wybod yw hyn.

Nid Cristnogaeth lawn yw, bid siŵr; dim ond gwybodaeth neu synnwyr yw. Gwedd yw ar y plethwaith Cristnogol hwnnw sydd yn ei lawnder syml yn gwneud 'credo'.

Ond cais Waldo gysylltu'r Cwyp â mwy na dyfodiad llygredd a marwolaeth i'r byd ac iddo ef. Fe'i cysyllta â dyfodiad rhai rhinweddau. Mae hynyna'n haeddu trafodaeth bellach, er nad yma. Nid wyf am gael fy llygatynnu rhag sôn am yr ymwybod hwnnw yng ngherddi Waldo o lygredd treiddiol cyson dynoliaeth ac o gwyp oddi wrth gymdeithas lawn â Duw. *Presenoldeb* moel hynyna sydd o ddiddordeb i mi yn yr achos hwn. A hynny i mi (ac nid anuniongrededd cydnabyddedig Waldo) yw'r peth syn.

Er i Waldo sôn am fanteision tybiedig, ac er i'r rhain esgor ar yr hyn a elwais yn 'Gerddi Band of Hope', ni wada'r anfanteision – balchder, rhyfel, casineb, hunanoldeb, marwolaeth, ac yn y blaen. Ni chofiaf Waldo'n defnyddio'r gair 'pechod' amdanynt yn ei farddoniaeth. Os syniaf yn gywir, gair gwaharddedig oedd hwnnw yn y cyfnod rhamantaidd (fel y daeth 'eirlysiau' yn waharddedig i fodernwyr – ond nid i Waldo). Gwell o lawer oedd 'llwgr', 'gwenwyn', 'sarffaid', ac yn y blaen. Sut bynnag, yn y ffydd ddiwygiedig, a chatholig hefyd (dybiwn i), cyfrifir tri mater yn arwyddocaol wrth ystyried presenoldeb daioni mewn dyn, sef yn gyntaf hollbresenoldeb Duw yn y greadigaeth, yn ail y ffaith bod llun a delw Duw ar ddyn, ac yn drydydd y ffaith bod gras cyffredinol (sy'n cynnwys gras ataliol) yn gweithredu ymhlith dynion yn ddiwahân. Nid ffrwyth anufudd-dod dyn mo'r rheina, wrth gwrs. Gwrthrychol oeddent, nid goddrychol. Rhaid eu cofio er hynny wrth sôn am benbleth Waldo pan wynebai'r trydydd cwestiwn a gofnodwyd gan ysbryd Owen Thomas.

Bid a fo am hynny, hyd yn hyn yn y drafodaeth ar y wedd hon ar waith Waldo – y cwmp – yr wyf wedi mynnu crybwyll un gerdd arbennig sydd, yn anad yr un, wedi cynhyrfu'r ddadl ymhlith carwyr ei waith ers tro bellach. Sef 'O Bridd'. Teimlwn wrth ddarllen iaith y gerdd honno, ac ymgyhyru ychydig o fewn ei rhythmau, ein bod mewn cwmni rhyfedd. Mae'r bardd yn ei hagor drwy fynnu sôn am y wedd anweledig ar y pridd:

*Hir iawn, O Bridd, buost drech
Na'm llygaid; daeth diwedd hir iawn.*

Sgrifenna ef mewn ymadroddion syml felly gydol y gerdd. Ond mae gosodiadau'r gerdd yn ddieithr. Llinellau byrion sydd yma. Mae pobl seml yn hoffi llinellau byrion a geiriau byrion. Ond trwm yw'r ystyron gan Waldo. Cerdd ydyw sy'n haeddu myfyrdod araf a hir. Ac yn ystod y blynyddoedd diweddar cafodd lawer iawn o sylw gofalus a dwys; a diau mai yng nghyfrol Alan Llwyd, *Rhyfel a Gwrthryfel*, y ceir y drafodaeth fwyaf pwylllog arni. Yn fwy na neb o'i flaen, mae'r gyfrol honno gan Alan wedi ymaflyd yng nghanol y pwnc, sef y 'pridd' ei hun. Tâl i minnau, mewn parhad pellach i'r adolygiad hwn, geiso palu twll bach arall ynddi, gan obeithio na byddaf yn tynnu ochrau'r twll am fy mhen wrth balfalu dan yr wyneb.

O BRIDD

Pe medrai helygen farddoni, fel hyn y'i gwnâi. Ond byddai'r sibrwd gan yr helygen ychydig yn llai cynnil efallai, a'r distawrwydd yn llai helpfawr, eithr y purdeb ar y dail yr un ffunud.

Rhyfedd meddwl am *Dail Pren* Waldo, o bawb, yn destun dadl, er nad rhyfedd yw synied amdano fel bardd paradocsaid. Eto, aeth ei waith yn bur ddadleugar. 'Cofio' yn erbyn 'Cwmwl Haf'; y cerddi plant yn erbyn y cerddi 'tywyll'. Buwyd yn ymdroi uchod gyda dadl ysbrydol a godasai yn ei gylch. Trafodwyd yn benodol ei gred yng Nghwmp dyn. A defnyddiwyd un gerdd yn arbennig i archwilio'i safbwynt, sef 'Cyrraedd yn Ôl'. Cwbl ddiamwys oedd y gerdd honno ynghylch bodolaeth y Cwmp. Ond nid y gerdd honno yw'r un a gododd y ddadl hon ymhlith beirniaid, eithr – 'O Bridd'. Cafwyd cryn anghytundeb ynglŷn â manylion yn honno. Awgrymwyd yn feiddgar, yn gam neu'n gymwys, mai'r rheswm am yr anghydfod oedd bod y gerdd honno ychydig yn amwys. Anghytunodd Waldo'i hun am yr awgrym hwnnw. Ac y mae'r fath amrywiaeth barn yn codi mater a gafodd gryn sylw ym maes beirniadaeth lenyddol byth er 1946. Dyna'r pryd y ceisiodd E.D. Hirsch, yn ei gyfrol *Validity in Interpretation*, ddatroi hunanlywodraeth y gwaith llenyddol, hynny yw, ei ryddid oddi wrth yr awdur.

Beth yw hawl awdur wrth ddehongli cerdd? Ai darllen cerdd a wnawn, ynteu chwilio am y gerdd y byddai'r awdur wedi hoffi'i sgrifennu? Cefais gyfle o'r blaen i drafod y mater hwnnw wrth ymdrin â dehongliad Euros o'i gerdd 'Surrealiaeth'. Mynnai Ôl-fodernwyr yn y ganrif ddiwethaf fod yr awdur wedi hen ddiflannu. 'Roedd gan y gerdd (wedi'i gorffen) ei bodolaeth, ei bywyd, ei hannibyniaeth ei hun. Hi sy'n ateb drosti'i hun. O safbwynt gwerthfawrogiad, nid yr awdur, yn awdur-dodol sydd dan ystyriaeth mwyach, ond y greadigaeth ei hun a all fynd yn groes iddo ef weithiau – fel y bydd rhai nofelwyr yn methu â rheoli trywydd eu cymeriadau oherwydd i'r rheini feddiannu bywyd personol iddynt eu hunain. Gellir cân hardd gan awdur hyll.

Bydd rhai darllenwyr yn tybied bod anghytundeb yn neongliadau beirniaid yn dwyn anfri naill ai ar feirniaid neu ar feirniadaeth. Cywilydd yw'r ffaith seml fod beirniaid yn gwahaniaethu ynghylch eu dyfarniad: 'rhaid bod anghytundeb rhyngddynt yn adlewyrchu anwybodaeth neu dwpdra – neu amhosibilrwydd beirniadaeth ddibynnol'.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn enwog euog o'r fath warth. Hi yw prifddinas annealltwriaeth feirniadol.

Gadewch imi osod y peth yn fwy amrwd eithafol ac yn fwy crisial oherwydd y mae'r sefyllfa'n fwy difrifol a chyrhaedgar na hynny. Yn wir, mae'r anghytundeb yn gwbl anochel. Y ffaith wryfol yw – nid yn unig fod dau feirniad bob amser yn wahanol yn eu dehongliad o un gerdd, ond y mae'r un beirniad (a'r bardd ei hun) ar ddau ddiwrnod gwahanol hefyd yn *gorfod* bod ryw faint yn wahanol. Ceir o'r herwydd wahaniaeth o fath rhwng dehongliad y bardd a dehongliad y darlennydd bob amser. Ac os yw hynny'n ymddangos yn warthus, a gaf osod y ffeithiau'n fwy eglur?

Pobl ym ni, ysywaeth. Wrth drafod iaith, cyn hyn, yr wyf wedi crybwyll y ffaith ei bod yn hollol amhosibl i'r un person ynganu ac ailadrodd yr un frawddeg fel yr un yr wyf yn ei sgrifennu y funud hon ddwywaith yr un fath yn union – gyda'r un hyd i'r holl lafariaid na'r un pwys i'r holl gytseiniaid. Na'r un acennu. Sôn yr wyf am fesur brawddeg o'r fath â'r peiriannau meinaf sy'n recordio seiniau o'r fath. Dyna frawddeg nas cafwyd erioed o'r blaen ac na cheir ei thebyg yr un ffunud byth eto. Brawddeg unigryw yw, ac y mae pob darlenniad ohoni yn unigryw wahanol. Hon ydyw'r afon, ond nid hwn yw'r dŵr. Yr ydym yn gwahaniaethu i'n gilydd ac i ni'n hun wrth ddeall yn amrywiol hefyd.

Bu Ôl-foderniaeth – ac yn arbennig un o'i hysgolion lleiaf anghall, sef 'reader-response theory' – yn trafod y ffaith gyda rhyfeddod llygaid gloyw – fod yna luosedd 'relatif', medden nhw, ac anghysondeb cyson mewn deongliadaeth. Gwnaent fôr a mynydd o'r ffaith. Rhan yw hyn o ddogma chwalfa. Rhan hefyd o unochredd Ôl-foderniaeth. Ond ni raid bodloni ar y fath esboniad di-esboniad heb ei esbonio. Drwy gyfosod Tafod a Mynegiant gallwyd cynnig ateb pam y mae'n *rhaid* iddi fod felly. Dangoswyd pam a phle hefyd y mae'n rhaid cael, ochr-yn-ochr â'r anghysondeb a'r anghytundeb ffrwydrol weithiau mewn Mynegiant, yr elfen wrthwyneb o 'gysondeb', 'sefydlogrwydd', a 'chydlyniad' mewn Tafod. Gwahaniaeth ynghyd ag Undod yw.

Down at yr Undod ymhellach ymlaen. Ar hyn o bryd, y Gwahaniaeth.

Dengys y cyferbyniad Tafod/Mynegiant *pam* y mae'r sefyllfa a ddisgrifir gan 'Reader-Response theory' yn bodoli fel y mae, a *pham* hefyd y mae'n llawnach nag a ddywed. Dengys pa elfennau sydd i fod yn gymharol gytûn mewn beirniadaeth, sef Tafod, a pha elfennau sydd i fod yn anghytûn, sef Mynegiant. Ac esbonia adeiladwaith y

cwbl. A dim ond drwy Feirniadaeth Gyfansawdd o ryw fath y mae modd amlygu'r cyflawnder sydd i'r sefyllfa. Pe dilynem i'r pen osgo Ôl-foderniaeth yn ei llusedd a'i relativrwydd eithafol, ni allai dau berson byth ymwneud â'i gilydd. Sylfaenol annigonol yw gogwydd Ôl-foderniaeth tuag at un ochr. Ond oherwydd 'doethineb' Tafod, er bod ffrwythlondeb Mynegiant yn gyd-angenrheidiol, ceir yn gyfochrog un a'r llawer, rhan a'r cyfan, gwahanu a'r uno. Fe geir 'gwahuniaeth' yn amllder deongliadau Mynegiant.

Cyn ymadael â'r ddadl honno, gadewch imi, er tegwch, dynnu sylw at un garfan werthfawr a doeth ymhlith theorïwyr 'reader-response theory' – yr arloeswyr eu hunain yn wir, yn enwedig yng ngwlad Pwyl ac yn yr Almaen – lle y derbynnid y term 'theori derbyniad' ar gyfer y safbwynt. Yno cafwyd pobl fel Roman Ingarden, ac yn arbennig Wolfgang Iser, gyda chefnidir mewn seicoleg *gestalt* (yr ymwybod o gyfannu) a lwyddodd i raddau helaeth i gyfuno rhan a chyfan, un a llawer. Oherwydd eu methiant i gyfuno *gestalt* a Thafod, sut bynnag, nid aethant yn ddigon pell, ac arhosodd eu dilynwyr yn rhy gyndyn gyda'r agored, gan esgeuluso'r 'caeedig'. Bid a fo am hynny, yn yr adwaith yn erbyn Ôl-foderniaeth orsyml o relativ, priodol moesyngrymu i gyfeiriad 'perthynas *gestalt* ac amllder' ynghyd yn theori ymateb.

Gyda'r atgof hwnnw'n seinio yn y clustiau, mae'n bryd imi droi ar yr anghytundeb diddorol yn nehongliad 'O Bridd': at ddehongliad Waldo'i hun, Alan Llwyd, Ned Thomas ac eraill. Dichon y cawn weld nid yn unig fod yna rywbeth i'w ddweud o blaid y naill ochr neu'r llall, ond o blaid y 'ddwy' ochr gyda'i gilydd.

Gadewch inni gytuno yn ddamcaniaethol, yn gyntaf, na fyddai Waldo'r Beirniad ddim yn *dymuno* credu bod yna Gwypm o gwbl. Cafodd ei fagu mewn cyfnod pryd yr oedd y Sefydliad crefyddol yn arwynebol lacio gafael ar rai o'r credoau clasurol hanesyddol, ar Athrawiaethau'r Cwypm ac Uffern, yr Iawn ar y Groes, y Cenhedlu Gwyrthiol a'r Atgyfodiad corfforol, yr Ysgrythurau anffaeledig a'r Drindod Sanctaidd. Bant â hi, a bant â'r eglwysi. Gwnaed pob math o driciau caswistig yn enw ysgolheictod. Adeiladwyd rhagdybiau gwrth-oruwchnaturiol yn ddogma. Ac ymatebwyd drwy'i heglu hi. Ymhlith yr enwadau, Crynwyr oedd un – a oedd eisoes yn oddrychol braidd ac felly'n ddyn-ganolog – wedi symud gyda'r lleill, yn wir ynghynt na'r lleill, tuag at Ddyneiddiaeth naturiolaid. Yn fras, ond yn fwy cymhleth na'r rhelyw, yr oedd Waldo'r Beirniad yn arddel, ac yn dymuno arddel, y safbwynt hwnnw hefyd. Dyna'i gefndir.

Nid wyf, sut bynnag, yn ystyried bod y ddadl rhyngof a'r bardd yn ymwneud â 'diwinyddiaeth', ond â bodolaeth neu beidio amwysedd tybiedig llinell olaf y gerdd. Gwir bod a wnelo hynny â natur y daioni sydd mewn dyn, ac â pherthynas pechod â'r greadigaeth syrthiedig (y pridd). Ond nid y cynnwys penodol sydd dan sylw, eithr y gwaith o ddehongli ystyr. Y cwestiwn sy'n codi mewn llythyr gan Waldo at Anna Wyn Jones yw nid a yw'r bardd yn anobeithio'n llwyr am ddyn. O'r braidd bod yna'r un Cristion a wna hynny'n sefydlog. Ond a yw'r *llinell* yn cyfleu'r llygredd mewn dyn yn benodol, ynteu ai rhoi'r bai a wna ar y 'pridd', ar y drefn, neu arnynt 'hwy', y bobl mewn awdurdod? Ymddengys i mi nad yn erbyn y corff dynol yn syml ym mryd Waldo y mae'r frwydr, ond yn erbyn yr ysbrydoedd tywyll sy'n ei reoli ac yn llywodraethu'r gwledydd:

*Yng nghladd Tre Cŵn gwasanaetha gwŷr
Y gallu gau.*

Gwnaethpwyd dyn yn wreiddiol o bridd y ddaear – taw sut yr edrychwn arno; boed ffordd y naturiolwr, neu ffordd y goruwchnaturiolwr. Yn y gerdd hon, y mae natur y drwg o dan y microsgop, y gallu gau. Y mae'r pridd yn agor ei enau brwnt, 'safn y ddaear', ac yn cyfarch y llofrudd ('Cain' yn ôl argyhoeddiad Alan Llwyd). 'Ho Frawd': yr un sy'n berthynas i bob lleiddiad. Drachefn, sonnir am 'Ein mam'; onid y fam ddaear? Mae hi'n gweiddi, 'Ho dras'. Perthyn a wnawn i'n gilydd yn y pridd, ym mryd y gerdd. 'Roedd y Cwmp yn gosmig. Dyma'r 'drefn' bellach. Mae'r holl ddaear yn ochneidio.

Yn ail ran 'O Bridd' creir math o fyth yn y tu hwnt i Kerguelen. Dyma'r lle y daw'r bardd apocalyptig i'r golwg. Cyflwyna ynys ddirgel. Ymyla ar yr Iwtopaidd, os dyna yw'r di-foes heb dda na drwg:

Yno yn disgwyl mae Duw.

Gobaith, meddai Pennar a Jâms Nicholas am 'Dduw'. Nid anghytunaf. Dyna'r rhinwedd y mae Waldo am ei thanlinellu, hynny a heddwch. Yn llawnach, meddai Jâms: 'Dyma un olwg ar y Brenin Alltud. Os yw dyn, o'i fodd ei hun, wedi cefnu ar gynefin y baradwys goll [h.y. wedi cwmpo] ... eto y mae Duw yn bresennol yn y byd ac yn aros a disgwyl ei awr'. Gobaith a Chyfiawnder, Cariad a Barn ynghyd, dyma'r Creawdwr. Credaf fod yr ail Eden a ragwêl Waldo yn 'ddychweliad' i'r Eden gyntaf am ei bod yn adfer y daioni, heb yr un posibilrwydd o gwmpo mwyach. Nid anghytunaf eto.

Ceir dwy ran i'r gerdd: y Felltith a'r Fendith. Mae'r naill ran a'r llall yn dweud rhywbeth yn syfrdanol am Waldo ei hun, ac mae'n well i mi ddyfynnu'r ddwy ran yn eu tro. Dyma'r rhan gyntaf, y Felltith:

*Hir iawn, O Bridd, buost drech
Na'm llygaid; daeth diwedd hir iawn,
Mae dy flodau coch yn frech,
Mae dy flodau melyn yn grawn.
Ni cherddaf. Nid oes tu hwnt,
Cerddodd dy dwymyn i'm gwaed,
Mi welais y genau brwnt
Yn agor a dweud, Ho Frawd,
Fy mrawd yn y pydew gwaed
Yn sugno'r wich trwy'r war,
Fy mrawd uwch heglau di-draed,
Bol gwenwyn rhwyd y cor.
A phwy yw hon sy'n lladd
Eu hadar yn nwf'n y gwrych,
Yn taflu i'r baw'r pluf blwydd,
I'w gwatwar ag amdo gwych?
Ein mam, sy'n ein gwthio'n ein cefn,
Yn mingamu arnom trwy'r ffenestr,
Yn gweiddi, Ho dras, I'r drefn,
A chrechwenu uwchben y dinistr.*

Mae yna rywbeth yn bod ar y ddaear felltgedig hon. Cyfyd holl ragdybiau'r 'radicaliaid' yn erbyn hanfod a bodolaeth y Cwmp. Yn y traddodiadol 'radicalaidd' confensiynol, rhywbeth a ddigwyddai i bobl eraill oedd y Cwmp os o gwbl. Yn arbennig i gyfalafwyr a rhyfelwyr, y bobl mewn awdurdod, y 'nhw', dyna'r rhai a oedd yn gyfrifolwyr Cwmp. Protestiwn yn eu herbyn nhw. Amdanom ni, sef 'y rhai bach' fel y dywedai Waldo, byddai rhyddfrydwyr optimistaidd gynt yn coelio'u bod yn eithaf dymunol yn y bôn. Nid eu heiddo nhw y drwg yn y byd. 'Edrychwn tu mewn i ni: 'rŷm ni'n gwneud ein gorau, a dŷm ni ddim yn angharedig iawn. Ac os ydym braidd yn anghrediniol ac yn cenfigennu a braidd yn faterol a hunan-ganolog, a heb berthynas â Duw, dŷm ni ddim yn tramgwyddo'n ormodol, gobeithio, 'does bosib. Hynny yw, yr ydym yn beryglus o boblogaidd.'

A dyna, i'r sawl nad yw'n chwilio'n ddyfal, yr argraff a rydd Waldo'r Bardd mewn amryw byd o'i gerddi. Yn bur sicr, dyna a ddisgwyliai rhai gan Waldo'r Beirniad, y gŵr ar y 'chwith', y rhyddfrydwr diwinyddol. Mae gwreiddiau Sosialaeth yn y Beibl hefyd.

Ond dowch inni edrych ar y dyfyniad o 'O Bridd'. Mae'n ddisgrifiad eglur o lygredd clasurol. Dyma'i brofiad o bridd ar ôl ymdeimlo â phresenoldeb rhyfel. Ond nid pridd y ddaear yn unig sydd mewn golwg. Sylwer ar bresenoldeb un gair yn arbennig neu un math o air: *'m, cherddaf, 'm, welais, Fy, Fy, Ein, ein, ein, arnom*. Nid yn anaml y'i ceir. Mae'n ei uniaethu'i hun â phridd y ddaear y gwnaethpwyd ohono. Yna, symuda o'r unigolyn at y lluosog, a'n tynnu ninnau gydag ef i mewn i'r profiad a'r cyfrifoldeb. Dyneiddir y pridd – 'Mae dy flodau coch yn frech, Mae dy flodau melyn yn grawn.' Wrth archwilio'r gerdd, deawn ar draws Waldo annisgwyl (efallai) – y Waldo sy'n rhan o'r llygredd, y Waldo sy'n cydnabod 'Ho Frawd', 'Ho dras', sef y drwg sydd yn ei feinwe ei hun. Tras cenedlaethau'r Cwmp. Wedi'i greu o bridd y ddaear (a ddifwynwyd wedyn gan ddyn) 'roedd Duw wedi anadlu'i ysbryd iddo; ond bellach aeth y pridd gwenwynllyd yn drech na'i ysbryd:

Cerddodd dy dwymyn i'm gwaed

Ymestynnodd pechod yn yr etifeddiaeth.

Nodais uchod bum cwestiwn a gododd ysbryd Owen Thomas inni, gan ddechrau drwy holi 'A oedd Waldo'n credu yn y Cwmp?' Drwy'r 'pridd' yn y gerdd hon, ac yn bennaf drwy 'Cyrraedd yn Ôl', credaf fod y dystiolaeth yn glir ac yn bendant. Bellach, daeth yn bryd chwilio ail ran y gerdd, ac yn arbennig y 'cyhuddiad' o 'amwysedd'. Efallai mai anodd, braidd, fydd bod yn ddiamwys ynghylch amwysedd. Ac efallai y daw â pheth gwrthdrawiad rhwng Waldo'r Bardd a Waldo'r Beirniad.

AMWYSEDD

'Nid yw'r gân yma'n amwys,' meddai Waldo yn hyderus am 'O Bridd' mewn llythyr at Anna Wyn Jones ym 1966.

Trafodwyd eisoes ran gyntaf y gerdd, y rhan 'felltithiol'. Cyraeddasom yr ail ran yn awr, y rhan 'fendithiol'. Mae'n ddychryn o fendithiol. Mae'r rhan hon yn awr yn dechrau 'O bridd', sef gyda'r gair 'pridd' â'i lythyren gyntaf yn y ces isaf. Yn y rhan gyntaf, 'O Bridd' yw'r ffurf a gawsid. Cymerwn innau fod yna dri phosibilrwydd i'r cyfarchiad cyntaf hwnnw. Mae'r llythyren fawr yma'n digwydd am fod y bardd yn *personoli'r* pridd. Neu fe geir llythyren fawr yno am ei fod yn *dyrchafu'r* pridd ei hun, yn ei realaeth ddisymbol, i feddu ar arwyddocâd ysbrydol hollol realaidd. Y mae'r arwyddocâd hwnnw hefyd yn ddisymbol o hanesyddol. Neu'n drydydd – a hyn a bleidiaf i – *y naill a'r llall*. Un posibilrwydd nas pleidiaf yw mai pridd bach cyffredin ydyw.

Gall gyfeirio at 'bridd' fel prif gymeriad. Neu fe all gyfeirio at ddyn, a'r 'byd', a wnaethpwyd *o bridd* (a'r O yn arddodiad yn hytrach na bod yn ebychair).

Ond bellach, yn yr ail ran, peidiodd y llythyren fawr amwys honno â gwgu arnom mor fawreddog. Cafodd ddarostyngiad mewn statws. Beth yw union arwyddocâd 'diamwys' y llythyren fach yn y fan hon? Dichon ei bod yn peidio â phersonoli, ac yn peidio ag ysbrydoleiddio. Mae Waldo wedi canfod man y tu hwnt i Kerguelen heb bridd naturiol na phersonol yno o gwbl. O leiaf, mae'r newid arwyddocaol hwn yn codi'r cwestiwn. Mae bellach wedi ymadael â byd y pridd cynt yn gyfan gwbl: pridd y ddaear, peth sy'n gas ganddo (oherwydd rhyfel yn yr achos hwn, sy'n cael ei gynrychioli yn y gerdd hon gan lygredd fel egwyddor, yn wrthwyneb i'r arfer). Mae'r ynys tu hwnt i Kerguelen ei hun felly yn rhydd rhag y pridd dynol a daearol hwnnw:

*O bridd, tua phegwn y de
Y mae ynys lle nid wyt ti,
Un llawr o îa glas yw'r lle,
A throed ni chyrhaedda na chri
I'w pherffaith ddiffeithwch oer ...*

Sut le sydd yno?

Medd Dilys, ei chwaer: 'hafan o dawelwch a sicrwydd'. 'Gobaith' medd Jâms Nicholas; 'gras' medd y Parchedig Emrys Evans. 'Cefnogwyr diamwys oll i amwysedd,'

sibrydaf innau amdanynt. Mae Waldo'n dweud, yn yr un llythyr lle y mae'n dyfynnu'r tri dehonglydd gwahanol hyn: 'Nid yw'r gân yma'n amwys'. Credaf fod ei dri chyfaill oll yn gyd-gywir ar ryw olwg. Yn ogystal, yn ddiau gennyf, yng nghyd-destun y 'rhyfel' a oedd yn gymaint obsesiwn ar y pryd, 'heddwch' yw'r ystyr i'r lle. Ef ei hun – nid Waldo'r Bardd, ond Waldo'r Beirniad – a oedd yn anghywir ynghylch diffyg amwysedd. 'Heddwch' amlystyrol a oedd ganddo a chan y cyfeillion, yn cynnwys pob dehongliad.

'Roedd y tri dehonglydd wrth reswm bob un yn rhan o'r amwysedd llydan rhwng person ac iaith. Mae'n amlwg fod yr hafan yma yn ddiffeithwch go egr. Oer yw'r gobaith hwn. Ac mae'r gras hwn yn bodoli heb neb, hynny yw, heb yr un cynrychiolydd o ddynoliaeth i dywyllu'r lle – heb na throed na chri, a heb y dyn a wnaethpwyd o bridd y ddaear. Heddwch rhyfeddol? Onid dyna'r cyd-destun Waldoaidd a ddisgwyliem? Dyma dwll o le. Os hafan o obaith graslon sydd yno, go brin ei bod yn hynod o debyg i'r ail dŷ sy gennych acw yn Sbaen: 'does dim sŵn dynol yno, nac aderyn ychwaith –

*Ond suo'r dymestl gref,
A'r un aderyn ni wŷr
Dramwyo diffeithwch ei nef,
Lle mae'r nos yn goleuo'r niwl
A'r niwl yn tywyllu'r nos ...*

Sylwer, 'diffeithwch' sydd drachefn (wedi'i ailadrodd) o fewn ychydig o linellau. Pwyslais, mae'n siŵr. Ac eto, diffeithwch 'ei nef' hefyd, yn baradocsaidd. Enigmatig yw'r symudiad hwn, ac efallai – onid yw? – ychydig bach yn amwys (y tu hwnt i'r 'Datguddiad' yn yr hanner cyntaf), wrth inni gael nef lle mae'r nos mor enbyd.

Arhoswn gyda'r nef honno, wrth inni droi i'w moli.

*Harddach nag ydoedd fy haul
Mabol ar ryddid fy rhos
Er chwipio'r gwyntoedd anghenedl ...
Heb wneuthur na drwg na da.*

Atalnod llawn a geir yn y fan hon ar ddiwedd y frawddeg gyntaf yn ail ran y gerdd. Harddach yw'r nef hon na'r hyfrydwch a brofasai yn ei ieuenctid rhamantaidd hyd yn oed. Amgylchfyd anghenedl (heb yr un genedl) yw'r nef hon, heb gorff (gïau), heb anadl, heb foes (na drwg na da). Dyma'r hafan o obaith graslon y soniai'i gyfeillion amdano wrth ddehongli. Sef gollyngdod llwyr.

Nid anghytunai Waldo â hwy, er gwaetha'r amwysedd rhyngddynt. Sut felly?

Mae ei ddychymyg wedi codi goruwch rhyfel, a chanfod yn y pellter ollyngdod rhag y cwbl amlochrog hwnnw. Mae yma fath o Farn ar bridd. Saif yr ynys y tu hwnt i Kerguelen heb yr holl bethau yna, a heb eraill y disgwyliem i Waldo eu caru a'u harddel – cyd-ddyn, cenedl, bywyd, hanes, adar, blodau, moesoldeb. Mae'n cynnig yn awr harddwch mwy eithafol a'r tu hwnt i'r hyfrydwch hwnnw i gyd.

Tu hwnt i Kerguelen mae'r ynys,

Lle ni safodd creadur byw,

Lle heb enw na hanes,

Ac yno yn disgwyl mae Duw.

Duw, fe ymddengys, yw'r preswlydd mawr i'r 'nef' dragwyddol a diamser hon. Efô yw'r gollyngwr eithafol na wŷr neb yn gyflawn amdano – onid y sawl (ar un ochr) yr aeth rhyfel iddo yn felltith farnedigol derfynol. Efô yw uchafbwynt y gerdd. Ond sut Un ydyw?

A yw'r llinell olaf hon yn amwys?

Gadewch inni gofio cyd-destun meddyliol Waldo'r Beirniad, Waldo'r radical gwleidyddol a diwinyddol. Sut Dduw a ddisgwylid yn flaenaf ym meddwl y genhedlaeth honno?

Duw cariad, wrth gwrs, Agape.

Eithr yn hanesyddol glasurol ac yn Feiblaidd (gyda 'Milwr Mihangel'), yr oedd Duw Cariad hefyd yn Dduw Barn, yn ddeuliaeth unol. Oherwydd Ei Gariad y mae'n barnu. Gyda dirywiad yr enwadau, ceisid cefnu ar Dduw Cyfiawnder a Barn. Pleidid unochredd. Cwciwyd Duw neisiach nag oedd yn yr Ysgrythur – mor neis â ni. Ond a yw'n bosibl fod Waldo'r Bardd yn y gerdd hon, beth bynnag a feddylia yn ei oriau mwy cydymffurfiol 'radicalaidd', yn mentro canfod cyd-drawiad neu undod rhwng Cariad a Barn mewn Duw Cristnogol. Onid yw Barn Duw yn y fan hon hefyd yn Gariad carthiol? Onid arswyd (heb 'fywyd') yw'r cariad hwnnw yn y fan yma? Sef y Disgwyliwr sy'n uno.

Bid a fo am unrhyw ateb 'terfynol' i hyn oll, fel yna y darllenaf i bethau. Carwn annog y darlennydd yn awr i sylwi ar ddehongliad Alan Llwyd yn *Rhyfel a Gwrthryfel*, dehongliad campus sy'n nodweddiadol graff, ac yn fy marn i sy'n gywir hefyd. Nid oes rhaid cywilyddio ynghylch 'amwysedd'. I mi, o dan ddisgyblaeth y gwirionedd, amlystyraeth yw ystyr amwysedd effeithiol. Ffrwythlondeb yw'r Mynegiant sydd o dan

reolaeth Tafod. Peth dynol o'r fath yw Mynegiant o raid. Ond nid oes angen gwadu'r Tafod sicr sy'n ei amodi yr un pryd. Y sefydlogrwydd.

I mi hefyd, wrth ddarllen y gerdd 'O Bridd', yr ydym ar dir cysegredig. Waldo'r Bardd sydd yma. Mae'n ysgrifennu o dan ysbrydoliaeth yr Awen. Ni rydd hynny iddo wrth gwrs ddim anffaeledigrwydd. Ond y mae Waldo'r Bardd yn bwysicach na Waldo'r Beirniad. A'n gwaith cyntaf ni yw gwranddo ar y Bardd. Bardd rhyfeddol yw.

Droeon mewn cerddi y mae'n treiddio y tu hwnt i lygredd. Ni fedr yr Ôl-fodernydd ddygymod â hynny. Yn y Gerdd Ddi-deitl, y mae'n defnyddio'r ymadrodd 'Gwreiddyn Bod' ar gyfer y Duw yr ŷm newydd sôn amdano.

Nid oes yng ngwreiddyn Bod un wywedigaeth.

Dyma'r Un a edwyn ef drwy gynneddf yr ysbryd, neu, fel y'i geilw, 'Awen', neu 'Awen Adnabod'. Sefydlogrwydd eto. Yr Absoliwt yw 'gwreiddyn Bod'.

A oedd ef yn mynd i fod yn driw i'r Awen honno a allai gydnabod y drwg y tu allan yn ogystal ag o'r tu mewn, a chan fentro mynd y tu hwnt i hynny, at y Farn yn Nuw; ynteu a oedd yn mynd i din-droi gydag optimistiaeth a rhamantiaeth oddrychol Schleiermacher a'i ddisgynyddion, yn beiriannol?

Nid yw hynny yn gwrth-ddweud y Creu gwreiddiol heb 'wywedigaeth', na chwaith y daioni drwy ras cyffredinol a'r 'Dychymyg Dwyfol'. Diau fod a wnelo'r tyndra â rhywbeth heblaw rhyddfrydiaeth Schleiermacher yn 'cymhwysu' Duw yn oddrychol brofiadol. Y mae a wnelo hefyd â mater y mae Waldo'n dychwelyd iddo dro a thrachefn, sef â mater awdurdod yr Awen:

*Na, awen y Crochenydd yw'r wreiddiol rin,
Caiff Awen rannu'r bara a gweini'r gwin.*

(Sylwer ar y swydd offeiriadol)

Medd ef yn 'Y Tŵr a'r Graig':

Awen hen a ddeuai'n ôl;

ac yn 'Adnabod':

*Rhag bradwriaeth, rhag dinistr,
Dy gymorth O! Awen Adnabod.*

Sensus divinitatis wedi'i ddeffro yw 'awen Adnabod'. Gair a aeth yn wrthun mewn gwledydd eraill yw Awen, gyda'r adwaith anochel yn erbyn maldod Rhamantiaeth. Ond i

Waldo, y mae i'r gair ystyr ddiriaethol bron, un dechnegol. Hon a fynnai nawr iddo ef wynebu hylltra barn, tra gogwyddai'i syniadaeth ryddfrydol at sensoriaeth 'gadarnhaol'.

Rhannodd yr Awen y gerdd yn ddwy adran ymddangosiadol gyfartal. Cychwynnodd yn benderfynol yn y felltith. 'Doedd dim anhawster. Dyma ffrwyth y Cwyp. Yr etfeddiaeth. 'Ho *dras*'. Cafodd y bardd brofiad rhyfedd o greadigaeth a ddifwynwyd. Gweledigaeth drawiadol o boenus oedd. 'Roedd rhyfel fel pe bai wedi llenwi'r ddaear o'i ddeutu. Wrth iddo syllu ar y 'pridd' ei hun, fe'i gweddnewidiwyd o flaen llygad ei ddychymyg. Ymdeimlai â'i fryntni a'i greulondeb a'i wrthuni. 'Doedd dim amwysedd hwylus achubol: dichon mai dyna pam nad oedd yn fodlon addef unrhyw amwysedd: 'roedd ei unplygrwydd o ddifri.

Ac yna, arweiniodd yr Awen ef i gydnabyddiaeth o'r anghyffredin beirniadol. Euogrwydd bywiol. 'Roedd ef ei hun yno, yn y pridd, yn Fardd os nad yn Feirniad. Mae'n cysylltu'r gwrthrychau llwgr y tu allan ag ymdeimlad o'r peth yn llifo y tu mewn i'r rhagenw person cyntaf. Cyfrannai yn y Drwg. Profai argyhoeddiad o bechod. 'Fi' yw'r pridd o'r dechrau: 'yn drech na'm llygaid, ni cherddaf, dy dwymyn i'm gwaed, Ho frawd, fy mrawd, ein mam (cwyp yr hil), Ho dras, ein cefn'. Dyma ddadleniad yr Awen iddo. 'Ni ... Fi ...' Mae cyd-ddyn yn rhan enedigol o'r un darlun. Mae yna ymdeimlad o berthynas rhwng ffieidd-dra Natur a dyn. 'Ni' neu 'Fi': nid 'Nhw', mwyach, dyna pwy sy'n cyffesu, yn eithafrwydd y tlodion yn yr ysbryd. Dyma ddechrau'r llwybr Cristnogol cadarn. Cyhuddiad personol yw, fel 'ein hystafelloedd' yn 'Elw ac Awen.' Cwyp llwyr.

Yn yr ail bennill, crëir o hyd ddelwedd ddidrugaredd o'r Ynys tu hwnt i Kerguelen, annynol ddi-fyw. Dyma gynefin y 'Duw' y cyfarfyddwn ag ef yn bersonol erbyn y diwedd. Ai *Deus ex machina*, y Duw cyfleus cyfaddawdol rhyddfrydol, sy'n gefndir i'r cariad di-farn yn y felltith hon? Ai presenoldeb cysurlon yw ynghanol oerfel a chreulondeb? Ynteu Duw yw sydd ei hun yn unol â'r bygythiad oer yn amgylchfyd gollyngus yr Ynys? Yn groes i'r graen yn ei safbwynt diwinyddol, dyry'r Awen a'r isymwybod olwg inni ar ddyd syrthiedig gerbron dadleniad arswydlon. Ac oera.

Hynny yw, nid oedd yr hyn a sgrifennodd Waldo dan awdurdod yr Awen yn unol â'r hyn a dybiai'n swyddogol y dylai'i wneud yn ôl ei ragdybiau arferol beirniadol. Ymadawodd â'r optimistiaeth enwog fel pe bai wedi gwrthryfela'n ei erbyn ef. Yn dawel bach, yr oedd y gwaith fel pe bai wedi sibrdwr wrth yr awdur – beth bynnag a dybia'r

rhyddfrydwyr – dyma'r gwir, a gwell i ti'i dderbyn. Nid mater o ffasiwn yw hyn, ond mater o ffeithiau. Yr Awen a'i canodd. Awen garismatig.

(O'r gorau: gwn i fel y defnyddia rhywrai'r term 'apocalyptig' yn y cyd-destun hwn, ac nid wyf am gweryla â hynny. Ond i mi, y mae'r term 'carismatig' yn lletach, yn fwy yn ôl gogwydd yr amseroedd, yn lletach yn y math o weledigaethau yr ymwneid â hwy.) Drwy Awen garismatig ddyneiddiol yr oedd Waldo eisoes wedi cael golwg ar ddelwedd. Honno a fu mewn Dau Gae. Ni allai'r ymwybod ei rheoli. Iddo ef, yr her oedd bod yn driw i'r weledigaeth honno gan beidio â'i gwyr'n hoffus ryddfrydol. Rhaid ymddiried ynddi, dibynnu arni, er mor oddrychol y bo. Tebyg ydyw i'r profiad o freuddwyd, ffenomen arall yn y traddodiad carismatig, a cheisiais adrodd o'r blaen yn *Y Traethodydd* am rai o'r breuddwydion a ddisgrifiai ef imi gynt – ambell un heb fod yn 'apocalyptig' yn hollol, ond breuddwydion a gymerai ef yn arweiniad difrif iddo'i hun. Breuddwydion (pethau peryg) yw priod borfa breifat y Carismatiaid, fel Howell Harris.

Ar ôl i'r weledigaeth hon ymadael ag ef, gallai ailfeddwl amdani. Fel beirniad ymwybodol gallai deimlo'n anesmwyth amdani, yn enwedig am y gair olaf yna. Ond onid oedd wedi bod yn anfodlon tost ynghylch 'Y Plant Marw' o'r blaen? Ei arferiad fyddai peidio ag ymyrryd â gweledigaeth hanfodol y gerdd. Yn 'O Bridd', sut bynnag, 'roedd yn wynebu yn yr hanner cyntaf ddatguddiad (argyhoeddiad) o bechod a gasâi; ac yn yr ail hanner ddatguddiad barn a gollyngdod yr oedd yn fwy anniddig byth amdani. Ac eto, yn nannedd sentimentaliaeth ddyn-ganolog sensoriol y traddodiad rhyddfrydol, credaf i'r Awen ddiogelu'r cwbl hwn iddo yn ffyddlon. Yr Awen oedd yr Elw.

Ond gadewch i mi fynd ymhellach. Gonestrwydd yr Awen yn yr achos hwn a roddai'r hawl iddo ar achlysuron eraill, mwy carismatig gadarnhaol, mwy diniwed obeithiol, rywsut i ddatgan yn hoenus o anfeirniadol (mae'n ymddangos) yr olwg optimistaidd pan ddadlennid hynny. Gweledigaethol oedd hynny hefyd. Dyma'i berthynas â'r Awen: 'Ar Weun Cas Mael', 'Yn y Tŷ', 'Eirlysiau' ac 'Adnabod'. Fe'u gwreiddiwyd oll yn y Ddau Gae, y dröedigaeth fawr honno.

Felly, er mai Duw bygythiol sydd yn 'O Bridd', Duw yw o hyd. Ac efallai y gallem fod yn fwy penodol. Megis y cafwyd gweledigaeth awdurdodol gan Awen Waldo o lygredd pridd yn 'O Bridd' drwy realiti hyll dynion, felly y cafodd ei Awen, yr un Awen, weledigaeth garismatig awdurdodol o berthynas gadarnhaol hefyd rhwng dyn a

dyn. Onid mewn Dau Gae ar bwys ei gartref y'i cafwyd yn gyntaf? Dyma ymddygiad ei Awen felly – yn gyson weledigaethus garismatig. Tueddwn i gysylltu'r gair 'carismatig' yn bennaf ag eglwys apostolaidd efallai, â diffyg cynnwys, diffyg gwreiddiau athrawiaethol, a llacrywydd goddrychol. Ond erbyn ein dyddiau ni, ceir Pabyddiaeth Garismatig a Moslemiaeth Garismatig; ni welaf pam na ellir disgwyl Dyneiddiaeth a Chrynwriaeth Garismatig hefyd. Gall hynny ymrithio'n weledigaethus yn bendant.

Ffordd arall fwy cadarnhaol, ffordd ddiwinyddol, o ddisgrifio adeiladwaith 'O Bridd' fyddai honni bod yr hanner cyntaf yn ymdroi gyda phresenoldeb treiddiol pechod (a marwolaeth) a Melltith, a'r ail hanner â gras ataliol arswydus. Nid oes a fynno Waldo yn ymwybodol, fel rhyddfrydwr diwinyddol, odid byth â *gras arbennig*, Cristnogol (yn yr ystyr ddethol); ond y mae a wnelo'n fynych â *gras cyffredinol*. Mae'r dehongliad hwnnw'n caniatáu amwysedd. Ond mae'r farn felly'n dda. Barn Duw yw. Fel Gras.

Ymddengys i mi fod rhyfel i Waldo yn gynrychiolydd cynddelwaidd i'r Drwg. Crynhôl mewn realedd allanol ac yn symbolaidd y llygredigaeth eithaf a brofodd dyn. Gosodai'r bardd, gyferbyn ag ef ei hun a'i wae am ryfel, a hynny mewn rhes o ganeuon ffrwythlon dyngarol, olwg eithafol arall: y canu gorobeithiol. Ond yn ymyl y ddeuliaeth honno dodwyd y gerdd ryfedd hon. Dyma'r lle y ceir hyfrydwch a barn y difywyd a glendid awdurdodol gras ataliol. Dau begwn: y mae llawer o'i waith yn bwhwman o'r naill i'r llall. Yn fynych, ymrafael a wnânt. Hyn a ganfyddai Waldo yn rhodd. Ond fe'i cadwodd mewn un o'i gerddi mwyaf.

Arweinir at 'ddiwedd' oer yn y gerdd hon. Diwedd a all ein hatgoffa am 'Fire and Ice' Robert Frost:

*Some say the world will end in fire,
Some say in ice.
From what I've tasted of desire
I hold with those who favour fire.
But if it had to perish twice,
I think I know enough of hate
To say that for destruction ice
Is also great
And would suffice.*

Cerdd arwach nag eiddo Frost yw'r gerdd Saesneg bwysig am ynys gyffelyb i eiddo Waldo gan Roy Campbell. Cyflwyna ef ddelwedd o ynys sydd yn meddu ar beth o'r un arswyd, sef 'Tristan da Cunha':

*Snore in the foam; the night is vast and blind;
The blanket of the mist about your shoulders,
Sleep your old sleep of rock, snore in the wild,
Snore in the spray! The storm your slumber lulls...*

Half sunk in your own darkness, vast and grim...

*Your strength is that you have no hope or fear,
You march before the world without a crown,
The nations call you back, you do not hear,
The cities of the earth grow grey behind you,
You will be there when their great flames go down
And still the morning in the van will find you.*

Mae'n wir fod yna wahaniaeth rhwng 'sensus divinitatis' (yr ymwybod syml o fodolaeth Duw) a 'Mysterium Tremendum'. Ac eto, pwysig sylweddoli mai 'gwybod' yw hyn hefyd. Ac yng nghalon Waldo, bron o hyd, ystyriwn fod 'adnabod' yn gam pellach. Gall fod yn fwy cynhwysfawr a datguddio cyswllt mwy datblygedig, hyd yn oed profiad mwy ffyddlon sefydlog.

Rhaid cyfaddef: mae hi fel pe bai'r bardd Cymraeg hefyd yn cynnal cweryl ag ef ei hun, y Bardd a'r Beirniad. Nid profiad anghyffredin yw hynny i fardd sy'n meddu ar ddyfnder. Dywed y Bardd (neu'n hytrach yr Awen wrtho) am gydnabod y weledigaeth. Geilw arno am wrogaeth. Dywed y Beirniad (gwedd arall ar yr Awen) wrtho ar y llaw arall y byddai'n fwy poblogaidd (gair cyfrin), yn unol â threndis y cyfnod diweddar, pe bai modd ei thwtio. Dyma'i demtiad. Dywed y Bardd, felly, wrtho mai barn eithaf sydd ar waith yn ail hanner y gerdd: dywed y Beirniad (a'r werin) wrtho mai braf fyddai lleddf hynny. Heb ei barch hollol garismatig at yr Awen, buasai Waldo wedi ildio. Ond mae yna Feirniad craffach na'r cyffredin ym mhob Bardd o safon.

Mae damnedigaeth yn anathema iddo o fewn y traddodiad rhyddfrydol. Ond yn ei gân 'Gwanwyn' – y tymor yr oedd wedi'i ganfod yn llenwi'r byd â gobaith dro a thrachefn – dychwelai'r un gonestrwydd caled. Os yw'r drwg yn y tir, ni wiw inni ddymuno adfywiad mewn sefydliadau gwan eu cred. 'Gwanwyn' yw un o'r caneuon (megis 'Cân Bom') a ddatthla ddiwedd y rhyfel, a'i ddatthlu mewn chwerwder. Fflangella'r rhai sy'n meiddio gobeithio'n ddall:

*Chwychwi sydd â'r llygaid dwfn, a'u gwib trwy'r
golau i rin eich gilydd,
Duw dilygad a'ch chwipia'n un gyr trwy anialwch
eich hygoledd.*

Dyma Dduw Kerguelen. Waldo ei hun sy'n ei chael ganddo'i hun yn y fan yma. Barn o fath personol iawn sydd yn 'O Bridd', megis y'i cafwyd yn 'Cân Bom' ychydig ynghynt:

*Ef [meistr y bom] yw'r pryf yn y pren,
Gwahanglwyf y canghennau.
Mi a'i hysgubaf i dân
Ecstasi angau.*

Dyna'r tân terfynol, Ffrostaid, yn ddiau, i gyfateb i'r iâ Ffrostaid, sef yr offer barnol. Yn wir, fel epigraff 'Gwanwyn' yn *Y Faner*, rhoesai Waldo'r dyfyniad: 'Y durtur hefyd a'r aran a'r wennol a gadwant amser eu dyfodiad; eithr fy mhobl ni wyddant farn yr Arglwydd'. Ysgubwyd uffern dan y carped.

Sylwasom ar un ffaith anniddig o arbennig ynglŷn ag 'O Bridd'. Yr oedd Waldo wrth gwrs yn rhamantydd o fri. 'Roedd Sosialaeth ei hun yn un o isgynhyrchion Rhamantiaeth: Iwtopiaeth a delfrydu'r 'gweithiwr' corfforol. Ac 'roedd pob rhamantydd gwerth ei halen yn gweld y drwg mewn pobl eraill. Acw y'i canfyddai'n wrthrychol ffeithiol yn y bosys a'r filwriaeth. Diwygio'r 'lleill' oedd breuddwyd bêr y rhamantydd. Gweledigaeth 'O Bridd', sut bynnag, oedd yr argyhoeddiad arswydol o anrhyddfrydol ei fod ef ei hun yn rhan gynhenid o'r llygredd a'r cyfrifoldeb hwn. Ef oedd y pridd:

*Cerddodd dy dwymyn i'm gwaed,
Mi welais y genau brwnt
Yn agor a dweud, Ho Frawd ... Ho dras.*

Yn yr un ganrif, canfu Saunders Lewis yntau hyn. Fe'i gwybu, fel y gwnaethai Pantycelyn ynghynt. Fel pob Cristion. Daeth hyd yn oed y Marcysydd, Gwenallt (yn sgil

Baudelaire) i brofi ing yr un sylweddoliad. Ac yn ei dro, bu'n rhaid i'r gobeithiwr Iwtopaidd afieithus, Waldo, yntau, o bawb, ddod wyneb yn wyneb ag ef ei hun.

Un o dyndrâu mawr yr ugeinfed ganrif, nid amgen yr un rhwng Ynys Afallon T.Gwynn Jones (meistr Waldo) a Phridd absennol yr Ynys a ganfu Waldo, caed safle rhwng y dyhead a'r realiti. Pan realeiddir yr ynys sydd y tu hwnt i Kerguelen, sylweddolir sut le yw, '*Lle ni safodd creadur byw, / Lle heb enw na hanes*'. 'Roedd hyn yn fodolaeth greulon ac yn fath o goegi i'r 'freuddwyd Americanaidd' a'r 'freuddwyd Sofietaidd', ill dwy fel ei gilydd. Ond sylwer hefyd na ddylid dychmygu pridd yno chwaith: 'Y mae ynys lle nid wyt ti'; 'Un llawr o îâ glas yw'r lle.' Ac esbonia Waldo i R.S. a'i adar (ac i T.Gwynn Jones ac adar Afallon):

*'A phwy yw hon sy'n lladd
Eu hadar yn nwf'n y gwrych? ...
Ein mam.'*

Perthynas go arwyddocaol. Os ceisir Duw, y mae Ef yn disgwyl yno y tu hwnt i bob sylweddoliad rhwydd i'w wadu, nac i'w ddychmygu gan y meddwl goddrychol:

*A'r un aderyn ni wŷr
Dramwyo diffeithwch ei nef.*

Ond yno y mae – yn disgwyl; nid yn *bod* yn unig. Ar ryw olwg, rhaid colli bywyd, marw, er mwyn 'ennill' Duw.

Carwn ymdroi am foment gyda dehongliad posibl arall i'r gerdd a allai fod yn ddilys, ac yn gymorth i sylweddoli rhai ergydion ynddi. A hynny eto yn 'goleuo' gwybod sy'n tyfu'n adnabod.

Dychmyg myfyriol a arweiniodd Waldo i Kerguelen a'r tu hwnt. Bu Kerguelen yn disgwyl am y dyn iawn. Nid unrhyw deithio corfforol a gafwyd: ffug daith o fath a gafwyd. Fel y mae'n digwydd, mewn un o'r myfyrdodau clasurol mwyaf enwog yn hanes meddwl yr Eglwys Glasurol, fe gafwyd ymdroi dychmygol mewn analog ynghylch Ynys nid annhebyg. Soniwyd amdani gan Gaunilo, mynach o Marmontiers (gŵr a fu'n beirniadu Anselm yn ei ddadl enwog i brofi'n Ontolegol *fodolaeth* Duw.) Bodolaeth, nid adnabod. Dyma ddadl a enillodd sylw Acwin a Descartes, Malcolm a Plantinga. Dadl yw nas derbyniaf i, er nad wyf am fynd ar ôl y ddadl ddyrys honno ar hyn o bryd. Arhosaf gyda stori Gaunilo. Fe'i ceir yn Saesneg gan Davies ac Evans (gol.) yn *Anselm of Canterbury: The Major Works*, Oxford 1998, tt. 105 yml.. Trafodent y syniad o Dduw fel

'rhywbeth na ellir syniadu am ei fwy'. Mae Gaunilo yn dadlau fod yr hyn sy'n bodoli mewn realiti yn gorfod bod yn fwy na'r hyn nad yw'n bodoli yn y meddwl yn unig. Felly, – a dyna'r naid – rhaid bod Duw yn bodoli y tu allan yn ogystal â'r tu mewn i'r meddwl, oherwydd pe na bai'n bodoli yno yn y meddwl yn unig mewn realiti, ni byddai'n 'rhywbeth na ellir syniadu am ei fwy.' Gellir dadlau bod 'Absoliwt' yn safbwyntle meddyliol anochel os yw derbyn 'y gwir' o unrhyw fath yn dderbyniadwy reidiol.

Cyfyd y cwestiwn a ellir dweud mai'r hyn sy'n bodoli yn y meddwl yn unig yw'r hyn sy'n bod o gwbl? Onid annigonol yw gwybod? Gwelir fel y mae'r ddadl yn ymwneud â dychymyg Waldo a'r math o realiti sydd i'w Ynys.

Er bod eisiau darllen yr holl ddadl i amgyffred effeithiolrwydd neu aneffeithiolrwydd y ddadl negyddol hon, digon i'm defnydd i yw dyfynnu'r hyn a ddywedir am ansawdd Ynys Gaunilo, a'i harwyddocâd yn yr ymchwil am 'Dduw', a'r berthynas rhwng dychymyg a realiti, a thaerineb y chwilota yn y galon:

'Dywedir bod yna rywle yn yr eigion ynys sydd, oherwydd yr anhawster (neu'r amhosibilrwydd) o ddod o hyd i'r hyn nad yw'n bodoli, a alwyd gan rywrai yn 'Ynys Goll'. Yn ôl y chwedl, bendigaidd yw oherwydd llawnder y goludoedd amhrisiadwy a'r hyfrydychau helaeth, lawer mwy na'r Ynysoedd Dedwydd. Gan nad oes yno berchen na phreswilydd, rhagora ym mhobman yn amllder ei chyfoeth, o'i chymharu ag ynysoedd lle y triga dynion... Ni ellwch mwyach amau bod yr ynys hon sy'n fwy ardderchog na gwledydd eraill yn bodoli rywle mewn realiti nag y gellwch amau ei bod yn eich meddwl. Oherwydd pe na fodolai, byddai unrhyw dir arall sy'n bodoli mewn realiti yn fwy rhagorol na hi, ac felly, ni byddai'r ynys hon, a dybiech eisoes yn fwy rhagorol na'r lleill, ddim yn fwy rhagorol o gwbl. Pe bai, meddaf, rhywun yn dymuno fy mherswadio felly fod yr ynys hon eisoes ar gael, byddwn naill ai'n meddwl ei fod yn smalio, neu fe gawn anhawster i benderfynu pa un ohonom a farnwn mai ef yw'r ffŵl mwyaf.'

Mae gan y dychymyg ymgodymus fedr i ddod o hyd i ddelwedd a rithir wedyn i fath o realiti gan y meddwl ymchwilgar. Pwy a wadai nad oedd y dychymyg ei hun yn ffaith? Ond a yw hyn o ynys yn chwedl athronyddol adnabyddus oruwchnaturiol – a allai fod y tu ôl i 'O Bridd' – lle y mae ynys ddychmyglon fel pe bai'n cyflwyno coegi? Gwacter yw ffansi'r oes, mae'n wir; hynny yw, dweud y mae Waldo fod optimistiaeth ffansi Afallon yn wallgof ond yn medru bodoli i'n profiad. Beth yw gwerth bodolaeth

feddyliol o'r fath? Os yw'r meddwl yn gorfod dibynnu ar absoliwtrwydd y gwir mewn deall ac iaith, mae'r absoliwtrwydd hwnnw'n bod i'r sylweddoliad. Mae mynd y tu hwnt i Kerguelen yn siwrnai seithug, ymddengys, ond o fewn cwmpas gweledigaeth. Pe bai hynny'n wir ym meddwl Waldo, dyna'r math o dir cyffredin, a budd o ddelwedd ddelfrydus, y gellid ei disgwyl hefyd rhyngddo ac R.S. 'a'i ynys'. Cydnabyddir diymadferthedd aruthrol y creadur dyneiddiol cysurus afrealiaidd, yn ogystal â diymadferthedd 'dweud' fel y cyfryw. Ond rhaid wynebu paramedrau'r ynys bosibl honno ar sail profiad realedd y meddwl. Gwnaethpwyd y meddwl a'r deall i'w gynnwys a'i drechu.

Beth, felly, oedd y safle dychmyglon yn y gerdd hon y cafwyd llawer o drafodaeth arni gan gyfeillion i Waldo?

Tybiaf, erbyn yr ail bennill eu bod oll yn gyd-gywir, lle yr oeddent yn ymagweddu'n gadarnhaol. Yn yr hyn a negyddent, atalient y gormodedd. Eto, wrth ystyried y cysyniad o Obaith, gobaith anarferol yw. Gobaith yw am ymwarded â'r pridd a bywyd y ddaear a phethau a phobl y ddaear. Nid oes nos yno onid un sy'n goleuo'r niwl, ac yn harddach na'r haul. Nid oes drwg na da ar y pridd yn y fan yna. Y mae tu hwnt i hanes. A Duw sy'n llenwi'r lle. Hyn y mae'n ei 'wybod'. Ac yma y mae'n 'perthyn'.

Wrth fentro i'r eithafion, sylweddolwn ei fod yn dweud y gwir o fewn gwir gras cyffredinol.

Y mae'n ddarlun rhyfedd i'r heddychwyr-ryddfrydwr-optimydd. Ond Cristnogol ddwfn yw ei wreiddiau mewn bardd a ymwybyddai â mwy na'r ystrydeb ddirywiol-sefydliadol. Dyma Gristnogaeth a ymwybyddai â Chyfiawnder yn ogystal â Thrugaredd, ag uffern a nef, ag anobaith a gobaith; a gonestrwydd gerbron ei brofiad a'i weledigaeth. Cristnogaeth oedd a gwmpasai Naturiol a Goruwchnaturiol.

Dyma gyfnod o aeddfedu mawr yn hanes llenyddiaeth Gymraeg yr ugeinfed ganrif. Anodd oedd ei ddal yn hir wedyn, wrth gwrs, a hynny mewn oes ddynwardol, ddiweledigaeth. Ond fe gafwyd arogl'r un difrifoldeb yng ngherddi 'Meilir Owen.'

MOESEG A MOESWERSI

Ysgogir ni drwy sôn am y Cwyp, wrth drafod barddoniaeth Waldo, i danlinellu mai ef oedd bardd mwyaf ymwybodol 'foesol' y Gymraeg yn yr ugeinfed ganrif. Yn hynny o beth yr oedd yn wrth-fodernaidd. Fe'i gyrrwyd ef gan argyhoeddiad unplyg. I mi, term canmoliaethus o hyd yw 'moesol'. Fe sicrha fod a wnelom â bardd sydd o ddifri iawn am fywyd, beth bynnag a ddwedwn am yr haenen aruthr o ddifrifwch a'i cadwai'n iach mewn digrifwch. Nid 'moeswersol' yn benodol mohono, sylwer. Un oedd Waldo a oedd yn *bodoli* bob amser mewn amgylchfyd o 'foesoldeb' angerddol, yn nannedd poblogrwydd, yn nannedd unrhyw uchelgais am swydd, yn nannedd cenedlgarwch, yn nannedd llenyddia hyd yn oed. Nid proselytio oedd ei nod, yn gymaint â chanfod a dathlu bywyd fel ffenomen werthoedd. Goleuid ac enynnid ei wefr farddonol gan ei hanfod moesol. Canfyddiad o fywyd oedd ei foesoldeb iddo. Edrychai'i farddoniaeth ar y greadigaeth drwy sbectol gwerthoedd. Cyfrannai ddirnad a gwahaniaethu da-a-drwg, mewn iaith fyw a chelfydd, i galon adnewyddol y ffaith ddynol. Ac os yw beirniad, yn ymwybodol neu'n anymwybodol, yn berson sy wedi meithrin y gallu i adnabod 'yr hyn sy'n para' mewn llenyddiaeth, yna, y mae'r math hwn o fedr anghyffredin a feddai'r bardd hwn yn fater sy'n haeddu'r sylw mwyaf gofalus. Carai foesau megis cariadfab.

'Mawl' yw'r term a ddefnyddiwn am y feirniadaeth fwyaf trwyadl o fywyd. Dichon mai 'llynyddiaeth' yw'r term a ddefnyddiai dyneiddiwr am yr un peth. Yr hyn sy'n gwahanu rhwng y ddau derm yw'r craidd absoliwt. I mi, y mae'r ymwybod o absoliwt yn cymhell materion dogmatig fel 'undod'. Yn y fan yma mae llenyddiaeth yn dod o hyd i ddiben sydd hefyd yn fwy o hanfod na hi ei hun. Ond dichon y gallwn, yn seciwlar neu'n grefyddol, gyd-ddatgan mai llenyddiaeth yw'r cynrychiolydd deallol a theimladol canolog wrth ddelweddu'r profiad o fywyd mewn iaith. Ynddi hi y profir ei fawredd a'i anrhydedd. Ac yn y broses bwysig honno, i ddyn bythol a chyfansawdd ffaeledig, anochel yw ystyriaethau moesol.

Ers blynyddoedd lawer bellach bu ystrydebwyr meddyliol yn ceisio difrio perthynas moesoldeb a llenyddiaeth. 'Moeswersol yw peth felly,' meddent am bob sgrifennu moesol. Yn yr oes oleuedig hon, meddid, rhaid oedd bod yn relativ a lluosaid. Trendi fu rhagfarn felly ers dechrau'r ugeinfed ganrif. Trendiaeth ddiog yw o hyd. Gwedd

yw ar gwlt 'anaeddfedrwydd'. Nid cwlt 'ieuentid' yw, er perycled hynny. Ni raid lympio pob ieuentid gyda'i gilydd. Gellid cydnabod to ar ôl to o ieuentid, ers hanner can mlynedd a mwy, na chydymffurfient â chwlt trendiaeth, nac o ran hynny â chwlt ieuentid chwaith. Mater o ddeallusrwydd catholig ac o weledigaeth gytbwys yw hyn.

Eto, gellir bardd moeswersol da, fel y gellir bardd moesol da. Ond tuedda'r bardd moeswersol llwyddiannus i annog dathlu trefn a chyfraith. Apelio a wna at yr ymennydd, fel y gwnâi Tudur Aled. Syniadaeth gaboledig yw ei gamp. Tuedda'r bardd moesol, fel Waldo ar y llaw arall, i ddathlu harddwch a gwirionedd hyd yn oed pan ymddangosant yn hagr. Rhamantaidd yw'r dathlu prydferthwch moesol lle y buasai'r bardd moeswersol yn glasurol. Ymhyfryda'r moesol rhamantaidd yn y profiad iasol o ddaioni, nid yn y wers. Gwefr ysbrydol bodolaeth iddo yw adnabod gwerth.

Ymgysyllta moesoldeb Waldo yn y pen draw â'r Ddau Gae. Gweledigaeth 'gyfriniol' sy'n ei yrru yn hytrach nag argyhoeddiad egwyddorol yn y bôn olaf. Trodd ei berthynas ef â'r meddiant o ddaioni yn ysbrydoliaeth lawen. Nid ymarweddiad yw'r bywyd moesol, felly, ond bodoli.

Yn hyn o beth, 'roedd Waldo'n brydyddol hynod fentrus. Cafodd ei fagu ar ddechrau'r ugeinfed ganrif yng nghyfnod yr ystrydeb o adwaith yn erbyn sychdduwioldeb a pharchusrwydd. Starts oedd y gelyn. Cofiwn gyda diolch holl wrthryfel llancaidd dechrau'r ganrif honno yn erbyn blaenoriaid a dirwestwyr – dyma fwyd a diod cyfnod 'mentrus'. Yr oedd y llenorion mwyaf rhigolog 'radicalaidd' yn y cyfnod oll wedi hiraethu am adweithio yn erbyn y propor ac o blaid y pop. Ond yr oedd dathlu 'rhyddid moes' diddychymyg yn ormes yn eu plith. I'r sawl na feddai ar fawr o fyfyrdod nac o brofiad meddyliol, yr oedd yna fframwaith dychymyg parod: y gwrthryfelwr amharchus. Y trempyn afradlon a'r meddwyn a'r butain oedd yr arwyr arferedig. Dyma a ddaeth yn gymdeithas hoff i lenorion meddyliol ddiog a diantur. Os dymunir, gellir honni mai bod yn 'drendi' oedd uchelgais y llac ei foes mwyach: i'r anghreadigol cynigiai waredigaeth.

Yng nghyfnod Tudur Aled 'roedd y moeswersol yn bosibilrwydd clasurol i fardd. Erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif, sut bynnag, yr oedd y moeswersol mor wrthun i berson creadigol ag yw'r diniwed wrthfoeswersol i ni heddiw, yn fwy felly efallai. Mewn cyfnod gwrthfoeswersol a di-fflach o 'wrthryfelgar', y mentrodd Waldo delynega am brydferthwch y da. Yr oedd yn cerdded ar fin rasel. Hawdd y gellid ei gamgymryd am

ddyn yn dal baner dirwest ar ganol cae rygbi. Gwiw cofio mewn amgylchiadau felly fod daioni Waldo yn golygu carchar: carchar i'r corff a charchar i'r ysbryd.

Ac yn hyn o beth yr oedd Gwenallt, eicon carcharedig 1920-1936, a Saunders, eicon carcharedig 1936-1949, beirdd amharchus delfrydedig hanner cyntaf y ganrif, i raddau yn wahanol i Waldo, eicon carcharedig 1950-1970, bardd delfrydedig ail hanner y ganrif. I raddau helaethach na Waldo, gwrthuni ymosodol a yrrai Wenallt a Saunders i'r carchar: peth priodol iawn. Ei gariad trist o hunanfeiriadol a yrrodd Waldo i'r carchar. Gwelai ef ei fro yn cael ei bygwth gan ynnau, ac Abertawe'n fflam; ei nai yn cael ei gongsgriptio, a phlant yn dioddef. Ei gariad a'i euogrwydd – i raddau mwy diniwed na'r ddau fardd arall – a nadai am drugaredd, o leiaf yng nghyd-destun rhyfel.

Ond sôn yr wyf am *farddoniaeth yn dioddef*, math o brofiad a oedd yn bur ddiethr yn Saesneg i Gymry ac i Saeson. Dyma fath o ddifrifoldeb sy'n annealladwy yn y gwledydd cysurus yn ddiweddar. Roedd yn darparu cyd-destun meddyliol mewn dimensiwn na wyddai'r amgylchfyd ymerodrol ddim oll amdano, ac nas gŵyr o hyd.

Ar ryw olwg, cerddi diniwed Gobeithlu Waldo yw'r rhai mwyaf arbrofol a mwyaf heriol anturiaethus yn ei gyfnod yng Nghymru. Yng nghanol yr ystrydebwyr gwrthbarchus, dyma chwyldro – y tlawd ei ysbryd a'i gorff – a oedd yn anghydfurfiol rhy rinweddol. Ai henffasiwn oedd ei arddull? Efallai mai'r brif amheuaeth a gymylai, ac a gadarnhâi'r fath resymiad trendi â hyn, oedd tuedd y bardd i arddel rhythmau a chywair Sioraidd. Dyma'r cerddi mwyaf dieithr i ymgodymu â hwy yn nechrau'r mileniwm newydd. A diau fod y rhythmau yn rhy 'barod' o hynaflyd. Ond y moesoldeb anghoeg oedd y sioc. Mor rhwydd fyddai inni lamu'n ddiotal i'w hystyried fel petaent yn ffitio i mewn i gywair ac awyrgylch 'adroddiadau' capel gynt, o amhêr goffadwriaeth. Dyma 'rinweddoldeb' anhymig yn cael ei gorffori mewn telynegion caboledig. Peth od oedd i fardd o safon ei wneud yn ddeallol heb y coegi eithafol priodol mewn oes ddiweddar.

Eithr rhyngom a cherddi'r Gobeithlu saif 'Mewn Dau Gae' ac 'O Bridd' (a'i chymheiriaid tywyll). Dyna pam y mae'n rhaid bod yn groyw glir drwy danlinellu'r gwahaniaeth rhwng y 'moesol' a'r 'moeswersol'. 'Moeswerswr' a 'moeswr' gyda'i gilydd yw Waldo ar ryw olwg. Cynrychiola'r gair 'moesol' yr ymwybod o aeddfedrwydd. Cyfrifoldeb, ac ymwybod o gyfanrwydd, cydnabyddiaeth o ystyr ystyriol, a'r argyhoeddiad o safon a gwerth. Dyna'r rhinweddau oedolyn a gysylltwn â'r 'moesol'. Fe'u

ceir gan Waldo yn ei gywyddau mawl ac yn ei delynegion natur. Ar ôl beirniadaeth Leavis a Booth, y mae'n anodd (onid i Ôl-fodernydd nihilaidd) ddadlau nad oes lle i 'foesol' o'r fath bob amser yn y gwaith o werthuso llenyddiaeth, a hynny gan y llenor ei hun wrth lenyddu, megis gan y beirniad yntau. Teimlir bod elfen o blentyneiddiwch, neu ar y gorau o lencyneiddiwch, yn y gwrthryfel gorunplyg yn erbyn y 'moesol' hwnnw. Hanfod yr ymwybod o berthynas ddoeth dyn a'r byd, heb 'bregethu', yw'r moesol.

Yn erbyn y 'moeswersol' ar y llaw arall, disgwylia beirniaid, o hyd, inni oll wrthryfela. Dyna'r pregethu ymhongar 'hunan-gyfiawn' fel y dywedwn. Pobl gul yn ceisio gwthio'u safbwyntiau arnom ni'r bobl rydd, dyna yw'r moeswerswyr. Cawsom ni, etifeddion hyderus ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, lond bola o gerddi bach naïf dirwestol (o chwilio amdanynt). Fel rhamantwyr, allwn ni ddim goddef ond rhyddid hunan-fynegol hedonistaidd gwyllt.

Eto, wrth gwrs, er ein bod yn cydnabod y gall prosyleiddio naïf fod yn fater o embaras i bawb call bellach, ni ellir llai nag ystyried fod y *condemnio* ymbarél ar fodolaeth 'llynyddiaeth ddoethineb' yr un mor anaeddfed â'r moeswersi eu hunain. Sylwodd T.Gwynn Jones ar fachogrwydd celfydd o finiog traethu diarhebol Tudur Aled ac eraill. Gellir hefyd gadarnhaol ymateb i gamp foeswersol Siôn Cent. Yn y bôn, nid barddoniaeth na rhyddiaith foeswersol fel y cyfryw sydd o'u lle, ond y naïfder anghelfydd. Gall moeswersi *lewyrchu*, o bosib yn Israel, ym Mhalesteina, mewn gwledydd bach. Ym myd crefydd, y mae rhai sy'n credu'n eithafol wahanol i'r credoau tawel rhyddfrydig amheugar arferol yn gallu bod yn wrthrych casineb. Ni fedr chwaeth y credinwyr sefydliadol oddef credu solet. Mae'n berygl, yn ffieidd-dra balch, mae'n ymddyrchafu'n hunan-dybus, ac yn bob math o annifyrrwch anghysurus. Yr oedd crediniaeth, i feirdd fel Waldo sut bynnag, yn hollol wahanol ac yn ddidwyll dros ben llestri. Sant gloyw cyfoes oedd. Dylsai fod yn ddychryn i bawb. Ond oherwydd ei gymeriad archolladwy, a'i ddiffyg traha, ei hiwmor, a'i dryloywder, a gwaetha'r modd oherwydd 'Cofio', fe'i carwyd yn gyffredinol.

Llenddulliol (mater o *genre*) yw'r moeswersol. Mae a wnelo'r 'moesol' ar y llaw arall â phob llenyddiaeth. O fewn ei math, gall llenyddiaeth (fel y'i ceir gan Waldo wrth drafod rhyfel neu berthynas pobl) ragori oherwydd rhinweddau megis cydlynedd crynoder cydbwysedd, yr union air byw a thrawiadol, ynghyd â theimlad ysgogol,

gweledigaeth dreiddgar, soniarusrwydd dychymyg; sef dawn dweud. Y mae a wnelo llenyddiaeth foesol ar y llaw arall – megis pob llenyddiaeth lwyddiannus sy'n meddu ar ddimensiwn ysbrydol – â dyrchafu'r realaidd a'r plaen syml a'r didwyll i'r cyd-destun hwnnw sy'n gallu dwyn dyfnder celfyddydol a dynol. Mae a wnelo â difrifoldeb calon werthusol llenyddiaeth. Dyma un o'r canllawiau triw celfyddydol a dynol. Dyma ran hefyd o'r cyfarwyddyd diogel sydd gennym wrth ymateb i 'fawredd' llenyddol. Dyma, gredaf i, yw un o'r canllawiau dilysaf wrth ymateb i ganeuon 'Gobeithlu' Waldo.

Gwell imi ddweud pa rai yw'r rheina. Ymhlith y deg neu ddwsin, dyma'r *pedair* goleuaf o ran deallusrwydd esthetig: 'Ar Weun Cas Mael', 'Yn y tŷ', 'Eirlyisiau', ac 'Adnabod'. Defnyddiaf y term 'Gobaith' yn fwriadol. Gobeithlu cytûn oedd y rhain. Ac yr wyf yn ymwybodol fy mod yn cerdded ar dir dwys. Cerddi moeswersol oeddent, i raddau, ond moesol yn bennaf. O leiaf, cyn belled ag yr oeddent yn 'foeswersol', ymwnaent ag egwyddorion da a hoffus. Cerddi oeddent yr ych yn debyg o gytuno â hwy. O ran eu 'moes', cadarn berthnasol a hunanfeirniadol oeddent. Ond yr oedd yna fwy. Saif y pedair yna mwyach yn ddiogel.

Wedyn, gellid enwi pump arall o rai llai boddhaol, neu o leiaf cerddi gobaith y mae rhai ohonynt yn llai caboledig na'r pedair gorau: 'Plentyn y Ddaear', 'Brawdoliaeth', 'Y Tangnefeddwyr', 'Cyrraedd yn Ôl', ac 'Eu Cyfrinach'. Daeth rhai o'r rhain yn ollyngdod rhy 'obeithiol' ar ddiwedd y rhyfel, er bod rhai wedi'u sgrifennu ym mherfedd yr helyntion. Hynny yw, i ddarllenydd mewn oed, o'r Rhyfel Byd Cyntaf ymlaen, gellid synied mai cerddi oedd y rhain a allai fod mewn ambell gwmmi beirniadol profiadol yn embaras. Gallai eu daioni ymddangos yn faen tramgwydd am eu bod mor 'amlwg', a'u sentimentau'n rhy rwydd. Llethid hwy gan boblogeiddiwch llyfn. Ai dyna (onid e?) 'radicaliaeth' ry barod y rhyddfrydwr diwinyddol dyneiddiol a'r efengyl-gymdeithasol?

Neu ai felly ydynt bellach? Onid mynd atynt yr ym yn rhy seciwlar, yn rhy ddyneiddiol ryddfrydol? Tybed a yw'r olygfan, y cywair, yr ymddaliad personol yn ymyrryd â gwir werthfawrogiad o rywbeth dyfnach? Sut mae eu darllen?

Cefais i, o leiaf, droad go bendant yn fymddaliad personol fy hun wrth eu myfyrio. Ac yr wyf o'r herwydd wedi newid cryn dipyn mewn mwynhad wrth nesu atynt. A gaf rannu fy newid barn â'r darllenydd? Ailfyfyrio uwchben ymlediad dylanwad ystyrol 'Mewn Dau Gae' a wneuthum. Sylweddoli arwyddocâd presenoldeb y gerdd

honno yn fy ngolwg fy hun *drwy gydol cyfanwaith* Waldo, dyna a barodd yr ymddiwygio hwn. Ni allwn lai na chanfod yn gyson berthynas 'galed' y gerdd honno o fewn fframwaith cyflawn ei '*oeuvre*'. Sylweddolais yn ddwysach hefyd arwyddocâd y gerdd honno yng nghyd-destun carchariad Waldo. Hynny yw, wrth chwilio 'ystyr' y gerdd honno'n llawnach, ymehangai hi yn sgil fy ymwneud â'r cerddi eraill, ac yn wir daeth yn rhan o'u holl brofiad hwy. O lwnc 'Mewn Dau Gae' y lleferir ei gerddi gobaith bellach.

Mae hyn yn angrheidiol am fod â wnelom yn ei undod â bardd mawr iawn. Ni thâl inni fod yn ysgafn ddihidio ynghylch dim o'i waith na'i fodolaeth. Ysgrifennodd gnwd ('helaeth' yn fy marn i) o gerddi diogel sylweddol a gwefreiddiol ysblennydd. Ni waeth i mi eu henwi eto er mwyn rhoi cerddi cadarnaf y Gobeithlu yn y cyd-destun llawn: 'Mewn Dau Gae', 'Preseli', 'Yr Eiliad', 'Wedi'r Canrifoedd Mudan', 'Cymru a Chymraeg', 'Geneth Ifanc', 'Oherwydd ein Dyfod', 'Tri Bardd a Sais a Lloegr', 'Nid oes yng ngwreiddyn Bod', 'Hi fu fy nyth, hi fu fy nef', 'Y Dderwen Gam' ac 'O Bridd'. Mae parch cynyddol at y rhain, ac ymwybod cynyddol o'u presenoldeb yn sicr o sobri pob ysgafnder ynghylch pethau eraill a all ymddangos ychydig yn emosiynol lac. Dyma ddwsin o gampweithiau. Ond o'u cylch fe geir helpa bellach o ganeuon cywrain prydferth eraill – megis 'Llandysilio-yn-Nyfed' er enghraifft. Y rhain sy'n cynnal y Gobeithlu.

Cyd-destun cyweiriol arall i brofi ac i farnu'r llacrydd emosiynol peryglus yw'r chwe cân 'hyll' a mellithiol gan yr ymwybod a wynebwyd o ystyried ffeidd-dra yn 'Y Plant Marw', 'O Bridd', 'Gwanwyn', 'Diwedd Bro', 'Yr Hwrdd' a 'Cân Bom'. Dyma garfan gadarn y lled Anobeithlu.

Yn nannedd y goleuni neilltuedig hwnnw y pendronaf o'r newydd uwchben 'Gobeithlu Waldo', a chanfod ei *oeuvre* rywsut yn groyw, yn un dilyniant cyfan. Gorymdeithia'r Gobeithlu felly ar hyd y stryd yn un gerdd hir gyda 'Mewn Dau Gae' ar y blaen yn chwifio'r faner, ynghyd â'r Anobeithlu neu'r lled-Anobeithlu o'u deutu yn cadarnhau'r ymylon. Milwyr yr ymylon ydynt, o ddewis, yn seindorf baradocsaid. Milwyr bach Iesu Grist, i gyd mewn amgylchfyd goruwchnaturiol.

'A'n henfoes yn wahanfur – lle bu rhwyll

Bydd cynnull ein pwyll, bydd cynllunio pur.'

(Bydd Ateb')

Y PLENTYN

Pam, ymhlith gweithiau Waldo Williams, y dylid cysylltu 'Mewn Dau Gae' â'r Gobeithlu (sef ei gerddi uniongyrchol foesol)?

Oherwydd mai adlewyrchu profiad yn bennaf, yn hytrach na thraethu gwers, y mae'r Gobeithlu. A thardda calon y profiad hwnnw oll yn y dröedigaeth a gafwyd Mewn Dau Gae. Ar ryw olwg, dathlu'r dröedigaeth honno a wnaent – ei harchwilio, manylu arni, ei datblygu. Allan o'r Ddau Gae a thros iet Parc y Blawd y dawnsient oll. Ac allan y dawnsient i ddiolch (yn bennaf) ac i obeithio am fywyd, yn hytrach nag i broseltyio.

Credaf fod Waldo yn mynegi mewn 'Mewn Dau Gae' atgof o brofiad a gafodd yn llanc ifanc; ac fe ddisgrifiwn innau'r profiad hwnnw fel 'profiad carismatig' a 'thröedigaeth'. Câl Waldo o bryd i'w gilydd freuddwydion arwyddocaol, a phrofa'i ambell waith 'weledigaethau' diriaethol prin sy'n gyfarwydd ddigon i gyfrinwyr. Dyna pam y'i cyfrifaf yn garismataidd. A dyna sut yr ysgogwyd y Gobeithlu.

Credaf y bydd Duw'n ymwneud â phobun yn wahanol. Cyffyrddodd ag ysbryd Waldo mewn modd personol byw yn y weledigaeth ddiriaethol o berthynas dyn a dyn. Ond yr oedd Duw yn ganolog ynddi: y Brenin Alltud. Nid dyneiddiaeth seciwlar oedd hyn, eithr delwedd Gristnogol o berthynas Dduw-ganolog. Nid cyd-ddyn yn unig oedd cyd-ddyn, eithr cyd-ddelw o Dduw. Bu Hwn yn alltud i Waldo ynghynt, ond aethai'n ddieithr hefyd yn yr Oes bentigili. Aethai Ef yn amherson. Ciliodd Hwn o'r capeli, o rai capeli yn weddol benderfynol. A disgrifiwyd sut y digwyddodd hyn yn y rhagymadrodd i gyfrol R.Tudur Jones, *Yr Ysbryd Glân*, y llyfr bach gorau a mwyaf gonest ar y bywyd Cristnogol a gyhoeddwyd yn y Gymraeg yn yr ugeinfed ganrif.

Profodd Waldo ddychweliad awdurdod a chariad gogoniant y Brenin Alltud. Ac yng nghalon Waldo, beth bynnag oedd y rhwystrau diwinyddol, holltodd y brwyn. Craciwyd ei gydwybod gan ddeffro'r hadau, a bwrw allan yr enedigaeth newydd. Darostyngwyd y bardd, a'i ddyrchafu. Mwyhawyd bywyd.

Mae'n wir fod hyn oll wedi digwydd mewn cyfnod o alltudiaeth o ran y Brenin. Eisoës, ynghynt yn chwarter cyntaf yr ugeinfed ganrif, yr oedd y dirywiad wedi hen wreiddio yn y meddwl crefyddol, difa'r difrifoldeb ysbrydol a pharodrwydd ein capelwyr i ymostwng gyda dwylo gwag. 'Roedd yr ymwybod Cristnogol â difrifwch y Beibl oll

wedi cilio. Amgylchwyd pawb yn y cyfnod gan efengyl ddyn-ganolog. Tenau iawn oedd y ddealltwriaeth o ddiwinyddiaeth Bawlinaidd-Awstinaidd-Galfinaidd. Pan geid 'profiadau', ni ddisgwylid ystyr ddeallol nac athrawiaethol. 'Ymdeimlad' oedd y peth, a arweiniai at weithredoedd dyngarol noeth, a rhagdybiau dyn-ganolog noeth. Nid Penarglwyddiaeth ymarferol.

Yn 'Mewn Dau Gae', sut bynnag, cawn ruddin o ansawdd pur wahanol i'r hyn a ganfyddem ninnau, yn grytiau dyngarol yn hanner cyntaf canrif ddyn-ddyrchafol Hitleraidd. Nid yn unig yr oedd yna haearn yno – saethwr yn wir, heliwr. Hwn, y dwyfol, a oedd yn sefyll ac yn cynnwys ynghanol y rhwysg a'r rhemp, drwy oesoedd y gwaed ar y gwellt. Roedd yna oleuni yno; 'a thrwy'r goleuni y galar'. Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru. Yr oedd hefyd wedi'i ddiriaethu mewn person – 'Twyllwr pob traha.' Canu rhyfel personol oedd hyn, fel llawer o ganu Waldo.

Wrth drafod y profiad hwn, rhagorai Waldo'r Bardd ar Waldo'r Beirniad.

'Diau y daw'r dirhau.' Awen!

Adnabu Waldo'r galar ymarferol. Dyma ddatguddiad awdurdodol iddo.

Pe gellid esgusodi sylw personol gan gyfaill iddo, fe ddwedwn hyn am yr hyn a ddaeth yn fyw iawn i mi adeg ei garchariadau. Ar y pryd bûm yn trafod dipyn ar hyd ac ar led gydag ef ynghylch ei fwriadau. Ystyr 'trafod' oedd gwrando arno, gan mwyaf. Gwelwn, hyd yn oed *pe* dymunwn ei ddarbwyllio i beidio â chwalu'i fywyd (a 'doedd dim dymuniad felly gen i), na byddai dim wedi tycio o gwbl. Nid credu safbwynt yr oedd ef. Dyn wedi'i feddiannu oedd, gan benderfynolrwydd. Yn *Cyfriniaeth Gymraeg* ceisiais sôn am ei brofiad 'caeedig'. Nid dyn 'rhyddfrydig', penagored, chwiwus ei opiniynau mohono. Dyn cwbl gaeth i'w weledigaeth oedd, a'i unplygrwydd. Ar ôl canfod y llwybr hwn, ei ddilyn doed a ddelo gyda mwynder a wnâi, hyd yn oed gyda digrifwch a chyda rhadlonrwydd caredig, ond yn haearnaidd ddiwyro. Cydwybod a reola'r fath sefyllfa.

Carwn danlinellu un nodwedd ganolog iawn a brofw'n yn gyntaf yn 'Mewn Dau Gae', ac yr hoffwn ei chario wedyn drosodd i'r sôn am gerddi'r Gobaith. Sef yr uniongyrchedd brawychus o ddiniwed. Gwiw cofio fod uniongyrchedd yn anffasiynol ar y pryd. Rhaid imi gyfaddef na ddeallwn, am dymor cyn hynny, raddau'r unplygrwydd hwn, oherwydd fy nhrwytho ar y pryd gan fy magwraeth yng nghoegi a lluosedd rhyddfrydig a 'chwalfa-ymrwymiad' y cyfnod. Erbyn fy nghyfarfodydd pythefnosol â

Waldo ym 1957-58 (ac wedyn), yr oeddwn innau yn adweithio fy hun yn erbyn yr adwaith hwnnw, ac o blaid rhyw fath o unplygrwydd deallol. 'Roedd fy ngreddfau a'm Cristnogaeth wedi dechrau ymwared yn chwydlyd â relativrwydd, ac nid yn gymaint ag ansicrwydd ag â dogma ansicrwydd. Wrth ddarllen 'Mewn Dau Gae', fe ges fy rhwymo'n dynn o'r newydd, nid yn gymaint mewn heddychiaeth flinedig a brawdgarwch ystrydebol – yr oedd hynny'n gyfarwydd ynghynt yn fy rhyddfrydiaeth gonfensiynol – ond mewn ymwrthodiad â gormes annidwylledd anghrediniaeth rigolog ddyn-rigolog, ac mewn gwrthryfel yn erbyn y rheidrwydd i wamalu.

Hyn, i mi, oedd 'diniweidrwydd' Waldo. Symledd calon, anoddefgar tuag ato ef ei hun.

Dyma hefyd, yn fy marn i, oedd rhan o ergyd yr hyn a ddatganai'r Arglwydd Iesu Grist pan soniai fod rhaid inni fod megis plant.

Felly, ar hyd y blynyddoedd wedyn, awn yn ôl yn gyson at Obeithlu unplyg Waldo, tan gerdded drwy'r Ddau Gae, a rhyfeddu'n fwyfwy elfennaidd, yn ddidwyll agored at yr hyn a ddywedai ef, y plentyn llygadagored. Awn o hyd at ryw linellau yn ei gerddi fel y rhai a ganlyn, ac ymateb iddynt nid yn y dull henffasiwn sentimental efallai a gysylltir â'r hen ryddfrydwyr diwinyddol a seciwlâr, ac nid yn null hiraethus 'Cofio', ond gydag ymdeimlad â'r glendid llosg uwchnaturiol a geid yno, glendid syfrdan awdurdodol a oedd eisoes wedi bod o fewn hagrwach a budreddi'r tywyllwch, a thrwy'r goleuni y galar. Glendid croyw y Ddau Gae. 'Roedd hyn yn bosibl, a hyn i mi oedd chwyldro thematig mawr canol yr ugeinfed ganrif yng Nghymru nas deallwyd at ei gilydd gan y genhedlaeth wedyn a chynt (cenhedlaeth a arhosai'n rhy gysurus dan ddyllanwad trendi gwledydd eraill). Hyn oedd alltudio'r coegi dogmatig.

*Cilia, ddydd a'r glesni glanaf,
Dychwel, eglurhâ, O hwyr!
Awyr denau, tyrd amdanaf,
Rho i'r nos ei sicrwydd llwyr.*

'Roedd ambell feirniad soffistigedig, a barchwn bid siŵr, yn dal i wrthymateb, fel y gwnawn innau a'm cenhedlaeth ynghynt, yn erbyn yr uniongyrchol diniwed, gorobeithiol, eglur a sicr hwn. Nid fel yna yr oedd y byd mawr, 'doedd bosib. Ond llwyddasai Waldo yn ei waith rywfodd i'm darbwylllo i ac eraill – oherwydd ei gyddestun o hagrwach ac o syfrdandod datguddiad – fod y byd mawr ar gael ac ynghudd yn

yr union le hwn, o ganfod ei ffeidd-dra, ac o dderbyn sydynrwydd y goleuo uwchnaturiol. Gellid dychwelyd, felly, at ei Obeithlu gan deimlo rhyw fath o fuddugoliaeth weld a roddwyd i ni ganddo ef i raddau helaeth, dros ymhongarwch y lluoedd ôl-fodern, a hyd yn oed dros yr efengyl gymdeithasol lac o ryddfrydol. Esgus oedd yr ansicrwydd, yn fynych iawn. 'Roedd ei ddatganiadau croyw gadarnhaol a syml yn golygu rhywbeth posibl cyfoes o fewn cyd-destun eglurhaol cyflawn hwn.

Cafodd amgylchfyd y Gobeithlu prydyddol eu gwir gywair gan ryfeddod y Ddau Gae. Waldo, i raddau, oedd y Tywysog Myshgin yn nofel Dostoiefsci *Yr Ynfytn*. Nid traethu neges a wnâi, ond yngan datguddiad. Diniweidrwydd cyffes oedd ei eiddo, nid perswâd naïf. A châi ei wreiddiau ym mudiad tabw yr emynwyr.

Dyma, o leiaf i mi, ffordd helpfawr i mewn i'r cerddi 'moeswersol' – ar hyd llwybr y Ddau Gae. Ffordd arall a geir yw drwy wrando ar gatecism 'Pa Beth Yw Dyn?' 'Rhodd Plentyn' yw hyn sy'n holi'r Fam. Eto, nid atebion yr oedolyn prenaidd ystrydebol a glywir gan y Fam, ond atebion ar gyfer gwryfydod annisgwyl y plentyn o weledydd:

*Beth yw byw? Cael neuadd fawr
Rhwng cyfyng furiau.
Beth yw adnabod? Cael un gwraidd
Dan y canghennau.*

Mae'n gyd-destun rhyfedd. Ond dyma'r cywair i ddeall y gobraith gwryfol o anghysurus mewn llawer o'r cerddi eraill. Sut y gellir derbyn, gan fardd difrif a digrif, yn ddigoegei, ddatganiad megis a ganlyn i Gymru ar ôl diwedd naïf amheuon y bedwaredd ganrif ar bymtheg? Teimlwn fy mod yn cael fy ngolchi. –

*Yn dy erwinder hardd dy hun
Deffroit gymwynas dyn â dyn,
Gwnait eu cymdeithas yn gytûn –
A'th nerth o'u cefn.*

Neu:

*Ni châi enllib, ni châi llaid
Roddi troed o fewn i'w tre.
Chwiliai 'mam am air o blaid
Pechaduriaid mwya'r lle.
Gwyn eu byd tu hwnt i glyw,
Tangnefeddwyr, plant i Dduw.*

Dichon i'r fath symlder plwmp a diniweidrwydd plaen beri embaras aruthr i chwaeth soffistigedig, rhigolog goeg. Ond y tebyg yw bod hynny'n dweud bod rhywbeth

o'i le ar chwaeth darllenwyr ar y pryd yn hytrach nag ar chwaeth Waldo. Mae'n rhan ganolog o'i her ecsentrig. I ddeall rhannau Waldo, rhaid wynebu'i gyfanrwydd

Cafwyd canrif o dwf mewn ymwybod seicoleg, mae'n wir, gyda pherswâd i fod yn amheus o 'brofiad'. Collwyd rhagdybiau rhwydd ynghylch Cynnydd. Aeth y 'llam' (i dderbyn y fath gywair ymddangosiadol Sioraidd a llyfn yn ôl rhan gynta'r ugeinfed ganrif) i darlennydd profiadol bellach, yn fwyfwy o gamp. Teimlid gan eraill mwyach y math hwn o 'lyfnder' yn ferfaidd, a'r urddas yn stiltiog. Rhaid bod yn weddol hygoelus ddibrofiad mewn llenyddiaeth i fethu â chanfod gwendidau ieithwedd y cyn-fodernwyr. Ac eto arhosai Waldo yn wir sialens, am mai ef oedd y plentyn ymhlith y Modernwyr.

Defnyddiais yr ymadrodd 'seicoleg ymwybodol'. Ar ôl 1938 gwyddai Waldo beth yr oedd yn ei wneud. Canu cred yr oedd ynghynt mewn byd gormesol o anghrediniol. Cyn hynny bu'r Sioriaid yn rhy drwm eu dylanwad arno. Cofio yr oedd eu hiraeth. Ni allai eu beirniadu oherwydd hynny. Llyncai hwy i raddau fel pe bai'r Rhamantiaeth hiraethus odlog yn mynd i bara am byth. Ymddygai'n ddibrofiad. Wedi hynny y daeth ieithwedd, testun, hunanfeirniadaeth, y parodrwydd i fyfyrion, y cwbl o'r chwyldro Modernaidd, a Waldoaeth ei hun yn rhan ohono, heb fod yn unbennaeth arno. Daeth allan o fethiant y beirniaid seciwlar i ddarllen emynau. Beth a'i diogelodd ynghanol y rhemp?

Ef bob amser, yn anfwriadus, oedd y plentyn yn siarad, yr unig blentyn mewn oed ers Lewys Glyn Cothi ymhlith beirdd mawr Cymru. Nid amhriodol wrth sôn am loywerd plentyn Cerddi'r Gobeithlu, yw eu cysylltu â *Cerddi'r Plant* swyddogol Waldo. Ni allai Saunders, Gwenallt nac Euros fod wedi gwneud dim tebyg i'r rhain. Gellid ymholi sut y gellir cytuno mai cerddi deallol gymhlethog Waldo yw priod gwmpeini'r rheina. Ond ceisio dadlau yr wyf mai gwir y galon seml yw craidd y rheina hefyd. Ac nid dwy ran gwbl amddifad o'i gilydd yw'r cerddi plentyndod a gafwyd yn y gyfrol ar wahân (na'r cerddi plentyndod chwaith a geid yn *Dail Pren*) a'r cerddi oedolyn sylweddol. Mae yna linydd aur rhyngddynt, sef Waldo'r plentyn bychan. Dyrchafai ef y plentynrwydd hwnnw'n rhinwedd aruchel. Fe'i ceid yn ei gerddi gorau. Ni cheid barddoniaeth odidog yn *Cerddi'r Plant*, mae'n wir; ac ni ddylid gwneud gormod ohonynt efallai. Ond ceir Waldo yno yn sicr. Ceir hefyd wedd neu estyniad ar ei weledigaeth ganolog o fywyd. Nid yw'n anghywir cydnabod llawer o'r rhin mewn rhai o'i gerddi dyfnaf a phwysicaf yn estyniad cysylltiedig cadarn ac yn gyd-destun priodol i'r cerddi ysgol feithrin a'r ysgol gynradd

gynnar hyn. Unitas simplicitatis. Mae hyn yn fwy na rhychwant yn awen Waldo: mae'n wedd ar ei undod.

Cymerer 'Y Llusern Hud':

*Gadewch inni chwarae 'Llusern Hud',
Rho'r gannwyll i Deio i'w dala,
Pletha dy ddau fys bawd ynghyd
A dyna lun pili-pala ...
O, mae'r wydd yn rhy anodd i fi,
Ond dyma lun Preseli.
'Olreit,' meddai Mam, 'dyna ddigon o sbri,
Sut mae llun y gwely?'*

Mewn caneuon bach eraill, 'Dynion sy'n galw', 'Blodyn a Ffrwyth', 'Pitrán-patran', 'Pyslo', 'Enwau', 'Clatsh y Cŵn', clywir yr un rhin unigryw a'r ddawn unol hon drachefn.

Felly hefyd, yn y fwyaf cyffrous efallai o'i gerddi, sef 'Cwmwl Haf', y cawn

*Sŵn adeiladu daear newydd a nefoedd newydd
Ar lawr y gegin oedd clocs mam i mi.*

Rhaid bod yn ofalus wrth ddadlau'n arwynebol fod Moderniaeth i gyd yn ffenomen orgymhleth. Er mor gymhleth yr ymddengys swrealiaeth yn ei Mynegiant i'r sawl a chwilia am ystyr syniadol, ar y pryd yr oedd y swrealwyr eu hunain yn awyddus iawn i feddiannu rhyw fath o naifder croyw cyntefig. Nid yn Waldo yn unig y ceid y llinyn cyswllt hwn rhwng clocs mam a *Cerddi'r Plant*. Yn Saesneg yn y 30au, – fel gyda Parry-Williams yn y Gymraeg, – caed beirdd fel Eliot, Frost a MacNeice yn gwneud yn fawr o'r 'dôn naturiol' elfennaidd. Ymhoffai Moderniaeth yn fynych yn y llafar a'r cywair anffurfiol, nad oedd yn gwbl anghysylltiedig â lleferydd y plentyn. I Frost yr oedd y symudiadau plaen yn y llais yn dilyn tonnau yr oedd y bardd yn gallu nofio arnynt.

Felly, yn achos Waldo, yr oedd ef yn barod iawn i ganiatáu mynediad i gynteddoedd parchusaf *Dail Pren* i'r plentyn o rediad hwn:

*Pa eisiau dim hapusach
Na byd yr aderyn bach?
Byd o hedfan a chanu
A hwylio toc i gael tŷ.*

Hyd yn oed yng nghyfnod yr adwaith gwrth-Sioraidd wedyn, daliai Waldo yn hanfodol i ddiogelu'r hawl hon – symlder noeth – hawl y plentyn i fod yn blentyn yng nghanol storm. Erys symlder, felly, i'r Modernydd trymaf, yn fraint, ac yn wraidd yn ei gynhysgaeth. Ni raid ei ofni, mwy nag y dylid ofni cymhlethwydd.

CYFRINIAETH WALDO

Hen fusnes annifyr efallai yw anghytuno ynghylch dehongliad cerdd, fel y bu'n rhaid ei wneud wrth drafod 'O Bridd'. Mi fyddai'n hylaw ac yn hynaws iawn pe baem, medden nhw, wrth ddarllen cerdd gan Waldo, yn cytuno oll ac un mai 'hyn' a 'hyn yn unig' yw'r ystyr. Rhyfedd, onid e, fod cerddi fel pobl, fel bywyd yn wir, yn mynnu bod braidd yn amlochrog weithiau.

Un awgrym a oedd yn waeth na chymhlethdod oedd y cysyniad a ddaeth yn fwyfwy amlwg yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif fod 'annibyniaeth' gan y gerdd ar yr awdur. Dyma'r syniad bod gan y gerdd ei hun fywyd ohoni'i hun; bywyd sydd, ar ôl i'r bardd ei gorffen, yn annibynnol bellach ar y bardd, ac yntau bellach wedi troi'n feirniad.

Awgrymais i'r flwyddyn 1946 'ddatroi' hunanlywodraeth y gwaith llenyddol, hynny yw, ei ryddid tybiedig oddi wrth yr awdur. Dadl ryfedd fu hon, a barhaodd eisoes o'r dauddegau ymlaen hyd y nawdegau ymhlith y 'Beirniaid Newydd', nes i'r Ôl-fodernwyr ddod i roi'u tro bach hwythau i'r thema.

Er mai gwireb eithaf cyffredin bellach ymhlith beirniaid yw 'annibyniaeth' y gerdd, ac er y gall y gerdd fynd i gyfeiriad gwahanol ac yn groes i feirniad neu ddymuniad y bardd, eto ar ambell nos galan gaeaf yn unigeddau mwyaf diarffordd Pumlumon, ym mryd ambell hen wŷr uwch ei bibell, nid yw'r cysyniad hwnnw'n gyfan gwbl dderbyniol. Ymhlith nofelwyr hefyd nid yw'n taro mor chwithig. Bydd nofelydd wrth lunio'i stori yn creu cymeriad. Gall hwnnw gasglu bloneg. Mae'n datblygu'i blorynnod ei hun. Ac wele, fe sylweddola'r awdur na all y cymeriad hwnnw bellach ymddwyn yn gyfan gwbl yn ôl bwriadau cychwynnol yr awdur. Naill ai y myn wneud rhywbeth 'nodweddiadol', neu y myn ddilyn ei lwybr ei hun. Ac os yw'r nofelydd yn gall, caiff y cymeriad rwydd hynt – o leiaf mae ei ddewis yn cael ei barchu.

Tybiaf, bid siŵr, fod Awen Waldo weithiau yn cydio yn ei war ac yn ei arwain i borfeydd dieithr ac anhygyrch.

Mae'r Ôl-fodernwyr, wrth gwrs, wedi gwneud dogma o luosedd. Maent wedi pwysleisio amllder ffrwythlon deongliadau, peth a gymeradwywn innau mewn Mynegiant, o leiaf. Eto, fe awn, hefyd yr un pryd i'r cyfeiriad gwrthwyneb. O ran meddwl a deall ac iaith, yn ogystal â chanfod gwahaniaethau, 'does fawr o ddyfodol heb yr un

pryd gydnabod undodau o fath: sef Tafod yn gyntaf. Ac y mae hyn yn ein harwain yn ôl at un ystyriaeth ogleisiol arall yng ngwaith Waldo.

'Un' oedd hoff air Waldo. Ac yntau'n byw mewn amgylchfyd deallol lle yr oedd chwalfa meddwl a relativrwydd yn obsesiynol – ysbrydoliaeth brennaidd yr ugeinfed ganrif – Undod oedd yr hyn yr hiraethai ef amdano. Bid siŵr, nid 'un' oedd y gair uchaf ei amledd na'i amrediad yn ei waith. Ond dyma'r gair a goleddai ef gyda mwyaf o ymddiriedaeth ac o angerdd. Dyma'r gair, bob tro y'i defnyddiai, y teimlech ei fod yn ei anwylo ac yn ei barchu fwyaf. 'Ynof mae Cymru'n un'. Yr oedd 'un' yn air llywiol.

Mae'r gair 'un' gan Waldo yn ddiau yn ymgysylltu â'r *unio mystica*: undeb cyfriniol. A phriodol inni ystyried beth yw ystyr hynny yn ei waith ef. Ai pawb yn ffrindiau gyda'i gilydd yn hapus braf yw? A yw'n fwy na serch rhwng pobl a'i gilydd dan lwyth o heddwch?

Mae yna berygl, wrth i'r capeli gau fesul dwsin ac ar ôl i'r gweinidogion a giliodd (drwy drugaredd) i feysydd cysurus y BBC bellach ymddeol fesul un, i ni sydd ar ôl, ar y cyrion, anghofio peth o natur y rhyddfrydiaeth ddiwinyddol a oedd yn rhemp yn ystod plentyndod Waldo ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. 'Does dim dwywaith nad oedd y ddyneiddiaeth a fu'n ormes o optimistiaeth drwy bob amgylchiadau, cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, braidd yn besimistaidd wedyn. Tarddai gobeithlu Waldo o'r cyd-destun cyn y rhyfel, a'i anobeithlu o'r cyd-destun wedyn.

Cysylltid y gair 'un' gan Waldo, bron yn ddieithriad, â brawdgarwch. O'r triawd Ffrengig enwog, mae 'brawdgarwch' yn gallach gair heddiw na 'rhyddid' na 'chydardoldeb'. Gŵyr pawb a gafodd fagwraeth rywbyrd ac a etifeddodd god DNA, – neu o leiaf bawb a ŵyr am bechu'n feddyliol beunydd, ac am farw ambell ddiwrnod arall yn nes ymlaen, – nad rhwydd iawn yw bod yn rhydd. A sut bynnag, yn ein dyddiau goleuedig ni, cael ein ffordd ein hun ar draul pobl eraill yw manylder ystyr rhyddid i rywrai: *liberté*. Am gydraddoldeb yntau, *égalité*, bydd yn air tra derbyniol ryw ddiwrnod, mae'n siŵr, cyn gynted ag y bydd ein galluoedd mathemategol ac emosiynol, masnachol a chyhyrol, a'n tueddiadau at ddiogi wedi esblygu'n union gyfartal. Mi wasanaetha'r ddau air tra Ffrengig hyn yn frenhinol mewn gwleidyddiaeth o'r fath erbyn y mileniwm nesaf pryd y bydd Marcsaeth ei hun o'r diwedd yn gweithio, yn ddiau.

Tan hynny, fan hyn yn ôl posibilrwydd mwy llwyd a gwelw, bydd yn rhaid bodloni ar sôn yn Gymreig syrthiedig am 'frawdgarwch' o fath; *fraternité*; ac yn llai Cymreig byth efallai am 'un'.

Cydweithio yw ystyr 'heddwch' i Waldo: nid segura, ond gwneud rhywbeth ar y cyd. Undod a brawdgarwch yw themâu dwy gerdd fwyaf Waldo, 'Wedi'r Canrifoedd Mudan' (ei gerdd fwyaf celfydd) ac 'Mewn Dau Gae' (ei gerdd fwyaf ysbrydoledig). Ysgytwad gweledigaeth garismatig, a thröedigaeth ddyneiddiol gwbl anghyffredin, ddwedwn i, a brofodd ef ar Weun Parc y Blawd a Parc y Blawd. Nid ystyried dynoliaeth yn dawel ddeallol, na hyd yn oed cynhesu'n serchiadol at bobl eraill, a wnâi yn y cerddi hyn. Nid dyma wreiddyn sylweddoli perthynas greiddiol pobl a'i gilydd, ond gweld diriaethol wrthrychol –

*Nes dyfod o'r hollfyd weithiau i'r tawelwch
Ac ar y ddau barc fe gerddai ei bobl,
A thrwyddynt, rhyngddynt, amdanynt ymdaenai
Awen yn codi o'r cudd, yn cydio'r cwbl.*

Nid athrawiaeth oedd hyn, ond profiad. Nid delfryd, ond bodolaeth ymarferol. Digwyddodd hyn. A hyn a liwai fywyd Waldo byth wedyn.

Felly, pan anesmwythwn ninnau am gerddi'r 'Gobeithlu', dyma'r cyd-destun gwrthrychol. Cyd-destun plant a'r llygad union yw.

Drachefn, pan fyfyriwn gydag ef mai 'Un yw craidd cred' a bod 'Eneidiau yn un â'r rhuddin yng ngwreiddyn Bod', cofier mai'r hyn sy'n ganolog ac yn llythrennol allweddol i'r gwybod hwn yw:

*Maent yn un â'r goleuni. Maent uwch fy mhen
Lle'r ymgasgl, trwy'r ehangder, hedd. Pan noso'r
wybren
Mae pob un yn rhwyll i'm llygad yn y llen.*

Hynny yw, y mae pethau'n digwydd iddo ef, Waldo, megis i William Blake o'i flaen, – un arall tebyg, a oedd yn unigolyddol, ac a sgrifennai i blant o oedolion.

Oherwydd y gweledigaethau a'r breuddwydion a gâi, a'r lleisiau a glywai, magodd obsesiwn ynghylch brawdgarwch. Ein hanhawster ni yw methu â chredu bod dyn yn medru rhoi'i fryd i'r fath eithafion ar ymddiried yn ei gyd-ddyn, plygu i'w gyd-ddyn, ymhyfrydu ynddo. Ond 'dwi'n credu bod Waldo'n argyhoeddedig y dylai'r berthynas gariadus rhwng dyn a dyn fod yn obsesiwn. Gelwir felly ganddo am eithafiaeth.

Mentra o'r herwydd ganu am 'Frawdoliaeth' mewn modd syfrdanol o henffasiwn, ac eto, gan estyn sylweddoliad Büber.

*Mae rhwydwaith dirgel Duw
Yn cydio pob dyn byw;
Cymod a chyflawn we,
Myfi, Tydi, Efe.*

Nid oedd Saunders Lewis, dybiaf i, yn teimlo'n aruthrol o amyneddgar tuag at y dosbarth hwn o gerddi. Condemniodd 'Y Tangnefeddwyr'. Ni hoffai lacrwydd y miwsig nac ystrydebaeth ymadrodd megis 'plant i Dduw'. A gallwn addef yn llaes efallai fod yna beth henffasiynrwydd annisgwyl ac anghysurus yn y cerddi hyn.

Ond caniatéwch gymhariaeth. 'Dwi'n cofio fy nghyfaill T.Glynne Davies yn dweud wrthyf un tro, tan wenu'n goeg, ei fod ef wedi mynnu lled barodio y cerddi Fictoriaidd a sgrifennid o dan lun taid neu nain, neu ar sampler weithiau, er mwyn rhithio ffordd o fyw dydd a fu. Felly y cynhyrchid nid yn unig 'Marwnad (yn arddull taid)' i William Robaits, eithr hefyd y gân wych er cof am Dwm o Gapelulo, a'r gân yr un mor wych am Fargiad Elin.

Mentraf ddweud bod caneuon moeseglyd Waldo, ac yn wir llawer o ganu am gymdogaeth hefyd, megis yn 'Preseli', yn gofnod nid hollol anghyffelyb o ffordd o fyw, yn gerddi a oedd yn fwy na choffa, coffa delfryd dyfodol oeddent. Rhithient, yn gyfrwys, orffennol neu'n hytrach dragwyddoldeb bygythiol. Gorffennol oedd hefyd o weithwyr gobeithiol. Rhithient gymdeithas. Pantycelyn wedi cyfarfod â Hiroshima oedd Waldo.

Dyma sut y canai'n weledigaethus ryfeddol yn 'Llandysilio-yn-Nyfed' am 'ieuo'r byd yn *un*', ac yn 'Eneidfawr':

*Gan gredu os **un** yw Duw, **un** ydyw dynion hefyd.*

Ac yn 'Adnabod' am 'hen gyfrannwr ...' yn dod 'i'n hachub ynghyd'. 'Ti yw'r un gell dragwyddol', meddai. 'Does dim syndod y gallai sôn o ddifri am 'Gymru'n un'; ac wrth ganu'r soned honno, ymffrostiai fel y clywsom eisoes 'Ynof mae Cymru'n un'.

Cofiwn un o'r cwynion enwog a oedd gan Saunders ynghylch y gerdd 'Y Tangnefeddwyr': 'Fe ddylid ein gwahardd ni, bob un sy'n ceisio canu yn Gymraeg, rhag defnyddio'r enw Duw mewn cân, o leiaf hyd at derfyn y ganrif hon. Ar ôl hynny, os bydd ar ôl hynny, fe fydd i'r enw ddieithrwch od. Ond i ni oll o genhedlaeth Waldo bu'r enw yn demtasiwn gyson i ddelweddu hawdd.' Wel, fe ddaeth terfyn ar y ganrif honno o'r diwedd

drwy drugaredd. Ac aeth enw Duw yn gyfarwydd ddieithr yng Nghymru. Ond fy nabl i yw bod y gair 'Duw' yng ngwaith Waldo yn gorfod cael ei ddarllen yn gyntaf, fel y'i gwnâi Blake, o fewn cyd-destun unigolyddol a rhyfedd o weledigaethrwydd; ac yn ail, mai Duw a gyrhaeddid yn ddealladwy drwy fodd dyneiddiol yw'r Duw Beiblaidd hwnnw.

Yn ei *Church Dogmatics* I, 1, 60, meddai Barth: 'Gall Duw lefaru wrthym drwy Gomiwnyddiaeth Rwsia [cf. Gwenallt], drwy gonsierto ffliwt, drwy lwyn ffyniannus neu drwy gi mawr'. Gallasai Waldo ychwanegu, 'Gall, a thrwy gyd-ddyn'. A gall beidio.

Yr hyn sy'n syndod am Waldo yw ei fod mor aml (yn rhy aml) yn medru ymddiried mewn cyd-ddyn. Wedi gweld a welodd yn y cerddi negyddol a nodais, mae'n gallu dychwelyd mewn hyfrydwch cadarnhaol dro ar ôl tro bron (fel y mae'n cyfaddef) mewn hygoledd anghytwys ac eithafol. Ychydig o'n cyd-ddynion y geill neb ohonom ni, bobl gyffredin, ddibynnu arnynt. Ac yn wir, gwyddai Waldo hynny. Eto, yn ôl y ddi'r wennol i'w nyth. Y gwir yw iddo gael tröedigaeth ddyngarol a dramatig o anghyffredin. Fe'n hamgylchir ni oll gan ddyneiddiaeth beryglus, wrth gwrs. Ychydig yw'r rhai a syfrdanwyd mewn purfa gan ei brawdgarwch i'r fath raddau â Waldo. Ychydig a ysigwyd i'r byw, nac a orchfygwyd gan ei goleuni. Felly y bu hi, sut bynnag, 'Mewn Dau Gae'.

Cefais innau erioed, mae arnaf ofn, fod 'dyneiddiaeth' gyffredin a phoblogaidd yn ffenomen eithriadol faterol, ac arwynebol o ran deall. Yr oedd hi mor wan a haniaethol wlanog wrth drafod pam y materion 'mawr' megis bodolaeth, llygredd dyn, marw a'r dimensiwn ysbrydol, a'r Absoliwt sy'n eu hesbonio, a llawer arall, fel y'n denir i holi ai hedonistiaeth i'r cnawd yw hyn? Sut bynnag, dyneiddiaeth Gristnogol, radicalaidd Garismatig wreiddiol oedd eiddo Waldo. Ac nis cefais erioed yn syrffedus.

A ellir yn ystyrllon galed ar fore Llun fel hyn yn yr unfed ganrif ar hugain (yn wir, a ellid gynt yn yr ugeinfed?) ddygymod â cherddi diniwed, glân a datganiadol, weithiau heb egni ymholiad? A ellir goddef cerddi meddal heb bresenoldeb meddwl 'beirniadol', yn enwedig pan fo'r rhythmau'n esmwyth a'r ymfarddoni emosiynol mor rhwydd? Gellir, mae'n debyg, oherwydd mawredd Pantycelyn. Onid dyma obsesiwn hyblyg a hawl eithafol trugaredd yr Awen? Eto, mae'n gofyn cryn amynedd. A gellid ein hesgusodi am frysio'n ôl at y cerddi negyddol mwy cadarnhaol. Mae'r rheini'n llawer mwy cadarnhaol oherwydd y dioddef sy'n dilysu'r cariad.

Y rhai negyddol hyn, ynghyd â'r gweledigaethrwydd carismatig ac arwyddocâd Awen, sy'n rhoi dimensiwn treiddgar i'r Gobeithlu oll hefyd. Cyfanrwydd yw cymeriad crwn Waldo fel bardd. Megis y derbyniwn yn hapus y cerddi digrif a'r rhai tenau ysgafn yn nelwedd ei *bersona*, felly y croesawn y caneuon moeseglyd. A rhyfeddwn yn y diwedd ulw at y cydlyniad. Safwn braidd yn syfrdan gerbron y berthynas chwithig: y cerddi negyddol. Y cerddi negyddol ynghyd â'r cerddi cadarnhaol, y naill ddsbarth yn gorgyffwrdd â'r llall, yw un o'r ffactorau sy'n gwneud Waldo'n fardd aeddfed cyflawn, gan mai rhannau o'r un gân ydynt.

Yr wyf eisoes wedi cymeradwyo detholiad penodol o gerddi er mwyn amlygu thema gryno gyferbyniol, Gobaith ac Anobaith. Eu dethol a wneuthum hefyd am eu bod ymhlith goreuon cynnil Waldo. Ond wrth gwrs, gan mai Waldo biau'r cwbl o'r gweddill yn *Dail Pren*, ni charwn am foment ffinio nac awgrymu unrhyw fath o ymwrthod ag athrylith y gweddill. Gwelir nerth ei ddoniau a chyfaredd ei iaith mewn nifer o gerddi. Nid oes dim un i'w hepgor. Gallwn enwi sawl un arall, yn wir, sydd y tu allan i thema benodol Gobaith-Anobaith – ac y gellid eu derbyn gyda brwdfrydedd cyffelyb.

Caf felly fy mod yn gorfod estyn y tair ar ddeg cychwynnol a ffafriais i gynnwys hefyd 'Ar Weun Cas Mael', 'Yn y tŷ', 'Eirlysiâu', ac 'Adnabod'. O fewn cydlyniad y cyfanrwydd amlochrog hwn, mae'r felltith yn gymorth i'r fendith. Er gwaetha'r Cynnydd Iwtopaidd a Fictoriaidd, Marcsaidd o Ddarwinaidd, y mae'r negyddiaeth iachus yn ymatal rhag gogwyddo'n rhy barod at gadarnhad. Rhaid derbyn o'r herwydd ddilysrwydd ei weledigaeth obeithiol. Ei ddull yw edrych ar rywbeth, a syllu, a syllu ('Geneth Ifanc', 'Ar Weun Cas Mael', fel 'O Bridd') cynhemlu yn wir, nes i'r gwrthrych feddiannu gweledigaeth ac ymrithio'n solet. Try'r Proffwyd yna'n Offeiriad. Ymryddheir rhag pob bocs sebon. Camgymeriad yw ei ddarllen yn broffwydol amddifad mwyach: y ffordd yna y gorweddaï tir diffaith ideoleg naïf. Diriaethir yr holl haniaethau.

Hyn sy'n ei wahanu, dybiaf i, oddi wrth foeswersoldeb anniddorol. Llwyddai Saunders Lewis i adael i 'Plant Marw' lithro drwodd i oddefgarwch oherwydd garwder rhythm a moelni ieithwedd. Ond beth a wnawn â 'Caniad Ehedydd'? Yr hyn a wnawn yn yr unfed ganrif ar hugain efallai yw synnu ychydig fod yr ugeinfed ganrif mewn un smotyn o leiaf yn medru gwrthryfela'n unplyg groyw fel hyn, yn noeth o syml o hyd, yn erbyn sgeptigrwydd prenaidd. Diolch am *ôl-ôl-foderniaeth*. Mae gofyn inni ddarllen y

dosbarth Iwtopaidd hwn o gerddi mewn cyd-destun anobaith. Hyn yw gwir awdurdod yr Awen. Ac o'r herwydd, mae yna fath beth ag arswyd a negyddiaeth garthiol glendid. Fel yr oedd Awen Waldo yn ymddangos fel pe bai'n negyddol yn 'Dan y Dyfroedd Clae'r', er bod ei osgo feirniadol yn dymuno'r cadarnhaol, felly yn y caneuon Iwtopaidd hyn, fe fynnai'r Awen onestrwydd i argyhoeddiad apocalyptaidd. Yr oedd felly yn drech na beirniadaeth nihilaidd gonfensiynol yr amseroedd.

Ond dewch inni edrych yn gryno fanylach ar 'Dan y Dyfroedd Clae'r' yng ngoleuni'r negyddiaeth honno. Ceir dwy ran iddi fel gydag 'O Bridd'. Mae'r wedd negyddol a choeg arni yn amlwg (i mi) yn y pennill cyntaf. Rhoddir clustan i 'fawrion daear', y rhai a aethai â'r bobl ifanc o'u bro. Ac o fewn y cyd-destun hwnnw ymddengys y rhyddid mawr sydd iddynt yn y fro honno hefyd yn amlwg goeg. Ond y mae'r ail ran wedyn, er cynnal y coegi'n ddiâu, ar hyd y pennill, yn meddu ar ysbryd sy'n llai trwm. Sylwer ar goegi unplyg y ddwy ran gyda'i gilydd: syml iawn ydynt, llinellau byrion –

*Dan y dyfroedd clae'r
Huna'r gwaed fu'n dwym.
Wele, fawrion daear,
Rai a aeth o'ch rhwym.
Wrth eich gwÿs a'ch gorfod
Dygwyd hwy o'u bro.
Rhyddid mawr diddarfod
Gawsant ar y gro.*

*Gwyn a du a melyn
Dan y môr ynghyd
Ni bydd neb yn elyn
Yn eu dirgel fyd.
Dan y dyfroedd clae'r
Cawsant eang ddôr.
Wele, fawrion daear,
Gariad fel y môr.*

Sylwer ar y symudiad bach mewn pwyslais yn yr ail ran. Dechreuir drwy ddatlu'r lliwiau. Daethant ynghyd heb elynion mwyach. Mae'r gair 'dirgel' yn amwys. Y maent wedi'u celu; ond aethant hefyd i 'ddirgel fyd' cymdeithasgar, am resymau dirgel. Negyddol fu'r rhyddhau yn y pennill cyntaf: yna, yn yr ail, mae'n eang ddôr. Ac y mae'n gorffen gyda 'chariad' fel y môr: aeth yr ystrydeb o drosiad yma yn ddiriaeth, yn wên drist, oherwydd y cyd-destun. Syfrdanol o goeg o hyd, wrth gwrs. Ac eto, onid oes gwir

ryddhad rhag euog fyd? Anwybyddir hil. Onid yw Waldo'n gallu synied am sefyllfa gariadus i'r rhai a gefnodd ar 'fawrion' (pobl ddrwg yng ngeirfa Waldo a Thomas à Kempis) a'u rhwymasai hwy? Cedwir y coegi cyrhaeddgar.

Ond 'Duw' sydd yma, Duw cariad. Yn sicr, gwêl Waldo fwy nag un dimensiwn i'r gollyngdod. Bûm yn hawlio na ddylid caniatáu i unrhyw Fardd a droes yn Feirniad honni, 'Hyn a'r llall oedd yn fy meddwl i. Pan 'dwi'n dweud 'Duw' y mae ef bob amser yn neis.' Megis y bu yn achos 'O Bridd', felly yn awr gadawn i'r gerdd siarad bellach. Ei chyddestun hi a lefara erbyn hyn. Yr Awel sy ben, nid yr ôl-sylwedydd.

Ac awgrymaf fod angen bellach inni ganfod Waldo sy'n blethog o sawl ymateb cytûn i'w gyd-ddyn. Er ei waethaf mae'r naifder Iwtopaidd yn cael ei leddfu gan lygredd. Mae'r optimistiaeth yn gwyro yn ei isymwybod dan bwys y tywyllwch. Ac o dan sbonc y dychymyg rhed haenen ddeallol. Mewn adolygiad yn *Efrydiau Athronyddol* ym 1938, sef y flwyddyn pryd y dechreuodd cyfnod ymrwymedig dwys Waldo, cafwyd adolygiad ar *The Destiny of Man* gan Berdiaef, a ddywedodd: 'Mae'n syn fel y dwg ei ymresymiad, mor fynych, er cychwyn o safbwynt gwyddonol, moesegol, neu seicolegol, gadarnhad mor glir i ambell athrawiaeth a fernid gennym bellach yn ddi-rym, megis y Cwmp ... Mentraf ddweud bod ei bennod fawr ar "Ddyn" yn un o'r pethau mwyaf gorchestol ymhlith gweithiau pennaf ein hoes.' Un o ddarllenwyr mwyaf brwd y cylchgrawn hwnnw oedd Waldo: daeth yn drwm dan ddylanwad Berdiaef. A soniai yntau am ddrwg dyn yn erbyn dyn 'wedi'i blannu ynom' (sgwrs â T.Llew Jones). Dyma ef yn awr yn cychwyn ar ei gyfnod oedolyn cymhleth. Oedolyn unigryw symudliw yw.

Paham y byddaf felly yn mentro ystyried bod cerddi Waldo ar eu gorau (fel y mae cerddi Saunders Lewis) yn rhagori ar oreuon Williams Parry a Parry-Williams, y ddau ffefryn gan y Cymry ystyriol hyd yn ddiweddar? Mae yna lawer o resymau. Ceir crefft fwy amrywiol, ymollwng mwy isymwybodol annisgwyl: mae'n fwy soffistigedig ddychmyglon. Bydd Leavis yn hoff o sôn am werth moesol ac iechyd emosiynol llenyddiaeth ynghyd â chryfder ysbrydol; ac y mae'n cloffi yn y fan yna fel agnostig, eto'n llwyddo fel beirniad. Cytunaf yn llon, ond imi weld y rheini o fewn amgylchfyd o ddifrifwch dychymyg ffres a chrefft rythmig, mewn newydd-deb gweledigaeth. Er gwaethaf eu gallu, 'doedd dim gan feirdd dechrau'r ugeinfed ganrif o ran praffter meddwl na gwreiddioldeb oedolyn a allai ddod i safon 'Wedi'r Canrifoedd Mudan', 'Yr Eiliad', 'O

Bridd' (fersiwn y Bardd ac nid y Beirniad), ac 'Mewn Dau Gae'. Rhaid dethol o ail neu drydedd reng Waldo bethau fel 'Cofio' (sef y gwrthodedigion ym mryd rhywrai bellach) er mwyn cael cymrodyr priodol i oreuon Williams Parry a Parry-Williams.

Problem gyndyn, fel y gwelsom, fu 'Cerddi Gobeithlu' Waldo i rai ohonom. Ond dadleuwn mai cam â Waldo yw ei ddosrannu o'r herwydd gyda'r Efengyl Gymdeithasol. Tric iselradd oedd yr Efengyl Gymdeithasol i feithrin dyneiddiaeth heb arddel canologrwydd Duw ym mhopeth. Dyfais oedd i osod moesoldeb yn lle addoliad, a chyd-ddyn a'i ddimensiwn gorau yn lle'r dimensiwn goruwchnaturiol. Erbyn hyn – braidd yn hwyr i'r capeli sydd ar ôl – canfuwyd gyda mwy o sicrwydd nag a oedd yn ddogmatig ffasiynol gynt – canfuwyd y twyll, a'r cyswllt a gollwyd, a gwendid y rhagdybio anhunanfeirniadol dynol. Canfuwyd 'un dimensiwn' cyfnod llwyd.

Ond camgymeriad fyddai synied am gerddi Waldo am gyd-ddynion drwy sbectol ddadrithiedig o'r math yna. Wrth adael i'r Efengyl Gymdeithasol a'i shiboletau ymyrryd â'n hymateb ni i 'gyd-ddynion' Waldo, yr ydym mewn perygl o'i gamddeall, ei isbrisio, a'i ganfod yn sentimental ac yn denau ei adnabyddiaeth o Gristnogaeth. Wrth edrych ar ei Obeithlu 'moesol', y ffordd i'w ddarllen yw nid yng nghyd-destun amrwd yr Efengyl Gymdeithasol, ond (heb anghofio hynny), hefyd drwy ddefnyddio sbectol Dau Gae ynghyd â'r Anobeithlu. Yno trawsffurfir cyd-ddyn gan yr ymostyngiad ynghyd â'r Brenin Alltud mewn caneuon croyw. Gwelir grym y goruwchnaturiol. Yno, yn gymaint ag a'i gwnaethom yn erbyn un o'r rhai bychain hyn, y'i gwnaem yn erbyn Crist. Fe drawsnewidiwyd delwedd cyd-ddyn yn ei lygredd oherwydd i Waldo'i hun gael ei drawsffurfio. Dyma'r allwedd hefyd, ddwedwn i, i ddealltwriaeth Waldo o'i 'frawd', sydd hefyd yn rhan ganolog o efengyl Crist, er gwaethaf marweidd-ra di-Grist y Sefydliad dyneiddiol.

MODERNIAETH WALDO

Gwedd oedd gwaith Waldo ar ddadl fawr lenyddol yn yr Ugeinfed Ganrif. A beth oedd testun a thema honno? Dim llai na bodolaeth 'Moderniaeth' ac Ôl-foderniaeth.

Ymddangosid yn sgil yr Ymoleuo mai hanfod yn y byd modern oedd gwadu'r Absoliwt hyd yn oed mewn gwerthoedd llenyddol. Dros gyfnod o amser gorseddidd fwyfwy gefndir o relativrwydd ac amheuaeth gaeedig – gwacter ystyr. Ymwardid â'r *raison d'être* ar gyfer moesoldeb a gwerth a phwrpas. Dyma inni ragdybiaeth greiddiol ar-dwf i'r cyfnod a'i weision cymysgld. Roedd yna wrthdrawiad o du Moderniaeth, neu o leiaf un math o Foderniaeth, a'r ôl-drawiad wedyn a geid mewn Ôl-foderniaeth. Ond cafwyd amryfal weddau ar Farddoniaeth. Cafwyd sawl ymateb Cymraeg i'r tyndra hwn.

Yn gyntaf, i rywrai, claddu pen. Ceidwadaeth. Derbynnid rhai o'i rhagdybiau 'credo' heb ormod o feddwl. Mynd gyda'r llu yn syniadol; ond yn arddulliol yr un pryd, dianc yn ôl i'r cyfnod rhamantaidd. Felly y cafwyd Peate a thelynegwyr difeddwl tridegau'r ugeinfed ganrif.

Yn ail, i rywrai eraill, ac yn fwy deallol, derbynnid llawer o ragdybiau athrawiaethol y cyfoesedd, hyd yn oed mewn arddull. Ildio a chydsynied a suddo, heb sylweddoli'n llawn i ba ben draw yr aent. Felly Parry-Williams.

Yn drydydd, heb fod yn amlwg yng Nghymru tan wythdegau'r Ugeinfed Ganrif, fe lithrai Ôl-foderniaeth diwedd y ganrif honno fwyfwy i'r is-ymwybod: mudiad estron oedd o fewn Moderniaeth, â'i darddiad dall gynt yn yr *avant-garde* diniwed a gaed mewn llyfrau megis *Cerddi Cadwgan* 1953. Yng Nghymru câi hyn yn y ganrif wedyn groeso ymhlith rhyddieithwyr cymedrol a dramodwyr maes o law yn ogystal ag ymhlith y beirdd. Ceid gan y rhyddieithwyr hwnt ac yma olion ffasiynau arddulliol difyr a thechnegau ysgrifennu lliwgar a gysylltid ag Ôl-foderniaeth gynnar, megis realaeth hudol, corffori darllenydd yn y testun, swrealaeth, dadgynefino, llif yr ymwybod, datrefnu amser, ymson mewnol, carnifâl: yr allanolion pêt. Ond ychydig o olion myfyrdod a geid ynghylch *egwyddorion yr amseroedd* o ddrylliadaeth, dadadeiladaeth, a gwahaniaethu dogmatig. Dyma ddogmâu peryglus nas wynebwyd o'r braidd. Ychydig o ryddieithwyr a adlewyrchai'r fframwaith athrawiaethol nac a ymgodymai ag ystyr sylfaenol yr her ôl-fodernaidd. Ychydig o hunan-feirniadaeth ddadansoddol a geid.

Ond yn bedwerydd, yn ôl i'r pumdegau ac at genhedlaeth Waldo. Dyma'r lle y ceid dyfodfa myfyrdod heriol i Foderniaeth estron gan rai o feirdd mwyaf nodedig dechrau ail hanner yr Ugeinfed Ganrif yng Nghymru, megis Saunders, Gwenallt, Euros ac Waldo. Yr oedd yr hyn a ddigwyddai'n feddyliol ac yn ysbrydol i'r genedl o bwys canolog i'w gwaith hwy oll. Sylweddolent beth oedd hanfod taer y dyfodol a oedd ar waith eisoes, a buont yn ddigon effro i ymateb yn greadigol. Torrent lwybr Cymreig. Ni ddewisent nac ildio'n ffasiynol eironig nac adweithio'n henffasiwn rigolog. Roedd eu deallusrwydd yn ddigon gwreiddiedig i droi'r argyfwng brodorol cysylltiedig yn achlysur bwrllwm. Dyma arddull gyfoes Gymraeg. A dyma bedwar gweledydd taer felly. Bu'r rhain yn llunio'u Hôl-foderniaeth Gymraeg fwy sefydlog. A'r pedwar, yn rhyfedd os rhyfedd hefyd, yn rhoi'r un ateb cymhleth a chyfrwys fodern, yn fuddugoliaethus soffistigedig, sef Mawl. Pam yr wyf yn dadlau bod eu hateb o'r fath yn 'gymhleth'?

Am ei fod – neu o leiaf fel hyn yr wyf i wedi ceisio cyflwyno'r achos – yn tarddu mewn dwy egwyddor neu faes, yr un pryd ac yn unol. Prydyddent o fewn cwlwm dwbl o ystyriaethau a ddôl i'r gad gyda'i gilydd. Yn gyntaf, yn neuoliaeth hanfodol y broses ddeallol a chreadigol ei hun – cafwyd gwahanu *ynghyd ag* uno, rhannu a chyfannu. Dyma'r ffaith anochel yn ffurf meddwl ac iaith, fod yn rhaid cael cyfuniad clwm mewn deall ac mewn llenyddiaeth (ac mewn bywyd), er mwyn goroesi. Buasai'r Ôl-fodernwyr cynnar o ran rhagdyb, ffug theori a ffasiwn syniadol yn ceisio coleddu'r 'gwahanu' a'r 'amhenodol' unochrog, a dilyn y trywydd chwâl hwnnw cyn belled ag yr aent. Ond buan wrth gwrs y cafwyd gwacter. Dyma'r lle y mynnodd Waldo ganu o blaid yr undod sydd o gylch yr amrywiaeth. Troes Waldo'r ddadl honno yn thema fawr, wyneb i waered.

Ond ymhellach, oherwydd gwadu'r Absoliwt, yr oedd yr Ôl-fodernwyr dogmatig yn ceisio gwadu gwerth, yr agwedd gadarnhaol ar drefn a diben. Gwadent egwyddor anochel Cymhelliant. Gwadent reidrwydd nid annhebyg i'r rheidrwydd mewn Tafod i gael tri symudiad cyfun yn ffurf iaith a dychymyg: sef y rheidrwydd ymarferol ac egwyddorol i wreiddio pob gweithred mewn ymwybod o werth, ac mewn ysfa i ddarganfod a dathlu trefn, ac mewn sicrwydd o fodolaeth diben. Dyma eto fu'r cyfle i Waldo a'i gymheiriaid roi'r Ôl-foderniaeth gynnar yn ei lle mewn modd personol.

Ac eto, amddiffyn yr oedd y symudiadau cadarnhaol y sylfaen sydd gan feirdd i roi pin ar bapur neu fys ar gyfrifiadur. Ni chaf, felly, ymadael â'r lle sydd i Undod yng

ngwaith Waldo ar chwarae bach. Perthynas yr un a'r llawer neu'r amryw o fewn yr Undod, dyna yw prif fyrdwn Waldo, a hynny wrth sôn am gyd-ddyn, am genedl, ac am y Goruwchnaturiol neu'r Absoliwt. Ac fel y gwelwn, y mae a wnelo â phrif fethiant athrawiaethol, cymdeithasol, diwinyddol a ffurfiol yr ugeinfed ganrif, y methiant i gyfuno ac i gydlynu'r naill a'r llall. Hyn oedd yn yr awyr. Drylliadaeth ac unochredd lluosedd a dadeiladu fu'r ateb trendi ar y naill ochr; ac unffurfiaeth, undonedd ac unbennaeth ar y llaw arall. Ceid cytundeb gan y dde a'r chwith ynglŷn â dileu'r 'ddeuoliaeth' angenrheidiol mewn celfyddyd. Nid wyf yn synied bod Waldo'n ymwybodol ei fod yn ymosod ar yr hyn a elwir bellach yn Ôl-foderniaeth. Y cwbl a wnâi ef oedd treiddio o'r newydd ac yn unplyg i gynnwys Cristnogaeth ddeallol, heb blygu i'r esgusodion a roed dros ei gwrthod.

I Waldo, yr ateb Cristnogol, yn anghysurus iawn, oedd y datrysiad priodol. Yn 'Mewn Dau Gae', yn 'Wedi'r Canrifoedd Mudan', ym mhob man, trôï ef at yr ateb Cristnogol ynghylch **y pen a'r aelodau, yr undod a'r amrywiaeth; cydymostwng cyson bawb, yn 'un' ynghyd â'i gilydd**. Dyna'r ddelfryd, gyda'r pen yn gwasanaethu, sef plygu i'r eithaf hyd at y parodrwydd i roi'i einioes dros y lleill. Gweini fu'n arwain, a'r pen yn bont. Enillid tangnefedd ysbryd drwy gariad yr 'Awen' gyfansawdd:

*Er holl raniadau'r byd –
Efe'n cyfannu'i fyd.*

Sef gwahuno. Megis y Drindod. Mae yna weithio hefyd oddi wrth y llawer tuag at yr un; a'r un pryd, gweithio oddi wrth yr un at y llawer:

*Y gwynder cyntaf yw eu cân
Pan elo'r rhannau ar wahân
Ail llawer tân fydd lliwiau'r tud.*

Mae'r thema'n lleisio fel côr drwy'i waith, 'un llef pedwar llais', 'mae amser trwy'r amseroedd', 'cadw rhwymau teulu dyn', 'gwna ni'n ddarn/ o'th fyw a'th foes', 'gwnait eu cymdeithas yn gytûn':

*Rhwng pob ciwdod, pan godan'
'Run tŷ, 'run to, i'r un tân.*

Ac yn fwy personol:

*Chwiliais drwy gyntedd maith fy mod, a chael
Deunydd cymdogaeth.*

Neu eto:

O! Dosturi, casgla ni ynghyd,

A bydd cyfeillach ar ôl hyn.

Mae'r cyfuniad o'r 'amryw yn yr un' fel hyn yn sylfaen syfrdan ac yn egwyddor ddatblygedig ar gyfer pob deall llenyddiaeth, ac yn wir i'r holl greadigaeth. Mae'n ateb cynhwysfawr i Ôl-foderniaeth, y gwahuno sy'n tanseilio *différance*.

Yn arddulliol yng ngwaith 'prin' Waldo, mae'n dra diddorol sylwi fel y mae'r 'amryw' – y telynega sy'n ymylu ar Sioriaeth, a'r swrealiaeth yng 'Nghwmwl Haf', yr englyna ysgafn, a'r myfyrion *vers libre* am ystyr bywyd, ynghyd â'r canu plant, a'r cywyddau cymdeithasol – yn gallu gweithio weithiau blithdraplith yn unol mewn cyfanweithiau cymharol gwta. Y mae ef yn dethol ac ynocio, yn condemnio ac yn mynnu 'cusanu', nes dod o hyd i'w gyfeiriad ei hun bob amser. Mae ef yn codi goruwch ffasiwn, ac yn meithrin Cymreictod, a'i amllder mewn undod cynnil.

Yn nau ddegau'r ugeinfed ganrif mewn gwledydd eraill, fel y gŵyr pawb, fe dyfodd adwaith buan yn erbyn y math o brydyddiaeth sentimental a naif a gaed yng Nghymru gan Eifion Wyn, Elfed a Chrwys. Dyna'r deunydd glas-lygadog o ddefrydlyd a aeth yn bur anymwybodol o hunanfeirniadaeth. Dyna stori dylanwad eisteddfodau a barddoniaeth boblogaidd yng 'Nghymru fach'. A dechreuodd beirdd deallus bleidio cywair hallt coegi. Modd amddiffynnol iach oedd hyn a oedd yn rhag-weld ymosodiadau gwatwarus o'r tu allan. Llwyddai beirdd i edrych arnynt eu hunain tan sylweddoli'r ysgogiadau gwrthwyneb neu gyflenwol. Caniaent fyfyrddod dadrithiedig a ymddangosai, yn ôl y dyb ar y pryd, yn fwy 'aeddfe'd'. Adeiladai'r beirdd o'u cwmpas eu hunain ymsafiad gwybodus, anrwymedig. Gwgid braidd ar y math o wrthrychau a gynhyrfai Waldo, megis 'Daw'r Wennol yn ôl i'w Nyth', 'Daffodil', 'Byd yr Aderyn Bach'. Ac yn y blaen. A'n gwaredo rhag y fath faldod, meddid. Oni phlygai'r Pencerdd i goegi? Gellid disgwyl bod dilyw mwyach – a phresenoldeb Waldoaid yn mynd yn amhosibl. Eto, Noa oedd ef. A phren oedd ei fad, a dail arno. Atebid Moderniaeth yn ysbrydol.

Bid siŵr, ceid rhinweddau mewn Moderniaeth. Heblaw techneg coegi ymhlith y Modernwyr, gwelwyd bod amwysedd a chymhlethrydd yn gymorth i'w gwaredu rhag y fath loddest diniwed. Ond yn ei dro, trodd yr adwaith Modernaidd hwn yn ddogma. Aeth hi'n Ôl-ddogmatig sur. Ac arweiniodd hyn yn brennaidd braidd at amhenodolrwydd pêr, ac at ymwahanu'n ansefydlog. I feirniaid Cymraeg, fel y pedwar bardd hyn, Saunders, Gwenallt, Euros a Waldo, bob un ohonynt wedi'u trwytho mewn beirniadaeth lenyddol ac

wedi pwysu a mesur eu crefft yn fedrus, ni cherddodd dylanwad llyfrau megis *Principles of Literary Criticism* I.A. Richards 1924 heibio iddynt yn ddisylw. Ond mewn dau faes yn benodol yr ymwrthododd y pedwar â choegi cyfleus a sgeptigrwydd disgwylidig y pwerau 'mawr' – sef mewn crefydd a gwladgarwch diddosbarth. Dau anathema. Ar hyd y ddau lwybr hynny, sef y ddau fan gwan ymhobman arall, y daeth Cymru o hyd i'w nerth.

Dysgwyd iddi (mewn lleiafrif syn) ddifrifoldeb ymrwymiad a'r unplygrwydd sy'n troi dogma amheuaeth (yn unig), yn sicrwydd sy'n bosibilrwydd. Helpwyd Cymru gan ei hargyfwng. Yn sylfaenol Gymreig, bu rhagdybiau Waldo'n gwbl groes i'r dogma coegaidd ac i Ôl-foderniaeth. Ac eto, nid bardd simplistig mohono. Ni fynnodd erioed gymryd ei hunan-bwysigrwydd ormod o ddifri, – yn gyntaf oherwydd ei natur wylaidd a'i hiwmor hunan-feirniadol; ond yn ail, oherwydd ei gefndir gwerinol a hwyliog; ac yn drydydd, oherwydd delfryd y plentyn. Ond roedd ansawdd ei gariad at ei wraig, a'i ganeuon serch er cof amdani, yn bell o ganiatáu ymagwedd goeg. Ac roedd cyflwr enbyd ei genedl hoff – hyd yn oed pe caniatâi goegi fel techneg – yn gwahardd y troad fel dogma terfynol llethol neu fel ffordd o fyw. Roedd y rhuddin anghydfurfiol a sosialaidd hefyd yn fwy ymarferol ac ysbrydol na'r math o sosialaeth bragmatig a geir gan y dosbarth canol yr ym ni'n fwy cyfarwydd ag ef bellach. Yn y tair enghraifft hyn, yr oedd unrhyw atyniad at ddeublygrwydd confensiynol yn cael ei herio gan unplygrwydd. Ond yr un pryd, roedd ei ddeallusrwydd effro yn gomedd gor-ddiniweidrwydd. Gallai fod yn feirniadol o'r 'beirniaid academaidd' hefyd am eu bod hwythau yn gallu bod yn anghatholig braidd. Hynny yw, yn wyneb ei gefndir, ei gymeriad delfrytgar, a'i gredoau a brofwyd yn y tân, naif a simplistig braidd oedd nid yn unig y telynegwyr ystrydebol henffasiwn eu cywair, eithr hefyd coegi blinedig ac awtomatig diobaith canol y 40au.

Caed ynddo hefyd y perfformiwr ymwybodol. A oedd yna unrhyw elfen ym maes arddull a thechneg a benderfynai'r dull a ddewisodd Waldo i osgoi dylanwadau'r ddwy duedd hyn, y Sioraidd, a'r confensiynol ac anhunanfeirniadol Fodernaidd?

Credaf i fod y math o gymhlethrwydd ffurfiol a anogid gan y gynghanedd a'i chrefft berthynol yn ffactor o bwys wrth filwrio'n erbyn naifder sentimental ar y naill law a goruwch-ddoethineb y dosbarth canol ar y llall. Sylwer fel y mae englynion ein beirdd gwlad yn tueddu i fod yn llai teimladllyd ac yn galetach eu deall na'u telynegion bondigrybwyll. O ddal crefft loyw ffurfiol wyneb yn wyneb â sefyllfa ymarferol nas

blonegwyd mewn teimladrwydd, tueddid i ymwybod hefyd â symbolaeth mewn rhythmau cywrain ac ymatalgar gynnil. Tueddid i ymddealluso.

Ac eto, Waldo yw un o'n beirdd mwyaf rhamantus, yn ddiweddar. Os camgymeriad yw gorbwysleisio 'didwylledd' mewn maes llenyddol, sydd i raddau'n gorfod bod braidd yn ffuglenol, camgymeriad hefyd fyddai gwadu cyfraniad dilysrwydd hynny. Buasai amddifadu bywyd a barddoniaeth o ddathliad ac o ymrwymiad yn ffordd reit chwithig o sefydlu sensoriaeth mewn cyfrwng sy'n weddol gatholig ei hanfod. Yng ngŵydd y ffasiynau chwit-chwat, myn catholigrwydd pwnc a chydymdeimlad inni oll geisio aeddfedrwydd hunanfeirniadol. Mae'r apêl Waldoaidd at y meddwl, felly, yn fodd hylaw ar gyfer dihatru'r sentimental a'r naïf. Cymerer 'Eirlysiâu'. Mae'r ymennydd ynddi yn gallu denu sylw oddi wrth or-grynhoi uwchben teimladrwydd drwy symbolaeth gyfrwys ffrwythlon a soniarusrwydd cywrain. Yr hyn a geir ar ei hwyneb yw gosodiadau clir, crisial, cryf, gydag ystyron a fynegir yn groyw union er eu bod yn gyfoethog. Eto, mae'r trosiadau'n ychwanegu at y pellhau oddi wrth deimladaeth ry simplistig. Mae amlweddaeth ei hiaith yn gallu cael cyfartal effaith ar y synhwyrau. Hynny yw, yn reddfol bron, y mae ei deallusrwydd mewn symbolaeth a ffrwythlondeb ei chreffft, ill dau, yn ei hamddiffyn rhag sentimentaliaeth ar y naill law a rhag cyfyngderau coegi (hynny yw naïfder coegi) yr un pryd. Gwnaeth Waldo hynny hefyd drwy fod yn blentyn.

Ymddengys, felly, fod rhaid imi ddychwelyd at hen ddadl a godais ynghynt, wyneb yn wyneb â'r gogwydd naturiol ac annaturiol i'n trefedigaeth fechan ni gydymffurfio â phatrymau anghyfiaith. Ar ôl cydnabod gogwydd Cymru i rannu gyda Lloegr yr adwaith negyddol yn erbyn telynega Sioraidd – ond yn dynerach ac yn ddiweddarach – mynnaf fod ein beirdd mwyaf effro yn ail hanner yr ugeinfed ganrif wedi dewis llwybr modernaidd sylfaenol wahanol. Yn achos Saunders, Gwenallt, Euros, a Waldo, cafwyd ateb mwy unigryw ac annisgwyl o fewn gwydnwch y traddodiad mawl. Bu'n llawer mwy cadarnhaol ac yn bendant ymrwymedig. Yn ysbrydol, cafwyd cyfeiriad go unigolyddol yng nghyd-destun Ôl-foderniaeth. Ac ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, ond yn eglurach byth ar ôl yr Ail, cafwyd gwrthryfel o du pobl a bleidiai annifyrrwch metaffisegol anghysurus o anfaterol. Fe'i cafwyd mewn crefydd ac mewn cenedlaetholdeb oherwydd apêl foesol y genedl. Priododd Pantycelyn Hiroshima.

Hyn hefyd a rôl'r undod rhyfedd i waith y Waldo yr wyf yn ceisio'i 'ddiffinio'. Mewn gwirionedd, fe bwysleisiodd Waldo hyn wrth sôn am Bren deiliog yn nheithl ei gyfrol. Dail a dalennau'r gyfrol honno a fynegai gefndir gwledig ei gymeriad, ynghyd â'i leoliad mewn Sosiolaeth drefol ddyneiddiol, ei ymwybod croendenau ynghylch dioddefaint rhyfeloedd, a'i ddeall effro i symudiadau meddwl yr amseroedd rhyngwladol. Roedd yr elfennau hyn oll wedi'i wthio i fabwysiadu teitl nodweddiadol athrylithgar mewn dau air, y naill yn *lluosog* (yn wahanus) a'r llall yn *unigol* (ac yn unol), *Dail Pren*.

Canodd Bertolt Brecht yntau y llinellau enwog:

*Pa fath o amseroedd yw'r rhain, pryd
y mae siarad am goed yn drosedd
oherwydd ei fod yn cyfleu distawrwydd ynghylch cynifer o
ddychrynfeydd?*

Y coed hynny yr anesmwythai Brecht amdanynt yw'r coed gwahanol a geid gan Waldo, yn ateb. A hynny'n briodol a gaiff sylw o hyd gan rai o'i ddarllenwyr. Ond nid y rheini yn unig sy gan Waldo. Gwyddai yntau'n burion am y dychrynfeydd ar y Pren; a hynny a rôl beth o'r pwrpas i'r coed. Methodd Brecht ar y pryd, yn ddealladwy yn wyneb y dychrynfeydd a'r gormes materol a'i hwynebai, â dirnad dail y Pren. Eithr i'r bardd o Gymro ac o Gristion, wyneb yn wyneb ag ebargofiant cenedlaethol a thraddodiadol ymneilltuol, wyneb yn wyneb ag enwadau adfeiliol y Sefydliad, roedd dail pren Calfaria o hyd ar gael yn fwyd digonol i iacháu'r cenhedloedd. Ni thwyllwyd Waldo am eiliad i synied mai materol a dyneiddiol oedd yr holl ateb i'n problemau.

BARN A GOBAITH

Faint o bregethwr oedd Waldo?

Mewn un ysgrif, y mae John Rowlands yn cyferbynnu beirdd ceidwadol fel Williams Parry a Parry-Williams ar y naill law, a oedd 'wedi rhoi geiriau i salwch y Gymru wledig Gymreig yn sgil colli ffydd', â beirdd aflonydd ffydd fel Saunders, Gwenallt, Euros, a Waldo.

Beirdd a ymgyfyngai'n ganolog ddisgwyliedig i'r 'naturiol' oedd y pâr cyntaf gynt, yn rhan gyntaf yr ugeinfed ganrif, rhai a oedd wedi cydymffurfio â'r llif tua'r bwlch. Ond beirdd a oedd yn agored i'r naturiol a'r goruwchnaturiol fel ei gilydd, yn groes i'r llif, oedd pedwarawd canol yr ugeinfed ganrif. Beirniadau'r Athro Rowlands yr ail grŵp am eu bod yn '*gwthio*' atebion trosgynnol ar bobl nad oeddynt yn derbyn y dimensiwn hwnnw. 'Gad ni'n llonydd' oedd ergyd Dr Rowlands, dybiaf i. Hynny yw, sensorier y goruwchnaturiol! Gwthier 'amheumon' yn hytrach i lawr ein gyddfau.

Ond ai gwir fod Waldo'n *gwthio*'i atebion trosgynnol ar bobl nad oeddynt eisoes wedi derbyn o ddifri y dimensiwn hwnnw? Ai ceisio proselytio yr oedd ef? Neu a oedd ef yn llefaru allan o ffordd o fyw ac o feddwl, a oedd yn ddilys, yn bod, ac yn wahanol?

Mae'n siŵr bod proselytio'n wir gynt am bobl fel Daniel Rowland a John Elias. Edrychent ar gynulleidfa o'u blaen lle y ceid amryw o hyd, er eu genedigaeth, heb unrhyw berthynas fywiol â Duw, heb ymddifrifoli, heb glywed perthnasoldeb y byd ysbrydol; ac yr oedd eu calonnau cenhadol yn gwaedu drostynt. Gwelai Rowland ac Elias hwy'n amddifad ac yn ddibrofiad, heb adnabyddiaeth o Waredwr y byd ac wedi'u rhwystro rhag profi'r gwir, wedi'u rhwystro rhag bywyd tragwyddol. Galarai'u calonnau cenhadol y pryd hynny dros gyflwr eneidiau pobl o'r fath.

Ond nid wyf yn credu fod na Gwenallt na Saunders – o leiaf yn benodol yn eu cerddi – yn hidio'r un botwm corn *prydyddol ar y pryd* am golledigaeth y gynulleidfa a'u darllenai. Nid dyna'r ffordd yr oedd eu meddwl yn gweithio yn eu barddoniaeth. Offeiriaid heb eu hordeinio oeddent, mae'n debyg, yn bersonol. Dathlent Dduw, gwnaent. Cyd-addolent ag Ef yn Ei ogoniant. Ond o safbwynt troi'u pobl yn broselytaidd i'r dimensiwn trosgynnol yn arddull pregethu, prin yw'r dystiolaeth *yn y cerddi eu hunain*. Hyd yn oed Euros, ac yntau'n ordeiniedig swyddogol, *yn ei gerddi'n benodol* ymddengys

ef yr un mor ddihidans am dynged farwol ei bobl. Yn ei farddoniaeth, offeiriad a molwr ymgolledig, nid cenhadwr na phregethwr mohono. Ni raid oedd i'r Athro Rowlands fod yn nerfus am y tri yna. Ond Waldo? Onid oedd ef yn fwy confensiynol ddyngarol? Yn ei waith barddonol yr oedd 'na faich dros ei gyd-ddyn yn cyfrif. Defnyddiai'i waith i bledio â'i gynulleidfa. 'Roedd yn barod i stwffio'i drosgynolaeth i lawr eu corn-gyddfau nhw heb betruster gweddus. Gwnâi'r eithaf angerddol er goleuo'i bobl. Yn eu Cristnogaeth ddyneiddiol, yr oedd Saunders, Gwenallt ac Euros, ill tri, yn ddigon parod i geisio troi golygon eu cynulleidfa yn farddol tuag at *genedligrwydd* ac adfywiad diwylliannol ym myd Gras Cyffredin. Felly, Waldo yntau, wrth gwrs, eithr nid mewn modd symleiddiol. Ond i'r tri cyntaf, yn eu barddoniaeth, dichon mai dathliad personol a galarnad oedd eu crefydd uniongyrchol (a'i Gras Arbennig) ar y pryd. Felly hefyd R.S.. Nid felly Waldo. Yr hyn sy'n nodweddu gwaith Waldo, yn wyneb hynny, yn gwbl anffasiynol, yw'r ymgais uniongyrchol hollol ddiymddiheuriad i bledio, i erfyn ar ei bobl yn uniongyrchol i droi'n fywiol ysbrydol. Mae ef yn disgwyl ganddynt 'awr datguddiad Meibion Duw'. Mor fynych, mor annaturiol o fynych, ond mor naturiol o ran cariad, y mae'n cyfarch ei gynulleidfa'n uniongyrchol neu'n galw ar y grymsterau ysbrydol i weithredu:

Fy Nghymru, a bro brawdoliaeth, fy nghri, fy nghrefydd.

Daw hiraeth am eich 'nabod chwi bob un.

Gwyn ei byd yr oes a'u clyw.

Ledi i Maes, Ladi Mawrth.

Tosturi, O Sêr, uwch ein pennau.

*Gwyn fy myd
Pan ddelo Duw a'i gyfrin gylch ynghyd.*

*Safed ym mwllch y berth
Milwr Mihangel.*

*Cod ni i fro'r awelon pur
O'n hogofâu.*

Gwae pawb sydd yn ffaglu'r seren sy'n rhannu'r ddaear.

O! Faddeuant, dwg ni yn ôl.

O! Dosturi, casgla ni ynghyd.

Ac yn y blaen, gerdd ar ôl cerdd: tinc efengylu gan Waldo. Gwthio fel profiad, er nad fel nod hollol feddiannol efallai. Ond geiriau erfyn, yn union fel y cwynai'n gywir yr Athro Rowlands. Fe ddwedwn i fod hyn yn un o'r nodweddion mwyaf anesmwythol unigryw yng ngwaith Waldo. Mewn bardd modern, safbwynt cwbl anghydfurfiol yw. Anfaddeuol efallai ym mryd ambell stalwart ôl-fodernaidd neu ambell ffenomenolwr ffundamentalaid. I feirniaid 'radicalaidd' confensiynol digon diffuant, yr oedd hyn yn wir waharddedig. Wrth gwrs, o'r braidd nad oes dim mor baradocsaidd rigolog â 'radicaliaeth' gonfensiynol, ddim hyd yn oed ceidwadaeth gonfensiynol. Ac i'r 'radicaliaid' confensiynol ffasiynol, ymhlith y pynciau lawer a gaent hwy y tu allan i'w hamgyffrediad creadigol a gwerthfawrogol, 'doedd dim mor fygythiol i ramantwyr â'r ymgais uniongyrchol i ennill pobl i goleddu gwirionedd. Pan wynebent hwy fethiant ac atalnwyd orthrechol feddyliol yn y cyfeiriad hwnnw, tyfai'r her uchaf i'r galluoedd beirniadol gan fardd y dail. Nid dal ati gyda'r llyf a wnâi Waldo, ond ymestyn i ymateb i ddimensiwn anodd; neu fel y dywedai, wrth i'w galon yntau waedu:

Duw dilygad a'ch chwipia'n un gyr drwy anialwch eich hygredded.

Po fwyaf y byddaf yn darllen gwaith Waldo, ac ni allaf gael digon ohono, mwyaf y byddaf yn synied mai ef yw'r bardd mwyaf gwrth-drendi a gawsom erioed. Y gwir yw ei fod yn gwybod am y ffasiynolrwydd oll, gwyddai am y traddodiad hefyd. Er nad oedd neb a wrthryfelai'n fwy, 'doedd neb a dynnai gynifer o ddylanwadau ynghyd arno'i hun. Efelychai, torrai gŵys gwbl unigolyddol. Ond drwy'r cwbl, yr oedd y dinc broseltyaidd yn wir, ac yn ddychryn ynddo. Ac nid dyna'r unig ffordd yr heriai drendiaeth.

Un dosbarth arall o'i gerddi sy'n adlewyrchu'i herfeiddioldeb wyneb yn wyneb â gwaseidd-dra'i oes i ffasiynoldeb oedd y pum cywydd nodedig o ddefodol a luniodd ar ôl cyhoeddi *Dail Pren*: Cyfarch W.R. Evans, Diolch am Fotffon, Llwyd, Cywydd Mawl i D.J., Priodas Aur (James Ysgeifog). Yn llaw bardd modern, y fath anghydfurfiaeth!

Soniodd wrthyf un tro am sgwrs a gafodd gyda'i gyfaill (A fu gan neb gynifer o gyfeillion?), y bardd Gwyddeleg Seán Ó Riordáin. Yr oedd y ddau yn cydymdeimlo â'i

gilydd, y ddau wedi sychu am y tro, neu'n mynd drwy gyfnod diffaith. A dywedodd Waldo wrth Seán mai'r ateb ymarferol a gafodd yntau i'r broblem oedd yr eneniad a gawsai wrth gael ei ysgogi'n wrthrychol i nyddu cywyddau gan draddodiad Cerdd Dafod. Yr oedd Cerdd Dafod ei hun, fel grym, fel pe bai'n ffenomen weithredol a oedd yn creu bywyd drwy'i bodolaeth. Ni wn beth a ddigwyddodd i waith Seán wedyn er iddo ymateb yn ffafriol, meddai Waldo wrthyf, ar y pryd. Bid a fo am hynny, yr oedd y cynhyrriad hwnnw'n ddigon i annog pump o gywyddau llethol o draddodiadol a gwrth-fodern gan Waldo, ac eto tan arddeliad hollol afieithus.

Hynny yw, gallai Waldo dderbyn cyfyngiadau a fuasai'n ddigon gwrthun i drendiwyf; ac o'r tu mewn i gaethiwed annisgwyl o'r fath, megis 'cenadwriaeth drosgynnol' neu 'Gerdd Dafod', medrai godi uwchlaw ei oes er mwyn ateb angen ei oes. Gwiw i feirniaid 'tra chyfoes' gofio fod a wnelo'r hyn sy'n ateb yr oes nid yn unig â defodau'r oes honno ond â'r hyn sy'n berthnasol i bob oes. Nid 'traddodiadaeth' yw popeth a draddodir. Cofier hen air Claudel, mai'r unig ffordd i sicrhau eich bod chi'n yp-tw-dêt yw drwy fod yn dragwyddol.

Mewn gwirionedd, mudiad gwrth-ddeallol, sylfaenol simplistig, fu Ôl-foderniaeth am dro. Yr Amryw heb yr Undod. Fe'i dadadeiladwyd yn llwyr gan anocheledd deallol undod. Ni wyddai'i Strwythuraeth hi, er enghraifft, ddim oll am Systemateg Ddiwinyddol. Undod yw gwaith Waldo ei hun, er gwaethaf pob amrywiaeth. Ceisiais ddadlau ynghynt fod yr ysbryd neu'r 'anian blentyndod' ar gael ynddo hyd yn oed yn ei gerddi astrusaf. O'r herwydd, fe ellir canfod uniad go ryfedd yn ogystal â thyndra rhwng ei gerddi duon a'i gerddi gwynion: cyferbyniad unol rhwng Cerddi Gobeithlu a Cherddi Anobeithlu (neu'n hytrach led Anobeithlu) Waldo. Cerddi cryf yw Cerddi'r lled Anobeithlu, megis y saith – 'Y Plant Marw', 'O Bridd', 'Gwanwyn', 'Yr Hwrdd', 'Cân Bom', 'Diwedd Bro', a 'Dan y Dyfroedd Clae'r'. Dichon eu bod yn fwy derbyniol o du ffasiwn. Mae Cerddi'r Gobeithlu yn fwy niferus, ac yn beryglus o felys ambell waith. Ond gyda'i gilydd caiff y ddau ogwydd fodd i ddod o hyd i undod anesmwyth rhyngddynt a'i gilydd o'r diwedd yn yr 'Almaenes'. A hyd yn oed, er bod y meddwl cyffredin, efallai, heb ymhyfrydu yn yr hagrwech hwn, fe fynnai Waldo wthio'r dimensiwn hwn arno. Gwthiai mor gryf ag y gwthiwyd relativrwydd ar bawb ohonom a dyfodd yn ail hanner y ganrif ddiwethaf. Ynddo yr oedd Cymru'n Un – a'i farddoniaeth hefyd.

Mae'n wir fod cerdd fel 'O Bridd' yn ein hatgoffa am y sonedau 'ofnadwy' a luniodd Gerard Manley Hopkins yn Nulyn (yn ogystal â phymtheg cerdd hunangystwyol 'Meilir Emrys Owen'). Eto, ceir yr un math o gadarnhad gorfoleddus, hollol anghymedrol yma ac acw yng ngwaith Hopkins ag a gaed mewn mannau eraill. Ond dirweddol yw dwyster y gelyn gan y ddau fardd. Gwyddai Waldo am 'No worst, there is none. Pitched past pitch of grief' ynghyd ag am 'I wake and feel the fell of dark not day'.

Erbyn yr ugeinfed ganrif, sut bynnag, y cadarnhad llawen oedd yn ddieithr ac yn newydd i'r beirdd cyfoesol. Canrif y chwalfa rigolog ildiol oedd hi. Canrif anghred a gwacter ystyr, heb yr un clem ymhle y gellid ceisio unplygrwydd derbyn, nac anghoegi canfod. Gwyddai Waldo wrth gwrs am hyn oll. Gwyddai am 'ryddieitholdeb' fflat yn ogystal ag am rethreg 'stiltiau' a 'blodau'. Yn wir, ymddatodiad yr awen a gaed bobman o'i gwmpas: y gymdeithas wrth-ysbrydol, hedonistaidd, boblogeiddiol, arwynebol chwil. Ac yn honno ceisiai ef ddathlu'r hyn a allai bara. Tyrchai am wythien y golau gydag awch yr athrylith a fynnai fywyd moes. Eithr eto, heb fod yn symleiddiol.

Aethai'r wythien honno'n bur sych yn yr ugeinfed ganrif oherwydd iddi fynd yn ei hail hanner yn ysbrydol ddiog. Llithrwyd i felltith farw'r trendi. Fel unigolyn, ymwrthododd Waldo ag ildio i gywair a delwedd yr oes. Mentrai fod yn anffasiynol heb gofleidio'r 'adweithiol'. Meddai'r adnod a ysgogodd 'Gwanwyn': *'fy mhobl i, ni wyddent farn yr Arglwydd'*. Mor ddieithr bob dim i'r ugeinfed ganrif oedd gwir Farn ysbrydol ag ydoedd gwir Obaith. Gweithred esthetig, yn ogystal â moesol ac ysbrydol, oedd 'gwthio'r' trosgynnol arnynt.

Eto, 'roedd Barn a Gobaith yn bosibl yng Nghymru. A dieithrwch oedd hyn. Sut? Am resymau hanesyddol ac oherwydd cyd-destun o dranc mewn crefydd a gwleidyddiaeth, ildiasai'r Cymro Cymraeg cyffredin i ragdybiau israddol. Ceisiai 'brotestio' wrth gwrs i rywun arall wneud rhywbeth. Ceisiai 'gadw', druan. Pa ffordd oedd gan ein pobl i gyfarfod â'r sialens ac i amddiffyn rhag ystrydebaeth ragdybiol yr adfeilio cyson? Mewn dau faes deunyddiol yn benodol yr ymwrthododd y pedwar bardd, yng nghanol y ganrif, â choegi cyfleus a sgeptigrwydd cyffredin y pwerau 'mawr', yr amheuaeth seml ynghylch proselytio. Ar hyd y ddau lwybr hynny, sef y ddau fan gwan yng ngwledydd mawrion Ewrob, y daeth Cymru o hyd i'w nerth yng ngwaith y pedwar hyn. A hwythau, daethant o hyd i'r Absoliwt.

Ond beth am arddull, a'r amddiffyniad rhag sentimentalïaeth y gwers-garwr?

Dichon fod y math o gymhlethrwydd ffurfiol a anogid gan gynghanedd, a'i chreffft berthynol, yn ffactor o bwys wrth filwrio'n erbyn naïfder teimladllyd, er nad yw hynny'n dilyn fel y dangosodd Dewi Emrys. O ddal crefft loyw ffurfiol, wyneb yn wyneb â deallusrwydd nas blonegwyd gan gysuron bywyd, tueddai Waldo i ganfod sefyllfa drwy symbolau, rhythmâu cywrain wedi ymatal yn gynnwl. Ac yr oedd ei ddidwylledd gorthrechol yn ddisgyblaeth lem i'w ddarllenwyr. Cymerer 'Eirlysiâu' er enghraifft a'r apêl ryfedd at y *meddwl*. Mae'r pwnc hwn, a sensorwyd gan rai beirdd soffistigedig, yn cael ei gyflwyno mewn gosodiadau crisial glir a chryf; ond drwy drosi mae'r delweddu'n ychwanegu at y pellhau oddi wrth bertrwydd simplistig. Mewn gwirionedd, mae amlweddaeth yr iaith yn gallu cael cyfartal effaith ar y synhwyrau a'r synnwyr ag y gwnâi coegi negyddol. Felly yr atelir yr ymennydd rhag ymdrybaeddu mewn sentimentalïaeth. Yr hyn y mae Waldo yn ei wneud, yn reddfal bron, yw chwilota yn ei ddawn am y modd i'w amddiffyn ei hun drwy'i ddadansoddiad o ystyr y sefyllfa (prism goleuni'r eirlysiâu): felly y'i diogelir rhag naïfder cyfyngiadau coegi a rhag gordeimladrwydd yr un pryd, a'i ryddhau i ddathlu unplyg. Yr Amryw mewn Un o hyd. Gwnaeth hynny drwy fod megis plentyn a adwaenai'r Drindod.

Dail Pren: trown ddail olaf lond-yr-haf yr un gyfrol hon, cyfrol a fynegai'i ymwybod croendenau o ddiodeffaint rhyfeloedd diderfyn, a'i ddadl effro i symudiadau meddwl yr amseroedd. Coed di-aeaf Waldo yw'r hyn a gaiff sylw gan ei ddarllenwyr gan mwyaf o hyd, mae arnaf ofn. Ond nid felly yn unig gan Waldo. Gwyddai yntau am y dychrynfeydd; ac ni fu'n ddistaw. Hynny a rôi beth o'r pwrpas pan oedd dail y pren ar y llawr. Methodd Brecht, yn ddealladwy, yn wyneb arswyd y byd, â chefnogi dail y pren ysbrydol. Gwthiai ef ran o'r olwg (ar bersonoliaeth dyn) ar bobl amharod. Eithr i Waldo, 'roedd dail y pren yn fwyd i iacháu'r cenhedloedd. Meddai Dafydd Owen am y llinell olaf yn 'O Bridd', 'Ac yno yn disgwyl mae Duw' – 'Rhybudd arswydus sydd yn y llinell olaf iasoer'. Ar ryw olwg, dyna llinell olaf gwaith Waldo hefyd. Yn rhybudd arswydus neu beidio, arhosodd hon yn iachusol amwys. A llwyddodd Waldo i wneud hyn, oherwydd ei fod ef, er gwaetha'r awydd dilys i lawenhau'n finiog, hefyd yn euog ac yn ddwfn edifeiriol yng ngŵydd y Goruwchnaturiol Personol-dragwyddol. Barn ydoedd, felly, a allai beidio â bod yn farnwriaethol.

AMSER ARALL YR ISYMWYBOD

Cyn lleied o gerddi: cymaint o amrywiaeth. Yn y goeden, esbonnir y ddeilen.

Un o'i brif themâu oedd: yn yr ychydig y mae'r llawer. Felly ffurf yr englyn. Ar ryw olwg, un gerdd yw'r holl gasgliad – a phe baem yn darllen y caneuon ysgafn syml heb y rhai dyrys, neu'r rhai neis pert (y Gobeithlu) heb eu canfod yr un pryd o fewn cyd-destun y rhai cas hyll (yr Anobeithlu), ni wnaem ond cyd-fynd â'r ffordd y mae ambell flodeugerdd yn dal i geisio'i gyflwyno. Er cyniled yw'r casgliad cyflawn o'i waith, y mae'r modern yn ymdopi â'r cyn-fodern nid yn unig oherwydd bod y naill ochr a'r llall yn barhaol eu gwerth, ond oherwydd eu bod yn esbonio'i gilydd.

Hawdd y gallai rhywrai diniwed, dwbl-baril eu Cymreictod, draethu, pe darllenent 'Yr Ehedydd' er enghraifft, fel y datganodd Dannie Abse'n hyderus am farddoniaeth Gymraeg yr ugeinfed ganrif, o'i brofiad helaeth: 'I despair when I discover not a few of them to be pre-modern, leaning too often on the themes and strategy of 19th-century Romanticism'.

Y peth cyntaf anodd i'r gŵr modern estron ei ddeall gan Waldo yw ei syllder. Yn ail, ei obaith neu ei optimistiaeth realaidd gymhleth. (Byddai tywyllwch a ffeidd-dra y cerddi tywyll eu hysbryd, yr Anobeithlu, yn ddealladwy fwytadwy i ryw raddau; ond o'r braidd y gellid deall gloywder unplyg ei gerddi cadarnhaol.) Yn drydydd, cofiwn sefyllfa gefndirol unigryw ei genedl ar fin y dibyn gyda'i hymdeimlad go gyffredin hi o elyniaeth at y gwareiddiad brodorol. Ac yn bedwerydd, ei Gristnogaeth garismatig o gymdeithasol: mewn amser codant uwchlaw amser. Ac yn bennaf, y cyfuniad o'r rhain mewn ffurf!

Y ffactor mwyaf derbyniol yn yr orymdaith honno efallai i'r darllenwyr deallol yw'r lled Anobeithlu: 'Y Plant Marw', 'Dan y Dyfroedd Clae'r', 'O Bridd', 'Gwanwyn', 'Diwedd Bro', 'Yr Hwrdd', 'Cân Bom'.

Cyferbynier 'Caniad Ehedydd' â'r rhain. Roedd canu mor gadarnhaol ddiniwed am fuddugoliaeth yr aderyn hwnnw dyweder yn gwneud y tro efallai yn felys ac yn dlws ysgafn ar gyfer rhyw wladwyr diarffordd nad oeddent wedi symud i unman oddi ar ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond mewn byd soffistigedig wedi profi blas dau ryfel byd, llygredd yr amgylchfyd, diflaniad anghydfurfiaeth enwadol, adfeiliad yr iaith ymhlith Cymry Cymraeg sy'n bodloni ar Gadw a Phrotestio am eraill, a.y.b., yng nghanol

hyn oll yr oedd braidd yn anghredadwy fod bardd difrif yn perthyn i'r oes hon yn gallu bod mor ddychrynlyd o hygoelus. Onid 'ymylwyd' yr ehedydd yntau mwyach, ynghyd ag un neu ddwy rywogaeth gyffelyb?

A chyda'r aderyn hwnnw, y gair canolog – ei enw ef – y Gân.

Yn achos bardd difrif o ganol yr ugeinfed ganrif, y mae'n sicr o fod naill ai'n wallgof neu braidd yn radicalaidd i godi oddi ar y pridd gwenwynedig i byncio'n siriol braf ein gobaith a'n llawenydd a'r cyfryw foethau amherthnasol:

*Ymrôf i'r wybren
Yn gennad angen
Fel Drudwy Branwen
Yn nydd cyfyngder.
Codaf o'r cyni
A'm cân yn egni
Herodr goleuni
Yn yr uchelder.*

Mae unffurfiaeth a diwylliant y pwerau mawrion wedi hen osod gerbron eu rhaglen annifyr am ryw grair cadarnhaol bach fel yna. Gyda'n hunbennaeth globol y daeth diflastod globol. Clwyf yw'r coeg diymollwng bellach. Ond 'Herodr'!

Mae hyd yn oed Ffrangeg, y fwyaf mawrhydig (ond nid mawrfrydig) o ieithoedd imperialaidd, y Ffrangeg a droliodd yn ddirugaredd dros Ocsitaneg a Llydaweg a thramor, bellach yn dirgrynu yn y gornel, gan ddychrynu gerbron ymosodiad Eingl-Americanidd. Pan ddechreuodd Ffrangeg ei hymosodiad ar Lydaweg, o'r braidd ei bod wedi sylweddoli ar y pryd ei bod felly yn dechrau hefyd balu'i bedd ei hun.

Ymylwyd bywyd cadarnhaol amrywiol yn yr un ffordd ar hyd a lled gwareiddiadau'r sefydliad canoledig, gan gynnwys Tsheina. Allan o ddifodiant Cymru.

Yn rhyfedd iawn, mae'r unffurfiaeth hon y canodd yr Ehedydd mor huawdl yn ei herbyn yn ganlyniad anochel i luosedd ronc. Drwy gydol yr ugeinfed ganrif, oherwydd dogma relativrwydd trendi a drylliadaeth, ymylwyd hyd yn oed werthoedd a phwrpas eu hunain, yn benderfynol er mor anymarferol. Rhagdybiwyd yn hurt nad oedd yna'r fath beth ag Absoliwt i ddarparu undod ar gyfer ystyr a threfn. Nihiliaeth a deyrnasai'n hapus.

Hunan-wrthddywedol oedd Ôl-foderniaeth. Nid anodd oedd sylweddoli nad oedd nac ystyr iaith na deall yn bosibl heb ramadeg cytûn, heb fytholeg sefydlogrwydd, heb symbolaeth undod, na hyd yn oed ailadrodd ffurfiol celfydd. Nid oedd y rheini chwaith

yn gweithio yn eu hundod oll heb fodolaeth amrywiaeth na symudiad deinamig. 'Roedd y tyndra hwnnw rhwng undod ac amrywiaeth yn ddiffiniedig mewn gair, mewn unrhyw air. Mewn amser. Ond adeiladwyd yr holl ffasgo ôl-fodernaidd yn syml ar seiliau trendiaeth rhagdybiau anghynnaladwy, a meddylfryd y papur newydd. Ni fedrai wynebu'n ystyrllon na dadansoddiad oeraidd rheswm na chyfosodiad cynnes barddoniaeth. Collwyd y ddadl negyddol cyn ei chychwyn.

Gwaith presennol yr unfed ganrif ar hugain ('trendy-first century') yw casglu'r drylliau ynghyd. Ni wneir hynny mewn unrhyw fetropolis, onid wyf yn camgymryd. Yno, cryn gamp yw amgyffred y broblem yn weddol. Tuedd cymhleth-uwchraddoldeb yr israddoldeb trendiaidd yw rhagdybied mai adweithiol yn anochel yw'r gwrthwynebiad i ffasiwn. Ond canolfannau marwolaeth yw canolfannau mawreddog pŵer diwylliannol. Rywfodd neu'i gilydd, yn anhysbys i'r rhelyw, fe'i gelwir i frwydro ar yr ymylon, ar y gororau, yn ein tyllau ceffyl-a-chert, megis yng Nghlunderwen, Maenclochog, a Mynachlog-ddu. Rhaid ceisio undod tua'r dyfodol mewn meicrocosm, colli neu beidio, yn anhysbys neu beidio. Yn y bychan y mae'r mawr: dyna neges y bardd.

Ac nid dihangfa yw lleisio dros y fath sefyllfa â hon. Ceir cymorth gan yr Ehedydd.

Yng nghanol prysurdeb ffrwst, ffrwdan a phoen y glôb canoledig, ac amser yn troi'n wastraff wrth iddo ddangos ei drwyn budr, nid colli'r 'galon' yw colli'r 'canol': nid mynydd o eiliadau yw amser y rhai sy'n gweld. Yn y gronyn tywod ar yr ymylon o hyd y ceir cyfanfyd, ac yn yr eiliad y cyfarfyddir â'r tragywydd amgaeol.

Cymaint mewn cyn lleied yw *Dail Pren...* Gorsedd i 'Yr Eiliad' yw:

*Nid oes sôn am yr Eiliad
Yn llyfr un ysgolhaig.
Peidia'r afon â rhedeg
A gweidda'r graig
Ei bod hi'n dyst
I bethau ni welodd llygad
Ac ni chlywodd clust.*

*Awel rhwng yr awelon,
Haul o'r tu hwnt i'r haul,
Rhyfeddod y gwir gynefin
Heb dro, heb draul
Yn cipio'r llawr –
Gwyddom gan ddyfod yr Eiliad*

Ein geni i'r Awr.

Ceir dau air ar gyfer *amser* mewn Groeg, sef *kairos* a *chronos*.

Golyga *chronos* lif amser, ac yr ydym yn gyfarwydd ag ef mewn geiriau Cymraeg fel *cronoleg*, *cronolegol*, ac yn y blaen: geiriau sy'n cyfleu symudiad amser yn llorweddol o orsaf i orsaf, o awr i awr. Fe ellir ei fesur a'i olynu.

Nid felly *kairos*. Dyma'r amser arwyddocaol, y foment fertigol, dyngedfennol ac unigryw, yr un y buom yn disgwyl amdani.

Ceir gwahaniaeth rhwng y ddau, o ran maint ac ansawdd. Efallai mai *pryd* yw'r gair Cymraeg gorau ar gyfer *kairos* ambell waith. Daeth yn bryd. Mae'n iawn bryd, mae'n hen bryd. Cyflawnwyd yr amser. Dyma'r foment ganolog ar y ffordd. Yn yr Ysgrythur, dyma'r union adeg yr ymddangosodd Crist yn Iesu, yn Waredwr, ac yn Frenin.

Rhydd Waldo gryn sylw i foment brofiadol arbennig yn ei hanes ac yn ei obaith ei hun. Fe ddathla. Y gerdd allweddol a'r digwyddiad troadol yw'r 'Eiliad'. Ond y mae'n dod i'r golwg mewn mannau eraill. Yn ei gerdd gyntaf i'w chadw, sonia am yr adeg y'i sylweddolodd yntau'i hun yn Gymro Cymraeg:

O, ennyd fy llawenydd mawr!

Dyna ganu'r ennyd sy'n sôn amdano'n saith mlwydd oed yn camu i mewn i'r sylweddoliad sydyn o siarad â'i ffrindiau yn iaith ei wlad. Yn yr ychydig y mae'r llawer.

Yn yr ail gerdd a gynhwyswyd gan Caerwyn Williams yn netholiad Gregynog, mae'n canu am y foment y daw Cymru'n un. Sylwer, y mae 'undod' yn bwysicach na 'rhyddid'.

Yn y drydedd, mae'n pyncio am y foment 'Pan gwblhäer caniad sêr y wawr... Pan ddelo Duw a'i gyfrin gylch ynghyd.' Undod eto.

Yn y bumed gerdd, ceir dau 'bryd' – yr un pryd y mae 'Yr Hen Allt' yn tyfu eto; a'r ail, pryd y try hwnnw'n brofiad ysbrydol, mewnlol, yn egwyddor heddwch i fywyd yn wir:

*A'th holl awyddfryd, er pob gwae, yn disgwyl,
Yn disgwyl awr datguddiad Meibion Duw.*

Mae'r chweched gerdd hyd yn oed yn fwy enwog, ac yn sôn am:

*Un funud fach cyn elo'r haul o'r wybren,
Un funud fwyn cyn delo'r hwyr i'w hynt.*

Yn y fan yna y mae amser yn ymgysylltu â holl gyfundrefn anweledig cof.

[Gyda llaw, roedd Waldo'n grac fod Parry-Williams yn *Elfennau Barddoniaeth* wedi gwella'r llinell gyntaf: 'cyn 'relo'r haul i'w orwel'. Ar y pryd, yng nghanol rhamantiaeth hiraethus fflyd o 'orwelion', gogwyddai T.H.P-W. at yr 'awyrgylch' tra oedd Waldo yn gogwyddo at y 'diriaethol'.]

Gellid dilyn yr eiliadau, munudau, neu oriau bach byr hyn oll yn eu blaen drwy'r gyfrol. Cafwyd y 'foment euraid' yn ddiaw Mewn Dau Gae.

Ond ceir golwg arall gan Waldo. Trydydd amser. Dyma'r amser sy'n undod i'r *kairos* ac i'r *chronos*, lle y try'r naill i'r llall, un o fewn un arall:

*Mae amser trwy'r amseroedd
A'i rin gêl yr un ag oedd.
Hen gydymaith pob teithiwr,
Rhydd ei nod ar wedd hen ŵr.*

Dyma'r eciwmeniaeth wir mewn amser, yr undod anenwadol (nid 'cydenwadol' na 'gwrthenwadol') sydd ar gael lle bynnag y bo plant i Dduw yn awr, ac erioed: eciwmeniaeth yr oesoedd. Eciwmeniaeth gredu yw lle y mae pob Cristion heddiw, y foment dragywydd hon, yn frawd neu'n chwaer i Ddewi Sant, i Williams, ac i Ann Griffiths, nid oherwydd aelodaeth o enwad, eithr oherwydd 'troi'n' aelodaeth o ysbryd.

Mae yna ddau beth a ddigwydd. Ar y naill law, y mae'r funud a'r funud yn ymrestru'n fwclis o amser parhaol cadarn unol; ac ar y llall, y mae'r ymestyniad o amser parhaol yn ymgonni yn y foment; nes bod amser ar ryw olwg wedi'i weddnewid:

*Mi chwiliais a dymchwelyd
Mesurau bach amser byd.
Er ymlid, hen Garn Llidi,
O'r oesau taer drosot ti
Anniflan heddiw yw'r hen flynyddoedd
Cans yma mae mynydd fy mynyddoedd
A'i hug o rug fel yr oedd pan glybu'r
Canu ar antur y cynnar wyntoedd.*

*A doe cynheuodd Dewi
Dan y maen ei dân i mi,
Nes o glos eglwys y glyn
Seiniau ysgafn sy'n esgyn.*

Dyfais ysbrydol yw amser y troi ym mryd Waldo. Yn rhyfedd iawn, mae yna fath beth ag

Amser Isymwybodol Cymreig. Ceir dadansoddiad isymwybodol yn yr iaith, fel ieithoedd eraill ond yn wahanol: fe'i hadeiladwyd i mewn i'r geiriau berfol yn ffurfiol. Ac y mae'n unigryw. O fewn yr amodau hyn y mae'r Cymro'n meddwl. Dyma'r fframwaith gorfodol ar gyfer cyferbynnu amser: cyflyrir y Cymro gan y llwybrau deall hyn. Nid dyma'r lle i fanylu am amser yr isymwybod. Ond efallai y dylwn grybwyll un awgrym o gyfrinachedd y fath ffenomen. Ni wnaaf ond delweddu'n ramadegol ar ogwydd megis sut y mae'r gallu cymunedol yn ymrithio o'r golwg yn fframwaith amser.

Mae pob cyfundrefn amser yn y berfau Indoewropeaidd yn ddadansoddiad cyd-wahanol yn gwbl syml ym meddwl cyffredin yr iaith. Sôn yr wyf nid am yr hyn a ddywed yr iaith mewn brawddegau, ond am yr hyn a ddywed yr iaith unigol mewn ffurf (neu gyfundrefn) gynhenid; nid gan gystrawennau, ond gan yr amser a gorfforir mewn terfyniadau distadl, mewn geiriau berfol unigol person cyntaf dyweder, fel y pedwar 'rhedais, rhedwn, rhedaf, rhed'swn'. Cymharwn gyflawnder y Gymraeg yn hyn o beth lle y ceir *chwe* thymp (neu 'tense') yn hollol gyntefig ym Mynegol 'Bod' yn llawn, neu bump yn Ffrangeg, â Saesneg lle na cheir yn y ffurfiau seiniol unigol ond dau. Hynny yw, ceir *dadansoddiadau isymwybodol gwahanol o amser* eisoes o fewn yr ieithoedd. Eisoes, cyn inni siarad neu sgrifennu brawddegau, fe ddadansoddwyd amser gan y meddwl cyffredin difeddwl. Darganfuwyd yn ddiarwybod i'r Cymro *chwe 'chyfnod'* fel petai yn ei fyd ef yn y ferf 'Bod', ond yn y ferf reolaidd, megis 'rhedeg', *bedwar 'cyfnod'*.

Ond yr hyn sy'n ddiddorol yng nghyd-destun ein myfyrdod am agwedd elfennaidd Waldo at amser yw bod yna ddwy lefel yn y ferf Gymraeg ei hun:

A	B
1. <i>rhedais</i>	<i>rhedaf</i>
2. <i>rhed'swn</i>	<i>rhedwn</i> yn y ferf reolaidd.

Sef 2. lefel *-wn* (gobeithio, bwriadu) a 1. lefel heb *-wn* (digwydd); yn ogystal â'r cyfnodau gorffennol ac anorffennol. Yn Saesneg rhaid mynd ati ar y pryd i fynegi hyn yn gystrawennol: peth sy'n rhan ffurfiol o derfyniadau'r iaith ei hun yn y Gymraeg. Yn achos y ferf gyflawn 'Bod', gwahaniaethwn rhwng 'roeddwn i yn Aberaeron ddoe' a 'buais i yn Aberaeron ddoe.' Mae'r blewyn o wahaniaeth gwych hollol 'blentynnol' rhwng y ddwy ddelwedd feddyliol yma wedi'i adeiladu i mewn i feddwl yr iaith. Carwn nodi nad â

sydynrwydd yn unig y mae a wnelo hyn yn unig, eithr â delwedd safle a chyfeiriad, a hefyd â'r hyn a wna'r ddelwedd o amser i ddisgwyliadau. Dyma beth o wreiddioldeb dadansoddi amser yn y Gymraeg. Mor syml groyw y bydd baban o Gymro'n dysgu iaith!

Pam yr holl grwydro gramadegol wrth geisio trafod y mathau o amser yng ngherddi syml Waldo? At hyn rwy'n dod. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ddwy lefel sydd eisoes yn rhan o isymwybod morffemig ffonolegol yr iaith cyn inni'i defnyddio?

Mae'r ail lefel yn *disgwyl*, yn gweld posibilrwydd cynhenid cudd iaith, heb ei gyflawni'n llawn orffenedig neu gaeedig o ran delwedd. Dyma'r dull hanfodol sydd gan yr iaith ei hun yn barod i feddwl cyn ei defnyddio. Mae'n rhan o'r *psyche* (fel y 'modd dibynnol'). Dimensiwn yw ym meddwl creadigrwydd yr iaith.

*Ond gwych a fu hendai gynt
A sarhad amser ydynt.
A'r mynydd a'i rym anwel
A wysiodd im oes a ddêl...*

*Y llan a fu dan hen dŵr
Ydyw tud y datodwr,*

meddai Waldo eto yn 'Tŷ Ddewi' o'i ddyfnderoedd disgwyl. Y dibynnol, cofier, yw Modd mawr y Disgwyl. Y disgwyl hyn a droes yn Fynegiant arwyddocaol iddo, fel pe bai Gramadeg yn weledigaeth. Mae yna lawer o 'ddisgwyl' ysbrydol yng ngwaith Waldo. Dyna'i 'obaith'. Mae'i obaith ef ynghlwm wrth ddau beth: undod disgwylgar ac adfywiad gweithredol anorffen.

Yng Nghymru'r genedl, cyfyngwyd yn y gymdeithas ar yr ymwybod o wirionedd, a chyfyngwyd ar gyfrifoldeb ewyllys. Yn niwedd yr ugeinfed ganrif ceisiwyd clymu'r iaith wrth ddwy weithred annigonol: protestio (sef gofyn i eraill wneud rhywbeth: dogma'r rhamantwyr mai mewn pobl eraill y mae'r pechod gwreiddiol a'r cyfrifoldeb), a chadw (adeiladu mur: amddiffynfa oddefol Maelgwn Gwynedd neu Canute – pa draddodiad bynnag a gofia'r Cymry bellach – yn gofyn i'r môr fynd yn ei ôl, y gwarchod di-newid amhosibl.) Dwy nodwedd drefedigaethol sy'n osgoi disgwyl ac adennill.

Yn amgylchfyd amseryddol Waldo, er bod yna beth 'cadw' a 'phrotectio' yn null y Cymry Cymraeg adfeiliol, fe'u clymir yn fwy penodol â'r ddelwedd ac â'r gwaith personol cyfrifol o adennill, gyda'r seicoleg o adfywio ymarferol ac o atgyfodi uniongyrchol. Sef y gobeithio gweithredol. Yn hyn o beth mae'n dal yn gyfoes. Amserol yw pob disgwyl.

Fe welsom fod Waldo yn ei gerddi yn gwneud dau beth ymddangosiadol wrthddywedol ond ystyrion wir. Ar y naill law, yng ngerddi'r Anobeithlu, y mae ef yn diriaethu'r drwg. Cawn glywed y ffeidd-dra rhwng clensiad ei ddannedd, ac aroglwn bechod. Dyma rai o'i gerddi gorau. Ac yna ar y llaw arall, yn amlach o lawer – y gogoniant yng ngerddi'r Gobaith. Yno, y mae Duw yn disgwyl adennill ynom. Môr goleuni yw yn rhodio dros y caeau; ac yn ein hangen, dros ein pennau, yn un, oherwydd bod pobl yn estyn dwylo at ei gilydd, ac yn ennill tir. Yn ei gerddi duon y mae Waldo wedi wynebu'r nos, wedi cerdded i mewn iddi, ymhellach bellach; ond po fwyaf difrif y treiddia ynddi, agosaf y daw i rithiau lled-felyn y wawr. Crynhoir y drwg yn anad unlle yn y nos sydd rhwng dyn a dyn, a'r daioni ym mhresenoldeb Duw mewn natur ac mewn cyd-ddyn.

Nid mewn gwybodaeth seciwlar y ceir y naill na'r llall, ond mewn adnabod. Nis cyfyngir i allanolion. Eithr heb Dduw, pan fo'n alltud, y mae bywyd yn sylfaenol anniddorol, yn wag, yn syrffedus o ddi-liw. Hebdo Ef try'r cyffredinedd a'r hunanoldeb yn fraw ac yn drychineb. Cyflëir hyn yn bendant gan Waldo; ond, ysywaeth, nid ymdroir yn ddigon gyda'r drylliad na'r hollt yma rhwng Duw a dyn, fel yr ymdry yn fwy penodol â'r hollt rhwng dyn a dyn, nas clymir ond drwy drechu amser.

Bu Waldo'n byw mewn tlodi materol yn bur fynych, ond meddai ar gyfoeth ysbrydol anghyffredin. Mae ei gerddi'n profi eithafion caru a chasáu. Eithr y mae'r pur o galon a'r addfwyn yn etifeddu'r ddaear, am y rheswm a gyflwynodd Bernanos, '*Mae'r rhai addfwyn yn etifeddu'r ddaear, yn syml am na byddant wedi colli'r arfer o obeithio mewn byd o anobaith*'. Meithrina Waldo'r gobaith hyd yr eithaf mewn dyn, heb am eiliad ymadael â'r byd o anobaith. Rhaid i ninnau barchu'r cyfuniad, a'i achub rhag y dynged erch a'r sarhad gan rywrai o fod yn fardd hiraethlon, rhamantus, heddychlon, naif yn unig. Credaf i Waldo sylweddoli'n syfrdanol baradocsaidd yn ei Anobeithlu mai'r cysgod tywyll du hwnnw a rodiai'r gwledydd yn rym ffaidd oedd – o bob peth – Dyneiddiaeth! Dyn yn y canol: cariad ato'i hun yn bennaf. A'r esgus am yr hunan cyffredinol hwnnw? Y fi fall falch: dyneiddiaeth a fwriai'i gysgod i'r lleoeodd cysegredig.

Ac eto, yno hefyd, yn disgwyl am yr hunanoldeb hwnnw y mae Duw. Dyna ran o weledigaeth fawr isymwybodol 'O Bridd'. Yno, yn disgwyl mae Duw. Gwelai hefyd, er gobaith iddo, mai hwnnw, mewn gwirionedd, yn unig oedd biau'r orsedd. 'Roedd

dyneiddiaeth mor rhwydd boblogaidd ac yn lliwio sentimentaliaeth ffug-realidd yr ugeinfed ganrif: bu yntau ar ymyl hynny. Ond esgus oedd hyn i bobl weithiau eu mawrygu'u hunain, a'u hamddiffyn eu hunain, a'u gwneud eu hunain a'u barn eu hunain ohonom yn uwch na Duw. Drwy sylweddoli hyn oll, a thrwy fynnu yn lle hynny, obeithio trwy weithredoedd cadarnhaol a disgwyl yr Adennill caled, felly y mynnodd Waldo ei roi ei hun dros Gymru. Ei neges yn nhywyllwch yr Amseroedd crebachlyd i'r Cymry Cymraeg a'r Dysgwyr mewn oed, fel ei gilydd a chyda'i gilydd, oedd i beidio â bodloni ar 'gadw' yn unig nac ar 'brotestio' yn unig i'r awdurdodau ymarfer drosom, er pwysiced y rhain, eithr i fod yn gyfrifol, i gorffori gobaith yn uniongyrchol mewn disgwyl 'adfywio' ewylllys fel gweithred iachaol, adnewyddu yn yr ystyr fwyaf cyfoethog. Ac i chwi'r credinwyr yn weithredoedd gwirfoddol. Gwasanaeth dyn-garol yw Adennill. Felly, ac efallai'n benodol yng nghanol Anobeithio'r Fro Gymraeg, y meithrinir Gobeithlu diymwad yr hedyn. A all Cymry wneud hyn gyda'r iaith – ie, hyd yn oed y Cymry Cymraeg? Mae'r iaith, hyd yn oed yn ei 'Ffurf' ei hun, yn cyfoes ddisgwyl. Disgwyl y mae am 'Adennill' Waldo'r dibwys yn lle 'Statws' yr awdurdodau.

R.S. THOMAS A'R GENEDL

Dechreuodd bywyd boenydio R.S. Thomas yng Nghaerdydd ym 1913 – neu fel y dywedai ef ei hun efallai, 'The baby was dropped,' – neu mewn cerdd arall, 'dropped without joy from the gaunt womb.' Ymlwybrodd wedyn o garreg i garreg, o asgwrn i asgwrn, o negyddiaeth i negyddiaeth nes cyrraedd 2000.

Ambell waith, mewn ymddiddan rhydd, neu hyd yn oed mewn cyfweliad, bydd Sais yn gofyn imi megis i chithau'n ddiau, pa feirdd o Loegr yn y ganrif cynt sy'n creu'r argraff fwyaf arnom. Tipyn yn anraslon i genedlaetholwr Cymreig (neu Gymraeg yn hytrach) ac i un sy'n edmygydd eithafol o farddoniaeth Saesneg hyd at Eliot (ac yn wir o Yeats a Hardy a'r criw o Americanwyr mawr ar ddechrau'r ganrif) fyddai dweud y gwir yn blwmp ac yn blaen. Gellir bob amser ddod o hyd i rinweddau. Ond at ei gilydd, pe bawn yn dawel mewn cyffesgell a heb fod yn debyg o ymddwyn yn haerllug felly, a chymryd yn gyntaf y genhedlaeth a ymgynullodd o gwmpas bochau rhychiog Auden, dyweder, dichon y byddai'n rhaid imi fwmial na fu gennyf am gyfnod go hir lawer i'w ddweud o blaid y genhedlaeth arbennig honno, dim o leiaf a wrth-ddywedai'n chwyrn farn Leavis. Bellach, ers tro byd, sut bynnag, trodd y llif yn erbyn barn y beirniad hwnnw; a dyna'n ddiau – yn groes i'r graen – pam yr wyf innau yn tueddu i ailystyried ac i barchu'u crefft fwyfwy. Tueddaf felly i ystyried i'r grŵp hwnnw o feirdd a gondejniwyd gan Leavis – Auden, Spender, Day Lewis, MacNeice – adennill tecach edmygedd yn y blynyddoedd diwethaf.

Wedyn, gyda'r Mudiad a'u dilynodd, a'r beirdd a ymgynullai o amgylch Philip Larkin, er gwaethaf rhai cerddi gwirioneddol drawiadol a hyfryd, ni allaf lai na synied fy mod yng nghwmni doniau cymharol eilradd a chyfyngedig, negyddol hyd yn oed; ac mae yna gymaint mwy gan farddoniaeth Saesneg gynt i'w gynnig inni yn yr amser byr sydd gennym ar ôl ar y ddaear hon. Wedyn, Ted Hughes a Gunn, Heaney a Hill anfudiadol: nawddoglyd fyddai sôn am y diddanwch gwir y gellir ei gael ganddynt. Ac felly gyda'r rhai ar eu hól hwy; ond rwyf wedi'r cwbl yn chwilio'n awr am lifoleuadau canrif gyfan, a hynny mewn llenyddiaeth hynafol fawr a welodd yn dda esgor rywdro ar Yeats a Wordsworth, Donne a Hopkins, Shakespeare a Milton, Chaucer a Pope, Herbert a Keats.

Mewn cyd-destun goludog o'r fath y mae ceisio ystyried lleoliad R.S. Thomas yn rhoi, yn ddiau, dipyn o sialens. Cafodd R.S. yrfa hir a helaeth. Ac i mi, nid oes o Loegr yr un bardd wedi Eliot a feithrinodd gywair ac ieithwedd mor gyson gyrhaeddgar ag ef, nac a gyflwynodd fyfyrddod am fywyd mor ddwys a chyfoethog, nac a greodd ddelweddau mor aeddfed arwyddocaol i'n hymateb cyflawn i'n sefyllfa yn yr ugeinfed ganrif ag a wnaeth y bardd hwn. Ni allaf lai nag addef, er gwaethaf ambell bwt ganddynt, fod beirdd fel Larkin ac Auden ochr yn ochr ag ef yn arddangos efallai fath o anaeddfedrwydd personol, teneurwydd emosiynol, a gweledigaeth ddychmygus ddiruddin nad yw'n fy moddhau i o leiaf fel y gwna'r mawrion Saesneg drwy'r canrifoedd.

Llawer mwy datblygedig personoliaeth yw R.S., i'm bryd i, na phobl y 'Mudiad' bondigrybwyll fel Larkin ac Amis. Mae'r ddau yna fel petaent yn dal bob amser i gael eu trafferthu gan blorynnod chwareus blaenlencyndod. Mae gan R.S. ddyfnach a llawnach meddwl, gyda llawer mwy i'w ddweud, wedi myfyrio'n ddwysach ac yn onestach am gatholigrwydd bywyd. Er mor ymddangosiadol gul ei amgylchfyd dewisedig, y mae'n darparu myth lletach ei orwelion. Mae ganddo lawer mwy i'w roi yn ddeallol, ynghyd â mwy o ruddin moesol. Yn fyr, oedolyn yw ef ar raddfa ryngwladol. Diau fod Larkin yr un mor feistrolgar o ran rhythm a delwedd ag R.S.. Ac mae amryw byd o'r beirdd eraill yn fwy ffrwythlon eu miwsig ac yn lletach rychwant eu cywair. Ond o ran llawnder a grym eu myfyron, tlawd soffistigedig yn aml yw eu golwg yn ei ymyl ef.

Yn y bennod hon yr wyf am oedi gyda'i fyth o Gymru yn neilltuol, a hynny'n bennaf yn hanner cyntaf ei yrfa. Ond carwn ddarllen, yn ôl i mewn i'r gwelediad od hwnnw, yr ail ymagwedd a fynegwyd fwyfwy gyda *H'm* ac wedyn, sef ei fyfyrddod crefyddol. Yn hytrach na syllu ymlaen yn daclus olynol felly o gyfeiriad Iago Prytherch at Dduw, ac yn hytrach nag ynysu cyfnod Iago a'i drafod ar wahân i'r ail gyfnod, yr wyf am geisio sefyll â'm traed yn solet yng nghyfnod ei flodeuad pellach ar ôl 55 oed, er mwyn bwrw golwg yn ôl tua hanner cyntaf ei yrfa. Edrych yn ôl o gyfnod y llythrennau bach ar ddechreuadau'i linellau i gyfnod y llythrennau mawr. Wedi'r cyfan, ymateb ysbrydol fu ei ymwybod o Gymru o'r cychwyn; ac er mwyn amgyffred ei moelni a'i gwacter, ei syrffed a'i dirgelwch, priodol yw ymaflyd yn gychwynlon, yn yr angerdd

crefyddol rhagdybiol a ganfyddwn ar ei orau yn ail ran ei yrfa. Gobaith y diwedd sy'n diffinio ymchwil y dechrau.

Carwn ystyried felly yn ôl y dull hwn rai rhagdybiau ysbrydol dylanwadol wrth ymhelaethu ar ei syniadaeth am y genedl. Nid wyf yn amau nad ymgyfoethogodd ei syniadaeth grefyddol o *H'm* ymlaen, a dod yn wahanol beth i gyfnod Iago Prytherch; ond ei hegluro a wnaethpwyd a'i dyfnhau, yn hytrach na'i throi i gyfeiriad newydd. Presennol, hyd yn oed yn y dechrau, oedd y diwedd dwys hwnnw.

Dyna, beth bynnag, sut y bwriadaf gyfiawnhau archwilio *diwedd* twf R.S. Thomas er mwyn adnabod ei *lawnsio*. Gellid dweud os mynnir mai'r diwedd yw'r blodyn a ymladdai i ddod allan o guddle'r blaguryn cynnar oer yn y dechrau. Gŵyr llawer bardd, mae'n siŵr, am yr awydd i ganu ail gerdd a thrydedd a phedwaredd wedyn, oherwydd ei fod wedi dechrau'r daith heb lwyddo eto i gyrraedd y diben, ac mae arno awydd i lenwi'r bwlch. Gŵyr pob gwyddonydd fel y gall sythwelediad neu esboniad 'terfynol' hefyd ddehongli'r daith ar ei hyd yn ogystal â'r broblem ddatrysedig ar y pryd. Ystrydeb yw datgan mai dim ond wedi dringo'r mynydd y canfyddir y dyffryn ar ei hyd. Mewn iaith ni ellir hyd yn oed geisio deall gramadeg nes dadansoddi'r brawddegau a gynhyrchir drwyddo yn y pen draw. Y clo felly yw'r hyn sy'n dadlennu'r ymagor.

Un o'r golygon mwyaf cyson ar Gymru a geir gan R. S. yw ei bod hi'n eithaf sych ac yn oer drybeilig, yn chwerw o ddu, yn llwch. Lleolwyd ganddo yn ddaearyddol o'r diwedd Dir Diffaith T.S. Eliot, a'i gael yn ddiogel i'r gorllewin o Loegr. Gwlad dan farn yw hon mewn modd treiddgar. O un safbwynt go sentimental a daenellwyd ers diwedd y ganrif ddiwethaf, anffasiynol fu wynebu ffaith barn fel yna. Ond nid dyma'r unig wedd ar y gwir plaen nas cafwyd yn boblogaidd yn yr opera sebon a ddifaterodd y Cymry modern, ac a ddatrowyd yn o hallt gan R.S. Thomas. Sentimentaliaeth oedd peth o'r Eingl-Gymreictod yma o'i gylch, hyd yn oed y negyddol; ac nid ymwybod ystyriol.

Du yw ei hoff liw. Y methiant a'r cywilydd yng Nghymru yw rhan bwysig o'i chenedligrwydd iddo. Bu amryw ohonom yn ddiweddar yn dadlau mor werthfawr yw'r agwedd negyddol ar genedligrwydd i ni Gymry cyfoes sylweddoli realiti creadigol ei unigrywiaeth. Gwedd ar ein bodolaeth Gymreig yw'r israddoldeb a'r euogrwydd: rhan o'r hyn a fu'n ein diffinio. Ond yr hyn a rydd R. S. inni yw dehongliad bardd. Dywedodd am un prydydd Americanaidd a edmygai'n fawr: 'he preferred black' (*Collected Poems* 97).

Wrth i R.S. wylid y cymeriad John Davies yn dychwelyd i'w dŷ, y mae'r te a yf yn 'peat-black' (114). Mae'r goedwigaeth swyddogol yn sefyll o'n deutu 'in black crowds' (130). Gwlad ddu yw Cymru benbwgilydd a'i

'black soil'

'I labour at.' (143); ac *'all black'* yw'r bryniau (70), gyda'r glaw yn syrthio arnynt o'r *'black cloud'* (422). Oherwydd hyn:

*'There are times
When a black frost is upon
One's whole being'* (168)

ac y mae yn fynych fel y gellwch ddyfalu mewn *'black mood'* (81), ac adlewyrchir hyn yna yn eu gwisg gan y clerigwyr gwledig hwythau yn *'their black cloth'* (82) ac yn y capel *'Between the boards of a black book'* (117). Yr hyn a gysylltir â'r Cymro felly yw *'Black hair and a black heart'* (91).

Nid syn felly, pan dry R.S. i ganu am un o'r llwyth persain hwnnw nad oes yr un yn anwylach iddo ef na hwy, a phan ddewisa'r bardd yn y llwyth hwnnw un i fod yn adlais iddo'i hun fel prydydd, mai'r hyn a gafodd oedd aderyn du:

*'It seems wrong that out of this bird,
Black, bold, a suggestion of dark
Places about it, there yet should come
Such rich music ...'*

Nid dyma'r unig dro yng ngherddi duon R.S. y daw allan o'r dŵch belydryn o gynghanedd wydn. Ond dychwelwn at hynny eto. Yr hyn y dylid ei nodi ar hyn o bryd yw bod y Gymru a labyddir ganddo yn ymddangosiadol ddirugaredd weithiau, yn drwyadlach yn wir nag y'i llabyddiwyd gan neb arall erioed am wn i yn Saesneg, yn wlad ddu bitsh, a bod hon yn wrthrych serch eiddgar a phefriol.

Du oedd ei hoff liw, fel y cytunwn efallai, a llwyd. Llwyd tywyll yw ei gerddi, i raddau helaeth, o ran ansawdd a thrwch. Ond dichon y cawn gyfle i oleddfu hynny hefyd pan ddown i ystyried ei gysylltiad â'r hyn a elwir yn 'Movement' yn Lloegr. Rhaid cysylltu ei ddŵch yn awr â rhywbeth pwysicach. Mentraf awgrymu mai'r dŵch negyddol hwn, sy'n llinyn di-dor yng ngolwg R.S. ar Gymru, sy'n ein harwain ymlaen o Gymru at ei olwg negyddol ar Dduw a'i olwg ar fywyd yn gyffredinol. Dyma'r hyn a eilw ef mewn un gerdd yn 'Via Negativa'. Daw'n amlycach yn ei ail gyfnod mwy penodol

gynyddol ynghylch negyddiaeth Duw, eisoes wedi bod yn negyddiaeth baratoawl a rhagdybiol yn ei olwg gychwynnol ar Gymru.

Gadewch inni ddechrau ystyried hyn, beth bynnag, yn ôl y drefn a awgrymais gynnu, sef yn y diwedd. Credaf y gellir sylweddoli wrth edrych tuag yn ôl at Iago Prydderch, o gyfeiriad Duw yr ail gyfnod, fod ganddo ynghynt lawer mwy na'r mwgwd Caradoc-Evansaidd cartwnaidd. Nid dyma *persona* y bardd ceintachlyd tywyll hannerpan sydd wrthi'n gweithio'n od wythïen pesimistiaeth garicatiwraidd yn y cae moel, er ei fod yn dal ati ar hyd haenen ddifyr o ddu i ddelweddu Cymru a Prytherch. I raddau, ceisio datrys yr un broblem â Charadoc Evans a wnâi. Mae Iago yn profi bendithion od o ddu o hyd. A bendith felltithiol gyfredol i'r bardd fu Duw yntau, wrth fyfyrion am Iago. Dyma thema unol y bardd rhwng y cyfnod cyntaf a'r ail na ddylid ei wahanu rhagddi.

Sylwn am foment ar y gerdd 'Via Negativa' yn y gyfrol *H'm*, ei gerdd echellog o'i gyfrol echellog, cerdd sy'n ddigon tebyg i rai o gerddi olaf Saunders Lewis. Gyda'r gerdd hon daw'r geiriau 'empty' ac 'absence' yn fwyfwy arwyddocaol. Dechreua gyda llinell nodweddiadol negyddol:

*'Why no! I never thought other than
That God is that great absence
In our lives, the empty silence.'* (220)

Negyddol eto yw cychwyn y gerdd 'The Tool' (271):

*'So there was nothing?
Nothing. An echo?
Who spoke?
There was emptiness
and a face staring, seeking
a likeness. There was thought
probing an absence. God ...'*

Y mae'r olwg negyddol hon ar Dduw yn gyfarwydd i'r sawl sydd wedi ymgydnabod â'r llwybr Dionysaidd mewn cyfriniaeth. Fe'i ceir yn *The Cloud of Unknowing*, y testun Saesneg o'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Fe'i ceir yn wir yn nhraddodiad cyfriniol y Swffi, a'r pwyslais ar ddibersonoli neu ddifodi wrth uno â Duw. Yn yr *Upanishads* darllenwn y frawddeg: 'Pwy bynnag a ddywed y frawddeg na wŷr yr Ysbryd hwnnw a'i gŵyr; pwy bynnag a haera ei fod yn ei wybod, nis gŵyr.' Dyma'r anwybodaeth ddysgedig a ystyria mai llawnder yw duw na ellir ei gysyniadu, *docta ignorantia* Niclas o Cusa. Dyma golli einioes er mwyn ei chael. Yr hyn yr wyf yn ceisio'i

ddadlau nawr yw mai dyma'r hyn a geir ar ryw olwg o'r cyfnod cynharaf gan Iago Prytherch a'i gymheiriaid a phob amser wedyn. Drwy'r Gymru wag y dysgodd am y Duw gwag. Dyfynnaf un ar bymtheg o ddechreuadau (h.y. llinellau cyntaf) cerddi:

- '*No speech: the raised hand affirms.*' (12)
'*I am Prytherch. Forgive me. I **don't** know.*' (60)
'*Turning aside, **never** meeting.*' (61)
'*We've **nothing** vast to offer you, **no** deserts.*' (65)
'*To one kneeling down **no** word came.*' (67)
'*You **never** heard of Kant, did you Prytherch.*' (77)
'*There was Dai Puw, he was **no** good.*' (149)
'***Not** that he brought flowers.*' (186)
'*I **don't** know, he said. I feel sorry.*' (259)
'***Not** caring about it.*' (322)
'*And **neither** of them has said.*' (369)
'***Not** conscious.*' (427)
'***Nothing** is here.*' (441)
'*Oh, I know it and **don't**.*' (338)
'*Face to face? Ah **no**.*' (347)
'*There is an island there is **no** going to.*' (364) [y tu hwnt i Kerguelen!]

Cyfran yn unig yw hyn wrth gwrs o'r llinellau cyntaf negyddol, ac yr wyf wedi hwylio heibio i *deitlau'r* cerddi: 'No', 'No Through Road', 'No answer'. Eto, yr hyn sy'n bwysig efallai yw corff mewnol y cerddi sy'n dilyn y llinellau dechreuol hyn, ac fe grynhoir y negyddiaeth ddychrynlyd hon orau yn ymennydd y cymeriad Evans (247).

*'You needn't wonder
What goes on in his mind, there is nothing
Going on there; the unemployment
Of the lobes is established ...
About living in the country, peace
Can deafen one, beauty surprise
No longer. There is only the thud
Of the slow foot up the long lane
At morning and back at night.'*

Dyma'r wlad, y wlad ysbrydol, y wlad foel a gyfarfu bellach â wal, nad oes ynddi gynnwys, y wlad oddrychol wag. Ac na feddylier am funud mai'r bardd yn sefyll oddi

uchod yw hyn yn edrych i lawr ar werinwyr anwybodus gwag. Dyma'r byd y mae ef ei hun yn rhan ddofn ymrwymedig ohono hyd at y pwynt absoliwt. Wele'r bardd ei hun ar ei wely angau, yn wahanol braidd i Caradoc Evans:

*'His tongue wrestles to force one word
past the thick phlegm; no speech, no phrase
For the day's news, just the one word 'sorry';
Sorry for the lies, for the long failure
... having nothing to leave
But a few songs, cold as stones
In the thin hands that asked for bread.'*

Gwlad-na-wlad yw Cymru yn ôl golwg o'r fath. Absenoldeb Cymru yw ei phriod nodwedd. Os dymunir treiddio iddi ac ymaflyd yn hanfod ei chyflwr cyfoes, rhaid pasio drwy nos dywyll ei henaid. Bu realiti Cymru'n ddarganfyddiad dysgedig iddo.

Nodais eisoes rai o'r llinellau agoriadol. Ond y mae'r llinellau clo negyddol yr un mor niferus, onid yn fwy felly. Tuag at y negydd terfynol hwn y mae'r bardd yn dirwyn ei lwybr du; mewn negydd y ceir cwlwm.

*'This work and it was **not** finished.'* (81)
*'Of man. You will **not** do so again.'* (97)
*'Of her proud face is **not** for you.'* (126)
*'With questions you had **not** asked.'* (127)
*'I saw things. But **not** she.'* (163)
*'**Not** opening it.'* (170)
*'Of a poet strikes **no** roots in their hearts.'* (175)
'One by one to an untenanted cross.' (180)
*'**Not** understanding.'* (190)
*'To beauty. It was **not** granted.'* (209)
*'Smiled on me, giving **neither**.'* (252)
*'in a way that men are **not** now.'* (276)
*'women and are **not** happy.'* (320)
*'**didn't** and we are still waiting.'* (360)
*'being, a vacuum he may **not** abhor.'* (361)
*'who have **never** known either freedom or love.'* (377)

'the turning that we don't take.' (344; sy'n ein hatgoffa, nid am yr unig dro, am Frost) ac yn y blaen: ni raid imi nodi'r llu a gesglais. Dyma'r ffrâm: y dechrau a'r diwedd. Ar ryw olwg, yr oedd yn fframwaith a amodai'i fywyd.

Yn awr, y mae'n bwysig sylweddoli mai calon y negyddiaeth ddarogan hon yw'r hen gydymaith Angst, yr Angst y bu R.S. yn ymdroi yn ei gwmmi wrth fyfyrio am Kierkegaard, y Daniad du hwnnw y canodd ef gerddi iddo, megis 'Kierkegaard' ac 'A Grave Unvisited', ond y ceir un ddelwedd benodol o'i eiddo o leiaf dair gwaith mewn cerddi eraill gan R.S., sef 'Synopsis', 'Balance', a 'Strands', delwedd y sefyll ar ystyllen uwchben saith-deg o filoedd o wrhydau o wacter. Math o ofn yw'r Angst hwn, ond nid ofn arferol: mae i ofn wrthrych clir fel arfer. Gwacter, absenoldeb, a diddim yw'r gwrthrych (neu'n hytrach y goddrych) hwn ar gyfer Angst, ac ynghyd â hynny unigrwydd absoliwt. Yn awr, i rywrai fe all sefyll o flaen y diddim hwn ymrithio ac ymgorffori mor ddiriaethol real nes dod yn beth, a'r peth hwnnw mor feddiannol nes cael ei weddnewid yn bresenoldeb o'i fath ei hun. Wrth ddod yn sgil cyfosodiad Hegel, casglodd Kierkegaard na ellid sylweddoli hwnnw drwy reswm fel y cyfryw. Gwahanodd ffydd oddi wrth y rhesymegol, ac fe'i canfu o'r newydd mewn llam, mewn profiad na ellir ei fynegi'n osodiadol. Pan hongiai Kierkegaard uwch gwacter, hongiai R.S. uwch Cymru.

Fe geid tipyn o wahaniaeth rhwng R.S. a Kierkegaard, bid siŵr, gan mai oherwydd ei olwg ar gelfyddyd efallai yr ymataliai R.S. yntau fel arfer rhag traethu'n osodiadol. Hefyd fe briododd R.S. ei Regina, fel y tystia'i gerddi teuluol. Ac roedd ganddo Iago Prytherch yn ffrind ac yn gydweithiwr. Ond fe wybu am unigrwydd pur, fel y soniai mewn sawl cerdd (92, 124, 138, 254, 274):

*A pen appeared, and the god said:
'Write what it is to be
man.' ...
and I spelled out
the word 'lonely'.*

Fe wybu'r bardd hefyd yn anad dim yr Absenoldeb:

that God is that great absence (220; cf 221, 243, 266, 271, 283, 323).

Mae ganddo gerdd yn dwyn y teitl 'The Absence' (361) fel y mae ganddo gerdd gydbwysol yn dwyn y teitl 'The Presence'; ond yr hyn sy'n ddiriaethol feddiannol ynglŷn â'r profiad hwn yw'r ymwybod cyson fod yr absenoldeb noeth hwnnw mor fyw nes

ymrithio'n bresenoldeb fel y mae tlodi tywyllwch yn ymwthio tua Goleuedigaeth, sef un o syniadau cyfarwydd Simone Weil:

*its absence
was as its presence. (306)*

*a thin man
in love's absence (323)*

The darkness implies your presence (343)

*as sensitive to
an absence as to a presence (360)*

*It is this great absence
that is like a presence ...
emptiness ... vacuum. (361)*

Ceir geiriau allweddol eraill – heblaw 'absence' – fel y gwelir yn y cwlwm hwn o brofiad, geiriau megis 'darkness, emptiness, vacancy, nothing'. Ac at ei gilydd y mae R.S. braidd yn Anseisnig yn hyn oll. Nid yn unig mae'n hen Gymreigaidd yn ei letholdeb ysbrydol sy'n cael ei atgyfnerthu gan ei ymwybod o wacter ac o absenoldeb Cymru ei hun o'i ddeutu; ond y mae ei Angst yn medru adleisio llenorion tramor yn hytrach na chydgordio â ffasiynau ein cymydog lled gysurus. Heblaw Kierkegaard, meddyliwn am Kafka a'i ymchwil seithug. Archwilio problem euogrydd a wna Kafka yn *Y Treial*, a phroblem unigrwydd yn *Y Castell*, a dyma ddwy broblem ganolog yng ngwaith R.S. Thomas. Ymglywn felly yn ei waith ag affwys o'r fath fel y'i gwnawn gan y bardd Rwsiaidd Tyutshef a'i gerdd 'Affwys'. Byddai R.S. yn gartrefol gydag amryw Rwsiaid, fel y buasai gyda Heidegger efallai. At ei gilydd, cysgodir y gelyn Lloegr hithau ryw ychydig yn y cyfnod diweddar gan y caeau criced, y dafarn gyfeillgar ar y gornel, yr Eglwys Anglicanaidd, Ascot, y Blaid Doriaidd a Chastell Windsor rhag rhyw ymyrraeth anhydrin felly. Dyma un o'i rhinweddau yn ogystal â math o ddiffyg. Dyw hi ddim yn griced acw i sôn ormod o ddifri am Dduw mewn cerdd. Ac os nad yw Duw yn chwarae criced mewn mydr, neu o leiaf bolo, yna dichon na ddylai Ef fod ar y cae o gwbl.

Nid yr ymwybod crefyddol fel y cyfryw sy'n ganolog i'm trafodaeth hon, serch hynny, ar hyn o bryd, ond yr awgrym mai drwy negyddiaeth, drwy wacter, drwy absenoldeb o'r fath y mae R.S. wedi dod i adnabod Cymru. Heb sylweddoli cywilydd y wlad, y brad a'r gwadu, iselder ei ffeidd-dod yn ei bydolrwydd taeg, does dim gwir adnabod arni. Heb ei fod ef yn nesu ati yn ei diddymdra, nid yn unig yn ei diddymdra

anymwybodol, ond hefyd ar dro yn ei hawch gwyllt am ddiwymdra, ni ellir gwybod ei chraidd. Ac yn y peidio difaol a moel hwnnw y ceir ymglywed yn y pellterau fel petai â'i bodolaeth-na-fodolaeth, Yn ei gwendid y mae ei hadnabod yn y bôn. Canys y gwacter hwn yw Cymru. Â'n ôl, felly, o Dduw i Gymru.

'From my sad country the shame.' (161)

Heblaw hynny i gyd, ei dirgelwch hefyd yw Cymru. Y methiant i'w hadnabod sydd yn ei negyddiaeth bywyd.

'I must stay with the hurt' (120)

Y braw o Gymru yw'r braw o fod yn farw, felly, ac o fod yn fyw o hyd i wybod y marw hwnnw, – lle da i gyrcu tua Duw. Wrth ei ochr, plentynnaidd yn fynych oedd amgyffrediad ei gyd-Gymry di-Gymraeg o Gymru.

*

*

*

Mewn cyferbyniad ag un o gerddi R.S. cofiwn gerdd ateb gan Euros Bowen ('Celain Hen Gân' yn *Cylch o Gerddi*) sy'n troi oddi wrth y suddo a'r pydru goddefol tuag at adfywio gweithredol. Ond ni lwyddodd R.S. i ganfod y Gymru weithredol adfywiol. Tuedda gwaith barddonol R.S. i fod yn fwy mewnbyg adfeiliol nag a wna peth o'n barddoniaeth Gymraeg ddiweddar, sydd er hynny yn sylweddoli'r sefyllfa negyddol yn burion. Er gwaethaf ei eithafiaeth, tawelyddiaeth yw ei hanfod cudd. Dywedodd Brian Cox, 'He is not of Resurrection, but of the Cross.' Cytunwn o leiaf â'r negydd.

Nid yw'r atgyfodiad yn ganolog iddo, nac yn ei grefydd, nac yn ei Gymru. Ond dylid goleddfu hyd yn oed yr awgrym hwn am y Croeshoeliad fel iawn dros bechadur, a Christ yno yn Brynwr. Oherwydd R.S. Thomas yw bardd myfyrdod y munudau hynny o dywyllwch ar y groes pryd yr ymdeimlodd y Mab fod y Tad yn ei adael, yn ei wrthod oherwydd fod Crist wedi cymryd arno'i hun ffeidd-dra pechod Ei bobl. Uniaetha R.S. ei hun, yn drosiadol fel petai, ag oerni'r gwacter ofnadwy hwnnw a'i unigrwydd eithaf, a'r esboniad a geir yn Salm 22, 1-18. Yng ngeiriau Dr Gwyn Davies: 'Yn y Beibl cysylltir tywyllwch â barn (e.e. Math. 8:12; Dat.6: 12,17): daeth barn Duw ar ei Fab ar y groes, daeth uffern i Galfaria, profodd Iesu Grist ei phoen a'i dychryn. Dyma ddarlun o erchylltra pechod yng ngolwg Duw – fel petai hyd yn oed yr haul yn methu ag edrych ar yr Un pur a dhalogedig yn cael ei newid yn bechod ac yn felltith (2 Cor. 5:21; Gal. 3: 3).'

R. S. Thomas wedyn yw bardd Llyfr y Pregethwr, a'i wagedd o wagedd. Ef hefyd yw bardd erledigaethau Llyfr Job. Dyma'r cyd-destun canolog iddo. Dyma, i raddau, unochredd ei gymeriad thematig. Ond dyna hefyd (ar yr olwg gyntaf) a geir yn ei 'Welsh Landscape' a'i 'A Welshman to any Tourist' a'i 'Welcome to Wales' hwythau. Cymru ddiffaith yw ei wlad sydd mor debyg mewn ambell dinc i Wlad Adfeiliedig y bardd Cymraeg Gwenallt. Mae profiad cynifer o feirdd Cymraeg yn ymdroi'n brofiadol ac yn ysbrydol o gylch dyfnder dioddefaint eu cenedl. Dyma un o'r priodoleddau unigryw ym moderniaeth barddoniaeth Cymru. Roedd Gwenallt hefyd yn fardd ysbrydol ei olwg ar Gymru, ac yn berson y sgrifennodd R.S. gerdd amdano. Ond ceir llawer mwy na negyddiaeth ysbrydol o'r fath gan R.S., a hynny ar lun cyffyrddiadau achlysurol, ysgafn ond arwyddocaol iawn. I hyn y mae ef yn ein croesawu, i'r diymadferthedd anweithredol.

Cymerer er enghraifft ei gerdd 'Nuclear' sy'n dechrau mewn Duw (drachefn yn Dduw gwahanol i'r Un Cristnogol datguddiedig) nad yw'n llefaru, Duw sy'n ymdroi gyda'r mudandod, ac eto'n cyrraedd rywfodd y gair a wnaethpwyd yn gnawd. Term crefyddol priodol i R.S. yn ei gerddi ydyw tawelwch fel arfer. Clywn am '*the silence of God*' (378), '*I pray and incur/silence. Some take that silence for refusal.*' (391: cf 342, 343, 379, 385, 387, ayb). Ond dyna mewn modd rhyfedd hefyd y tawelwch yng Nghymru ryddfrydig ddi-Gymraeg hithau ar ôl colli'r Gymraeg: '*A stranger at my lips*' (25), '*the waste of thought*' (65), '*I can't speak my own language*' (129), '*elbowing our language /Into the grave that we have dug for it.*' (194 cf 91 '*Expatriates*'). Bydd llawer unigolyn ysbrydol yn cyrchu allan i ddistawrwydd i fyfyrion am Dduw, fel y gwna R.S. yntau. Ond fe â R.S. hefyd, yn ei gyfnod cynnar beth bynnag, i ddiffeithwch di-iaith Cymru i fyfyrion fodernaidd am Iago Prytherch. Yno y caiff y difrifoldeb mawr o ymroi ac ymdroi mewn math o arswyd i'r gymdeithas. Gwedd ar wir yr absenoldeb yw hyn, a brofir yn Iago Prytherch ei hun, a chyfetyb i Dduw yn gwrthod yn ogystal ag yn derbyn.

Profiad sobreiddiol dwysaol iddo felly oedd treiddio i wacter neu absenoldeb meddwl Iago Prytherch. Prawf R.S. angst wrth sefyll ar ystyllen uwchben Prytherch a'i gymheiriaid:

'There is something frightening in the vacancy of his mind.' (A Peasant)

Peth llawer amgenach na thwprdra yw'r gwacter meddwl ysbrydol hwn. Sonia yn 'Iago Prytherch':

*'Your thought's bareness; science and art,
The mind's furniture, having no chance
To install themselves, because of the great
Draught of nature sweeping the skull.'*

ac yna yn 'Gone' am

*the crazed eyes that through the unseen
drizzle of its tears looked out
on this land and found no beauty
in it, but accepted it, as a man
will who has needs in him that only
bare ground, black thorns and the sky's emptiness
can fulfil. [Yn y 'black thorns' y mae Crist a'r wlad yn cyfarfod.]*

Eto yn 'The Dark Well':

*There are two hungers, hunger for bread
And hunger of the uncouth soul
For the light's grace ...
whose heart, fuller than mine
Of gulped tears, is the dark well
From which to draw, drop after drop,
The terrible poetry of his kind.*

Yn 'For the Record' mae'r 'dark' ofnawy hwnnw sy'n gysylltiedig â Phrytherch yn cael sylw eto, ond bob amser mewn termau ysbrydol:

*You were on the old side of life,
Helping it in through the dark door.*

Yn 'Green Categories' y mae'n synied am Brytherch:

*even while you sleep
In your low room, the dark moor exerts
Its pressure on the timbers ...
Exposed suddenly to the cold wind.*

Gŵr o dan farn y gwacter mawr hwn, felly, yw R.S.; ac yn wir, rhan ohono yw Prytherch. Nid eiddo ef y tawelwch cynhemlog neis na'r rhyddfrydigrwydd dyneiddiol.

Yn fynych, ym mhrofiad y Cristion uniongred, nid Cariad yw Duw yn gyntaf, ond Sancteiddrwydd. O'r hyn lleiaf, onid amgyffredwn beth o'r Sancteiddrwydd, mae yna berygl inni gamddeall anghyffredinedd y Cariad drwy droi'n rhyddfrydol o glyd. Y Sancteiddrwydd yw un o'r priodoleddau dwys sy'n diffinio'r Cariad. Dyma'r hyn a hepgorwyd yn rhy hwylus efallai gan ddiwinyddion modernaidd wrth drafod y Groes. Nid maddeuant naif ac awtomatig gysurlon a gafwyd ar y Groes honno, ond cyfiawnhad.

Yn wir, byddai'r Groes yn ddiystyr pe na bai Duw yn fwy na Chariad yn yr ystyr arferol a meddal, heb ddim i'w wneud ond maddau. Defnyddia R.S. Thomas y gair 'Dark' o hyd i bwysleisio hyn. 'Tywyll' yw'r hyn a ddywed am Dduw yntau, term sy'n wahanol i 'ddu' gan ei fod yn awgrymu gan amlaf 'guddiedig' a 'gorwahanol':

Is truth so bare / so dark ...? (164), God will never be plain and / out there, but dark (364; cf 61, 85, 87, 196, 220, 251, ayb).

Ond hyn a ddywedir am Gymru hefyd ... *the dark moor (77), dark soil (88), dark past (90), the cold / Dark ... dark filling; It was the dark (74), your dark figure (87; h.y. Iago), the Welsh race / Who brood with dark face (111 cf 19, 66, 71, 93, 164)*. Dyna pam y mae'n gywir inni synied am Gymru R.S. a'i thywyllwch fel profiad ysbrydol.

Ymlyna'r tywyllwch hwn wrth y traddodiad Dionysaidd cyfriniol adnabyddus. Traddodiad pwysig yw hwn ym myd defosiwn, a thraddodiad sy'n dyfnhau'r gwirionedd am y tywyllwch. Ond yn y cyd-destun uniongred hwn a gyflenwir gan draddodiad cwbl arall a gwahanol y bu Ann Griffiths yn gynrychiolydd mor lew ohono, datguddir mai 'Goleuni yw Duw, ac nad oes ynddo ddim tywyllwch.' Yn hyn o welediad, y mae dehongliad R.S. yn unochrog braidd. Y Sancteiddrwydd ymddangosiadol baradocsaidd hwnnw sy'n dilyn y tywyllwch a fynegwyd hefyd gan y Groes a'i munudau absennol. O'r Sancteiddrwydd golau hwnnw y tarddodd yn y bôn yr Ymgawdoliad yn wreiddiol, a'r cwbl o'r cynllun mawr.

Ann Griffiths, serch hynny, oedd cydwybod fyw R.S. Thomas. Hi oedd y bwgan a gododd ef, ym Manafon ymlaen, a thrwy'r Eglwys Fach i Lŷn; sef cynrychiolydd traddodiad cyfriniol pur wahanol i'r un a arddelai ef ei hun: traddodiad a chanddo *gynnwys* Cristnogol. Iddi hi y cyflwynodd ef un o'i gerddi hir prin, 'Fugue for Ann Griffiths', ac y mae ganddo gerdd arall yn ei dathlu, 'Ann Griffith'. Cenfigennu a wna ef yn y manau hynny tuag at ei llwyddiant i ddal ei chwrs yn gyson er gwaethaf stormydd:

*'a trinity of persons
saw to it she kept on course
like one apprenticed since early
days to the difficulty of navigation
in rough seas.'*

Oherwydd y cwrs hwn gellir dathlu ei phriodas:

*'the Bridegroom was waiting
for her ...
there was One
with his eye on her ...
History insists
on a marriage.'*

Nid ei rhan hi oedd ymaros ac ymlynu wrth dywyllwch nos yr enaid: *'Fy enaid trist, wrth gofio'r frwydyr, / yn llamu o lawenydd sydd .../ A chyfiawnder pur Jehofa / Yn siriol wenu arno byth.'* Nid arhosai hi yn y ffordd negyddol a ddisgrifid mor afaelgar gan Ieuan y Groes yn ôl traddodiad Dionysius yr Areopagydd, ac a fabwysiadwyd gan R.S. Thomas. Digon priodol yw cyfeirio yn achos R.S. at 'nos dywyll yr enaid'. Disgrifia llawer un sy'n ymddiddori mewn Cyfriniaeth y dosbarth hwnnw o gyfrinwyr a fydd yn ymgysraedd at Dduw ar hyd llwybr sy'n arwain oddi wrth buredigaeth ac edifeirwch ynghylch pechod ymlaen drwy gyfnod tywyll pryd y teimlir nad ydys yn adnabod Duw. Yno y mae'r absenoldeb yn ymrithio'n brofiad presennol yr ydys yn arswydo wrtho, ymlaen ymhellach byth weithiau drwy ymdawelu a myfyrio ac ymarferion asgetig i gyflwr o oleuedigaeth. Gall nos ddu yr enaid yn y fan yna fod yn gyfnod estynedig a chwbl ganolog. Gellir synied bod llawer o ymgodymu o'r fath yng ngyrfa farddonol R.S. Thomas sy'n perthyn i'r cyfryw brofiad. Eto, pe bawn yn ceisio synied am R.S. yng nghyd-destun cyfarwydd y Cyfrinwyr mwyaf hysbys ac enwog yn rhyngwladol, fe awgrymwn fod ei ymwybod o bechod yn llymach at ei gilydd nag a geir fel arfer ganddynt hwy. Ymdry ef yn helaethach o lawer gyda llygredd oherwydd seicoleg Cymru. Erys euogrwydd yn fwy canolog iddo, o leiaf na'r Cyfrinwyr Catholig ac na'r Cyfrinwyr arferol a geir gan grefyddau all-Gristnogol. Eto i gyd, i draddodiad cyson Dionysius, Eckhart, Tauler, Ruysbroeck, Ieuan y Groes ac Augustine Baker y perthynai R.S. drwy'r cwbl. Felly hefyd Saunders Lewis yn ei gerddi olaf, ac mewn deongliadau ganddo yn ei gyfrol ar Bantycelyn.

Perthynai Ann Griffiths hithau i draddodiad cyfriniol mwy golau, sef traddodiad Pantycelyn, y Piwritaniaid, Bernard, Gregori, Awstin a'r Apostol Paul:

*'the flesh is trembling
at the splendour of a forgiveness
too impossible to believe in, yet believing.'*

O ran naws, perthyn Waldo fwy i'r traddodiad hwnnw.

Soniais am dywyllwch R.S.. Nid gorbrin serch hynny yw'r pigiadau goleuni a ddaw yn achlysurol i'w gydwybod dywyll. Y mae'n syndod mor fynych wrth gribo drwy'i waith y cyfarfyddir â llymder y profiad gwyn cadarnhaol. Er mor llethol yw'r argraff o wyll,

*I have seen the sun break through
to illuminate a small field
for a while, and gone my way
and forgotten it. ('The Bright Field' 302) cf. 'Mewn Dau Gae'.*

Mae Prytherch yntau yn bracsan drwy'r '*bright grass*' (60): daw'r un ymadrodd yn ôl eto yn '*Border Blues*' (71). Cyffelyb yw'r '*bright dew*' (61) a'r '*bright ore*' (65), y '*bright blade*' (71) a'r '*bright bill*' (85), y '*bright walls*' (115) a'r '*bright bodies*'. Hyd yn oed gyda delwedd un o'r ddau symbol mwyaf cyffredin yn ei waith, sef '*stones*', gair sy'n cael ei oleddfdu mor aml gan yr ansoddair '*grey*' a '*black*' a '*cold*', fe'i ceir un waith ynghyd â'r ansoddair hwn hefyd – '*bright stones*' (241). Cymhlethir y ffordd negyddol ddewisedig hon felly gan belydrau anhydrin o gyfeiriad Dolwar Fach. Oni chlywn Waldo hefyd?

Gwrthrychol yw person Ann Griffiths iddo yn ei gwaith. Iddo ef mae hi'n ddiriaethol ac yn gorfforol, yn ogystal â bod yn ysbrydol. Mae hi mewn amser yn hanesyddol yn ogystal â'i bod yn dragwyddol. Ni welir hynny mewn unman yn amgenach na phan sonia R.S. yn y 'Fugue' am ei gweledigaeth:

*'the resurrection
of one that had come seminally
down to raise the deciduous human
body to the condition of his body' (472).*

Mae R.S. yn uniaethu â'r un profiad hwn wrth drafod gweddi mewn cerdd arall:

*'Let leaves
from the deciduous Cross
fall on us, washing
us clean.'* (270)

Sonia mewn man arall am '*life's deciduous tree*' (511), a chorfforir hynny ym mhrofiad neilltuedig y bardd ...

*'the lament of
The poets for deciduous language.'* (225)

Deilgoll hollol iddo felly yw Ann, a theimla fod ei iaith ei hun yn ddeilgoll. Deilgoll yn Ei Ymgawdoliad, ac yn Ei Groeshoeliad, fu Iesu Grist ei hun. Mae hyn oll yn berthnasol yng ngolwg R.S. ar Gymru oherwydd y mae a wnelo'n llym â llygredd a gwaseidd-dra a difaterwch materolaidd Cymru. Dyma'r cymar i Ddail Pren cariadus negyddol Waldo. Weithiau, ni sylwai rhai o ddarllenwyr Waldo mor ddychrynlyd dywyll oedd ef.

Un o broblemau mwyaf y bardd-offeiriad R.S. Thomas a phawb ohonom fu'r broblem o boen ac yn arbennig o ddrygioni, ym meicrocosm Cymru megis ym mhob man arall. Ym marn llawer, y mae'r annealladwy'n haeddu gennym anghrediniaeth. Y dull symlaidd ymhlith dyneiddwyr os cyfeiriant at Dduw o gwbl yn y cyd-destun hwn, yw dadlau'n hwylus braf, – pe bai yna Dduw o gwbl yn benarglwydd a phe bai ganddo gynllun, – rhaid fyddai ei fod yn Dduw creulon neu wedi gwneud camgymeriad: pe bai gan Dduw hanner ymennydd, byddai wedi dilyn ein syniadaeth ni. Ceir olion o'r gred elfennol honno yng ngherddi R.S.. Mae'n ei gorddi o hyd ac o hyd. Syrthia ef yn ôl arni megis ar norm. Ac eto, y mae'n anesmwyth gyda'i gasgliadau. Dyna, fel y gŵyr, sy'n tarddu yn sydyn o'r dull symlaidd o ymresymu o fewn dimensiynau amser a lle. Dyna'r annealltwriaeth a dardd o beidio â phendroni am y cwmp yn ddigonol, nac am gyfiawnder Duw a'i Gariad dogmatig ddifrycheulyd, na chyfrifoldeb dyn, na'r ffaith amlwg fod a wnelom â pherthnasoedd goruwchnaturiol, tragwyddol, annirnadwy. Felly, ar ymylon yr anesmwythyd, mae'r ystyriaeth arall yn bwhwman y gallai fod datguddiad ac ateb nad yw'n ffitio dulliau dynol o garfannu gwrthddadleuon. Tra bodlonir yn syml ar ddull prenaidd o resymu o fewn rhagdybiau cyfyng ac mewn ansicrwydd nas cwestiynir, ni ellid dechrau cydnabod rheidrwydd cymhleth cynllun Duw. Rhaid bod y cynllun hwnnw ychydig bach uwchlaw amgyffrediad y meddwl meidrol. Ac er mwyn agosáu ato, yr anghenraid yw ymwarded â rhagdybiau dyn-ganolog. Mae peth o Wybodaeth Duw na all hyd yn oed y dyn 'mawr' eu dirnad. Na'r bardd mawr.

Ochr yn ochr â'r dull dyneiddiol hwnnw, try R.S. ambell dro dan bwysau'i gydwytbod felly at y datguddiad sydd y tu hwnt i'r abswrdd. Meddai am Ann Griffiths...

*'She listened to him.
We listen to her.'*

Ac oherwydd hynny:

*'at dawn the footprints
of one who invisibly*

*but so close passed
discover a direction.'* (475)

Y dimensiwn annirnadwy anweledig hwn sy'n esbonio'r gweledig i R.S.. A'r hollbresennol hwn sy'n esbonio'r unigol. Yr anweledig hollbresennol yn ddiau fu'r ffordd baradocsaidd i adnabod Iago Prytherch yntau, ac i adnabod Cymru.

Gair sy'n dod yn sydyn yn dra phwysig i R.S. yn ail hanner ei yrfa yw'r gair '*invisible*'. (230, 283, 327, 329, 331, 345, 348, 353, 391, 432). Dyma air sy'n gyfarwydd i bawb a gâr Ffurf. Y mae wrth gwrs yn rhan o blethwaith **negyddol** pwysig, ac fe geir cwlwm cadarn o eiriau negyddol cyffelyb, '*unnoticed, unannounced, unkissed, soundless, incapable, shadowless, untenanted, unknown, inaudible, impotent, pointlessness, impossible, unseen, undefined, unsaid, failed, indefinable, uprooted, unplumbed, inexplicable, immovable, inert, illegible, endless, unanswered, leafless, speechless, unheard, ayb.*' Geiriau yw'r rhain oll y gellid eu defnyddio am Dduw yn ogystal ag am Iago Prytherch. O safbwynt y byd cyhoeddus, yr oedd Iago Prytherch yn bur anweledig. O'r braidd y gellid sylwi ei fod ar gael. Megis ym myd gwyddoniaeth y dechreuwn yn jocôs gyda'r empeiraidd, ac y myfyriwn yn ddadansoddol uwch ei ben, ac y pwyswn yn ôl a cheisio amgyffred ei ystyron, ac yna drwy sythwelediad y canfyddir fod yna batrwm wedi'r cwbl y deuir o hyd iddo yn yr anweledig (sy'n wir wedyn yn fyd-eang), felly hefyd wrth sylu ar Iago Prytherch, ar ei wacter a'i seithugrwydd, ei foelni a'i negyddiaeth, ei dywyllwch a'i oerni, ei sychder a'i galedrwydd, y mae'n fyw. Eto, dechreuwn gyda'r gwacter. Ond sylweddolwn rywfodd fod ynddo ef gwllwm o ystyr sy'n ei gysylltu ag Anweledig nad yw'n gyfyngedig o gwbl. Mae Abercuawg yn fwy o lawer na rhamantiaeth Ynys Afallon... Os yw'n anweledig, y mae'n chwilio am ddimensiwn corfforol caled.

Priodol iawn fod y Gymru negyddol hon wedi cael ei mynegi, yn well na chan neb yn ei ganrif, gan glerigwr tywyll. Cymru yw ei fynachlog. Yn niwedd y ganrif ddiwethaf yn y pulpud rhyddfrydol yn anad unlle efallai yr amlygwyd egluraf y methiant i ystyried ymhlygion llygredd gwreiddiol; felly 'allan ag ef', medden nhw. Allan â'r anghyfleus, fel Uffern a Duw Barn. Chwynnu gwirionedd annifyr oedd y ffordd dybiedig i lenwi'r capeli ac i ddweud neges dderbyniol. Daeth cynnydd a Darwinaeth ac optimistiaeth Fictoriaidd yn hapus braf ar hyd y draffordd drwy'r byd materol i'n cysuro

mai un ochr a oedd i bob peth yn y bôn, ond ichi syllu'n ddigon hir. 'Gadewch inni fod yn gadarnhaol ynglŷn â hyn' oedd y gri gyfforddus. 'Gadewch inni ymgymhwysu i ddyn.'

Os dyna a ddigwyddodd i Dduw, felly hefyd i Gymru. Caru Cymru fu'r diddanwch, ei mwytho a'i hanwylo, ei maldodi a'i hanwesu, a hynny ar adeg pryd yr oedd y diffiniad *negyddol* o Gymru yn dod yn fwyfwy grymus, pryd yr oedd taeogrwydd ac israddoldeb wedi tyfu'n nodweddion gwahaniaethol nerthol iddi o'i chymharu â'i chymydog dros Glawdd Offa... 'Clawdd,' ddwedsoch chi. 'Twt... a hynny pan oedd gwadu'i bodolaeth ac ymguddio y tu mewn i'r Gymru heddychlon a chariadus yn fathodyn cenedlaethol, a'i hunanymwadiad a'i bradgydweithredu wedi dod yn briodoledd cenedlaethol?' Dyma'r pryd yr oedd lluosedd cyfaddawdus wedi meddiannu y meddylfryd ystrydebol Cymreig. 'Allan â sancteiddrwydd', meddwn. 'Cywilydd biau'i Gymru.' Fwyfwy drwy sylwi ar wendid y gwadu a'r ymadawiad hwn y tyfodd heddiw y modd i adnabod Cymru. Nid yr anghydfurfiaeth na'r pyllau glo na'r rygbi ystrydebol; ond yr ymddiheuro a'r ymrwbio â'r diffyg hyder ynghylch hunaniaeth. Ar ryw olwg, gwrthgymreictod oedd y nodwedd Gymreig fwyaf pendant a hunaniaethol yng Nghymru. Dyma'r hyn a wnâi rai pobl yn wir Gymru yn anad dim. Yn sicr dyma'r hyn a wahaniaethai rhyngddynt a Saeson, sydd hyd yn oed pan deimlant gywilydd am Loegr, heb ganfod newid yn eu hunaniaeth. Tybiai rhai o hyd fod yna nodweddion *daearyddol* pwysig i'n cadw'n Gymru fel pe bai Cymbria hithau oherwydd ei mynyddoedd braf wedi llwyddo o'r diwedd i fod yn ystyrion genedlaethol ar ôl yr unfed ganrif ar ddeg. Tybiai eraill eto fyth fod yna egwyddorion radicalaidd tra arwyddocaol a berthynai i'r ganrif a hanner diwethaf. Eraill fod y corau a'r gymdeithas werinol glòs, ac ... wel, fe wyddoch y fformiwlâu diweddar. Ac ni charwn innau wadu nad oes rhyw blethwaith o arferion a thraddodiadau lleol ac achlysurol o'r fath yn rhan gynhenid o'r cymeriad sy'n eiddo etifeddig inni. A'r iaith yn enwedig, bid siŵr. Wrth ystyried yr ochr gadarnhaol ar bethau, ac wrth fyfyrion am dynged Cymbria a hyd yn oed Cernyw, fe welir fel yr erys y berthynas â'r iaith Gymraeg, hyd yn oed ar ôl ei cholli a thra pery'r chwithdod neu'r euogrwydd neu'r anfodlonrwydd yng Nghymru ynglŷn â hi, yn ffactor allweddol yn y proses o wneud Cymro'n Gymro. Ni synnwn nad oedd yn hoff fardd i wleidyddion ei ddyfynnu.

Ond heblaw'r iaith, mentrwn awgrymu mai'r nodwedd sy'n diffinio Cymreictod yn gryfach na'r un arall ar hyn o bryd, a chadw golwg ar ei lled a'i chyffredinolrwydd, yw'r

un negyddol o israddoldeb yn yr ymwybod ynghylch hunaniaeth. Ac nid syn o beth mai'r bardd *Cymraeg* sydd wedi mynegi hyn groywaf ym marddoniaeth y ganrif hon yw'r un a ailddarganfu'r pechod gwreiddiol hefyd yn ei farddoniaeth ei hun, ac a ganodd am Gymru. 'Di, butain fudr y stryd â'r taeog lais,' meddai Gwenallt. Efô a bynciodd amdani:

*Mae'r cancr yn crino dy holl liw a'th lun,
A'th enaid yn gornwydydd ac yn grach,
Nid wyt ond hunllef yn dy wlad dy hun,
A'th einioes yn y tir ond breuddwyd gwrach.*

Nid sôn am sefyllfa benagored o dir diffaith Ewropeaidd a wna Gwenallt yn y fan yma, ond ei lleoli'n realaidd a'i diriaethu mewn gwlad benodol. Gallai ef draethu am gyflwr sy'n gyffredinol hefyd ac yn lletach na Chymru wrth gwrs:

*Mae'r wlad fel gweddw ddibensiwn yn ei bwth
A'i meibion mewn gweithfeydd ac athrofâu,
A phobl y dref yn llarpio bwydydd glwth
Ceginau selwloed y sinemâu.*

Yn y dyddiau gwyrdd hyn fe aeth yn ffasiwn myfyrio am y llygreddau allanol amlwg a chorfforol. Ond yr oedd cerddi Gwenallt wedi'u seilio ar ddadansoddiad ysbrydol perthnasol a chysylltiedig ymhell cyn hynny ac ar raddfa fwy treiddgar:

*Y mae treftad ysbryd ein tadau tan ddanadl a banadl y byd,
Yr ysgall lle bu'r esgor a'r drain lle bu'r marw drud;
Bawlyd yw purdeb eu halen, a llaith yn ein llestr ni,
A'n kannwyll gynt a fu'n cynnau, gwelw yw ei golau hi.*

Dyma'r llygru mwyaf gwrth-wyrdd. Ffordd arall yw hyn o ddweud, os ydych yn chwilio am y Gymru a'r Cymro nodweddiadol, fod yn rhaid disgwyl i'r naill a'r llall fod yn llysnafeddog, yn ymgreiniol, yn wasaidd, yn fradwrus, yn llwfr, yn dywyll ac yn negyddol ei ysbryd. Yn awr, meddwch o bosib, dyna ichi feirdd yn mynd dros ben llestri: dowch i weld yr hen Gymry bach diniwed go iawn ym Morrisons ac yn Tesco's: hen bobl bach ffeind ydyn nhw, yr un fath ag ymhobman arall. Ond gwylia'r beirdd byw rhag edrych ar yr wyneb yn unig. Dichon fod bardd fel Gwenallt yn gweld pethau ymhellach.

Dyma Saunders Lewis yntau'n cyflwyno soned 'Y Gelain' a gynhyrfwyd gan ysgrif yn y *Llenor* a ddwedai: 'Gofynnir gan lawer, a Chymry yn eu mysg, paham y dylai gael byw':

*Mae celain Cymru'n gorwedd dan sarhaed
Heb fawr i wylo'i siom,
Gwael gaethferch ei gorchfygwr, ddoe a gaed*

I'w archwaeth, heddiw'n dom.

Yr hyn sy'n cynhyrfu Saunders Lewis yn y fan yma ydyw'r ildio i'r pwysau, a'r gwadu gwerth. Dyma'r cyd-destun Cymraeg hefyd i R.S. Thomas. Cymro Cymraeg deallol yw ef yn sgrifennu yn Saesneg.

Gellir ar y naill law gael pesimistiaeth ganddo fel hyn, sy'n greadigol a realaidd; ond yn ogystal fe geir pesimistiaeth sy'n hunanladdiol. Fe all galaru o'r ail fath gynorthwyo'r negyddu a phorthi angau. Gall iselder a digalondid o'r ail fath besgi'r gelynyon. Ac y mae yna ormod o Gymry sy'n ymfyddino yn y blaid naturiol honno.

Ond fe geir ymhlith y Cymry, yn arbennig yr Eingl-Gymry, ris pellach sydd i lawr ar raddfa goresgyniad: sef gwadu'r gwadiad ei hun, absenoldeb yr ymwybod, y difaterwch. Gellir dringo i lawr yn is felly na brad, at gyflwr o goleddu'r dybiaeth bêr nad yw hyn oll ddim yn bod, nad yw cefnu ar Gymreictod yn ddim byd, hynny yw – nid ei fod yn ddibwys neu'n ddiniwed fel y cyfryw, nid eich bod yn ei gyfiawnhau os ydych chi am ddod ymlaen yn y byd, ond nad yw ar gael o gwbl, nad yw'n bodoli. Dyma graidd gwrthrych llawer o fyfyrddod R.S. Thomas. Ac yn hynny o beth, y mae'r myfyrddod Eingl-Gymreig hwn yn dra phwysig inni i gyd.

Mae natur Cymreictod wedi dod yn destun myfyrddod gan amryw o lenorion Saesneg Cymru o bryd i'w gilydd. Emyr Humphreys yw'r llenor Saesneg a fyfyriodd fwyaf am hyn o bosib o safbwynt beirniadol, yn *The Taliesin Tradition*, er bod llawer cyffelyb yn Gymraeg; a dangosodd yn y fan yna pe bai ef wedi ymroi i feirniadaeth yn hytrach na'i chadw fel hobi ac yn syml yn wedd ar ei fyfyrddod amlwg fel llenor sy'n cymryd ei bobl ei hun o ddifri, y gallasai ei gyflenwi i raddau treiddgar, fel y llanwyd gan M. Wynn Thomas a Tony Conran hen fwelch beirniadaeth lenyddol Eingl-Gymreig. Diffyg arweiniad beirniadol a deallol hyd yn ddiweddar fu un o'r diffygion mwyaf taer ymhlith yr Eingl-Gymry, dybiwn i, er gwaethaf ymdrechion gwerthfawr gan bobl megis Jeremy Hooker, Gwyn Jones, Raymond Garlick a Roland Mathias. Ni chawsant feirniaid o galibr John Morris-Jones na Saunders Lewis cyn y 60au. Ceir ambell un fel Walford Davies a Raymond Williams bellach a wnaeth waith cwbl wych mewn sawl maes y tu allan i lenyddiaeth Eingl-Gymreig, yn ogystal â'r tu mewn. Ond heb chwilio'r estheteg sy'n briodol i Gymru, na'r ymwybod ysbrydol, na'r unoliaeth seicolegol Gymreig, mae yna ddiffyg cyfeiriad wedi bod. Mae yna feirniaid craff megis Joseph Clancy sydd wedi

arbenigo mewn agor drysau, ac sy'n gyfarwydd ag R. Williams Parry a Morgan Llwyd, Daniel Owen a Guto'r Glyn, Huw Morus a Phantycelyn o'r tu mewn megis. Ac eto, ni fentrodd eto ond Wynn Thomas a Tony Conran i gyfeiriad llunio cyfosodiad neu 'estheteg' sy'n Gymreig yn ogystal â bod yn Eingl. Teimlaf o hyd fod ar y mwyaf o betruso gan feirniaid rhag cymryd yr elfennau negyddol o ddifri, rhag dweud 'Na' yn ogystal ag 'Ie'. Y rhai sy'n deall yr 'Ie' orau ydyw'r rhai a all amgyffred natur y Na, ac sy'n canolbwyntio ar werthuso... Dyma ran o gamp R.S..

Pan geir y cyfryw fyfyrddod Eingl-Gymreig llawn (a'r dyddiau hyn mi dybiaf ei fod yn ymffurfio yn fwy felly nag yn y Gymraeg), mentraf awgrymu na bydd yn bell o'r myfyrddod Cymreig a gafwyd gan Saunders Lewis, oherwydd fe ddigwyddodd eisoes mewn gwaith creadigol, ac yn bennaf oll o leiaf mewn un cyfeiriad – ym marddoniaeth R.S. Thomas. Er bod R.S. yn bur wahanol i'r beirdd Cymraeg, y mae'r beirdd Cymraeg hwythau hefyd wrth gwrs oll yn wahanol i'w gilydd. A gellid teimlo ei fod o leiaf yn sgrifennu o'r tu mewn i adnabyddiaeth ac i dadansoddiad ystyrllon o'r sefyllfa Gymraeg ac Eingl-Gymreig ynghyd, hynny yw o'r sefyllfa Gymreig gyfun. Dyma ef, bron y gellid dweud yn sgrifennu Cymraeg yn Saesneg, yn ei gerdd 'Reservoirs':

*There are places in Wales I don't go:
Reservoirs that are the subconscious
Of a people, troubled far down
With gravestones, chapels, villages even;
The serenity of their expression
Revolts me, it is a pose
For strangers, a watercolour's appeal
To the mass, instead of the poem's
Harsher conditions. There are the hills,
Too: gardens gone under the scum
Of the forests; and the smashed faces
Of the farms with the stone trickle
Of their tears down the hill's side.*

*Where can I go, then, from the smell
Of decay, from the putrefying of a dead
Nation? I have walked the shore
For an hour and seen the English
Scavenging among the remains
Of our culture, covering the sand
Like the tide and with the roughness
Of the tide elbowing our language
Into the grave that we have dug for it.*

Ar wahân i'r ffaith y byddai llawer o ddarllenwyr Cymraeg yn cwyno pe bai hyn yn y Gymraeg ei bod yn dywyll, oherwydd bod angen rhoi'r deall ychydig bach ar waith i'w darllen, fe ellid tybied bod hyn wedi'i sgrifennu allan o gyd-destun y meddwl 'Cymraeg', y meddwl negyddol cyfarwydd hwnnw a anwybyddwn ar ein peryg. Dyma ran o'r undod sydd yn bosibl rhwng yr Eingl-Gymro sy'n symud tuag at Gymreictod a'r Cymro Cymraeg sy'n ei adnabod.

Yr hyn a ddengys R.S. Thomas yw bod y llenor Eingl-Gymreig, sy'n sgrifennu'n aeddfed ac o ddifri o ganol gwae neu sbort neu ymdrech ein cenedl a'n byd yn ei hamlochredd dyfnaf, hefyd yn eiddo i'r Cymro Cymraeg. Dyma undod Cymru, a'i hundod â'r byd. Ni biau'r Eingl-Gymry hyn felly, oherwydd mai Cymry ydynt: ein pobl ni ydynt. A nhw biau ni, er mor ychydig y gwyddant amdanom.

Tybiaf yn sicr na chafodd rhai Eingl-Gymry, os yw hynny o unrhyw bwys, y wir gydnabyddiaeth a haeddent (ac a chwenychent gan y Sefydliad Llundeinig), yn syml am mai Cymry ydynt, druain. Ac er gwaetha'r bri sy ar waith R.S. Thomas dros y ffin, ni welais erioed feirniad Saesneg – Brydeinig di-gyd-destun a oedd wedi llwyddo i ymaflyd yn effeithiol yng nghalon yr hyn a oedd ganddo i'w ddweud am wareiddiad, oherwydd y diffyg cydnabyddiaeth â'r argyfwng diwylliannol dyfnaf mewn lle penodol (a rhyngwladol), real a diriaethol, pwnc a oedd yn destun dieithr i'r cyfryw rai efallai. Nid yw'r camerâu yn gweithio yn y calonnau. Yn y negyddiaeth fethiannus honno i ddeall y mae'r goleuni hefyd, oherwydd dyma unigrywiaeth traddodiad di-dor Cymru. Ac erbyn hyn gyda'r casgliad cymharol lawn o'i gerddi a gafwyd yn ddiweddar cawn gyfle i syllu ar unigrywiaeth gyd-wladol R.S. yn ei gogoniant.

Credaf fod yr agweddau dadansoddol dywyll ar Gymreictod a geir gan R.S. Thomas, ond a geir hefyd gan lu o feirdd Cymraeg fel Saunders, Gwenallt, Euros, Gwilym R. Jones, Waldo Williams, Alan Llwyd, Donald Evans a Gerallt Lloyd Owen, yn dra gwerthfawr o safbwynt creadigol oherwydd eu bod yn rhoi drwyddynt lawer mwy o werth ar yr agweddau cadarnhaol. O fewn cyd-destun y cyflawnder hwnnw mae'r cadarnhaol yn sioc. Rhaid i mi gyffesu fod gweld ffyddlondeb syml i Gymreictod neu brydferthwch naturioldeb Cymreig ynghanol y grymsterau dinistriol yn gallu cyffwrdd yn ddyfnach â mi na phe baem yn 'normal' yn ystyr y cenhedloedd 'mawr'. Hyn, i mi, a

rydd fri ar aberth glân a chyson Cymdeithas yr Iaith drwy'r blynyddoedd, er mor bell y buont oddi wrth angen y Gymraeg i adennill. Hyn a rydd barch i'r ymdrech gan bawb cadarnhaol sy'n dygnu arni'n dawel ym myd adfer iaith yn wirfoddol. I Sais, dyw bod yn normal fel hyn yn ddim i sylwi arno. I Gymro gall normaliaeth fod yn weithred o ddewrder moesol, yn fath o farddoniaeth ei hun. Pan ystyrir y graddau o israddoldeb seicolegol sy'n gallu cydio yn ein pobl ynghylch eu cenedligrwydd, y mae arddel y gwerthoedd diwylliannol prydfertaf hyn yn gallu bod yn ysbrydiaeth ac yn weledigaeth. Heb y brad a'r trefedigaethrwydd Cymreig, serch hynny, ni byddai hyn yn bosibl. Mae pethau felly yn fodd nid yn unig i ddiffinio'n sefyllfa, eithr hefyd i ddweud rhywbeth pendant am graidd bywyd pob diwylliant yn ei lawnder. Gweithred ydyw felly, fel pob beirniadaeth lenyddol gytbwys, o blaid y daionus ym mhob man.

R.S. THOMAS A'R MUDIAD

Yn y pumdegau cysylltid barddoniaeth R.S. Thomas â beirdd y 'Mudiad' oherwydd ei sychder enwog a'i symlder ymddiddanol.

Adwaith oedd arddull y Mudiad yn erbyn Dylan Thomas a'i gyd-ramantwyr emosiynol a phroffwydol, 'tywyll' ac arbrolfol. Bellach yn y 50au dychwelodd eglurder a threfnusrwydd ffurfiol, sgeptigiaeth a rhesymoldeb i fri: yr arddull blaen. Mwy na hynny roedd y Mudiad yn gloddesta gyda chryn awydd ar y syrffedus a'r diflas, y methiannus a'r diamcan. Cyfatebai Mr Bleaney (Larkin), sef y ddelwedd o gymeriad di-liw yn y dref lwydaidd ac anniddorol yn un o bellteroedd Lloegr, i Iago Prytherch, y cymeriad di-liw onglog mewn bro fethedig, anniwylliedig yn un o bellteroedd Cymru. Gellid dadlau mai Prytherch wedi'i drawsblannu i Hull oedd Mr Bleaney. Fersiwn Cymreig yw cymeriad R.S. o'r un diflastod a blinder ag a ddisgrifiai Larkin. Ond wrth ei weld yn Gymreig fe ychwanegir rhywbeth arall. Ceir yr un gwacter a siom a dadrithiad lleol â chan y Sais, ond y mae Cymru ei hun fel uned hefyd yn ddadrithiad. Ac wedyn, ar hyd yr un llwybr wynebwr yn ychwanegol ddadrithiad dwys a chosmig wrth geisio'r Un y crewyd Prytherch ar ei ddelw; a threfedigaeth ysbrydol drwyddo ef.

Dyma ddimensiwn arall, mwy ffrwythlon dybiwn i. Ac yn raddol o'r herwydd, wrth aros gyda Prytherch, y mae trugaredd a chariad a chynhesrwydd cyfoethog y darlun yn ymlenwi. Rhaid cofio'r ugeiniau o gerddi gan R.S. na ellir llai na'u cyfrif – yn groes i'w ddymuniad pe gellid coelio'r ddelwedd boblogaidd ohono – yn fawl.

Er bod R.S. Thomas ychydig yn hŷn na hwy, y Mudiad oedd yr ysgol Saesneg a ffynnai yn y blynyddoedd rhwng ei 39 a'i 45, pryd yr oedd wrthi'n cyhoeddi rhai o gyfrolau pwysicaf ei gyfnod cyntaf. Digon teg felly yw aros ychydig i ystyried y tebygrwydd rhyngddo a hwy, ond yn amgenach i amgyffred hefyd y gwahaniaeth arwyddocaol a geid rhwng y naill ochr a'r llall.

Y triawd Larkin, Amis a Davie oedd canol y Mudiad. Eithr o'u cwmpas ymgynullai beirdd megis Enright, Conquest, Jennings, Wain, Gunn ac eraill. Arddelent – yn draddodiad amgen fel petai (yn lle'r Modernwyr Yeats, Eliot, Pound ac Auden) – olyniaeth Thomas Hardy, Housman, Edward Thomas, Kipling, De la Mare, Wilfred Owen, Graves a Betjeman. Tyfodd parch newydd 'synnwyr-cyffredin' yn eu plith at y

Sioriaid. Ym myd y nofel cyfrifid *Lucky Jim* Amis a *Hurry on Down* Wain a *Jill Larkin* yn nodweddiadol, a gosodid bri newydd ar bobl ddirmygedig megis Bennet a Wells. Ym myd beirniadaeth lenyddol wedyn, roedd dwy gyfrol Davie *Purity of Diction in English Verse* ac *Articulate Energy* yn fath o ryfelgri iddynt, a'r gyfrol *Interpretations* a olygodd Wain yn fath o batrwm dadansoddol gyfeillgar o'r dull digwafers gartrefol i feddwl am gerddi. Ar y pryd, yn draddodiad i'w beirniadaeth, lled gymerent Leavis dros dro ac yn arbennig Empson yn rhagflaenwyr i'w dadansoddiadau.

Gwrth-'fodernaidd' oeddynt, a gwrth-ramantaidd hefyd.

Mae datblygiad barddoniaeth Saesneg a barddoniaeth Gymraeg yn yr ugeinfed ganrif yn gwahaniaethu ar lawer cyfrif. Ond un gwahaniaeth dwfn ac arwyddocaol a welwyd o'r pumdegau ymlaen yn Saesneg oedd yr awydd i fynd yn ôl dros ben y Modernwyr Eliot a Pound ac ailgydio yn Hardy, nid fel petai'r Modernwyr heb ddigwydd erioed – roedd hynny'n amhosibl – ond fel petaent ar yr ymylon yn ein brathu wrth fynd heibio. Yn y Gymraeg ni chawsom Fodernwyr go iawn (yn yr *amser* 'iawn'): Modernwyr na fodernwyr oedd ein pobl ni oll. Parhad didor a go gyson oedd barddoniaeth Gymraeg yn y ganrif honno ymlaen o Anatiomaros drwy sonedau a rhigymau Parry-Williams a cherddi Gaeaf R.W. Parry i Gwenallt, Waldo, Saunders ac Euros, ac yna ymlaen i Alun Llywelyn-Williams, Alan Llwyd, Bryan Martin Davies a Dewi Stephen Jones.

Hynny yw, os hanes catastroffig mudiadol sy gan y traddodiad Saesneg, hanes datblygol dawel sy gan farddoniaeth ramantaidd Gymraeg yn y cyfnod hwn.

Synnwyr cyffredin o'r newydd oedd y sgrechair i'r adferwyr cymedrol Saesneg yn y pumdegau. Yn eu harddull, moel oeddent, yn grefftus, yn wastad, ac yn ddatblygedig. Ceisient osgoi pob ymchwydd, pob gair barddonol, pob cystrawen afreolaidd, pob synwyruswydd symbolaidd. Er eu bod yn erbyn 'Y Traddodiad', nid oedd neb ynghynt wedi ymddangos yn fwy traddodiadol na hwy. Ceidwadol oeddent hyd eu corunau, a mynnent adfer rheoleidd-dra rhythmig. Sefydlogrwydd gwrtharbrofol felly oedd eu cyswynair. Gwydnwch gwrthrychol a 'gwrywaidd' oedd yn nodweddu'u hagwedd at fywyd. Ac oherwydd eu hagwedd gyhyrog a gwrtharbrofol, ymddangosent fel pe baent wedi'u syrffedu, yn gwybod popeth, ac wedi bod yno o'r blaen. Ymataliol sgeptig oedd eu ffraethineb deallol, a gorlafar eu hieithwedd daclus. Y dosbarth-canol-isaf maestrefol a'u meithrinodd, at ei gilydd, ac yr oeddent yn sawru o 'ffasiwn' fel sy'n digwydd yn fynych

i'r sawl o'r rhanbarthau sy'n syllu'n rhy ymagweddol tuag at Lundain, Rhydychen a Chaergrawnt, ein triongl driw.

Rhannai R.S. Thomas rai priodoleddau gyda hwy. Tueddai yntau i fod yn weddol 'lafar' ac ymddiddanol yn ei arddull yn wastad ac yn foel. Yn ei agwedd at drwch ei destunau cynnar, ymddangosai'n empeiraidd ac yn realaidd gorfforol. Ymddangosai hefyd yn goeg hamddenol ac yn ddadrithiedig sgeptig. Ac wrth gwrs, o ran ei gasgliadau fe ellid ymdeimlo â rhyw fath o debygrwydd i'r Mudiad yn ei besimistiaeth.

Ond at ei gilydd, dyna'r cwbl.

Ceid dau wreiddyn a wahaniaethai feddwl y Cymro R.S. yn bur chwyrn. Cenedlaetholwr eithafol ydoedd, yn corddi ynghylch achos, a'i ofal am lendid a diwylliant ei wlad yn angerddol. A chrefyddwr ydoedd hefyd, gyda diddordeb metaffusegol, uwch na'r deallol, yn ei rwymo mewn modd nad oedd yn weddus i Fudiadwr. Er ei fod yn debyg iddynt yn ei wrthgyferbyniad â Dylan Thomas, dyweder, ac yn erbyn Swrealaeth a gwylltineb y 40au, arhosai'r Anrwymedigaeth synnwyr-cyffredin a nodwedda'i gymheiriaid Saesneg yn y 50au rywfodd yn anathema iddo. Rhy ddigrefydd gysurus oedd y Mudiad at ei ddant ef. Ganddo ef, tröwyd syrffed yn argyfwng cosos.

Er y gellid felly 'garfanu' R.S. Thomas o ran rhai nodweddion arddulliol gyda'r sentars sychion hyn, yr oedd ei Gymreictod a'i grefydd, materion mor flaenllaw yn ei waith, yn gogwyddo'i sylw i gyfeiriad arall. Ac eto, oherwydd awyrgylch yr amseroedd ni ellid llai na dod o hyd i dipyn o debygrwydd gogleisiol.

Dadrithiad oedd bara menyn y Mudiad yn y pumdegau ffurfiannol. Ymhlith y rhan fwyaf o'r Saeson a symudai mewn cylchoedd llenyddol, ni raid ei ddweud, yr oedd credu ysbrydol wedi hen hen fynd i'r gwellt. Agnostig (ar wahân i Jennings) oedd y rhelyw yn y Mudiad, er bod Larkin mewn cerdd fel 'Church Going' yn gallu moesyngrymu fymryn i gyfeiriad parhad, hunanfeirniadaeth goeg ac anesmwythyd petrusgar. Ond yr oedd y tipyn brwdfrydedd a geid gynt yn y tridegau ynghylch newid y byd, gorymdeithio, taeru a threfnu ac ymgyrchu, ymwarded â diweithdra a thlodi enbyd a Franco, yr oedd y fath angerddoli pendant (er iddo ailflodeuo rywsut yn y chwedegau) yn anfaddeuol o naif iddynt hwy ac yn achos teg i ddylyfu gên.

Cafodd R.S. Thomas serch hynny, ac yntau'n Gymro ymwybodol, y dynged enbyd o fod yn sychddyn mewn sefyllfa wlyb. Daliwyd ef er ei waethaf gan Saunders

Lewis a Chymru. Gallai wrth gwrs fabwysiadu'r osgo sardonig gystal â neb. Gallai ymddwyn yn flinedig ddirmygus goeg yn ôl y galw. Gallai ymnegyddu a meithrin gwawr chwerw gystal â'r dyn nesaf, iselder ysbryd, syrffed diflas, sinigrwydd ymwybodol, a'r holl focs o driciau, yn ôl y ffasiwn derbyniedig. Ond yr oedd hefyd chwithdod ymyrrol yr iaith Gymraeg a Thryweryn, Gwenallt a Waldo, mewnfudo ac atomfeydd, a'r bobl seicolegol-ymgreiniol oll wedi ymfyddino i ollwng rhai teimladau go gryf ac anghysurus o ddiflas o dan ei wyneb haearn. Ni châi ddianc yn llwyr felly rhag y genedl hon.

O dan rew R.S. Thomas fe geid dioddef cynnes. Yr oedd Cymru (y gythreules) wedi gorfodi arno ymwybod o bwrpas sicr nad ymrithiai'n ffenomen ymhlith Saeson go iawn. Llwyddodd felly i osgoi'r osgoad. Ac o'r herwydd yr oedd dirgelwch rhyfeddol ysblander y byd yn eglur os yn anghyfforddus bresennol yn ei waith oherwydd Cymru.

Dyma yn ddiau gryn fantais iddo fel bardd aeddfed dybiwn i.

Fel pob ffasiwn o'i fath bu'r ffasiwn coegsych Seisnig yn broses o dlodi i'r Mudiad. Caewyd ar beth o'r eirfa. Nid hollol weddus oedd rhai geiriau – megis gwên, enaid, da, haf ac yn y blaen. Gellid mentro'u defnyddio, ond nid o ddifri. Nid derbynol oedd rhai teimladau chwaith, yn sicr nid y teimladau cadarnhaol i gyd. Ac yr oedd ymdeimlad o lwyddiant, gorfoledd a delfrydiaeth yn sicr yn anathema.

Tyfodd awydd hygryw ymhlith boneddigion y Mudiad i fod yn 'minor'. Maen tramgwydd iddynt oedd unrhyw beth 'phoney'. Chwenychid bod yn fach ac yn ddibwys. Gorthrechol iddynt oedd difrifoldeb Lawrence a James. Gorseddid yn hytrach yr arferol gyffredin a'r cartrefol isel-ael yn lle'r mawrhydig. Ond wrth gwrs, wrth orbwysleisio'r distadl a'r tila, ni ellid llai nag amlygu ystum go 'phoney' arall. Wrth wneud ffetis o gyffredinedd, ymagweddent yn erbyn rhai gweddau ar y profiad dynol, nid am resymau moesol ond am resymau ffasiynol. Ni ellid osgoi ymddangos yn chwiwus glyfar. Mae'n fy nharo i, yn gam neu'n gymwys, mai'r unig fanifesto diogel yn hyn o faes fuasai agor yr holl gywair, y testun a'r ffurf sydd i farddoniaeth led y pen, a mentro'r cwbl. Y mae'r sawl sy'n methu â gweld posibiladau barddoniaeth yn y mawr mor wyrdröedig bob dim â'r sawl sy'n troi'i drwyn ar yr englyn. Y mae ymdrybaeddu mewn isafbwyntiau gan ofni'r uchafbwynt yn ymddangos mor neilltuedig ffug ag y byddai sarhau'r lleol a'r ymarferol, y plwyfol a'r anchwyddedig. Byddwn i'n amau'r sawl sy'n pregethu'n erbyn yr amwys a'r

anuniongyrchol er enghraifft (fel y gwnâi Conquest), megis yr anesmwythwn ynghylch y sawl sydd yn erbyn yr anacademaidd.

I mi ymddengys y Mudiad mor 'phoney' ag unrhyw ffasiwn arall a drawodd ar Ewrob mewn canrif o fudiadau 'phoney'. Ym 1956 cyfaddefai Thom Gunn: 'many literary commentators seem to think that the trouble with my generation is that it does not have a 'cause' ... The agony of the time is that there is no agony.' Parhaodd hyn i raddau helaeth yr un fath hyd heddiw yn Lloegr er gwaethaf ymdrechion clodwiw os chwyslyd o ystrydebol y Marcisiaid, y mudiad gwrth-Apartheid gynt, y merched, CND gynt a'r gwyrddion. Ni thorrwyd asgwrn cefn y Sais. Yng nghalon ei galon caiff ffordd hwylus rhag ideoleg argyfyngus; a'i hoff lein yw synnwyr cyffredin, gyda'r acen ar y cyffredin.

Chwenychai'r bardd Mudiadol nodweddiadol fod yn un o'r bois; sentiment braidd yn ddieithr i R.S.. Yr oedd y Mudiadwr yn hoff iawn o'r syniad 'chap' (er nad o'r gair) am ei fod yn ymddangos i'r uchel-ael a'r dosbarth-canol yn werinol. Ymddangosai celfyddyd gain a diddordebau deallol yn anghydweddus i'r fath ystum 'naturiol'. Byddai'r gyfres o gerddi am baentiadau a luniodd R.S. yn gwbl groes i un o ragfarnau enwog y Mudiad a grynhowyd gan Amis: 'nobody wants any more poems about philosophers or paintings or novelists or art galleries or mythology or foreign cities.' (Clywaf Euros yntau'n crino yn y gornel wrth glywed y fath restr gyfyngus, ddiddorol ond dwl.)

Dichon mai'r ffordd decaf i grynhoi anian y Mudiad fyddai drwy ddyfynnu un o'i arweinwyr sy'n myfyrio amdano fel hyn, sef Donald Davie: 'On all sides, our good poets are "pulling in their horns". They are getting rid of pretentiousness and cultural window-dressing and arrogant self-expression, by creating an English poetry which is severely limited in its aims, painfully modest in its pretensions, deliberately provincial in its scope. I do not think they would be very offended or even make demur if one added: "inevitably marginal in importance".' Dyna ddim-ond Loegr uniaith heb fedru adnabod Prydain.

Bid siŵr, os bu'r Mudiad yn fodd i fawrygu eto y posibilrwydd teg o gydnabod gwerth cymedroldeb a gostyngeddwrwydd mewn prydyddiaeth (wrth ochr y gwallgof a'r treisiol), yna bu ei wasanaeth yn ddiamheuol amheuthun. Diau fod yna adfer iachus yn y symudiad o safbwynt ffasiynoldeb, ond roedd yna golled hefyd.

Ar eu hôl hwy y daeth Alvarez a'i ddamcaniaethu ynghylch eithafiaeth – gyda Hughes, Plath, Ginsberg, Lowell a Berryman a'r orymdaith anesmwythol o'r ward

seiciatrig – gyda phawb yn eithafol ynghylch yr Ego wrth gwrs. A dechreusom o'r newydd efallai hiraethu (yn eu herbyn) am gydnabod rhin y distadl eto. Dowch yn ôl synnwyr-cyffredin: maddeuwyd y cwbl.

Yn hyn o beth efallai fod gwaith R.S. Thomas yn pontio'r ddwy ochr, ac yn llai treisiol na'r beirdd diwethaf a enwyd. Mae ef yn ddigwafers ei ddull, yn fflat ac yn llwydaidd ei ieithwedd gan amlaf (o'i gymharu â Dylan neu â Vernon Watkins), ac felly yn gymar teg i'r Mudiadwyr. Mae yntau'n 'provincial', eithr nid yn 'provincial'-wneud: mae ganddo 'dalaith' a chanddi ffiniau seicolegol hanesyddol ddiwylliannol. Ond y mae yr un pryd wefr dywyll yr argyfwng ystyriol yn ysigo'i waith yn angerddol yn aml. 'Talaith' sydd ganddo efallai, ond heb ddibynnu am ddiffiniad ar drefniant awdurdodau lleol a phrifddinas. Dibynna ar berthynas bersonol lenyddol. Cenedl-gudd yw'r dalaith.

Eto, teg cydnabod fod eisoes beth o'r bwhwman hwnnw yn y Mudiad ei hun.

Er i Larkin droi oddi wrth Yeats tuag at Hardy i ddod o hyd i wreiddyn celfyddyd, arhosai llawer o bwyslais yr Yeats diweddar yn fywiol ei rym yng ngwth ei waith ef a'r Mudiad oll. Un elfen amlwg os digon syml oedd oerni: yr ymwrthod â chynhesrwydd synhwyrus a gwres emosiynol y rhamantwyr. Teimlid ar y pryd fod angen ymbellhau bellach oddi wrth y math rhamantus hwn o ager er mwyn ymaflyd o'r newydd mewn fferdod iachus. Roedd eisiau pwylllo ychydig yn y pen. Daeth yn bryd i'r gwaed sobri a gostwng ei dymheredd. Ac o ran polisi, gan ddilyn Yeats, gostegwyd ychydig ar frydaniaeth anwedus gan bawb o arddelwyr y mudiad.

Felly hefyd R.S. Thomas. Mae ganddo '*cold message*' (Casgliad 1993, 387). Sieryd am '*the heart's coldness*' (125): '*I knew the cold of the world*' (251). Nid dweud yr wyf mai dyma'i ddelfryd na'i ddymuniad. Ond realiti oedd '*cold storm's raging*' 5, '*impervious and cold*' 10, '*the coldness of your stare*' 13, '*the cold rain*' 28, '*cold tombstone*' 51, '*cold graveyard*' 53, ac wrth gwrs '*cold winds*' 60, 77, 124. Dyma'r '*cold splendour*' 59 y mae'n byw ynddo'n wastad. Mae'r dirwedd yn oer ac mae absenoldeb Duw yn oer. Ac eto, y mae'n dadlau'n erbyn hyn oherwydd ei fod yn gallu synhwyro ar y canol neu ar yr ymylon:

*It was not cloud
because it was not cold,
and dark only from the candlepower
behind it. (360)*

Dywedwyd am Larkin mai ef oedd '*the poet of the void. The one affirmation his work offers is the possibility that when we have lost everything the problem of beauty will still remain.*' A gellir mentro'r un disgrifiad am R.S. yntau. Mae ef gystal amheuur â neb. Ond stöig agnostig oedd Larkin. Ac nid oedd ganddo ddim o'r difrifoldeb ymchwil na'r agoredrwydd dwys a geir gan R.S.. Nid oedd mor agos at yr asgwrn. Roedd wedi syrffedu'n fwy digyfeiriad. Roedd yn fwy arwynebol, yn fwy o ystrydeb fel person. Diflastodwr cymedrol oedd, ac yn wahanol yn hynny o beth i eithafiaeth Berryman, Plath, a'r Lowell diweddar. Mae R.S. Thomas yn fwy tebyg finiog yn y bôn i Ted Hughes, ac yn rhannu gydag ef ei arwder meddwl weithiau er ei fod yn fwy gwastad ei arddull. Ond mae'n fwy cyfan ei olwg-fyd na Hughes, yn llai poblogeiddiol (*populist*), yn llai cartwnaidd dreisol, yn llai ymosodol unigolyddol ac yn fwy mythaidd. Eto, rhanna'r ddau fwy o ddifrifoldeb gwaelodol na Larkin. (Yng ngwaith Hughes ymdeimlwn er enghraifft yn *Crow* â pheth o'r angst bondigrybwyll a geir drwy drwch llawer o waith R.S.. Yn hyn o beth, y mae llai o angst ar y llaw arall gan Waldo, oherwydd bod ei werthoedd yn lletach eu cadarnhad.)

Testun ymholi yw oerni i R.S., testun blinder mewn modd na ddaeth byth i'r Mudiad. Yr oedd fel pe bai'n profi'r oerni yn ei feddwl a'i nerfau a'i waed, a hwnnw'n oerni celfyddydol, cenedlaethol, amgylchfydol a chrefyddol: *He walks cold* 133, *the cold dark* 74, *cold as stones* 84 (377), *cold seas of her eyes* 94, *the cold brain of the machine* 180 (268), *cold arena* 112, *cold chimney* 61, *cold bud of water* 134, *cold shadow* 135, *cold landscape* 160, *in the cold* 168, *its cold water* 172 (240), *cold wind* 193, *cold sea, cold sky* 237, *cold and unwanted* 272, *dead and cold* 377,

*'his wife's place
in bed was cold.'* (144)

Sylwais ar ambell feirniad yn cyfeirio at R.S. Thomas fel bardd lleol, am fod a wnelo ef (yng ngolwg Saeson) ag ardaloedd diarffordd yng nghefn-gwlad Cymru. Gellir felly, meddid, ei ddosbarthu gydag ambell fardd lleol arall, megis Norman Nicholson. Yn awr, nid yw Manafon na'r Eglwys Fach nac Aberdaron creder neu beidio fymryn yn fwy lleol na Croydon, yn fiolegol, yn adaryddol, yn ddaearegol nac yn brofiadol. Ac y mae sgrifennu am y diriaethol, a'i grisialu mewn gwrthrych real yn beth a gymeradwyai rhai o'r beirniaid hyn yn ddiâu mewn agweddau eraill ar y cynnwys a'r iaith. 'Ymddangosiadol' leol ydyw pob lleol. Y mae pob man yn ganol i rywbeth. Ac mae'r

weledigaeth yng ngwaith R.S. yn llawnach ac yn ddyfnach na dim a geir gan y 'little Englanders' cyfarwydd. Mae'n ennill ei wacter drwy frwydr galetach nag a gafodd Larkin erioed. Mae rhychwant ei emosiynau'n lletach. Ymdebygai R.S. fwy yn hyn o beth, felly, yn ei *wrthwynebiad* i'r dof a'i gofleidiad o'r gwydn, i'r beirdd a ddeuai ar ôl y Mudiad, ond nad oeddent hwy yn dewis nac yn gallu wynebu pynciau ysbrydol eang megis sefyllfa argyfyngus gwareiddiad a'r tlodi ysbrydol *rhyngwladol* gyda'r un manylder profiad ag y gwnâi R.S.. Nid yw Hughes mor hydeiml fetaffusegol o fardd ag R.S., a throetrwm yw ei ddelweddaeth. Gŵyr R.S. am berthynas diwylliannau fel nas gŵyr Sais.

Mater arddulliol yn bennaf oedd bod yn foel i'r Mudiad. Roedd yn rhan o'u gwrthryfel adnabyddus yn erbyn Dylan Thomas a'r 40au, ac yn erbyn gorsynwyrusrwydd arwynebol. Roedd yn wedd hefyd ar eu hymagweddu digwafers di-blu synnwyr-cyffredin. Wrth ymddinoethi felly yr oeddynt yn gwneud 'pwynt' beirniadol i'w cymrodyr llenyddol. Pobl am 'bwyntiau llenyddol' oeddynt. Nid oeddynt mor berfformiadol neu newyddiadurol boblogaidd â'r Dylan athronyddol-ddigenedl.

I R.S. yntau roedd moelni'n fwy o lawer na hynny. Ar y naill law yr oedd moelni'n fynegiant o'r wlad a adwaenai ac o'r Gymru y dinoethwyd ei hysbryd ac y tlodwyd ei diwylliant, eithr hefyd a oedd yn gyffes gerbron Duw. Deuai ef o flaen y Duwdod, fel y dywedai Gwenallt, wedi tynnu oddi arno bob rhyw wisg mewn '*Bare racks of bone*' (2), '*bare boughs of bone*' (23). Nid yn unig '*life is bare*' (1240, ond y mae'n holi '*Is truth so bare...?*' (146). Diau fod yr amgylchfyd wedi'i flingo hyd at y bôn: '*bare field's edge*' (5), '*bare hill*' (13), '*bare lanes of sky*' (19), '*bare moor*' (22), '*bare piece of the sky*' (29), '*bare tree*' (33), '*bare moor*' (50), '*bare bough*' (58), '*bare cliff top*' (79), '*bare branches*' (173), '*our horizon bare*' (417); eithr y mae ef ei hun yn gwbl foel, mae'n dwyn y nodwedd naturiol hon i'r cartref: '*bare stairs*' (26), '*bare floor*' (34), '*bare room*' (42), '*bare hearth*' (98), *bare walls* (156, 287). Mae'r moelni hwn fel yn achos Parry-Williams wedi mynd i mewn i'w hanfod, '*my soul bare*' (92), '*thought's bareness*' (87) wrth iddo wynebu arswyd y '*bare page*' (265). Profiad crefyddol yw. Yn y wisg hon y plygai R.S. i'w Dduw.

Yn yr un modd ac yn estyniad o hyn sylwn ar galedrwydd yr arddull. Ymbluai'r Mudiad yn wrywaidd *galed* fel polisi. Carthent bob awgrym o feddalwch delweddu gordeimladus. Eu delfryd hwy oedd ymwared â gorsensitifrwydd ieithwedd. Rhodient ger ein bron mewn cytseiniaid a rhythmau anfeddal.

Unwaith eto, nid mater o arddull yw hyn, o leiaf nid arddull yn unig i R.S. Thomas. Mae'r mwgwd caled yn llithro'n rhy aml i hynny. Unwaith eto, caled yw'r tir wrth gwrs: *the land's hardness* (31), *in the hard rock* (134), *hard earth* (172, 36); ac o'r herwydd y mae'r genedl ei hun yn galed – *the nation's hardness* (174). Nid oes dim yn galetach na'r tir, onid y nen: *hard sky* (177, 262), *hard skies* (244). Ymgrisiala hyn oll mewn '*hard image*' (177). Ond fel sy'n ddisgwylidig treiddiodd y caledrwydd hwn oddi wrth y tir a'r nen i mewn i'w bersonoliaeth. Neu efallai, gan mai Cristnogaeth yw'r cyddestun, oddi wrth y cwmpwr ei hun i mewn i'w amgylchfyd: *his soul's hardness* (1), *hard masters* (108), *a hard blue* (112, am lygaid), *a hard tear* (162), *hard ribs* (180), *hard hands* (203, 465), *hard work* (223), *hard stare* (200), *hard lore* (396).

Dyna pam y mae'r ddelwedd 'stone' ynghyd â'r is-ddelwedd 'rock' mor bwysig yn ei waith, wrth gofio'r cynodiadau crefyddol. Yn hyn o beth y mae'n mynd yn ôl y tu hwnt i'r Mudiad at y Modernydd Eliot yr ymwrthodasant hwy mor frysio ag ef:

*What are the roots that clutch, what branches grow
Out of their stony rubbish?...
And the dead tree gives no shelter, the cricket no relief,
And the dry stone no sound of water.*

Cesglais rai o gerrig R.S. perthnasol yntau, a rhai o'r geiriau nodweddiadol obsesiynol eraill, a'u pentyrru ar y ddesg er bod llawer ohonynt wedi treiglo hyd y llawr allan o'r drws i'r ardd lle yr ymunasant â chymheiriaid pur niferus. Mae'r tir ei hun yn garegog iddo (11, 22, 24, 27, 33, 42, 70, 90, 147, ayb), a'r hyn sy'n symbolaidd wir yw bod yr eglwys neu'r capel neu'r tai yn gerrig hefyd (75, 107, 167, 168, 199, 282) lle mae yna '*stone altar*' (92). Ac yn anochel aeth y cerrig hyn oll i mewn i'r bobl:

Of a face splintered by life's stone (109).

Felly y ceir – *the stone lips* (15), *he was stone blind* (17), *Things exist rooted in the flesh,* / *Stone, tree and flower* (77), *for their stone hearers* (402), *her eyes were still stones* (403), *the stone population* (435), *stone that humanity/ chokes on* (451), ac felly yn anochel, *stone in the language* (460).

Dyma dir diffaith ffrwythlon yn wir. Ond mae gan R.S. Thomas ddelwedd arall i gynrychioli'r cosmos diffaith hwn heblaw'r pridd ei hun, sef gwastraffu gwlad a chenedl: *their waste speech* (151) sy'n esgor ar – *waste of thought* (65), *waste of presence* (148), *withering to waste* (78). Yn union, fel barddoniaeth Hwngari ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Nodwedd arall ar y Tir Diffaith wrth gwrs yw ei sychder. Ac y mae hyn yn dra amlwg gan R.S. Thomas: *dry as east wind* (40), *dry stone* (451), *dryness and heat, and then the wind again* (53), *this dry stalk* (78), *as the hard earth in spring and as dry* (172), *hot and dry* (377). Haera:

*It is dry
Here with the hard, dry
Urban heat.* (152)

Mae ef ei hun fel ei bobl mor sych â chorcyn: *veins run dry* (31), *your dry throat* (45), *on their dry thoughts* (47), *Your heart that is dry* (58,122), *dry whisper* (67), *eyes are dry* (90), *dry words* (205). Prawf ef:

*Veins' dryness. Words he shed
Were dry leaves of a dry mind.* (135)

Hoff gan y Mudiad ymddangos fel pe bai'n anwesu symlder. Ysgrifennodd Wain gerdd gyfan mewn geiriau unsill. Ceir peth o'r duedd hon hefyd yng ngherddi R.S. Thomas. Dw-i ddim yn credu'i fod wedi nesu at y gogwydd hwn am unrhyw resymau maniffestoaid: dyw e ddim yn codi'i faner unsill ar y strydoedd. Eto, er nad polisi ymwybodol yw hyn fel petai, y mae'r nifer o linellau unsill yng ngwaith R.S. yn bur anghyffredin. Dyma, o'i gyfnod cynnar, ddyrnaid o'i linellau clo yn unig:

*Of the old hulk cracked, but not with mirth.
One by one from the bright dew.
Of time and death and a man's vows.
But shame has kept them late in bed.
Is cold now, blow on it as you will.
That men pry for in truth's name.*

Gwyddai beth roedd yn ei wneud. Gwedd arddulliol ar y duedd hon yw'r arfer o gyfuno ansoddeiriau unsill, weithiau'n gydbwysol gyferbyniol yn nwy ran llinell. Byddaf i yn clywed y pryd hynny adlais rhythmig o un o linellau mwyaf dylanwadol yr iaith Saesneg, sef llinell Tennyson:

On the bald street breaks the blank day.

Ni allai R.S. ddianc rhag y llinell hon. Roedd yn fwan yn ei glustiau. Dyma ef yn canu:

In the hard light of the brief day (102)
Of the pale words in the black Book (13)
the dull tone/Of the thick blood (38)
The white house at the wood's heart (102) a llawer cyffelyb.

Clywch y rhediad:

*Of the strong sap, the feet firm in the soil?
No, no, a man like you, but blind with tears
Of sweat to the bright star that draws you on. (39)*

Eto, i mi y mae symlder R.S. yn rhan o'i weledigaeth ysbrydol dreiddgar ddychrynus. Y braw o ddod yn dlawd, o fod megis plentyn bach, gerbron yr Un sy'n gwybod y cwbl, a'r darganfyddiad wedi'r holl niwlio relatifaidd hunandybus nad oes yna ddu a gwyn ar gael: dim ond llwyd. Tric arddull yw cerdd Wain: profiad dinoethus mewn gweledigaeth yw arddull R.S. Thomas.

Roedd yna ryw beth llwydaidd ynglŷn â'r Mudiad. Llwyd oedd ei ramantiaeth. Er i Margaret Thatcher ddyfod yn dipyn o arwres i ambell ohonynt, ei pharodrwydd i fod yn ddiwyro oedd yn apelio o bosib, nid ei hangerdd sgrechlyd. Ac yr oedd llwydni John Major yn nes at eu harddull hwy er y buasai'i aneffeithiolrwydd llipa a phetrusol ef (peth a gyfredai â'i lwydni yn ddiau) yn peri peth embaras iddynt yr un pryd.

'Brawd Llwyd' yw R.S. Thomas yntau (fel y gallai Dafydd ap Gwilym fod ar dro). Ond yn llwyd ysbrydol y gwêl ef (a Dafydd yntau weithiau) y byd: *I looked out on a grey world, grey with despair* (53), a'r hyn a welir drwy'r *grey eyes* (26), y *grey rain* (20), a'r *grey mist* (29) yw'r *grey curlew* (5), *grey sheep-fold* (52), a'r *grey ash* (66). Ac o'i ddeutu gorwedda'r *grey parishes* (82) a'r *grey cocoon* (98), *grey rock* (107) a *grey ice* (109). Nid yw dyn wedi cyfrannu i hyn i gyd ddim ond *grey walls* (17, 156) a *grey traffic* (172). Mae'n adeiladu â'r *grey stone* (207), *grey farmhouse* (178) o dan y *grey skies* (206) gerllaw y *grey water* (193, 383). Ac os yw'n profi cariad yn hyn oll, pa fath o destun yw hynny onid –

*that grey subject
of dread that Soren Kierkegaard
depicted. (357)?*

Llwyd hefyd yw ei ieithwedd yn fynych. Nid hoff gan R.S. odl, yn arbennig wrth i'r blynyddoedd ddirwyn ymlaen. Nid yw chwaith yn rhy hoff o gael ei gynnal gan fydrau taclus rheolaidd. Ac mae'r absenoldeb hwnnw'n cynorthwyo'r llwydo. Mae'n dadsynhwyro. Os oes cerddoroli i fod, caiff fod ynghudd mewn seler, heb sbonc sionc sŵn amlwg. Heb anwylo cnawd; yn fwriadol sych, ond yno yr un fath. O ran arddull a chywair, y fygfa Saesneg gyfoes sy drechaf, yr ymatal ofnus, y dagfa goeg, rhag i'r dillad

isaf lliwgar ymwithio i'r golwg. A chyda hynny rhydd yr argraff dwyllodrus yn achlysurol o 'daro nodyn' neu 'jottings' rhag y byddai disgwyl disgwyliad hir wrth yr allor, ac yna gadael i'r awel godi i'r trawstiau, yn chwalu popeth, a lle y gallai'r goludoedd o bosib ymglymu am y llwnc a'i dynnu i'r llawr.

Dylanwad o blaid crebachu fu'r 'Mudiad': crebachu yn erbyn ymrwymiad, crebachu yn erbyn y Traddodiad (fel cysyniad), crebachu'n erbyn llenyddiaethau a diwylliannau estron. Tuedd yr adain dde mewn rhai cyfnodau fel y 50au oedd crebachu'n ddaearyddol – yn 'little Englanders'. Tuedd yr adain chwith o hyd oedd crebachu'n amseryddol ac ofni amrywiaeth y gorffennol. Osgowyd y naill dynged a'r llall i raddau yng Nghymru (gyda'i hing rhyngwladol) megis mewn gwledydd bychain eraill oherwydd rheidrwydd bythol y genedl fechan fodern i ymagor yn llawn. Gorfodir y fechan gan ei maint, heb ddim diolch i unrhyw rinwedd gynhenid, i dderbyn gwyntoedd yr holl fyd a'r holl gyfnodau, a hynny heb ei chwythu hi oddi ar ei thraed. Gwybodaeth fewnol y fechan yw bod yn beryglus o gynhwysfawr heb fod yn eclecig, gan ymhél gystal ag y gall hi â'r ehangder bygythiol iach.

Ceid rhagfarnau henaidd a blinedig gan y Mudiad yn erbyn y ffrwythlon a'r angerddol a'r byrlymus, sef 'old hat'. Tarddai'r Mudiad allan o duedd gyson yn Lloegr – sy'n gysylltiedig â'r system ddsbarth cyn belled ag y gwelaf i – i gau'r meddwl yn erbyn rhai cyweiriau. Ni all oddef amrywiaeth diderfyn o bynciau nac o arddulliau. Nid yw'n teimlo'n ddiogel ond pan fydd rhyw gylch bychan o ragdybiau 'ffasiynol' yn arwain barn. Bydd y Mudiad ar goll wrth gwrs wrth wynebu llenyddiaeth anarferol neu annisgwyl fel llenyddiaeth Fasgeg, Gatalaneg neu Gymraeg. Ond bid siŵr, diolch i'r drefn, 'dyw pob cwestiwn ddim yn codi'n normal. Tipyn o niwsans yw Duw gan amlaf. O leiaf mae ystyried Duw yn unplyg neu ymwneud â Christ yn ddidwyll ymrwymedig yn anathema 'non-U' mewn ffordd sy'n ddieithr ac yn chwyslyd embaraslyd o'i chymharu â Gwenallt, Saunders, Waldo. Roedd R.S. felly yn rhy ddwys i'r Mudiad. Bu'n rhy Waldoidd.

Roedd R.S. Thomas ymhell o fod yn nodweddiadol o briffordd y symudiad cyfoes mwyaf tebygol iddo yn Lloegr. Yr oedd ganddo (fel yn achos Elizabeth Jennings) ormod o ddiddordeb mewn crefydd. Mwy cynrychioliadol o'r Mudiad oedd sylw un o gymeriadau Amis. 'Christ no. I've never believed in any of that crap.' Yn hyn o beth roedd R.S. yn hollol 'wlyb,' a hynny pan ddisgwylid i bawb aeddfedu mewn sychder

arferol un-dimensiwn. Eto, tybed onid R.S. a ddangosai sut roedd ei gwneud hi? I mi mae yna baradocs yng ngwaith R.S. o'r brig i'r bôn. Mae'n esgus bod yn llwydaidd, yn blaen, yn wastad. Ond treiddir ef gan gyfoeth o drosiadaeth.

Yr wyf yn ceisio sgrifennu'n deg am y Mudiad, a byddai'n braf peidio â bod yn ffariseaidd. Os caf ychwanegu gair personol: roeddwn yn gyfoed â rhai o'i gynrychiolwyr, ac yn ymwybodol wrthwynebus i lawer o'i bwyslais negyddol (nid y cwbl), er fy mod yn cytuno'n frwd yr un pryd â llawer o'i osgo gadarnhaol. Parchwn feirniadaeth Davie. Er gwaethaf ffolinebau Moderniaeth, haeddai ei pharchu. I mi bu ymrwymiad yn hanfodol erioed, ac nid mewn Cristnogaeth a gwleidyddiaeth yn unig. Ym myd rhyw er enghraifft, i bobl fel Gunn ac Amis, ymddangosai'r fenyw yn wrthrych i'w ddefnyddio. I mi roedd yn berson – yn gwbl anffasiynol – nid yn unig a hawliai barch a chariad a chyfiawnder, ond yr oedd yn bersonoliaeth y gellid dod i fath o undod cydradd â hi; ac os oedd hyn yn creu categorïau cyweiriol lle na cheid sengi – y 'coy', y symbolaidd, yr arbrofol – yna rhaid oedd hedfan yn nannedd y fath anoddefgarwch.

I mi ni allai barddoniaeth fod yn 'ddof-ar-egwyddor'. Cynrychiolid y naws a'r osgo yma gan Flodeugerdd Robert Conquest *New Lines*. Cofiaf droi oddi wrthi yn reddfol. Nid yn unig oherwydd yr egwyddor a ganfu Alvarez yn wrthun yn y Mudiad – 'gentility', boneddigeiddrwydd ymylog ond caboledig, gwybodus, deallus a llipa, eithr hefyd oherwydd y dogmâu a ystyriwn yn glwyf dwfn yn y *psyche* Saesneg, sef sgeptigrwydd heb ymholiad beirniadol, yn ddeublyg anystwyth, coegi uniongred naif, a soffistigedd sâl sylfaenol imperialaidd. Tyfais mewn cyfnod pryd roedd sinigrwydd mor rhwydd. Y disgwylidig oedd petruso'n ansicr. Diffyg ymddiriedaeth oedd doethineb. Os nad oeddech yn goeg roeddech ar gyfeiliorn. Anodd oedd osgoi negyddiaeth, a ffaidd i gymdeithas wâr oedd credu difrif. Hyn oll a amheuwn. Fe'i hamheuais yng ngwaith Parry-Williams. Fe'i hamheuais yng ngwaith y Mudiad yr un pryd. Fe'i hamheuais yn bennaf mewn beirniadaeth lenyddol newyddiadurol.

I mi, ysgogai syrffed ar farddoniaeth Saesneg ar y pryd i ambell Gymro i balu'n ddyfnach i'r gynhyngaeth Gymraeg ac i lenyddiaethau tramor (peth a oedd yn ffaidd yng ngolwg Saeson arweiniol ar y pryd). Ceid yn y Gymraeg yr un parch at grefftwaith o leiaf ag yn Saesneg, ond heb y methiant i ymaflyd mewn themâu mawrhydig gyda hyder. Caed yr un pwyslais ar adeiladwaith deallus ond heb deimlo'r rheidrwydd i ofni trosiadau o bob

cywair. Yn y Gymraeg ceid y cywair sgeptig, negyddlyd yn achlysurol; ond amlycach oedd cyweiriau eraill. Amlwg oedd yr amgylchfyd anochel i R.S. – Cymru. Ni thrafferthid ef gan obsesiwn Larkin (i faban Amis):

*May you be ordinary;
Have, like other women
An average of talents:
Not ugly, not good-looking,
Nothing uncustomary
To pull you off your balance...
In fact, may you be dull.*

Wedi'u dadrithio ynghylch Iwtopia Sosialaidd y 30au, ynghylch plentyndod, ynghylch y wlad, ynghylch dychymyg gwyllt a theimladau blêr lle yr oedd barddoniaeth Dylan yn ddiffygiol, ceisiai'r Mudiad gyflenwi rhinweddau eraill. Ond wrth gyflenwi'r rheini, collasant rinweddau hanfodol. Ni allent hwy na neb fforddio taflu 'Rhamantiaeth' drwy'r ffenest. Gallent fod yn feirniadol ohoni, ond ffôl oedd colli'i henillion.

Meddai John Press yn gondemniol ei gasgliad am y Mudiad (yn ôl rhyw ddull 'ffasiynol' eto a all fynd dros ben llestri): 'the practice of scattering here and there such empty phrases as 'of course', 'I'm afraid', 'it seems', insofar as it is not just metrical padding appears to be a vaguely reassuring gesture intended to show that these highly intellectual poets want their readers to relax and feel at home in a genial atmosphere.' Yr hyn a ddengys Press mewn gwirionedd yw gwiriondeb posibl ffasiwn rhy anhunanfeirniadol. Gwiw cofio rhychwant emosiynol, a gweledigaethol di-chwiw R.S..

Bydd llawer yn taro wrth waith R.S. yn gyntaf mewn blodeugerddi. Gall hynny gamarwain. Yng nghyfanwaith ei waith y deöllir ei gyfraniad orau. Cawsom ein cyflyru'n ormodol gan flodeugerddi, a chael ein perswadio i roi gormod o sylw i'r gerdd unigol. Ni cheir camp fwyaf R.S. mewn cerdd unigol. Gall Larkin hyd yn oed, ac yn sicr Auden, ei faeddu yn y gerdd unigol ar dro. Ond yn y cyfanwaith, yn y mynegiant llawn o brofiad dwfn, aeddfed ac arwyddocaol o'r Byd *a'r* Betws, ni chredaf fod yna neb oll wedi Eliot yn Saesneg sy'n drech nag R.S..

Bydd bardd gwir sychedig yn ystyried mai doeth yw darllen bron pob bardd unigol gwerthfawr ar draws ystod go eang o'i gerddi. Llenwi bylchau y bydd beirdd gan amlaf, nid yn unig yn eu gwaith eu hun, ond hefyd mewn llenyddiaeth yn gyffredinol. Canu cerdd mewn lle na bu cerdd. O'r hyn lleiaf, yn achos R.S. ni cheir ond siwrnai a

siawns mewn cerdd unigol y math o wefr sy'n ysgwyd dyn i'w waelodion ac sy'n rhoi'r math o foddhad gorffenedig mawr a ddaw o brofi gwaith hollol anghyffredin. Dyna f'argraff i. Fe'i ceir; ond pan eir ati i ymlwybro'n dawel o gerdd i gerdd, i adeiladu yn y profiad gyfanwaith, y pryd hynny yn y crwn fel petai y canfyddir fod yr *oeuvre* yn gwbl unigryw a sylweddol arwyddocaol. Mae'n gyfraniad gwefreiddiol i lenyddiaeth Saesneg. Ceir rhai caneuon, fel yn achos pawb, nad ydynt yn anrhydeddu'r bardd. Ond erys wedyn nid hanner dwsin na dwsin o gerddi, fel yn achos digon o feirdd go arbennig – megis Dylan ei hun, eithr cyfuniad o ddwsinau o gerddi sy'n cydadeiladu profiad enfawr o welediad. Ni raid cytuno â'r bardd i brofi presenoldeb arbenigrwydd y Gerdd greedig.

Ceisiais ganfod y bardd yng nghyd-destun ei gyfnod. Ac yn ddiau, fe berthyn iddo. Ac eto, y tu ôl i'r iaith iwtilitaraidd sy'n colli'i hansawdd symbolaidd, y tu ôl i fydd wedi'i drwytho yn y seciwlar ac ofn moli'n ddiffuant, y tu ôl i ddiffaniad y sanctaidd a chrebachrwydd yr anysbyrdol, hynny yw y tu ôl i wynebu realiti caled tybiedig, wele fardd y ceid ynddo synnwyr cysegredig araf. Ceid adfywio'r gair 'sagrafen' yn ôl iaith ddilys ac ymwybod â'r 'presenoldeb' ar y pryd, peth sydd ar gael hyd yn oed mewn absenoldeb (nad oes felly ddianc rhagddo). Mae hynny i gyd ynghlwm wrth fod yn effro i'r anonest; mewn sgeptigrwydd ac eto'n torri'n rhydd. Ac felly y mae R.S. Thomas yn rhwygo allan o'r ofnusrwydd Saesneg yn y canrifoedd diwethaf i wynebu'r ysbrydol croyw. Llwydda i osgoi'r ffuantus drwy ymosodiad mewnol o fath ar Gymru ac ar Dduw. Cyfyd hunan-feirniadaeth o'r herwydd. Yn nannedd yr ysbryd ofnedig, dyry'i fiwsig llwyd.

Yn hyn o beth bu'n llenor Cymreig. Mae gennyf ffrind o lenor Eingl-Gymreig a brotestiai fod llenorion Eingl-Gymreig mewn siop lyfrau yn cael eu dosbarthu ar wahân i lenorion eraill. Geto oedd ei derm. Dymunai fod yn 'llenor' plwmp a phlaen. Er ei fod yn Gymro ardderchog, yr oedd am ymrestru, mewn siopau llyfrau neu lyfrgelloedd yn ôl trefn yr wyddor, gyda llenorion pob gwlad. Nid oedd ef am gael ei gyflwyno fel llenor lleol, neu fel llenor Eingl-Gymreig. Mewn gwirionedd, llenor Saesneg oedd i bob pwrpas.

Gallai Ffilistiad efallai ddadlau nad oedd Cymru yn golygu digon iddo. Ond ni chredaf mai dyna'r rheswm. Llenor oedd ef, a dyna ni. Yr oedd ef wedi derbyn y ddadl fod haniaeth ddigon arwyddocaol i'w chael *ar wahân* i realiti llenyddiaeth Eingl-Gymreig, haniaeth y 'llenor' per se, y llenor noeth digyswllt. Canlyniad pwysau'r ddadl

ddilys honno a barodd iddo deimlo'n anesmwyth ynghylch closio'n rhy agos at Gymru lenyddol gan y gallai hynny ei bellhau oddi wrth hanfod ei gymheiriaid eraill yn Saesneg. Ni fyynnwn gollfarnu'r safbwynt hwnnw. Ond safbwyntio oedd craidd y broblem. O'r herwydd, ymddengys Eingl-Gymry o'r fath i raddau helaeth fel petaent yn methu â datblygu'n uned a'i theyrngarwch cenedlaethol mewn traddodiad unigryw. Ni fawrygid arbenigrwydd rhyfeddol eu Cymru hwy. Ac mae'r safbwynt yn adlewyrchu methiant i ymffurfio'n llenyddiaeth unigolyddol gref.

Buasai'r math hwnnw o broblem yn ddieithr i'r Cymry cynhenid. Ac felly R.S.. Gwyddai R.S. ym mha le yr oedd yn perthyn. Ac yn y perthyn hwnnw, gwyddai'i hyder pe dodid ef ar silff niwtral neu beidio mai gyda'r Cymry y dylai fod, a heb hynny byddai'r Cymry'n hiraethu am ei gwmi. Yn hynny o beth, treiddiai i gyhyrau sefyllfa perthynas ddiwylliannol fyd-eang, un na threiddiodd i ymwybod Lloegr oherwydd ei mewnblygrwydd unig, dirywiol.

R.S. THOMAS A'R EINGL-GYMRY

Gellid gwahaniaethu rhwng yr 'Eingl-Gymro' a'r 'Llenor Saesneg yng Nghymru' yn ôl cyflawnder yr ymwybod o fod yn ddyn.

Clywir y 'Llenor Saesneg (yng Nghymru)' yn honni ambell waith: 'Nid wyf yn sgrifennu fel Cymro, ond fel dyn (neu fel person, neu fel dinesydd o'r bydysawd, neu fel rhyng-genedlaetholwr).' Dyma rinwedd hyfryd a thra chanmoliaethus wrth gwrs. Yr ym i gyd, gobeithio, yn sefyll ar flaenau'n traed i guro dwylo. Ond yr hyn a feddylia yw nad yw'n gallu sylweddoli unrhyw berthynas wir arwyddocaol rhwng ei Gymreictod, ble bynnag y cadwo hwnnw, a'i ddynoliaeth. Nid yw ei ddynoliaeth lenyddol yn cynnwys unrhyw liw sy'n wahanol, o arwyddocâd mawr o leiaf, i'r hyn a geir gan y llenor taleithiol o Sais. Ei awydd uchel-ael yw brysio nerth ei sodlau meddyliol, cyn belled â Llundain heb basio 'go'. Mae ef neu hi yn farw i rywbeth. Dadleuai Mc Diarmaid yn fentrus nad oedd y 'Llenor Saesneg yng Nghymru' yn wir ymwybodol â realedd man a lle. Dadleuai ambell Gymro wedyn o bosib nad oedd yn ymwybod yn gryf â'r awr a'r ganrif chwaith.

Bid a fo am hynny, rywfodd, nid yw'i deitl mor gynhwysfawr â'r 'Eingl-Gymro'. Yr *Eingl-Gymro* yw'r un sy'n ddyn drwy ymwybod â'i Gymreictod cynhenid – ymhlith pethau eraill. Cymreictod gyda chymhlethdod. Gŵyr am yr Amryw yn yr Un. Canys Cymro yw. Methu â pheidio â bod yn Gymro y mae'r 'Llenor Eingl-Gymreig'. Mae hyn, yn y cyfwng hwn yn hanes y byd, yn agwedd iddo ar ei ddynoliaeth fyw a sensitif. Mae'n lliw yn ei amrywiaeth cyfoethog. Fel Glyn Jones fe all ymhyfrydu yn y fraint honno. Gall fod yn boendod diflas a phlwyfol iddo fel yr oedd yn achos Caradoc Evans. Ond i'r Eingl-Gymro does dim angen iddo achwyn na brolio'i fod yn Gymro er mwyn bod yn ddyn, neu'n ddyn 'cyn bod yn Gymro'. Dyna'r gwir amlochrog cyflawn ddynol amdano. Ni all dros ei grogi ei osgoi. Wedi'r cwbl, fel y Cymry Cymraeg, tipyn o drefedigaethyn yw'r Eingl-Gymro truan. Ac ymfalchïai Glyn Jones felly yn y term a'r profiad o fod yn 'Eingl-Gymreig'. Nid oedd am gefnu arno.

O'r herwydd, nid rhan ganolog o bob *psyche* Eingl-Gymreig heddiw yw cael cymeradwyaeth Llundain, costied a gosto, fel y bu'n rhan o'r *psyche* Cymraeg ers tro, ac y deil yn rhy aml yn rhan o'i *psyche* i'r 'Llenor Saesneg yng Nghymru.' Digon i'r 'Eingl-Gymry' dyfnaf a thyllau yn eu sanau yw siarad â'u pobl real eu hunain. Os digwydd i

eraill glywed, gorau i gyd. Ond y cwestiwn mawr i'r 'Llenor Saesneg yng Nghymru' ar y llaw arall yw – 'A dderbyniwyd y gyfrol yn siopau Llundain? A adolygyd hi ym mhapurau Llundain?' Ac yntau wedi ceisio mor galed i fod yn ddyn! I'r Llenor Saesneg yng Nghymru deil gair Rousseau yn dipyn o fygythiad: 'Les peuples une fois accoutumés ê des maîtres ne sont plus ein état de s'en passer.' (Anodd dwyn dyn oddi ar ei feistr.)

Nid felly, – o leiaf, nid felly yn ganolog – yr Eingl-Gymro. Bu gan hwnnw ei bobl; ac o'r herwydd, hwy yw pob pobl. Ac eto, wrth reswm, y mae'r Eingl-Gymro neu'r Llenor Saesneg yng Nghymru fel ei gilydd megis y Cymro yn cyd-ddioddef o'r un clwyf gwreiddiol. Sut bynnag yr ymagweddant, cyd-eisteddant yn yr un cawl.

Dichon cofier fod trefedigaethyn ar ryw gyfnod yn ei hanes, boed yn Gymro Cymraeg neu'n ddi-Gymraeg, yr un fath. Mae ganddynt oll berthynas gyffelyb, boed i hynny effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol. Dyma batrwm anochel i bawb sy'n meddwl yn gyntaf fod Gwent 'i'r Gorllewin' o rywle, yn hytrach nag i'r Dwyrain, neu fod Aberystwyth hithau ar yr ymyl yn hytrach nag yn blwmp yn y canol.

Ond llenyddiaeth sydd ynghlwm wrth realiti mewn amser a lle yw Llenyddiaeth Eingl-Gymreig. Wrth ei darllen, ei blodeuo cyntaf gynt a'r ail flodeuo parhaol yn y ganrif hon, ni ellir llai na chasglu mai llenyddiaeth 'fro' o'r math hyfrytaf yw llawer ohoni. Llenyddiaeth y mynydda' yn fynych, fel y byddai'r Cymry'n arfer galw'r blaena' neu'r 'valleys' bondigrybwyll ers talwm. Ac mae'n anhraethol hawdd cynhesu ati. Delwedd o fyd ydyw. Byddaf innau'n teimlo rhagfarnau cryf o'i phlaid wrth reswm, a byd sy'n cynnwys dynoliaeth i gyd yw mewn modd diriaethol a dilys benodol ddwfn.

Llenyddiaeth drefedigaethol fu ein llenyddiaeth Gymraeg hithau hefyd yn seicolegol, ers 1536 o leiaf. Dyw hi ddim yn gwneud môr a mynydd o'r peth gan amlaf, o leiaf tan y ganrif ddiwethaf. Ond y mae'r cyflwr yn eglur i'w weld ar hyd y blynyddoedd i bawb a egyr hanner amrant. Ac fe erys felly o hyd.

Dyma yw'r hen bwyslais cefndirol a roddaf ar unigolyddiaeth ac estheteg llenyddiaeth Eingl-Gymreig dros gyfnod o drigain mlynedd a phedair bellach, o 1915 hyd 1979. Ni bu hithau chwaith yn gwneud môr a mynydd o'r peth fel arfer, ar wahân i rai cerddi gan R.S. Thomas, Harri Webb, Raymond Garlick, a John Tripp am un cyfnod cyn 1979, ac ar wahân hefyd i ryddiaith Emyr Humphreys. Ond hyd yn oed mewn gwaith llai ymwybodol drefedigaethol, gwaith sy'n cynnwys llai o'r hyn a elwir yn 'nationalistic

posturing' – gwaith Caradoc Evans, Gwyn Thomas, Glyn Jones a Gwyn Jones – ni ellir llai nag ymwybod â sefyllfa drefedigaethol gref.

Newidiodd hyn oll ym 1979, sut bynnag. Aeth llenyddiaeth drefedigaethol Eingl-Gymreig am y tro o leiaf yn ymwybodol fwyfwy Saesneg. Nid oes dim o'i le mewn bod yn llenor taleithiol Saesneg wrth gwrs. Dyna mewn modd gwahanol oedd Barnes a Hardy, yn ddiau, ond bod gan eu talaith hwy wreiddiau dwfn yn Lloegr. Rhan oedd eu talaith o genedl yr oedd ei chanol y tu mewn i'w ffiniau. Nid taleithiol i Lundain oeddent, ond taleithiol i'r cwbl o Loegr. Yng Nghymru ym 1979, sut bynnag, craciodd morâl rhai o'r Eingl-Gymry mwyaf twymgalon. Credaf mai'r refferendwm oedd y catalyst. Gwelsom John Tripp a Raymond Garlick a rhai eraill o'r Eingl-Gymry yn ysigo'n sydyn – dros dro beth bynnag – dan 'sioc' y canlyniad.

O berspectif y llenorion Cymraeg buasai rhoi'r fath bwyslais ar un peth fel hyn yn o ryfedd, yn arbennig ar un peth gwleidyddol fel refferendwm. Iddynt hwy nid y peth pwysicaf o bell ffordd yn y calendr cymdeithasol Cymreig rhwng 1945 a 1990 oedd y tipyn digwyddiad hwnnw. Roedd Tryweryn yn sicr yn anhraethol bwysicach. Roedd hyd yn oed yr annigwyddiad o Arwisgo, o bethau dibwys y byd, wedi gadael mwy o ôl arnynt, heb sôn am ymgyrchoedd dyfnach Cymdeithas yr Iaith a datblygiadau mwy adenillol ym myd Addysg a'r Cyfryngau. Roedd ganddynt waith dirfodol i gynnal y Wasg a'r cymdeithasau Cymraeg ym mhob maes, yr amhoblogaidd yn ogystal â'r poblogaidd. Er bod y refferendwm yno, rhan fechan o alwedigaeth lawer mwy taer ydoedd. Perthynai'r pwyslais a geid gan y Wasg i gymeriad y refferendwm hwnnw. I rywrai a chanddynt ymrwymiad go ansicr yn amlochredd yr hyn a oedd yn digwydd i'r gorllewin o'r Barri ac i'r gogledd o Ferthyr dechreuwyd cysylltu anrhydedd Cymru a gobeithion apocalyptig a llwyddiant cyflym seicolegol Cymru â'r siom arbennig hon.

Nid wyf wrth gwrs yn ceisio hawlio unrhyw uwchraddoldeb yn hyn o fater i'r Cymry Cymraeg. Cyflyrasid y Cymry Cymraeg ers talwm – heb unrhyw ddiolch iddynt hwy – gan siom ar ôl siom. Un cam ymlaen a deg cam yn ôl oedd eu bara beunyddiol hwythau erioed. Ni allent ddianc felly rhag eu trefedigaethrwydd gwydn. Am yr Eingl-Gymry, sut bynnag, llenyddiaeth Saesneg a sgrifennent, er mai llenyddiaeth Saesneg drefedigaethol ydoedd. Gallent o'r herwydd ymddihatru'n ymddangosiadol ddi-boen ar ôl 1979 o'u cysylltiadau hanesyddol drwy fabwysiadu amgylchfyd meddyliol gwahanol.

Mater o newid y testun ydoedd. Dringo i'r ochr draw i'r wal isel hon. Hyd yn oed pe sylwent fod y refferendwm yn drawma, ni buasai'r Cymry Cymraeg hwythau ar y llaw arall yn gallu dianc dros eu wal hwy. Roedd eu dihangfeydd oll wedi'u cau gan sillafau.

Ymddengys fod yn rhaid bellach i lenor Eingl-Gymreig wedi refferendwm 1979 wneud ymdrech ddeallol fwy treiddgar nag o'r blaen i fod yn Gymro. Gweithred fwy ymwybodol ydyw. Nid yw'n felltith gysurus iddo. Os eistedda'r llenor o Gymru yn y llaid fel plentyn ynghanol pentyrrau o deganau toredig, mae'r her i'r Eingl-Gymro yn ddyfnach.

Ac ar ôl methiant mewn refferendwm dyma fewnlifiad o Saeson hefyd na chafwyd ei fath oddi ar ddyddiau diwyd agor pyllau, ond yn llai ystyrllon, yn boddi nid yn unig y Cymry Cymraeg, ond yr Eingl-Gymry hefyd. Tynnaf gopi o *Poetry Wales* ym 1965 o'm silff, a dyma'r enwau cyntaf a'm tery – Griffiths, Morgan, Prys-Jones, Rees, a Gruffydd. Tynnaf gopi o'r un cylchgrawn ym 1991 o'm silff ac wele Hamm, McKey, Barnes, Hamberger, Parker, Mellor, Watt, Burnside a Stubbersfield. Arwyddocaol? Wel na: o ail-feddwl, go brin. Gwelais ddatblygiad meddyliol cyffelyb ymhlith siaradwyr Cymraeg a adwaen, a symudiad adfywhaol er gwell o ddigon ydoedd, o safbwynt rhuddin mewn asgwrn cefn o leiaf. Mae gennym botensial Cymreig newydd.

Sylwasom ar un datblygiad arall sydd mor arwyddocaol â'r mewnlifiad, sef yr awydd cynyddol hyd yn oed ar ran rhai llenorion Eingl-Gymreig go iawn (nid y Llenorion Saesneg yng Nghymru yn unig) i ollwng y term Eingl-Gymreig ac i ymrestru, o leiaf o ran enw, gyda'r 'English writers in Wales'. Cyn 1979 ceid llenyddiaeth Eingl-Gymreig ddigywilydd fel y gwelsom, gyda'r Eingl yn goleddfu'r Cymreig bron yn erbyn yr ewyllys. Wedyn, daeth y lleoliad ei hun yn fwyfwy o ddamwain ac o anghyfleustra daearyddol. *Eithr nid cywiro hen label anghywir oedd y datblygiad newydd hwn yn gymaint â newid hanesyddol mewnol.* Daeth yn anghwrtais i gyfeirio at yr Eingl-Gymreig fel pe bai'n rhywbeth neilltuol. Mae yna encilio wedi bod i mewn i Loegr.

Ond mae yna problem. Fe'i trechwyd gan R.S. Thomas. Beth oedd yr hunaniaeth mwyach? A oedd Eingl-Gymreictod yn dibynnu ar rywbeth mor arwynebol â chrybwyll testun Cymreig? A ellid dadlau er enghraifft mai Llenor 'Eingl-Gymreig' oedd R.S. Thomas dyweder hyd at *H'm*; ac yna, wedi dod yn ddyn, iddo ddod yn llenor Saesneg go iawn yng Nghymru? Mae'r ffordd o ddiffinio perthynas unrhyw lenor Saesneg â Chymru

wedi peri dryswch cyson ers hanner can mlynedd wrth gwrs i'r rhai sy'n chwilio ystyr estheteg Eingl-Gymreig. A oedd yn awr lefel amgen eto nad oedd ambell lenor Eingl-Gymreig yn cyrraedd ati? Wedi'r cwbl, onid oedd Bertrand Russell, a anwyd yng Nghymru, a fu farw yng Nghymru, ac a fwriodd gryn gyfran o'i oes yma, yn fwy o Gymro cynhenid na rhyw fewnfudwyr o Loegr megis Saunders Lewis, Lloyd-George, R.T. Jenkins a Francis Payne? A oedd Russell yn fwy Eingl-Gymreig na'r Llundeniwr hwnnw a ymwelodd â Llandudno un tro pan oedd yn ddeunaw oed, ac er na ddaeth byth yn ôl i Gymru na allai ymatal byth wedyn rhag sgrifennu am y profiad?

Wrth barcio ar gyfer picnic mewn mangre ddiarffordd yng nghefn gwlad Picardie yn ddiweddar, roeddwn yn tybied fy mod wedi taro wrth un eithafbwynt defnyddiol odiaeth yn yr ymgais i ddiffinio llenyddiaeth Eingl-Gymreig. Yno yr oedd yna deulu a ddaethai allan o gar yn dwyn yr arwyddnod cenedlaethol cyfrin ar ei gefn – CYM. Bûm mor hy â'u cyfarch yn Gymreigaidd gymdogol gan ddweud nad bob dydd roedd pobl Rhosllannerchrugog yn cyfarfod â'i gilydd yn y fath safle. Addefasant mai Saeson o Birmingham oeddent wedi prynu'r arwyddnod flwyddyn ynghynt ar wyliau yn Aberystwyth fel cofrodd, dyna'r cwbl. Diau fod hynny hefyd i'w barchu. Tybiais y buasai Kierkegaard wedi gallu cael dameg yn y fan yna rywle, wrth ystyried 'The two literatures of Wales.' Ond ni wn beth.

Cyflwynais f'anghofion cynnes iawn iddynt ac ymadael.

Fe welais awgrym mewn trafodaeth ar waith Czeslaw Milosz y byddai Saeson yn ystyried y gwahaniaeth, arwyddocaol iddo ef, rhwng 'Lithiwenaid-Bwylaidd' a 'Phwylaidd-bwylaidd' yn fater plwyfol. Ond wrth gwrs dyna'r math o wahaniaeth realaidd sy'n gyfarwydd ac yn dreiddgar yn ymwybod dyfnaf y diwylliant rhyngwladol. Y mae a wnelo â pherthnasoedd hydeiml o'r fwyaf ffrwythlon. Y diwylliannau unffurf a diymwybod-ag-amrywiaeth yw'r rhai sy'n blwyfol anwybodus neu'n blwyfol ysgafn ynghylch hyn o bwnc.

'Twt! Twt! Medd y '*dyn-cyn-bod-yn-Gymro*', beth yw'r ots? Yr hyn a sgrifennir sy'n bwysig nid y man geni. A hawdd gweld ei bwynt. Wedi'r cwbl, cymerer y pum dyfyniad canlynol, un gan Gymro, un gan Eingl-Gymro, un gan Eingl-Gernywydd, un gan Eingl-Gymbriad. O! A'r llall gan Sais. Dyfaler p'un yw p'un. Pwy sy'n 'Welsh'?

Dyma hwy:

1. *Say, what is Honour? Tis the finest sense
Of justice which the human mind can frame
Intent each lurking frailty to disclaim.*
2. *I am named in the ancient House
Because I loved the plain sanctuary
And sought to build my own English home.*
3. *Why weeps the Muse for England? What appears
In England's case to move the Muse to Tears?*
4. *Fel kannwyll nas goleuwyd yn diffodd, neu gywain adlodd heb gnwd,
fel haul yn machludo cyn gwawrio, neu ymadael heb gyrraedd:
daeth marwolaeth i anrheithio'r groth ac i'th gipio o'th gwd.*
5. *After rain in Regent's park,
After the rain has died away
And the day brightens again.*

Wel, fe gawsoch un allan o bump, beth bynnag. Un bachgen drwg yn unig oedd yna. Bûm yn meddwl ychwanegu Americanes er mwyn ymuno yn y ddadl arbennig arall honno, sydd bron mor berthnasol. Ond mi brotestiwch, mae'r Eingl-Gymro yn y fan yma wedi'i gymathu'n llwyr i Seisnigrwydd mae'n rhaid. Dyw hynny ddim yn deg... Nid ceisio bod yn annheg yr wyf, ond wynebu anhawster ynglŷn ag ysgogiad ac angerdd ac ymrwymiad cymdeithasol a phersonol cerddi R. S. Thomas. Gŵyr am hyn hyd at bigiad ei esgryn. Gŵyr am yr anhawster o gysondeb hunaniaethol mewn un o'r ddwy lên.

Nid hawdd labelu'r Eingl-Gymro yn dwt gysurus, hyd yn oed pan fo'n ymrwymedig ym mywyd Cymru. Llenor Saesneg anfoddog yng Nghymru yw R.S. Thomas, yn sicr, neu felly y bu yn amlwg hyd at y saithdegau. O ran ei berthynas i'w gymheiriaid Eingl-Gymreig y mae'n nes at y genhedlaeth yn union ar ei ôl (Tony Conran a Raymond Garlick), o ran dwyster y diddordeb ysbrydol, nag at ddyneiddaeth allanol pobl y blodeuad cyntaf. Ac eto, byddaf yn cael cryn anhawster i feddwl amdano fel llenor Eingl-Gymreig o gwbl. Tueddaf, er fy ngwaethaf, i synied amdano fel Cymro *tout court* (fel uchod) sy'n ei fynegi'i hun mewn dwy iaith yn ôl y rhaid, ac yn perthyn (fel Emyr Humphreys) i ochr Gymraeg yr Academi Gymreig. Byddai Saunders Lewis ambell dro yn sgrifennu yn Saesneg, ac Alwyn D. Rees yntau hefyd yr un modd, ond go brin eu bod byth yn ein bryd ni, hyd yn oed am eiliad, yn llenorion Eingl-Gymreig.

Y mae natur gwaith R.S. Thomas hefyd yn wahanol i'r Eingl-Gymry arferol o'i flaen, nid yn unig o ran safon, ond o ran dealltwriaeth. Mae'n cyfeirio mwy at lenorion

Cymraeg nag at lenorion Eingl-Gymreig. Mae'n ysbrydol Gymreiciach ei amgyffrediad ac yn rhan ymarferol o fywyd y Cymry Cymraeg yn ogystal ag o'r Cymry di-Gymraeg. Ym myd yr Eingl-Gymry cynddelwaidd, (nid y Llenorion Cymreig Saesneg a ddaeth ar eu hôl) Idris Davies a Gwyn Thomas dyweder, cawn yr ymdeimlad ein bod yn symud ar lefel ymddygiad a threfniadaeth. Cymdeithasol gyffredin yw'r problemau, ond real. Cawn yr argraff anochel, pe na wnaem ond tacluso'n wleidyddol ychydig bach, y ddi haul cymdeithasol ar fryn. Perthynas dyn a dyn, ac yn arbennig dosbarth a dosbarth, dyna'r cwbl sydd o'i le. Twtio gweinyddol, rhoi ychydig rhagor o arian (grantiau) i'w bywoliaeth, tipyn bach o ddiwygio cariadus rhwng cymdogion, a chael llywodraeth radical, a dyna Iwtopia. Ond ym mryd R.S.Thomas ymsymudwn ar lefel gosmig ynghyd â dyfnder mewn amser a lle.

Dyneiddiol gymdeithasgar yw cyflwr Eingl-Gymry cynddelwaidd arferol. Er bod yr allanolion yn bwysig odiaeth yn ymwybod R.S., y mae'r Cymro, ac felly'r dyn, yn fwy ac yn gymhlethach o lawer na hynny.

Ac eto, rhan ddiamheuol yw R.S. Thomas, er ei fod ar ei ben ei hun ac yn bendant unigolyddol, o'r Mudiad Eingl-Gymreig. Cyn belled ag na charai'r term amdano'i hun (a hawdd deall hynny, a theg sylwi pam), gellid ymatal rhag ei ddefnyddio. Ond i mi, anysgolheigaidd yw peidio â defnyddio'r term gyda pharch am y rhai a'i harddelai. Mae hi fel ysgolhaig diweddar yn mynnu sillafu Iolo Morganwg â dwy 'n', yn wahanol i'r bardd hwnnw ei hun, oherwydd rhyw syniadaeth orgraffyddol ddiweddar. Defnyddier y term 'Llenyddiaeth Gymreig-Saesneg' am y llenorion diweddar os mai'r term hwnnw a arddelant hwy. Gellid dadlau am hynny, heb foesymgrymu i arglwyddiaeth y term. I ni'r Cymry Cymraeg, y mae'r amlochredd ar y mudiad hwnnw yn arbennig bwysig am ei fod yn mynegi profiad rhai o'n cymrodyr. Bob amser, beth bynnag fo'u themâu a'u diben, geill llenorion medrus, pan feddant ar ddoniau da drwy ryw ryfeddod, fod yn werthfawr yn syml oherwydd y cyfryw ffenomenau â hynny. Ond pan fyddont yn cyfrannu hefyd inni, drwy'u mynegiant, o brofiad canolog ein pobl ar y pryd, ac wedi meddwl mewn geiriau am ein hargyfwng presennol llawnaf, a hynny gyda sensitifrwydd a dychymyg barddonol sylweddol, yna y mae eu gwaith yn ddeublyg arwyddocaol, ac yn perthyn i ffenomen ddiwylliannol seicolegol ryngwladol. Nid oedd a wnelo â gwerthuso.

Beth, felly, oedd R.S. Thomas?

Cyflawniad yw'r ddelwedd helaeth o Gymru a geir gan R.S. o ddelwedd estynedig gyffredinol a gyflwynir ac a ddehonglir gan lenorion Eingl-Gymreig, ond gyda mwy o ymwybodolrwydd nag arfer. At ei gilydd, ymddengys yn llymach o dipyn, yn chwerwach, yn fwy deallol genedlaethol nag a geir gan y rhelyw. Ond gwaith ydyw'r llymhau hwn y mae'n rhaid ei wneud ym mhob man bob amser. Yr hyn a wna R.S. wrth finio ac awchlymu ei olwg ar y sefyllfa Gymreig, ac ar Gymru wledig yn neilltuol, yw gosod y proses hwnnw o fewn y rheidrwydd i ganfod y cwbl o'n profiad o'r byd o dan drem dreiddiol, fain ac eirias. Mae'r awch asid hwn a brofir wrth syllu drwy'i droadau a'i rythmau ar Gymru yn unwedd â'i sylweddoliad ynghylch brath bywyd yn gyffredinol. Felly, mewn modd syml, gellid dweud mai'r un swyddogaeth sydd gan ei lygaid deallol â'r Sais llym (*'Prytherch ... with his sharp eyes'* 29, *'Prytherch ... from your sharp eyes'* 60, *'Marged ... with sharp eyes'* 294) wrth syllu ar law ac ar aderyn (*sharp rain* 61, *sharp as a bird* 40) ag wrth sylwi ar fwyell neu ar y gwynt (*the wind's sharpness* 1, *sharp as an axe* 72) Mae'r ymateb gonest hwn i fod yn llym (*a grief too sharp* 5, *laughter is sharp* 13, *sharp care* 8, *sharp taste* 158, *sharp song* 215) a'r un modd yr ysgogiad llym (*the sharp prompting* 36, *guile that is more sharp* 38, *sharp talk* 51, *wine ... sharp* 290) yn elfen adeileddol yn ei olygwedd gyfan ar adnabod profiad y rhan hon o'r ddaear. Cydnabyddiaeth yw hyn o'r ffaith fod dyn yn ymdeimlo yn yr amgylchfyd Cymreig dirywiol ei fod yn sefyll megis asgwrn (*sharp of bone* 91) mewn gwynt pigog (*sharp draught* 112) ar ymyl bywyd deifiol (*sharp edge* 117). Treiddio a wna. Ar ryw olwg, hyfforddwyd R.S. gan ymwybod byw ei Gymreictod i dreiddio i adnabod gwahaniadau.

I gynhyrchu iaith fel hyn y ganwyd ef yn Brytherch.

Gan mai estyniad yw llenyddiaeth Eingl-Gymreig o lenyddiaeth Saesneg, – estyniad mwy anrhydeddus o lawer nag a gydnebydd Llundain, – y mae'r cyferbyniad i'w gael o'i mewn a geir drwy'r canrifoedd yn llenyddiaeth y Sais. Y cyferbyniad rhwng y gwlyb â'r sych, y serth â'r gwastad, y cyferbyniad rhwng yr awen Ddionysaidd, broffwydol, oruwchnaturiol a 'rhamantaidd', a'r awen goegaidd, orgynnil, oeraidd a 'chlasurol'. Rhwng Dylan Thomas a Vernon Watkins ar y naill law ac R.S. Thomas ar y

llall. Ond yng Nghymru cymer y gwahaniad hwn ffurf arbennig oherwydd canrifoedd seicolegol a llenyddol.

Nid yw'r union gyferbyniad hwn yn golygu llawer i ni'r Cymry Cymraeg gan fod gennym ein cyferbyniadau bach ein hunain sy'n bur ddieithr i'r rhai y tu allan. Tueddem ni i fod yn fwy cymysglyd neu gyfunol yn ôl y safonau Seisnig. Ond yn Lloegr y mae'r cyferbyniad hwn – er iddo ddiodeff llanw a thrai ffasiwn – yn un sydd hefyd yn ymestyn yn ôl drwy'r canrifoedd. Ar ochr y gwlyb gellir enwi Spenser, Blake, Coleridge, Shelley, Hopkins; ac ar yr ochr sych, Jonson, Dryden, Pope, Bridges, Empson. Oddi ar ddyddiau Dylan Thomas a Watkins, ymhlith y Saeson bu'r gwlybion dan dipyn o gwmwl, er bod ambell un digon nodedig os cymharol anhysbys wedi dal am ychydig o leiaf i byncio. Eithriadau cêl oedd y rheini serch hynny, yn dathlu'u gweledigaeth breifat. Pobl yr ymylon oeddent yn ddigon carcus weithiau ynghylch bod yn oremosiynol. Rhai fel George Barker, David Gascoyne, Thomas Blackburn a Norman MacCaig. At ei gilydd, y sychion ac nid y rhain a feddiannai'r orsedd. Ymddangosai'r sychion bob amser fel petaent yn fwy soffistigedig. Ac i Saeson, ymddangos yn soffistigedig oedd yr arholiad cyntaf yn aml.

Mae hyn yn fath o wahaniad Saesneg cymdeithasol.

Myfyrdod sych yw gwaith R.S. Thomas, felly, gan un llenor bywiol ei grebwyll geiriol am yr hyn yw her ysbrydol a materol ei oes ei hun, mewn lle penodol. Cymerer er enghraifft y cysyniad o 'fychander.' Y mae a wnelo â theimlo, ac adnabod yn fanwl, wedd ar yr amgylchfyd y perthynwn bawb iddo. Gwrthwyneb ydyw i dotalitariaeth bellennig ac annynol mawrdra amorffig. Dynol drafodadwy ydyw i R.S.. A'r un pryd yr ym yn ymwybodol â pherygl crebachlyd y plwyfol mewn modd mwy hydeiml na'r sawl sydd ynghudd ym mawrdra traddodiadol y pŵer anadnabyddadwy. Mae'r bychan ei berthynas a'i haelfrydedd anochel a'i gydymdeimlad yn nodweddu llawer iawn yr ym yn ymwneud â hwy'n feunyddiol. Gall ein nodweddu ninnau ar lefel genedlaethol. Felly, rhaid i gydnabyddiaeth o ymarferoldeb a chyfrifoldeb ac anwyldeb y bach gael ei chymryd o fewn cyd-destun sy'n effro i glawstroffobia imperialaidd ac i led y canrifoedd. Goleddfir mawredd y bach gan ei fychandra trafodadwy. I'r mawr, weithiau, dim ond mawrion sydd i'w cael.

Un wedd ar wleidyddiaeth ddiwylliannol ac emosiynol y 'Mudiad', serch hynny, oedd dadbothellu'r ymchwyddgar rhamantaidd, tynnu'r gwynt allan o fawrdra barddonllyd. Gostyngir yr uchelgais ychydig. Daeth gormodedd geiriol yn anathema. Bod yn 'gyffredin' oedd y nod. Ond meddai Elizabeth Jennings mewn un o'i cherddi gorau:

*I kept my answers small and kept them near;
Big questions bruised my mind but still I let
Small questions be a bulwark to my fear.*

Anodd, gellid meddwl, yw ymestyn yn erbyn y posibilrwydd o fewn cyd-destun chwyddedig parhaol y bedwaredd ganrif ar bymtheg o beidio ag ildio i'r anwybodaeth lwyr o'r amrywiaeth cenedlaethol o fewn GREAT Britain. (Y tebyg yw bod cyferbyniad â 'Bretagne' wedi esgor yn gyferbyniol ar GB, megis Great Orme, heb ddim yn fwy uchelgeisiol.) Fe bery y diffyg gostyngeddwrwydd ym mharhad obsesiwn rhyngenedlaetholdeb Prydain i fod yn Lloegr. Ni ddysgir dim ynghylch maintioli er y cyfagosrwydd. Er fy mod eisoes wedi dadlau fod R.S. Thomas yn sefyll yn o bell oddi wrth y Mudiad mewn llawer o bethau, yr oedd y sawr yma a oedd yn yr awel a chyfeiriad y sigl arddulliol ar y pryd yn erbyn y mawreddog a'r cryf a'r pwysig yn arwyddocaol iawn iddo. Eto, roedd ef, fel Jennings yn y gerdd a ddyfynnwyd megis mewn amryw eraill o'i cherddi, wedi gwrthwynebu glynu wrth y cwestiynau bach yn unig, wrth reswm. Ond fel yr oedd i'r Mudiad, yr oedd y bach i R.S., yn fawr ei bwysigrwydd hefyd yr un pryd.

Dyma estyniad fel petai i ansawdd yr elfen fechan a geid o anghenraid yn ei ddiddordeb gwleidyddol. Ond yr oedd yna estyniad crefyddol a chelfyddydol wedyn. Gwelai R.S. ostyngeddwrwydd a'r iselfryd yn hanfod creiddiol i Gristnogaeth. Ac ym manylder diriaethol ei sylwadaeth ar wrthrychau o safbwynt ymateb yr artist, yr oedd gofal am fanion a threiddiolrwydd main wrth drafod y cywreinder o'i ddeutu yn ganolog.

Nid amherthnasol, felly, yw ymholi ynghylch ei Eingl-Gymreictod wrth ystyried barddoniaeth R.S.. Nid amherthnasol yw chwaith i'r un llenor Saesneg o Gymru.

Yr hyn yr wyf yn ceisio'i ddadlau yn awr yw bod y profiad Cymreig o fychander ffrwythlon yn cael ei helaethu felly gan R.S. yn ei olygwedd farddonol drwy adnabyddiaeth greadigol lawnach agos. Ac oherwydd hynny y mae'r myfyrdod cymdeithasol ei hun yn gyfoethocach. Mae mawrygu'r bach yn fwy o lawer na hyfrydwch

cenedlaethol felly. Y mae'n brofiad cyflawn sy'n cwmpasu natur bywyd oll. Daw o'r herwydd yn sgrechair iddo:

Live large, man, and dream small.(114)

Mae'r dyn bychan (*small bones* 113, *that small figure* 150, *She was small* 170, *too small to be called human* 274, *nothing too small* 296) yn meddu ar '*small soul* 212, *small talk* 212, *small smile* 256, *small voice* 289, *small fun* 195' mewn amgylchfyd bychan (*your small garden* 77, *your small fields* 87 cf 290, *small room* 192 cf 222, *small ships* 179, *small holdings* 203, *small window* 202). Mae ansawdd y 'bach' ac 'agos' yn bwnc cyflawn i'w bensynnu llenyddol, ac yn graidd i Eingl-Gymreictod.

Erys y profiad Eingl-Gymreig fel y'i ceir yng ngwaith R.S. Thomas yn bwysig i bawb bwygilydd, ac nid am resymau celfyddydol yn unig. Darlunia ef ddyfnderoedd adfeiliaeth ddiwylliannol gyda gonestrwydd craff ac amlochrog, sy'n bwysig inni am ei fod yn hongian am yddfau pawb, ac nid yng Nghymru'n unig. Mae'n fygythiad fel petai ar ran yr anobaith gwag a ddaw o fethu hyd at y gwaelod. Yn y creadigrwydd cras hwnnw sy'n para'n bosibl yn nannedd yr adfeiliaeth gymdeithasol y ceir ei ffrwythlondeb celfydd. Erys ef gyda'r agwedd farwol ar ddyn, mae'n wir, fel y'i ceir yn fynych yng nghanol y profiad Eingl-Gymreig (o leiaf yn yr agwedd ddifrif ar hwnnw) – sy'n un cam yn nes at ddifodiant moesol na'r profiad Cymraeg arferol. Erys yn hir yn y fan yna. Ond yn amrywiaeth yr aros, sydd mor amyneddgar â'r amgylchfyd naturiol, yn ogystal ag ym muddugoliaeth y gelfyddyd onest ei hun, y ceir yr hyn sy'n gadarnhaol iddo. Mae ef wedi gwrthod dianc i'r profiad Saesneg di-hid ar y naill law nac i'r profiad Eingl-Gymreig allanol (achau, lleoedd, enwau, sefyllfa economaidd, corau, rygbi, mam, israddoldeb) ar y llall. Y gonestrwydd dychmyglon mewdol hwn yw camp ei ddeall a'i integredd a'i gelfyddyd. Ac mor gyfoethog yw. Profiad ysbrydol yw i hunanfeirniadaeth yn y niferus.

Ceir ei gymhlethrwydd amlwg yn ei ddieter cariadus a'i serch milain. Ei gymhlethrwyd anamlwg yw gobaith adeiladol yn nannedd anobaith. Cymraeg iawn yw ef yn hyn o bwyslais ysbrydol dybiwn i – nid nepell oddi wrth Saunders, Gwenallt, Waldo ac Euros. Eingl fydd yr elfen orthrechol yn 'Eingl-Gymreig' mor aml. Sioc R.S. i'w feirniaid yn Lloegr yw'r haenen hon o Gymreictod sy'n her i naifder. Pa beth yw hyn?

Meddai Octavio Paz: 'Ei iaith yw cenedligrwydd llenor.' Ac arbenigrwydd R.S. gredaf i yw cyflwyno profiad barddoniaeth Gymraeg yn Seisnig. Gwybu ef lenyddiaeth Cymru.

Dichon iddo ddatblygu ei gywair nodweddiadol cyntaf ac unigolyddol dan ddylanwad eraill nad oeddent yn gartrefol Seisnig, megis Patrick Kavanagh *The Great Hunger* (1942). Pwysig yn ddiâu oedd perthynas y pridd a dyn, a chydblethiad yr 'elfennau' drwy'r gwladwr. Nodweddiadol o'r amseroedd hefyd oedd y coegi a geid yn hyn, ond coegi mewn tosturi gan osgoi coegi dosbarth-canol clyd arferol y Metropolis. Eithr y rhuddin pwysicaf o'r cychwyn cyntaf oedd yr olwg Gymreig ddofn a hamddenol a feithrinwyd mewn llenyddiaeth Gymraeg, yn arbennig ers y ddeunawfed ganrif ac a barhawyd gan lenorion Cymraeg craffaf y ganrif hon wedyn, o ganfod bywyd oll mewn termau tragwyddol. Yn ei ymwybod o hanes a mytholeg Cymru, yn ei gefndir darllen, yn ei adnabyddiaeth amlweddog o diriogaeth ac o'i grefydd, yn ei ymrwymiad cymdeithasol cyfoes ynddi, ac yn anad dim yn ei fyfyrddod gonest a dwys ddifrif o'r sefyllfa ddirfodol, daw R.S. Thomas at ei brif themâu gyda chyfarpar helaethach na'r rhan fwyaf o Eingl-Gymry eraill. Dealla eu cyfwng oll. Ambell waith wrth bori yng ngwaith rhai llenorion Eingl-Gymreig fe brofir y math o gymhlethrwydd dau-ddiwylliant argyfyngus neu ddifrif a geir gan lenorion Cymraeg. Nid yn anfynych gyda llenorion o Gymru sy'n sgrifennu yn Saesneg, ni cheir namyn y tyndra a'r cymhlethrwydd un-ddiwylliant Saesneg arferol: amwysedd, coegi, gwrth-ddywediad ac yn arbennig hunandadlau. Cymhlethrwydd cyffredin o'r fath a fydd yn fynych yn amlwg yng ngwaith llenorion Cymraeg hwythau wrth gwrs, megis Alun Llywelyn-Williams a T. Glynne Davies, yn wir pawb ohonom. Ond ambell dro, yng ngwaith rhai o'r llenorion Saesneg sy'n ymwybod o'r tu mewn â difrifoldeb aeddfed â llawnder amrywiol bywyd Cymru ac wedi ymrwymo'n weithredol yn yr amrywiaeth hwnnw, fe geir rhywbeth arall. Rhywbeth annisgwyl. Fe'i synhwyraf yn aml gan R.S. Thomas, ac fe'i ceir gan Emyr Humphreys a chan Harri Webb a Gwyneth Lewis, a chan ambell un arall ond yn achlysurol iawn. Cymhlethrwydd goroesi.

Nid wyf yn honni fod y math hwn o gymhlethrwydd yn rhagorach na'r cymhlethrwydd arferol Saesneg (a rhyngwladol) yr ym oll yn gyfarwydd ag ef. Dweud yr wyf ei fod yn wahanol a bod hyn yn cyfateb yn annisgwyl i norm Cymraeg sydd, y mae'n ymddangos, ymhell y tu hwnt i amgyffrediad y rhelyw o lenorion yn Saesneg, ac nad ydynt hyd yn hyn – ond gyda rhai eithriadau – wedi gallu myfyrio amdano o gwbl.

Mae yna ddwy elfen gydgysylltiol yn y cymhlethrwydd hwnnw rwyf am gyfeirio atynt. Yn gyntaf, yr ymwybod o wrthdaro mewnlol ac ysbrydol draddodiadol rhwng dau ddiwylliant, dulliau meddwl un sy'n ymerodrol, yn fyd-eang unochrog, yn fasnachol bwerus, yn ansensitif gibddall i amrywiaeth diwylliannau'r byd (onid yn y dull 'rhyddfrydol' arwynebol), ynghyd â dulliau meddwl diwylliant arall sy'n seicolegol ac yn ysbrydol ddiodefus (beth bynnag a ddywedir am arwyneboldeb materol y cysuron Byd Cyntaf a geir ganddo). Yn ail, y sylweddoliad anesmwyth mai hunanladdiad creadigol yw cydsynied â'r tywyllwch a dardda o'r diwylliant arall, mai celfyddyd seithug a gwag yw pen draw suddo gyda moeth pesimistaidd neu gydweithredu, mai diffrwyth yw bodloni ar ddirfrio neu fynegi negyddol, a bod calon ynni creadigol wyneb yn wyneb â'r math o dranc ciciol sy'n amlwg i'r Cymro Cymraeg yn gorfod ymlynu wrth weithred gadarnhaol. Eto, yr un pryd, mae unrhyw hyder mewn dyfodol llewyrchus yn nwylo dynion yn weddol unllygeidiog. Ac y mae mawl felly o fewn tywyllwch llawn-sylweddoleddig o'r herwydd y dyddiau hyn yn weithred arwyddocaol ryngwladol nid cyfyngedig. Yn wir, afieithus yw yn aml. Y cyfuniad o'r ddwy elfen hyn yw'r cymhlethrwydd y soniaf amdano, y gellir droeon ei adnabod yn groyw yng ngwaith rhai llenorion Saesneg o Gymru, megis R.S. Thomas, ond nad oes gan amryw o'r Eingl-Gymry odid ddim amgyffrediad ohono. Felly, pan welwn ambell Eingl-Gymro yn dadlau nad yw'r trosiad seicolegol am wledydd yn y Trydydd Byd sy'n ymladd am eu rhyddid diwylliannol yn ddilys yn achos Gymru, a phan gyfeiriant at ansawdd materol y Byd Cyntaf yn ein ffordd fasnachol o fyw, yna canfyddwn beth prinder deall. Y mae'r beirdd Cymraeg praffaf cyfoes o Gymru'n llawn sylweddoli'r math o ddiflastod trefedigaethol, iselder, llwydni negyddiaeth a bortreëdir yn fynych gan R.S., a hyn wedi'i gymhlethu, nid wedi'i osgoi, gan y cysuron materol. Nid yw'n anghyffredin i feirdd Cymraeg ar dro byncio gwaeledd y cyflwr hwnnw mewn modd sy'n ddigon tebyg o ran cywair ac ymagwedd. Ond yr hyn sy'n rhoi tyndra arall iddynt mewn modd nad yw'n ymddangos fod beirniaid Eingl-Gymreig bob amser wedi dygymod ag ef yw cymhlethrwydd y cadarnhad yng nghalon y negyddiaeth eithaf. Goroesi cydrannog amdani. Wedi'u dadrithio ynghylch dadrithiad, ceir elfennau o wrthryfela'n erbyn y sefydliad o nihilistiaeth a hynny o fewn cyd-destun penodol. Trosiad teg, am frwydr lawer dwysach na gwleidyddiaeth ac yn wir am frwydr anochel ysbrydol, yw brwydr pob trefedigaeth drwy'r byd wrth adeiladu-cenedl.

Os yw'r Eingl-Gymry yn ein symleiddio ni, rhaid i ninnau beidio â'u symleiddio hwy. Nid ydynt wedi mynd yn Gymbria marc II eto; ac erys ym mhob un ohonynt gymhlethwydd potensial y drefedigaeth. Hyn a rydd obaith iddynt. Mae'n ateb buddugoliaethus i'r hen gwestiwn gogleisiol, 'Pam na allwn oll fod yn Saeson?'

Nid wyf wrth gwrs yn ceisio hawlio unrhyw fath o uwchraddoldeb na rhagoriaeth i'r beirdd a'r llenorion Cymraeg. Dibynna rhagoriaeth ar gynifer o gyneddfau – dychymyg ieithyddol, gweledigaeth foesol, aeddfedrwydd ffurfiol, ac yn y blaen. Y cyfan yr wyf yn ei awgrymu ar hyn o bryd yw bod un math o gymhlethwydd, a geir gan y Cymry llenyddol a chan rai Eingl-Gymry cyrhaeddbell eu golwg, fe ymddengys, sydd y tu hwnt i glem rhai beirniaid Saesneg eu Cymreictod.

Pelican du, bron heb ddim gwyn, yw R.S. Thomas ar ynys anial. Nid oes neb arall o blith yr Eingl-Gymry a fyfyriodd ac a deimlodd ac a adnabu Gymru gystal ag ef. Yr hyn a gysylltir ag R.S. wrth gwrs yw'r olwg dywyll, drom, foel, ddiflas a ffiadd ar fywyd. Fe'i ceir (gydag ambell belydryn gwanllyd ac ymddiheurol) mewn cerdd ar ôl cerdd. Gellid tybied ar yr olwg gyntaf fod rychwant ei gywair yn gul ac yn grebachlyd nes llawenhau wrth sylwi ar newid beth o'i gywair yn ei gerddi am luniau. A rhaid imi gyffesu, ar ôl darllen cerdd ar ôl cerdd a suddai'n ddyfnach i bydew digalondid, deuthum o'r diwedd at y gerdd 'The Island', ac fe fwrstiais. Tybiais mai hunan-ddychan ydoedd. Roeddwn bron yn rholio ar y llawr mewn rhialtwch. Llinell olaf y gerdd a'i gwnaeth hi: bron imi dybied fod y bardd yn gwneud y peth hwn gyda gwên hwyliog braf o dosturiol ar ei wyneb. A dichon yn wir mai digrifwch a fwriadwyd. Bid a fo am hynny, sonia fel y cofir am Dduw yn gorfodi pobl i'w addoli, ac yna'n eu taro â salwch a thlodi. Gweithiant iddo'n ddygn mewn amynedd, a'r hyn a rydd Ef iddynt yw caledrwydd calon a chwerwder llygad. Pan enir plant iddynt fe deflir y goreuon yn ôl i'r môr. Ymdrybaedda'r bardd o fewn creulondeb y Duwdod yn is-is nes cyrraedd y gwaelod yn deg. Ac yna daw o hyd i garreg. Cydia yn y garreg, ei gwasgu. Ac allan ohoni y rholia fesul diferyn coch y gwirionedd moel hwn mewn cerdd ddigrif o ddigrif:

And that was only one island.

Parodi? Cael sbort am ei ben ei hun? Rhialtwch anesgusodol o anweddu, peidiwch â sôn: roeddwn yn hollti. 'Mae ef ar ei ben ei hun,' ebychwn. Ac eto, mae'n

gerdd gampus, yn un o'r carfan o ryw hanner cant a nodais fel ffefrynnau i ddychwelyd atynt dro a thrachefn. Serch hynny, ar yr un darlleniad hwn profodd yn ormod i mi. Hynny yw, roedd R.S. wedi gweithio'r wythïen i'r fath bellter ac wedi chwipio'r march ar hyd yr un llwybr i'r fath raddau, nes bod dyn yn teimlo bod y bardd yn cael ei ddefnyddio gan y thema yn hytrach nag mai ef ei hun a'i rheolai.

Wrth gwrs, ni ddylid camfarnu gwthio cywair o'r fath i'r pen draw. Ni hawliai neb fod llenorion fel Dostoiefsci neu Kafka, dweder, yn undonog neu'n gul eu cywair am eu bod yn treiddio'n ddyfnach o hyd i'r un perwyl. Ac yn sicr, pan fydd dyn yn cael ei atynnu i chwerthin wrth suddo i ambell un o bydewau R.S., mae'n arwydd fod eisiau i'r darllenydd ei roi o'r neilltu am ychydig o oriau a gwrando ar Mozart. Yna, clywir R.S..

Fframwaith rhannol i'r duedd hon yng ngwaith R.S. Thomas yw'r osgo eithaf rheolaidd ymhlith llenorion Eingl-Gymreig i anwesu eithafion. Un duedd drefedigaethol grafog a welir yng ngwaith llawer o lenorion Eingl-Gymreig, o Caradoc Evans ymlaen i Dylan a Gwyn Thomas, yw'r arfer o ymrithio'n grotesg ac o ymgrisialu yn y pegynau. Dyma nodwedd drefedigaethol a astudiwyd ac a olrheiniwyd yn hanesyddol gan D. Tecwyn Lloyd yn ei efrydiau ar dwf yr Eingl-Gymry a'u cysylltiad â llyfrau taith rhamantaidd Saesneg cynnar. Dyma fyd y gwyrdröedig a'r hanner-pan ac yn anad dim yr abnormal. Nid amheuaf nad oes perthynas seicolegol o fath rhwng hyn a'r portread o Iago Prytherch gan R.S. Thomas, ac ar ryw olwg ceir math o gyswllt tanddaearol rhyngddo hyd yn oed a'i bortread o Dduw.

Fel y gwelodd Gwyn Thomas (y Barri), pur anodd yw cynnal parch celfydd yn hir iawn ym myd y grotesg pur. Ac i ambell ddarllenydd mwy anghyfrifol na'i gilydd, a rhaid imi fy nghyfrif fy hun yn blwmp yn eu mysg, er gwaethaf yr ymdrech i ymddifrifoli'n briodol gywir, bydd y mwgwd difrif yn llithro weithiau wrth ddarllen R.S.. Yn lle dwysáu brawychus fel y dylid, fe all darllenydd gael ei ddenu i gilchwerthin neu'n waeth i rollo chwerthin, yn gwbl anwedus, a chyn gynted ag yr hyllt yr anghyfrifoldeb hwn ei lifddorau, dyna ddifetha darllen yn llwyr dros dro mae arnaf ofn.

At ei gilydd y mae R.S. Thomas yn pellhau oddi wrth yr ystrydeb o Eingl-Gymreictod am ei fod yn Gymreiciach na'r llenor Eingl-Gymreig arferol. Mae'n gyfarwydd ag amlochredd Cymru yn ddaearol ac yn hanesyddol, yn ieithyddol ac yn

emosiynol. Mae bywyd ysbrydol a materol Cymru gyfan yn hysbys yn ei wythiennau. Ymgysylltodd â'i llenyddiaeth hefyd. Ymrestrodd yn yr ymgyrch i roi anrhydedd yn ôl i'r genedl. Ni wn a oes unrhyw fardd wedi casáu ei gyfrwng fel y'i casaodd R.S., hynny yw ei gasáu'n wleidyddol, ar egwyddor, bodolaeth y peth, ei feddiant ohono, ac wedi profi edifeirwch oherwydd fod yn rhaid iddo'i ddefnyddio, yn wir wedi gwneud yr iaith ei hun o ran ei gormes arno yn rhan o'i negyddiaeth enwog. Megis Swift, y clericwr arall ymhlith y Celtiaid a'r unig un i'w gymharu ag ef yn ei ddirmyg-gariad at y bobl, profodd ddyfnder o gywilydd y wlad mewn modd sy'n llawnach na'r adwaith arwynebol a geir gan ambell Eingl-Gymro beirniadus. Ond yr oedd Cymreictod fel cyflwr nid yn unig yn bwysicach na'r 'Eingl' yn y cyfuniad: dyna'r peth allweddol o bwys cymdeithasol iddo.

Ac eto, y mae R.S. yn Seisnicach na'r Eingl-Gymro arferol. Mae ei Saesneg yn Seisnicach. Mae'r 'stiff-upper-lip' yn amlycach na'r hwyl Gymreig iddo. Mae sychder pell yn gweddu'n fwy naturiol iddo na hobnolian cymdoglyd. O blith y rhai sy'n nabod eu Cymru, o'r braidd fod yna neb sy'n nabod yn greadigol berfedd llenyddiaeth Saesneg a llenyddiaeth Americanaidd yn well nag ef.

Ni allaf lai na meddwl, er iddo lwyddo i gyd-deimlo ac i ymuniaethu â thrychineb a dyheadau'i genedl ar raddfa lydan, yn fwy ar rai agweddau na neb arall yn Saesneg erioed, eto nid oedd wedi gallu clustfeinio gystal ar gymdeithas *ardal* megis y gwnâi rhai llenorion Saesneg-Gymreig diwydiannol, ddim cystal ag a wnâi hyd yn oed y storiwr Eingl-Gymreig Gwyn Thomas a fethodd mor alaethus mewn cyfeiriadau eraill. Y mae hynny hefyd yn rhan bwysig o wlad-ddealltwriaeth gyflawn. Yr hyn yr ymaflodd Gwyn Thomas yn ddeheuig ynddo, ynghanol diflastod a thywyllwch honedig blwyfol yr ardaloedd diwydiannol, oedd sbonc a chyfoeth diwylliant llafar y bobl gyffredin leol wrban, golud eu ffraethineb cadarnhaol, iechyd eu gwrthryfel, bywiogrwydd eu perthynas â'i gilydd, yr afiaith a oedd yn treiddio drwy'u lleolgarwch ar stepen drws, hwyl eu piwritaniaeth ddofn, eu hadnabyddiaeth o'u bröydd, a'u trasiedi faterol ac addysgol, yn un cwlwm amlochrog o dafarnau a chapeli, caeau-chwarae a phyllau, ysgolion a golygfeydd naturiol ac annaturiol, a'r cwbl wedi'i drwytho mewn cymdeithas ferw hardd a hyll. Ni lwyddodd R.S. Thomas erioed i ymglywed â'r bywyd hwn nac â dim tebyg yn yr ardaloedd gwledig. Ac o'r herwydd y mae ei genedlaetholdeb – er iddo ddewis yr ochr 'iawn' ac adeiladol fel petai – mor unochrog unig bob dim â gwladgarwch llai deallus a

llai treiddgar (mewn rhai ffyrdd) Gwyn Thomas, a gyflyrwyd gan ei fagwraeth drefedigaethol yn fwy goddefol i ddewis yr ochr 'anghywir', y wedd symlaidd ddychanus, o weld Cymru'n brwydro'n erbyn y Rhondda.

Pan geir beirniad Eingl-Gymreig aeddfed a chatholig, ei gymhwyster cyntaf fydd – fel gydag Emyr Humphreys a Wynn Thomas a Tony Conran – ei fod yn gyfarwydd â dyfnder Cymreictod: Daniel Owen a Guto'r Glyn, Dafydd Nanmor ac Ellis Wynne. Fe edwyn y cyfan-gorff a'r cyd-destun bras i gyd. Dyna'r hyn sy'n arwain at ddealltwriaeth. Nid hawdd. Nid yw perthynas llenorion Cymraeg a llenorion Eingl-Gymreig bob amser wedi bod yn hapus, rhaid cyfaddef; weithiau oherwydd camddealltwriaeth. Ond rhan o'r angen i gyd-ddeall yw treiddio'n ddyfnach i lawr i'w mwynfa gyflawn, anwleidyddol.

Tuedda'r Eingl-Gymry i fod, ym mryd rhai o'r Cymry, yn simplistig braidd yn eu hadnabyddiaeth o'r sefyllfa ysbrydol a diwylliannol. Ond diffyg difrifoldeb yw hyn gan mwyaf, yn hytrach na diffyg gallu. Wystrys yn cau. Y deallusyn meddylgar yn cilio i'w gragen. Y mae llenorion Cymraeg, oherwydd eu magwraeth anochel, wedi gorfod bod eisoes yn ymwybodol iawn o'r math o gefndir amlochrog, meddylfryd a chymhlethrwydd sy'n eiddo i'r Eingl-Gymry. Ond fe drafferthir y Cymry Cymraeg hefyd yn ddiwylliannol nid yn unig gan draddodiad gwahanol, eithr hefyd gan ymrwymiad presennol go ddieithr. Dibynna'r mwyafrif (ar hyn o bryd) o'r Eingl-Gymry, am hynny o gymhlethrwydd sydd yn eu gwaith, ar yr un math o elfennau sy'n rhoi i'r Saeson 'pur' hwythau eu cymhlethrwydd. Dyna'u prif fagwraeth. Trueni hyn, gan mai anodd canfod fod barddoniaeth Lloegr y dyddiau hyn yn mynd drwy un o'i chyfnodau mwyaf llewyrchus.

Oherwydd y methiant i ganfod y trwch celfyddydol yng ngwaith y Cymry Cymraeg, ceisir trwch a thyndra mewn cyfuniad o'r ymwybod a geir gan leolrwyd tlawd ar y naill law ynghyd â'r ymrwymiad dychrynlyd o unplyg ar y llaw arall mewn traddodiad a sefyllfa gyfoes heriol. Anodd yw i'r Eingl-Gymry oresgyn amser a'r ymateb uniongyrchol syml a mud i waith y Cymry. Nid ydynt yn gallu ymdeimlo ag ystyr yr argyfwng sy'n gallu esgor ar adnabyddiaeth absoliwt. Rwy'n credu fod yr Eingl-Gymry wrth ymwneud â'r Cymry Cymraeg yn cael eu twyllo yn lân gan argraff o draddodiad mawl arwynebol heb lwyddo i ganfod dwyster a thrwch mwy cyffredinol gyda'r un math o graffter ag a grisialwyd gan Saunders Lewis er enghraifft. Mae Dafydd Nanmor yn eu

baglu'n llwyr. Y temtasiwn yn wyneb y diymadferthedd hwn yw ei gymryd fel rhyw fath o ramantiaeth orseml. Adwaith y Cymry iddynt wedyn yw cymryd eu bod yn gwbl ddiagramgyffred, a'u hamharchu o'r herwydd. Ble y dechrewn ni? Arhoser: wele, nawddogolrwydd ar y trywydd.

Diau nad yw'r math o berthynas hwn ddim yn cyfan-gwbl wneud y tro. Ac nid hwnnw yw'r gwir i gyd. Y mae'n hollol amlwg fod yna rai llenorion pwysig o blith y rhai sy'n ysgrifennu yn Saesneg sy'n gallu ymrwymo yn y Gymru lawn, megis R.S. Thomas ac Emyr Humphreys. Yn yr hyn sy'n eu gwneud yn Gymry y mae yna elfennau undod yn ogystal ag elfennau amrywiaeth. Edwyn y llenorion hyn y rheini'n burion. Wrth wneud hynny y maent yn gallu dysgu llawer i'r Cymry Cymraeg, a mynegi llawer ar ein rhan. Cânt fod yn un â chymhlethrwydd anturus gwahanol a difrif y parhad drwy'r oesoedd sydd yn yr awyr a anadlant. Sôn yr wyf yn bennaf yn awr am ymrwymiad dealltwriaeth, a chymhlethrwydd llinynnau cefndir, ac nid am wybodaeth grai yn unig. Ceir rhai llenorion heblaw R.S. Thomas ac Emyr Humphreys (ynghyd ag ambell un cyffelyb) bid siŵr sy'n aruchel wybodus am iaith a llenyddiaeth ein pobl. Ond y mae'r rhelyw fel arfer wedi methu â mynd ymhellach yn eu gwaith creadigol nag ambell allanolyn neu briodoledd arwynebol (e.e. atgyfodi ambell fyth o'r oesoedd canol, taflu ambell air Cymraeg i mewn, ac yn y blaen): chwarae bod yn Gymry. Ni ddaeth Cymreictod yn ffordd o fyw peryglus na naturiol iddynt. Dichon mai R.S. Thomas yn anad neb a arloesodd, wrth arddangos yn ei ddull unigryw ei hun, beryglon Eingl-Gymreictod byw. A'r rheini a rydd – nid llenyddiaethau Cymru, – ond llenyddiaeth Cymru. Nid cywiro hen derm anfodddhaol oedd troi'r 'Eingl-Gymro' yn 'Llenor Saesneg yng Nghymru', ond newid oherwydd digwyddiad hanesyddol (dros dro gobeithio). Eto'n ddiau, heb beryglon o'r fath ni cheir ein llenyddiaeth genedlaethol.

Yr hyn oedd Ymerodraeth a Militariaeth i Loegr, ac i lenorion Lloegr, hynny oedd Gwaseidd-dra ac Israddoldeb seicolegol i Gymru, ac i lenorion Saesneg Cymru (*vis à vis* llenorion Cymraeg). Ni wn pa un sy waethaf. Imperialaeth Gymreig, o bosib. Yn sicr, nid cais yw i ddifrio unrhyw lenyddiaeth. Nid oes a fynno'r math hwn o sylw moesol ag ansawdd llenyddol o raid. Disgrifiad o gyd-destun yw, ac o'r lliw sydd yn anochel yn treiddio drwy *psyche* llenyddiaeth, lliw a all befrio o'i adnabod yn iawn. Ond y mae hynny hefyd yn sylw beirniadol yn ôl yr effaith.

R. S. THOMAS A'R GWACTER LLAWN

Tawelwch tybiedig Duw yw'r broblem. O leiaf dyna'r broblem gyntaf.

Yng ngwaith R.S. Thomas fe roddir cryn amlygrwydd i'r broblem honno, a'i chanlyniadau mewn cerddi sy'n rhedeg yn thematig i dywod gwacter.

*There was one being
would not reply. God... (One Way, 365)
Thought comes to drink at that dark
pool, but goes away thirsty. (Senior, 387)*

Ped arhosai'r bardd gyda hynny yn gyson, fe fyddem yn deall yn burion ymhle y mae'n sefyll. Yr ym yn gyfarwydd â'r rhagdybiaeth hon... Pwy na chlywodd dawelwch Duw? Mae'r Duw, sy'n anghlywadwy i'r dyn naturiol a hunan-ganolog, yn anghlywadwy hefyd i bawb rywbyrd meddan nhw. Efallai mai tawelwch yw ei hanfod. Negyddiaeth i feidroldeb yw ef ar y cychwyn i lawer. Yr ym yn gartrefol gyda chynseiliau materol felly. Gallwn hyd yn oed ddod o hyd i ddull o feddwl sy'n Fwdistaidd amhersonol am Dduw yn y termau yna. Y cwestiwn heriol sy'n codi gydag R.S. yw a fu'n *rhy* rwydd.

I mi, nid cerddi sy'n datgan y distawrwydd cyflawn hwnnw yn unig, (er bod y rheini'n gryf ac ar gael yn fynych), nid dyna sy'n cynrychioli'r cymhlethdod a'r symlder ysbrydol orau yng ngwaith R.S.. Penbleth seithug yr athronydd positifaid yw hynny, i raddau, efallai. Mae'n cydio yng ngwelltyn yr absenoldeb ar ôl ei gau'i hun o fewn ffiniau'r naturiol amlwg. Ond y cerddi mwyaf anesmwyth i R.S. yw'r rhai sy'n drysu tipyn ar y gwastadrwydd taclus hwn. Dyma hefyd wrth gwrs sy'n fwyaf 'dynol', yn groes i'r anifeilaidd. Y gwrth-ddywediadau rhyfedd i'r absenoldeb, y sylwadau chwithig ar yr ymylon, y Duw cudd sy'n ei ddatguddio'i hun yn sydyn ar dro er Ei fod fel petai yn sgrialu o'r golwg cyn gynted ag y gall wedyn.

Dechreua R.S. gydag anghredu cymedrol mwy cyfarwydd sut bynnag. A gwacter.

Yr annifyrrwch ynglŷn â'r Duw nas adweinid oedd ei fod braidd yn rhy rwydd cydio ynddo. Yr oes a oedd eisiau 'credu'n seciwlar' a'i gwnaeth. A gallai R.S. ar dro boeni o ddifrif ynghylch y broblem au o redeg i rigol y fath oes. Tueddai agnosticiaid i 'brotestio' weithiau oherwydd bod dod o hyd i Dduw go iawn yn ei waith ac yn eu hymchwil hwy'n bersonol mor amlwg amhosib iddynt. Ond y syndod mewn ambell gerdd gan R.S. yw'i fodd o ddianc rhag y Duw gwag. Bu sôn am ei Dduw tawel; ond dyn ei hun

sy'n teui mwyach i R.S... Nid yn aml y digwydd hyn efallai. Ond yn syfrdan – mae yn digwydd, ac y mae yna gorff sylweddol pendant o dystiolaeth gyfoethog i'r ffenomen. Eto'r pryd hynny, fe all lithro allan o'r bardd ar ffurf mawl anarferol. Er bod sôn lawer am y *Deus absconditus* yn ei waith, y mae Duw yn llawer mwy na hynny yng ngwaith bardd o faintioli R.S. Thomas, tan ganslo perygl i rai seciwlarydd eu gweld eu hun ynddo.

Dyw cydnabod y cerddi mawl cadarnhaol ddim yn dadlau unrhyw ragoriaeth gelfyddydol iddynt. Y cwbl y mae'n ei awgrymu yw bod yna destun myfyriol arall, sef gras. Mae'r testun hwnnw'n rhan eglur a chyson allweddol yn y ddelwedd gyfan. Er bod datguddiad o'r fath y tu hwnt i gyrhaeddiad dynol naturiol, gellir ei sylweddoli efallai drwy ymryddhau rhag rhagdybiau rhigolog. Hyn sy'n dryllio'r clawstroffobia i R.S..

Gwir yw mai dim ond pethau corfforol sy'n wireddadwy'n gorfforol. Ond y mae pethau ysbrydol yn wireddadwy i'r ysbryd dihunedig. A phan fo'r ddau'n weithredol, gorff ac ysbryd, mae yna berthynas gadarnhaol gryndodus rhyngddynt.

Carwn yn y bennod hon felly sylwi ar ddwy wedd ar y gwacter ym marddoniaeth R.S. Thomas. Yn gyntaf ac yn gryno iawn ar yr hyn sy'n amlwg ac yn ymddangosiadol arferol: sef y negyddol, yr ymbalfalu seithug yn y dystiolaeth anuniongyrchol am Dduw, y cwestiynau diateb, y diystyr, y dybiaeth fod yr hyn a wna Duw yn gyfwerth â'n dealltwriaeth ni ohono, y gwacter a'r absenoldeb arwynebol bositifaid, y Negyddiaeth sydd yno i'w hadnabod. Ond yn ail, y darnau anhydrin cadarnhaol, y drylliau anghydfurfus, y dystiolaeth uniongyrchol o Dduw a gafwyd yn Ail Berson y Drindod, y cyswllt rhwng yr anweledig a'r gweledig, yr atebion digwestiwn, yr ystyrllon, y wybodaeth nas caem dan ein stêm ein hun, y Presenoldeb rhoddedig. Dyma'r gwrthodedigion ymddangosiadol. Ond y maent yno i fardd sydd hefyd yn agored i'r gwrthrychau a'r gweithredoedd mewn modd nad ydynt i athronydd arferol ddim ... Ac yna'r gymysgfa o'r ddwy ochr, a honno wedi'i charthu rhag pob sentimentaliaeth ... Ond down yn ôl at honno ymhellach ymlaen. Nid seciwlarydd mohono.

Yn gyntaf, y Duw di-lais, absennol, disylwedd, dibopeth:

*ask for love
For compassion, for hatred even: for anything
Rather than this blank indifference,
Than the neutrality of its answers, if they can be called, answers [sic]
These grey skies, these wet fields,
With the wind's winding-sheet upon them. (206)*

Dyma, gallech feddwl, ben draw 'gonest' rhyddfrydiaeth dechrau'r ganrif, wedi'i diweddarau i'n hoes ni. Mae'n gysylltiedig â'r ymagwedd adnabyddus yn sgil Bultmann i ddynodi'r Ymgawdoliad a'r Atgyfodiad fel mythau neu drosiadau'n unig. Myth sydd heb hanes. Yn y cyd-destun hwnnw gellir ei hystyried yn adlewyrchiad trosiadol o duedd gynyddol R.S. i ymgysylltu fwyfwy â chelfyddyd ac â diwinyddiaeth nag â gwrthrychau a digwyddiadau, ac â'i 'ddelwedd' o ddynion yn hytrach nag â chynhwysedd eneidol dynion eu hunain. Golygaf nad oedd Iago Prytherch yn unigolyn, heb ddod yn fod llawn nes iddo ddod yn fyth neu gael ei ddelfrydu. Trosiad hefyd oedd Cymru. Ac o olwg felly, unig hanfod Cristnogaeth oedd y dychymyg. Toddid yn feddyliol felly y 'cynnwys' oll.

Nid Duw y Beibl yw'r hyn a geir mewn cerddi fel 'Soliloquy' (230) wrth gwrs. Duw dyn-ganolog sy'n gwneud camgymeriadau yw hwn. Anghyfleus fyddai Duw datguddiedig ar achlysuron o'r fath. Rheitiach defnyddio'r teitl ar y gerdd honno am deimladau'r bardd ei hun.

Y gair disylwedd sy'n cynrychioli hyn orau fe ddichon yw *H'm*. Nid oes ynddo ddeunydd gosodiadol na syniadol. Ebychair ydyw. Sŵn anifeilaidd. Ac mae'n annelwig amwys. Wrth osgoi esboniad yr Iawn ar y Groes (y Gwaed aberthol ynghyd â'r Atgyfodiad anochel) ac unrhyw athrawiaethau penodol glasurol ac annifyr, yr hyn a roddir yn eu lle yw esboniad y diffyg esboniad ac amhenodolrwydd penodol. Ond na feddylier serch hynny fod modd dianc rhag rhyw fath o ddehongliad a rhagdybiaeth:

*So there was nothing?
Nothing. An echo?
Who spoke? There was emptiness
and a face staring, seeking
a likeness. There was thought
probing an absence. God ... (271)*

Cafodd dyneiddiaeth ddau gyfnod bras oddi ar 1860, a dyneiddiaeth Gristnogol yr un modd yn ei sgil. Yn gyntaf (ac yn fras eto), dyneiddiaeth optimistaidd obeithlon, gynyddgar hyderus. Ond yn ail ac yn fras drachefn ac yn llawer mwy realistig, ceid dyneiddiaeth ddiobaith, ddadrithiedig, flinedig. Canfuwyd twyll Fictoriaeth orhyderus, sef Comte a Hegel, Darwin a Marx. Absen Duw neu wacter ystyr felly a ddaeth yn bresenoldeb cynyddol i artistiaid. Hunan-gysur ymhongar oedd unrhyw beth gwir a pharhaol gadarnhaol. Daeth dirfodaeth Kierkegaard a Heidegger i roi rhuddin diwylliant

arswydus i'r profiad a oedd ar ganol hyn. Condemniwyd dyn i syrffedu hyd at farwolaeth, wedi'i ddal yn ei unigrwydd. Mae dad-dduwioli'n arwain at ddad-ddyneiddio.

Yr hyn a oedd ar goll mae'n amlwg oedd llawenydd i'r bersonoliaeth gyflawn. Gallai gael bodlonrwydd i'r dychymyg, heb fodlonrwydd i'r deall. Ceid bodlonrwydd i'r synnwyr o realaeth heb fodlonrwydd i'r serchiadau. Teimlad felly heb wybod. Trowyd yn oddrychol ond heb y gwrthrychol. Hynny yw, ni cheid yr union beth a nodweddaï Gristnogaeth glasurol, hanesyddol, ddiffiniol, Cristnogaeth Nicea, Athanasiws a Chredo'r Apostolion, sef yr holl bersonoliaeth yn gorff ac enaid. Fe'u drylliwyd; ac ni cheid o ganlyniad y llawenydd dwys a llawn Cristnogol i'r meddwl nac i'r profiad. Un o drafferthion dibynnu ar ragdybiau goddrychol oedd y sylweddoliad deallol didwyll o fethiant, a hynny drwy sylwi ar yr angen ond heb ollyngdod.

Diau fod rhywbeth o'r fath yn canlyn allan o bob unochredd. Mae'r dyn sy'n ymrithio ger ein bron yn Iago Prytherch yn cyflwyno delwedd ddynol bwysig. Ond ni ellir llai nag addef mai at ymwybod ysigol o fywyd y mae'n cyfrannu oherwydd anghyflawnder dynol. Amlweddog yw natur anghyflawnder o'r fath, serch hynny. Carwn wneud un awgrym ynglŷn â hyn. Wrth drafod cerdd R.S. Thomas 'The Peasant' rhoddodd Tony Curtis (*How to Study Modern Poetry*) gryn sylw i'r enw 'estron' Iago. Yr Iago arwyddocaol iddo ef oedd yr un yn *Othello*; ac ni charwn wrthddweud hynny. Ond wrth gwrs, enw adnabyddus iawn yng Nghymru, ac yn arbennig yn y cyd-destun crefyddol, oedd Iago. Ni charwn wadu nad oedd y bardd hefyd ar y naill law yn ymwybodol o'r cymeriad Shakespearaid, a gwiw yw ystyried hynny'n briodol. Ond ni thybiaf y byddai Cymro ac offeiriad yn anwybyddu'r cyfeiriad cyntaf amlwg a ddaw i'r meddwl. A'r hyn a nodweddaï'r apostol Iago oedd ei bwyslais iach ar weithredu, tra rhoddai Paul yntau bwyslais yr un mor iach ar ffydd. Bid siŵr nid pawb a ymhoffai yn hyn. Ym mryd Luther yr oedd dyn fel Iago, a ganolai'n 'ormodol' (meddid) ar wneud pethau 'yn unig' fel pe bai yn ei gyfiawnhau'i hun drwy waith, yn debyg o gynhyrchu 'epistol gwellt' (term Luther). A gellid damcaniaethu fod Iago Prytherch yntau, y gweithredwr anysbyrdol, yn fath o gysgod o'r agwedd honno, myth ffermwr y gwellt. Myth sydd fel petai'n 'gwneud'.

'Gwneud' fel cyflwr. Golwg ydyw ar fydolrwydd yn crafu'r maes – y gwerinwr a geid gan Wordsworth a'i ysbryd wedi'i flingo. Gwerinwr y ddeunawfed ganrif, pryd yr oedd natur yn rholio o'i gwmpas ac yn rhwbio ar ei ddillad ychydig o'r gwelediad oedd yn

yr awyr, ond bellach wedi cyrraedd Marks and Spencer. Yr anifail yn pori'r tir. Rhwng Wordsworth ac R.S. fe geir pont. Mae yna garfan o gerddi am werinwyr o'r fath gan feirdd fel W.J. Gruffydd a T.Gwynn Jones sy'n dyst i duedd awgrymus. Trafodir y ffenomen gan Alun Llywelyn-Williams yn ei bennod 'Hen Werin y Graith' yn ei gyfrol *Y Nos, y Niwl a'r Ynys*. Un o gyndadau priodol R.S. Thomas yn hyn o beth oedd Edwin Markam (1852-1940), yr Americanwr a luniodd y gerdd boblogaidd 'The Man with the Hoe' (a gyfieithwyd i'r Gymraeg gyda llaw gan T.E. Nicholas – 'Y Dyn a'r Gaib'). Mae yna ddsbarth cyfan o gerddi drwy Ewrob yn dyfnhau'r olwg arbennig hon gan feirdd megis Verhaeren a'r bardd Sbaeneg Jorge Carrera Andrade. (Gellid cymharu cerdd R.S. 'Meet the Family' â cherdd y Sbaenwr 'Siôn heb Nef' a gyfieithwyd i'r Saesneg yn fedrus iawn gan Jan Struther). Pan suddir mewn tristwch wrth fyfyrion am dynged foel dyn yn yr amgylchfyd hwn, yr hyn a wneir yw canoli ar ei ddiffygion. Gall mai diffyg mewn ymateb deallol cyflawn yw'r achos. Gall mai gwendid o flaen grym yr elfennau ydyw. Ond yng ngwaith R.S., yn arbennig yn wyneb ambell sylw beirniadol sy'n awgrymu mai bardd lleol 'yn unig' ydyw, pwysig cydnabod cyffredinolrwydd mythaidd y darlun.

Yn y gerdd 'The Others' er enghraifft, ni allaf lai nag ymwybod ag ehangder y profiad a gyflëir. Dechreu'r gerdd yng Nghymru, bid siŵr:

*I find
This hate for my own kind
For men of the Welsh race.*

Ond buan y sylweddolir, er mai Cymru yw'r ddiriaeth neu'r allwedd neu'r traed ar y ddaear, na ellir llai na chamu drwyddi i sefyllfa fyd-eang, sefyllfa ddsbarth hyd yn oed. Ac y mae hyn hefyd yr un mor wir am y profiadau lleol ysbrydol.

Felly, wrth symud at yr ail brif ystyriaeth yn ymagweddu crefyddol R.S. Thomas, wrth droi oddi wrth y tywyll i'r golau, credaf mai priodol yw cofio fod yr ymwybod crefyddol yn perthyn hefyd i'r gwelediad cadarnhaol a geir ar y bobl ac ar y tir hwythau. Ar ôl sylwi ar farbareiddiwch y trigolion yn 'A Priest to his People', meddai:

*But I know, as I listen, that your speech has in it
The source of all poetry, clear as a rill:*

Dichon nad oes ond ychydig sy'n amgyffred achos i'r bywydusrwydd hwn; ond dyw methu â deall ddim yn rhywbeth i beidio â'i gydnabod nac i'w gymryd yn awtomatig drwy ragdybiaeth negyddol:

*the smile,
Vague as moonlight, cast upon your face
From some dim source, whose nature I mistook. (38)*

Dichon fod dychweliad y borfa'n symbol o hyn, ond bywioga'r myth:

The new grass shall purge you in its flame. (59)

Wrth ymlwybro ar hyd llwybrau isel R.S. ni ddylid esgeuluso'r llecynnau golau gwych. Darpara ffilm mewn du a gwyn yma, gyda llwyd yn fynych, er nad oes fawr o goch, melyn na glas. Ond y mae'r cyflead oll drwy'r cwbl yn 'lliwgar' fel y dywedwn.

Gallwn ddychmygu coegwr cyfarwydd yn tybied mai tipyn o ramantu efallai yw'r gynffon olau hon. Gellid tybied fod unrhyw awgrym o'r cadarnhaol yn gorfod bod o ran natur yn ddihangfa ddiymdrech a dallbleidiol. Ond beirniadaeth slic fyddai hynny.

Eto, ymarferiad da i ni fyddai darllen prydyddiaeth R.S. Thomas gan chwilio am y 'goleuni'. Mae'r chwilio arbennig yna yn canlyn y chwilota y mae ef ei hun yn ei wneud. Dilynwn felly yr un trywydd ag y mae ef arno. Ymarferiad digon teg fyddai hyn hefyd. Ni ellir llai na theimlo mai ymbalfalu am beth felly y mae drwy lawer dryswch, heibio i lawer pwll a thwll a thywyllwch gonest, gan gydnabod methiant llwyr yn fynych odiaeth, ond gan gydio ambell dro – megis drwy ddamwain – mewn tusw o obaith hollol annisgwyl a ffug efallai ynghanol y tywyllwch amlwg, a heb ei esbonio. Bywioga.

*'The Cry'
Don't think it was all hate
That grew there; love grew there too,
Climbing by small tendrils where
The warmth fell from the eyes' blue
Flame. Don't think even the dirt
And the brute ugliness reigned
Unchallenged. Among the fields
Sometimes the spirit, enchained
So long by the gross flesh, raised
Suddenly there its wild note of praise.*

Fel hyn y gorffennir y gerdd 'Arrival':

*catching this
one truth by surprise
that there is everything to look forward to.*

Beth yw ffynhonnell y goleuo anystywallt achlysurol a diriaethol hwn?

Mae yna wahaniaeth pendant ac eglur rhwng yr hyn a geir gan R.S. Thomas a'r ysbrydoledd rhwydd a geir gan au 'gyfrinwyr' rhyddfrydol. Cysylltwn â'r olaf wrth gwrs

deneurwydd athrawiaeth oherwydd pwyso ar 'brofiad', absenoldeb cynnwys, yr amhenodol diddatguddiad, 'ymdeimlad' cyfleus, annelwigrwydd y di-air, diffyg perfedd hanesyddol a ffeithiol. Dichon fod R.S. yn rhannu peth o'r osgo yna. Ond man cychwyn hanfodol R.S. Thomas yw'r ymwybod dybryd a meddiannol o bechod, yn ddwfn ac yn drylwyr ddifri ym mhob man wedi treiddio drwy'r greadigaeth. Mae'n cynnwys hefyd ganol pob pechadurusrwydd sef anghrediniaeth, ac yng ngŵydd hynny ymostyngiad tlawd isel. Yna, ar dro, yn sydyn, heb rwyddineb, ond yn rhoddedig annisgwyl megis drwy ras, mae'r goleuni iach hwn, fel arfer drwy weddi, y daioni eithafol nas deallir, yn anweledig lachar yn torri'n ddiymwrthod ar ei draws. Peth prin, gwerthfawr ac annisgwyl. Tragwyddoldeb yn ddiau yw hyn, tragwyddoldeb ethol sy'n gwahanu 'here in this small room':

*and outside
Us is time and the victims
Of time.*

Drwy'r negyddol y daw'r sylweddoliad hwn. Mae'r negyddol yng ngwaith R.S. Thomas yn fwy o lawer nag absenoldeb confensiynol a rhwydd yr anghredadun cyfarwydd. Yn ei gyswllt â'r ochr dywyll ar fywyd, a'i drybini a'i galedi, y ceir yr olwg negyddol ar Dduw cadarnhaol. Ond wrth gwrs, yn y fan yna, bydd Duw yn fynych ar ei gliriaf. Yn wir yn nioddefaint y rhai sy'n ei daer geisio drwy chwys y mae fel pe bai'n hoffi ymgartrefu. Pan fyddir ar y gwaelod yn deg, dyna'r pryd y mae Ef yn cyrraedd beirdd megis Herbert a Vaughan. Ni chyffyrdda Ef â neb na wŷr blygu. Dyma'r pryd y daw'r cudd yn ddatgudd, a'r myth yn hanes, gyda thinc ffenomenolegol o D.H. Lawrence:

*He kneeled long,
And saw love in a dark crown
Of thorns blazing, and a winter tree
Golden with fruit of a man's body. (67)*

I R.S. Thomas dyma'r Croeshoeliad ffrwythlon. Mae yna Dduw sy'n ymateb iddo:

*So it must have been on Calvary ...
Making such music as lives still.
And no one daring to interrupt
Because it was himself that he played
And closer than all of them the God listened.(104)*

Dethlir y Mab hwn drachefn yn 'Nuclear' (317). Gellid tybied mai twrian fyddai'n rhaid inni ymhlith y darnau gwyll er mwyn dod o hyd i oleuadau o'r fath. Ond nid felly.

Yn arbennig o *Laboratories of the Spirit* 1975 ymlaen, ac yn arbennig gyda'r gerdd 'Emerging', mynegir gobaith syfrdanol achlysurol-gyson, a hynny weithiau gyda sicrwydd chwithig:

*it leads not back to that snake-haunted
garden, but onward to the tall city
of glass that is the laboratory of the spirit. (263)*

Ond hyd yn oed cyn hynny fe ganai:

*It's a long way off, but inside it...
There takes no time and admission
Is free. (233, 'The Kingdom')
(cf. 335 'The Small Country' a 340 'Abercuawg')*

Yn 'Llananno' (304) dywed y bardd wrthym fod yna bresenoldeb araul sy'n ein disgwyl bob amser. Dyma ddychryn deffro.

Un waith erioed y clywais i R.S. Thomas yn pregethu, a hynny'n briodol iawn mewn lle o'r enw Pantycelyn. Ni ddaeth ger ein bron yno i gynnig yr Absenoldeb disgwylidig. Ni bu chwaith yn cyhoeddi Gwacter ar ei fwyaf hwylus. A ninnau'n crefu am fywyd yn helaethach, disgwylidig iddo gynnig o leiaf damaid bach o dywyllwch. Ond nid felly. Ar y pryd rown i'n tybied mai dyna'r bregeth bantheistig gyntaf a glywswn erioed (os nad oedd ychydig yn animistig). Erbyn hyn mae fy marn beth yn wahanol. Sagrafennol ydoedd yn ôl pob tebyg. Mae yna wahaniaeth pendant rhwng credu mai popeth yw Duw (ac mai Duw yw popeth) ac mai cynrychiolydd Duw neu sianel iddo'i fynegi a'i gorffori'i hun yw Ei greadigaeth. Dro ar ôl tro yn y cerddi golau y mae natur oll yn sagrafen i R.S. Thomas. Dyma mewn gwirionedd yw'r hyn sydd amlycaf ymhlith y cerddi hyn; ac yn hynny o beth perthynant i'r un gatrawd gadarn ag Euros. Fe'i mynegir yn glir iawn am y tro cyntaf yn 'The Moor' (166); ond wedyn yn 'The River' (226), 'The Flower' (280), 'The Moon in Lley'n' (282), 'Alive' (296), 'Sea-watching' (306), 'Good' (307), 'Praise' (318), 'In Great Waters' (351), 'Emerging' (355, yr ail gerdd yn dwyn y teitl hwnnw), 'Arrival' (427). Dichon y gellid ychwanegu eto at y rhestr fawrhydig yna, ond fe welir nad ydym yn sôn am gynrychiolaeth dila o gerddi. Sôn yr ym yn hytrach am gyflawniad sylweddol a chanolog a gorfoleddus. A hynny'n sagrafennol.

Cyfeirir ganddo at oleuni achubiaeth ac ail fywyd (276), ac fe'i profir fel arfer mewn moment syfrdan o'r neilltu (302 a 359). Dyma'r ochr arall i'r darlun felly, nad yw'r gwyll trwm a gorthrechol ddim yn gyflawn hebddi.

Mi welais sawl beirniad yn defnyddio'r ansoddair 'Calфинаidd' amdano. A phan fyddaf yn y cyfryw gwmmi yn canfod y gair hwn yn cael ei luchio o gwmpas yn hapus, ofnaf fy mod yn cymryd yn ganiataol ein bod rywsut yn pellhau ychydig bach oddi wrth y ffynonellau gwreiddiol efallai, ac mai cartŵn ail-law hwyliog arferol yw'r darlun o Galfin sy'n cael ei gyflwyno. Y gwir yw bod yna, heblaw'r ddibyniaeth ar dystiolaeth hanesyddol wrthrychol, lawer mwy o lawenydd ac o oleuni, gorfoledd llawn yn wir, a llawer mwy o ryddid a chariad yng ngwaith Calfin nag a geir byth gan R.S. Thomas.

Eto, un o'r nodweddion o bosib a dybiwyd yn gyffredin rhwng y ddau oedd y pwyslais ar bechadurusrwydd, ac yn sicr y mae'r cyflwr diriaethol hwnnw'n cael tipyn mwy o amlygrwydd yng ngwaith Calfin ac yng ngwaith R.S. nag y bu'n gyffredin ymhlith y Methodistiaid Calфинаidd diweddar, dyweder. A'r pwyslais hwn a Galfineiddiodd R.S. o bosib ym mryd rhywrai. Gellid cofio am un traddodiad gynt, am Daniel Rowland yn dechrau'i weinidogaeth efengylaidd, a hynny drwy ymdroi'n ddiymwared fel petai ac yn gyson gyda barn, nes bod rhywrai wedi rhedeg ato i erfyn am glywed ymateb Gras. Athrawiaethau Gras a geid yn ddi-ffael gan Galfin, os nad gan R.S..

Bid a fod am hynny, fel arfer tywyllu a wna llawer bardd wrth heneiddio. Try o sbonc ieuencid i chwerwder sgeptig yr henwr. Ond sut yn y byd y gallasai'r R.S. ifanc chwerwi ychwaneg nag a wnaeth ac yntau'n cychwyn fel petai ar y gwaelodion? Y llwybr gwrthwyneb a gymer ef, mi gredaf, o leiaf i raddau. Mae yna gerddi cadarnhaol o *Laboratories of the Spirit* ymlaen y buasai'n anodd eu dychmygu cyn hynny: 'The Small Country' er enghraifft. Dyma wlad, sydd wrth law, na haeddai ac yn gyfiawn felly namyn dirmyg, ac eto y mae'n destun 'hapus': ie, ei air ei hun. Dyma enghraifft o'r paradocs sydd ar dwf yn ei waith.

Mewn cerdd megis 'The Bright Field' (cf. 'Mewn Dau Gae' Waldo, a gwiw cofio bob amser y cyd-destun Cymraeg) ac mewn mannau eraill, hawdd y gellid synied ar frys mai pantheistiaeth noeth sydd yma, gyda Duw ymhobman ym myd natur ac yn gyfystyr â Natur. Ond ymamlygu drwy natur, dyna a wna Duw yn y fan yma eto, defnyddio natur i gyffwrdd â dyn neu i ymweld ag ef. Ac wrth symud o'r cyfnod cyntaf i'r ail felly, yn raddol, goleuo a wna'r ail agwedd gadarnhaol wibiog at Dduw (a fuasai, yn y cyfnod cyntaf ac yn nechrau'r ail, ar fai fel arfer am y cwbl – Efô, yn fwy hyd yn oed nag Adda a gwympasai). Ond o fewn dwyster o fyfyrdodau amryfal, mewn cerddi megis

'Pilgrimages' a 'The Film of God', yr *ÿm* yn ddiogel o fewn traddodiad Herbert, Vaughan, Traherne a Hopkins mewn modd na ellir ei hawlio am yr un bardd Saesneg ar ôl Hopkins. Tasg R.S. yw ymdrechu i eirio hyn – yn *wr* a wyddai fod yna Dduw, ac a ymdeimlai â'i bresenoldeb ym myd natur. Cafodd gip ar ymylon anferth meddwl Duw yn y greadigaeth, ond oherwydd ei faglu gan ragdybiau, nis cipiwyd i uchelderau Ann Griffiths. Ni chlywodd chwaith mo'r Llais yn groyw bersonol a therfynol fel y gwnaethai Pantycelyn. Yr ymbalfalu a'r aros bythol felly sydd yna; yr aros. A'r gwrthryfela'n ei erbyn ei hun.

Hynny yw, gwedd benodol ac idiosyncratig ar Gristnogaeth a geir ganddo, nid y wedd ganolog yn ddiau. Nid ein lle fan yma yw hel heresiaü fel cwingod. Mae R.S. yn atebol braf wrth hel ei heresiaü'i hun. Hereticiaid *ÿm* oll, o leiaf cyn belled ag y mae nam arnom oll a'n bod oll yn ein hamherffeithrwydd yn chwilio sancteiddhad. Felly yr ydym oll yn ddiffygiol mewn rhyw gyfeiriad neu'i gilydd. Yr hyn sydd o bwys i feirniadaeth lenyddol, yn fy mryd gwrth-ddadadeiladol i, yw'r hyn a *gaiiff* pob un yn gadarnhaol mewn gwaith. Gwerthfawr wrth gwrs yw'r hyn nad erys. Ond mewn barddoniaeth, gorchwyl beirniad yw chwilio am yr hyn a *roddir* drwy gerdd, nid am yr hyn nas rhoddir. Os sonnir am yr ail o gwbl, i'm bryd i, ni bydd hynny ond er mwyn diffinio'r cyntaf.

Gellid, dybiaf i, orbwysleisio anuniongrededd R.S.. Y mae ef yn bur anuniongred wrth gwrs, fel y cydnebydd pawb. Ond uniona ef lawer o'r anuniongrededd hwnnw a geid mewn agweddau dyneiddiol yn hanner cynta'r ugeinfed ganrif yng Nghymru. Yn wir, ymroi a wna i'w cyfannu. Ymwybodol yw o Uffern yn ogystal ag o Nef, o Farn yn ogystal ag o Gariad. Ac nid chwarae gyda Barn a wna, fel y gwna rhai o'i feirniaid. Mae popeth yn ddirfodol iddo. Ymddengys dysgeidiaeth y Cwyp yn ddirfodol, a hynny o fewn fframwaith Creadigaeth / Cwyp / Gwardigaeth. Gwêl y Greadigaeth oll hefyd yn cyfeirio tuag at ei Ffynhonnell a'i diben er gogoniant i Dduw, er mor ddyrys a chuddiedig ddiogel y geill hynny fod. Eto, lleisia ef yn groyw mai o ran yr *ÿm* yn gwybod.

Duw personol yw Duw'r Beibl hefyd, nid gwaelod bod na bodolaeth ei hun. Mae'n ymyrryd felly mewn hanes. Nid mewn niwtraliaeth dybiedig-wrthrychol y mae dyn yn gallu sefyll gyfarwyneb â'r Duw hwn byth.

Ble felly y mae'r anuniongrededd?

Hyn sy'n diffinio'i gymeriad thematig o fewn y traddodiad crefyddol ym marddoniaeth Saesneg. Synied a wna R.S. am ffydd fel profiad dirfodol yn hytrach nag

fel rhywbeth gwybodol (a dirfodol), fel ffenomen bersonol ac nid yn osodiadol (a phersonol). Cydnebydd werth sythwelediad goddrychol. Ond o fewn traddodiad barddoniaeth Gristnogol, anghyfanrwydd yw hynny. Eto, yn yr unochredd fe geir hefyd gryfder treiddgar. Fel Tillich mae gan R.S. gonsyrn eithaf ynghylch Rhywbeth-na-wn-beth-yw neu'r Duw nas adwaenir. Unwaith eto gellid synied am anghyfanrwydd y fath olwg â hyn o fewn y traddodiad Saesneg. Ond y mae adnabod yr anwybod a'r tawedog i'r bôn hefyd yn rhan o'r cyfanrwydd ei hun. A chaiff hyn oll gan R.S. fynegiant grymus.

Nid sicrwydd yw hyn. Nid gwybodaeth feddyliol ychwaith. Yn wir, y mae bron yn hunan-gyfeirio at y sawl sy'n rhy groyw ei athrawiaethau meddyliol: *'The shadow of the bent cross / is warmer than yours.'* (343) Hynny yw, gwell ganddo ef yw'r profiad a gafodd o'r groes, ynnddi ei hun, heb esboniad dysgeidiaeth yr ysgrythurau. Croes i'r dychymyg a'r teimlad yw, sef elfennau tra phwysig i gredadun. Ac yn hyn o beth â yn ystyriol ymwybodol heibio i uniongrededd Herbert a Vaughan drwy anwybyddu'n ormodol yr hanes gwrthrychol a'r dehongli deallol datguddiedig.

Er mwyn blasu'i ysfa am uniondeb, serch hynny, oeder ychydig gydag un gerdd benodol gan R.S. Thomas, sef 'A Blackbird Singing'. Dyma'r gerdd a ddewisodd Meic Stephens ar gyfer y gyfres 'Beirdd Gregynog'. Rwy'n siŵr imi ei gweld mewn o leiaf un flodeugerdd arall o'r blaen, ac un o gerddi gorau'r bardd ydyw. Eto, ymhlith y cannoedd o gerddi a ddewisodd ef ei hun i'w cadw'n gynnes yn y ddwy gyfrol *Selected Poems 1946-68* a *Later Poems 1972-1982*, ni chynhwyswyd mo hon. Ni wn pam. Ai syniadau'r gerdd yn hytrach na'i hawen a'i hysgymunodd? Cafodd Amser, sut bynnag, ddiarddel ei ddiarddeliad, ac ymddangosodd yn ddiogel yn Netholiad 1993.

*It seems wrong that out of this bird,
Black, bold, a suggestion of dark
Places about it, there yet should come
Such rich music, as though the notes'
Ore were changed to a rare metal
At one touch of that bright bill.*

*You have heard it often, alone at your desk
In a green April, your mind drawn
Away from its work by sweet disturbance
Of the mild evening outside your room.*

*A slow singer, but loading each phrase
With history's overtones, love, joy*

*And grief learned by his dark tribe
In other orchards and passed on
Instinctively as they are now,
But fresh always with new tears.*

Megis yng ngwlad Pwyl lle na ellid, o leiaf hyd yn ddiweddar, ganu am y gwenyn a'r adar heb feddwl am wlad Pwyl, felly y bu hi ers tro yn y Gymru Gymraeg. Hynny yw, os ystyriwn fod hon yn ffitio i mewn i lif holl gyfanswm patrwm deallol a phryder a myfyrdod ysbrydol R.S. Thomas 'with history's overtones' (peth y byddaf i, yn gam neu'n gymwys, yn tueddu i feddwl amdano wrth ystyried pob cerdd unigol gan unrhyw fardd), yna y mae'r math o bryderu am Gymru ac am argyfwng diwylliannol ac ysbrydol y byd hefyd yn gyd-destun dirfodol i'r fwyalchen arbennig hon.

I Sais cenedlaethol-gysurus (neu'r 'Llenor Saesneg yng Nghymru') gellid o bosib ymateb ar lefel 'natur' neu 'gywair' yn unig i hon, ynghyd â rhyw amgylchedd ysbrydol efallai. I Gymro y mae a wnelo'r gerdd â chyd-destun real, diriaethol, cymhleth, cenedlaethol a chrefyddol, a chenedlaethol-grefyddol. Nid wyf yn ceisio dadlau fod y darllenwr Saesneg nodweddiadol yn 'anghywir'. Ond os yw'r gerdd yn ffitio yng nghyfangorff profiad R.S. Thomas, yna anodd i Gymro ei chanfod ar y lefel 'naturiol', anghymdeithasol ac anfetaffusegol yn unig. Hanes (a Myth) yw Prytherch a Christ.

Beth yw'r düwch felly y cân y fwyalchen amdano? Rwyf am awgrymu mai dyma'r ymwybod o ddüwch sy'n plagio'r bardd yn wastad – ym myd syrthiedig natur, yn y gymdeithas, yn y Gymru Gymraeg, yn yr Eglwys, yn y byd, megis yn ei anian ei hun. Ymhelaethwyd eisoes ychydig am y düwch hwn wrth efrydu cerddi eraill gan y bardd. Ymsymuda mewn cylch o ddifrifoldeb na wŷr y rhan fwyaf o'r beirdd Saesneg odid ddim amdano. O'r herwydd, y mae'r math o gymhlethrwydd Cymraeg sy'n ymwrthod o'r tu mewn â'r düwch hwn, ac eto'n ei gofleidio, yn rhywbeth na chafodd fawr o sylw ganddynt. Yr hyn sy'n arwyddocaol yn y pwynt hwn yw bod y fwyalchen ei hun yn canu drwyddo.

Dyma adlais bron o linell olaf y gerdd 'Song at the Year's Turning' (sef teitl un o'i lyfrau cyntaf): *The new grass shall purge you in its flame.*

Dywed diwedd 'Bread':

*he broke
Like sun crumbling the gold air
The live bread for the starved folk.*

A diwedd 'The Cure':

*Consider ...
What areas of that infirm body
Depend solely on a poet's cure.*

(cf. ail bennill 'Sailor Poet', diwedd 'Lore' a diwedd 'Mother and Son')

Felly, pan ymddengys R.S. fel pe bai'n ymdrybaeddu mewn cors anobaith ar hyd rhyw fath o Via Negativa sy'n gorffen yn rhagdybiol mewn negyddiaeth y byddai'n hawdd ei pharodio, (ac iddo ef yn wir ei pharodio ar dro o bosib drwy blastro diflastod am ben diflastod), gwiw cofio y gwth pendant a helaeth hwn i'r cyfeiriad arall. Yr ydym yn weddol bell yn y fan yma o fyd ansicrwydd dogmatig. Pell ym hefyd oddi wrth y rhyddymofyn enwog a gaethiwir yn yr amod nad oes yna ddim arall i'w gael.

Soniais felly am ddau ddsbarth o gerddi gan R.S. Thomas: yn gyntaf y rhai moel a thywyll. Yn ei gerdd 'Evans', mewn cerdd o 16 llinell, digwydd yr ansoddair 'dark' dair gwaith ynghyd â 'bare, gaunt, black, cold, stark, weather-tortured, sick, stranded, lonely, bleak.' Hen gyfeillion. Ond yn ail wedyn, gwelwn nad gorbrin yw'r caneuon od hynny sy'n dathlu Duw a ymetyb i hynny oll mewn goleuni.

Y trydydd dosbarth serch hynny yw'r gwelediad o norm abnormal. Y gymysgfa lle y mae'r gwacter a'r tywyllwch yn ymddangos yn orthrechol, ond lle y ceir rhyw fath o wrthddywediad golau hefyd, – na, byddai'r gair 'golau' yn rhy uchelgeisiol fel arfer, – marworyn gwanllyd efallai, yn pigo i'r golwg yn bendant. A byddai'r gair 'gwrthddywediad' wedyn yn rhy gryf. Eto, mae yna rywbeth yno. Presenoldeb yr ail ddsbarth o gerddi sydd fel petai'n gwneud y 'gymysgfa' hon yn fwy posibl. Nid y negyddiad hyd yn oed, felly, ac nid y cadarnhad wrth gwrs sy'n arferol, ond yr ymgodymu didwyll rhyngddynt. Sonia amryw ymofynwyr bondigrybwyll y dyddiau hyn am ymgodymu arwrol o'r fath. Ond prin yw'r dystiolaeth o hynny ganddynt gan fod yr ail elfen yn absennol, a'r norm 'ymofynnol' wedi sicrhau ymlaen llaw fod y drws ynghau. Nid felly yng ngwaith R.S. Thomas.

Diddorol yn y cyd-destun hwn yw dilyn trywydd un o ddwy ddelwedd bwysicaf R.S., sef yr asgwrn. Delwedd greulon yw fel y cofiwn gan Parry-Williams. Mae hon yn mynegi'n groyw ddiffieithwch y wlad a arddela'r bardd: mae'r negyddiad disgwylidig carbonaidd yn cyrraedd yn sicr –

*It lay like a bone
Thrown aside and of no use
For anything except shame to gnaw. (137)*

Am hen ffermwr ffaeledig y mae'n holi:

*Was the meagre price
Such bones can command
In death's market
Worth all their trouble? (144)*

Esgyrn diwerth yw'r rhain. Ac yr ym yn gyfarwydd â hwy mewn rhai eraill o'r cerddi:

*chipping the green skin
From the yellow bones with a half-witted grin. (4)*

Eto i gyd, mi geir esgyrn o ansawdd arall:

*soft flesh was forming
Quietly as snow on the bare boughs of bone
(23: cynhelir yr un ddelwedd: 'bone's bough' 384)
The fine bones of a sick culture (The cure: cf 36)*

Cynnal corff yw swydd yr esgyrn hyn fel arfer: fel gyda'r eglwys er enghraifft –

Quiet as sunlight, cupped within the bone (11, cf 2, 168)

Maent yn angori: *the bone's anchor* (398)

Maent yn rhan gynhenid o'n dynoliaeth pan blisgir popeth corfforol arall i ffwrdd: e.e. 13, 20, 36, 39, 40, 72, 80, 105, 107, 110, 116, 127, 179, 183, 230, 233, 250, 279, 309, ayb.

*Weaving upon her fluid bones
The subtle fabric of her being. (The unborn daughter, 35)*

Mae'r esgyrn hagrdeg hyn felly yn ffurfio tomen go uchel. Y maent yno yn sefyll yn eglur ar y gorwel, ac yn weddillion brwydr. Dyma ddelwedd greulon ond caled sy'n ymestyn i mewn i dosturi a thynnerwch:

*by intricate weaving
Of wind and air with the frail bones. (9)*

Dyma hyd yn oed yn eu moelni fath o gadernid a gweddillion o fywyd:

*not just believing,
But proving in your bone and your blood
Its accuracy. (146)*

A gellir ar ryw olwg ymddiried ynddynt:

*The voices combined,
urging us to put our trust
in the bone's wisdom. (456)*

Yn ôl fel y gwelaf i bethau, y mae R.S. Thomas o ran anianawd yn tueddbennu tuag at felan, hyd at yr asgwrn, wrth syllu ar Gymru ac ar y byd yn eu cyflwr anysbyrdol. Ond bob hyn a hyn, oherwydd ei onestrwydd mae yna alwad i ymatal rhag pesimistiaeth rwydd anghymhleth. A hyn sy'n ei ysgogi i ganu:

*But a voice sounds
in my ear: Why so fast,
mortal? (282: 'The moon in Lleyn')*

Arafwn oll *gydag ef*, felly, ac *o flaen* y bardd hwn; a mawrygwn y brydyddiaeth Anghymraeg, anuniongred Gymreig, ond union hon a gyfrannodd gymaint i'n hoes a'n profiad, yn achlysurol gyda hiwmor. Gall plastro esgyrn o'n blaen fod yn grotesg.

Mae gennyf atgof am stori a ddywedodd Waldo wrthyf am un o'r achlysuron y bu ef ac R.S. yng nghwmni'i gilydd. Tybied yr wyf fod R.S. yn gwbl ymwybodol o'r ddelwedd orbrudd a swrth yr oedd ef yn ei thaflunio. Hynny yw, i raddau weithiau, efallai iddo dybied y gellid tybied mai actio rhan yr oedd ef.

Yr oedd y ddau fardd wedi mynd yn y bad o Dyddewi i Sgomer. Yno ar y pryd, fe'u croesawyd gan Warden gweithgar yr ynys, yr awdur, R.M. Lockley, nad oedd yn un o Gymry brwd y byd hwn.

R.M. Lockley: Sut y mae hi ar y tir mawr?

R.S. Thomas: Popeth yn mynd i'r gwellt.

R.M. L.: Sut y mae hi yn yr Eglwys Anglicanaidd?

R.S. T.: Dychrynlyd, dychrynlyd. Mae hi ar ben.

R.M. L.: A'r iaith?

R.S. T.: Bron â diflannu.

R.M. L.: Oes gan yr eglwys unrhyw ddyfodol?

R.S. T.: Dim gobaith.

R.M. L.: Oes yna gyfnodolyn ganddi?

R.S. T.: Oes, oes. '*Y Llan*': 'The Churchyard'.

[Er mwyn gwerthfawrogi'r ateb hwn, buasai'n rhaid i Lockley wybod y cyfieithiad arferol: 'The Church' i'r gair 'Llan'. Ond yr un pryd yr oedd angen sylweddoli hefyd mai

'Eglwys' nid 'Llan' oedd y cyfieithiad ar lafar gan amlaf i 'The Church'. Ac yn wreiddiol, yr oedd 'Llan' yn cynnwys y diriogaeth gaeedig yr oedd yr eglwys yn sefyll ynddi gan gynnwys wrth gwrs y fynwent – the churchyard.

Difrif iawn oedd gwep R.S. wrth dynnu coes drwy gydol y sgwrs, ond pan adroddai Waldo yr hanes wrthyf i, yr oedd yn orfoleddus ei sbri. Ni ddeallai Lockley ddim o'r ergyd.]

BRODYR

Mae yna gymuned o *bobl* yn byw ym marddoniaeth ac yng ngwlad Waldo ac R.S.. Y Gwerinwr yw'r cymeriad y dewisodd y ddau fardd ei adnabod i gynrychioli 'dyn' i'w poblogi, yn anad yr un dosbarth. Pynciai Gwenallt yntau yn ei gerddi am y 'proletariad', a'r 'werin' hefyd. Pynciai Saunders am sbectrwm y 'dosbarth canol', y 'proletariad', a'r 'uchelwr' ... a hyd yn oed am y 'gwerinos'. Ond y gwladwr gwerinol fel arfer sy'n poblogi meddyliau Waldo ac R.S.. Nid mater o ddosbarth gwleidyddol nac ardal yn unig oedd hyn i'r beirdd hynny, ond mater o ysbryd.

Er mwyn i ni gael 'proletariad' neu 'werinwr' *gwleidyddol*, digon weithiau yw gwahanu rhwng golygfa wledig neu olygfa drefol, neu ddod o hyd ambell waith i safle ariannol a grym cymdeithasol. Ychwaneger at hynny yr awydd i newid y sefyllfa honno, a dyna ni yng nghanol tyndra gwleidyddol digon cyfarwydd. Gwahanol sut bynnag oedd y 'gwerinwr' ym mryd R.S. Thomas a Waldo. Gwledig oedd eu byd yn ddigymrodedd eiconaid.

Er mwyn diffinio gwerinwr (o'i gyferbynnu â'r proletariad) yn eu bryd hwy, rhaid oedd ei gynysgaeddu hyd ddyfnder bodolaeth ag elfen fwy nag allanolion na chenfigen na pharch na hyd yn oed casineb yn eu hunaniaethau gwleidyddol. Ceid cwynion ym muchedd gweithwyr, ond cwynion oeddent heb awydd amlwg i ddisodli trefn dosbarth. Cwyn gan graidd arall oedd. At ei gilydd, mewn byd dibleidlais ac anwleidyddol ei draddodiad, dieithr fu i'w 'gwerinwyr' hwy (o'u cyferbynnu â'u ffermwyr dosbarth canol) brofi penderfyniad y newid trefn yn gyffredin. Gwibdaith achlysurol a geir i'r dref.

Teg cydnabod, beth bynnag y tyndra neu'r anesmwythyd a brofai R.S. ynghylch Prytherch, fe goleddai ef elfen o hoffter dwfn tuag ato ef a'r lleill. Er mor bell, o safbwynt incwm o fyd y sgweier neu'r uchelwr, oedd R.S. ei hun, cyfrifid ef gan Brytherch o ran ysbryd yn emosiynol ac yn addysgol gyda'r 'dosbarth canol' ar lefel 'hunan-addysgu gwirfoddol', er mai dosbarth oedd hwnnw nas hoffai ef gymaint â'r 'gwerinwr' a'i amgylchfyd.

Yn achos Waldo, sut bynnag, roedd y cariad at y werin yn ddigwestiwn gyferbyniol bron. Fan yna roedd yn gartrefol; ond gyda'r academyddion hefyd. Fel y gwelir yn 'Y Tŵr a'r Graig', heb sôn am ei aelodaeth o'r Blaid Lafur, wedyn o Blaid Cymru, roedd gwahaniaeth dosbarth yn fater digon ymwybodol iddo'n wleidyddol.

Nodwedd oedd gan deulu ysgolfeistr, felly, yn y bôn. Ni welid ganddo ddiddordeb 'barddol' yn y proletariad, ac eithrio yn ei gerddi cynnar dan ddylanwad Niclas y Glais. Os Pleidiwr ar y chwith oedd Waldo, nid dyn Plaid oedd y cenedlaetholwr R.S..

Gallai Waldo, ei uniaethu ei hun â'r gwerinwyr yn gyfan-gwbl. Er y gwahaniaeth mewn addysg a gallu, ac er mai pethau a barai i'r gwerinwyr ymwybod â'r 'pellter' rhyngddynt, teimlai Waldo hoffter at eu gwerthoedd, ac edmygedd o'u crefft ac o'r undod yn eu cydweithrediad ymarferol. Eu hiwmor hwy oedd ei hiwmor ef, ond yntau'n fwy dawnus ddeallus wrth gwrs. Yr oeddent hwy ac ef yn gwbl gysurus gyda'i gilydd. Yn ei gywyddau diweddar, yn ei englynion, yn ei gerddi plant, a'r cerddi rhamantaidd hiraethus cynnar y ceid y sgrifennu gwerinol amlwg gan Waldo, o'u cymharu â rhai cerddi fel 'Preseli' ac 'Mewn Dau Gae', a oedd yn gerddi *am* y Werin ond i'r dosbarth canol, at ei gilydd. Gwerinwr addysgedig oedd Waldo; ond nid felly R.S.. Perthynai R.S. i'r dosbarth canol yn ymweld â'r Werin.

Rhoddei R.S. a Waldo gryn gyfrifoldeb ar ysgwyddau'r Gwerinwr. Plant y tywydd oedd y tri. Yr oedd hinsawdd i fod i gynrychioli iddynt hanfod bywyd a gwlad mewn creadigaeth ddiriaethol ddarllengar. Ond yr hyn a wnâi'r naill a'r llall o'r ddau fardd hyn o fewn eu *oeuvre* oedd gosod y gwerinwr, yn chwithig gellid meddwl, o fewn math o fyfyrddod ysbrydol. Yn y cyswllt rhwng y cyd-destun myfyriol mwyaf dwys am fywyd a'r cymeriadau gwerinol, yr oedd yna bellter ac agosrwydd o fath felly. Roedd yna bellter hefyd gan R.S. yntau rhwng y gwacter ystyr a'r absenoldeb dwyfol ar y naill law, ac agosrwydd y gwerinwyr gwag eu meddwl ac elfennaidd eu hysbrydoledd ar y llall. Plant y pridd. Gwelai R.S. ystyr y diystyr. Ac nid annhebyg cyfrif bod yna ddeuliaeth o'r fath yn Waldo hyd yn oed, er ei fod ef yn dod i gasgliadau cwbl groes. Darluniai'r bywyd gwerinol bob amser gyda pharch mewn cywyddau, englynion a chanu ysgafn; ond yna, ceid ar wahân y myfyrdodau a archwiliai'r bywyd anobaith-gobaith sydd yn isymwybodol iddynt hwy ac i bawb, o fewn mesurau mwy rhydd, a hyd yn oed yn anesmwythyd brith y *vers libre*.

Ceid gan y naill a'r llall, R.S. a Waldo, gyd-gartref o fewn metanaratif Cenedlaetholdeb Cristnogol. Yr oedd hyn yn fwy na thegwch moesol, a hawliau cymunedol hanesyddol. Gallent ymwybod yn eu gwreiddiau ag awyrgylch ac egwyddor ysbrydol. Ond gwneid y cwbl yn feirniadol iawn, yn fwy beirniadol felly – o leiaf ar yr

wyneb – yng ngreddfau R.S. nag yn ymatebion cynhenid Waldo. Arddelent egwyddorion cenedlaetholdeb – cymunedolrwydd, cydweithrediad, cyfartaledd rhyngwladol, yr achos gwyrdd, gwreiddiau, gwrthod israddoldeb seicolegol, parch anarferol at ddiwylliant.

Gellid synied y byddai'r dyn normal o'r unfed ganrif ar hugain yn medru closio at R.S. Thomas yn fwy realistig nag at Waldo. Mae'i agnosticiaeth achlysurol hysbys bellach yn eiddo i'r mwyafrif. Felly hefyd ei ddirmyg cywir at Gymru. A hyd yn oed ei wrthodiad o ddyn, ac o goegi ynglŷn ag ef ei hun. Mae hyn yn canu cloch yn yr awyrgylch cyfoes. Ac eto, dyn ar ei ben ei hun yw'r dyn normal i R.S..

Mae 'optimistiaeth' gwmnigar Waldo ar y llaw arall yn gallu ein hatgoffa am hunanfodlonrwydd y rhyddfrydigrwydd Fictoriaidd. Waldo, nid R.S., yw'r gwrthryfelwr yn hyn o safbwynt mwyach. Mae'i heddychiaeth yn cynhesu'r ychydig o gapelwyr sydd ar ôl; ond anymarferol yw hi i lawer, ac anodd codi digon o stêm i gydymdeimlo'n ymarferol â chysgod o safiad Waldo ynghylch aberth. Ac eto, mae ef yn haws ei hoffi nag R.S., er nad yw hynny'n sylw esthetig. Ymdeimlir â'r 'gŵr mewn cwmni' gyda Waldo.

Eicon, fel y gwyddys, yw Waldo heddiw. Amherthnasol weithiau efallai yw'r medr i glosio at rywun o'r fath heb ymateb yn gadarnhaol i ddychymyg, deallusrwydd, a medr ieithyddol eicon. Anodd i rywrai beidio ag ymateb ond yn theoretig gadarnhaol i'w syniadaeth. Ond gan amlaf, mae chwaeth bersonol at brydyddiaeth yn arfer codi uwchben syniadaeth gytûn; a dieithryn yw Waldo, nid yn unig yn ddeallol, ond yn aberthol hefyd.

Eto, cyfyd y naill a'r llall o'r ddau fardd, dipyn uwchlaw delweddu sgeptigiaeth ddiog a materoliaeth gysurus y soffistigedig. Meddai Kingsley Amis un tro am waith R.S. Thomas, 'it reduces most modern verse to frothing whimsy' – disgrifiad sy'n doddi bys ar yr union gyferbyniad rhwng cymaint o farddoniaeth Saesneg ddiweddar a'r hyn a wnaed gan yr Eingl-Gymro hwn, a hefyd mewn ffordd gwbl wahanol i Waldo. Bu, ac y mae, Cymru i R.S. mewn picil chwerw. A phicil ysbrydol yw: mae dyn yn noeth ac yn bwysig.

Yn ei gerdd 'The Musician' o'r gyfrol *Tares* (1961), fe gaiff R.S. gyffelybiaeth eithriadol rhwng Kreisler, a'i ddiodefaint enbyd, wrthi mewn cyngerdd un tro, ac yn **gwaedu dros ei offeryn:**

*'Because it was himself that he played
And closer than all of them the God listened.'*

Ar draws ei fethiant â chyfathrach rydd Duw, sibrydai R.S. ei ffydd anodd fel yna. Ac o'r herwydd, ni thâl i neb ruthro i gasgliad rhy rwydd ac amheronol ynghylch difrifoldeb ei grediniaeth. Weithiau, ni ellir llai na theimlo bod yna fwy o berthynas ac agosrwydd rhwng y ddau fardd hyn â'i gilydd yn eu cariad at gymuned letach Cymru a hyd yn oed at Dduw nag y tybir yn gyffredin. Brodyr oeddent, ond brodyr gwahanol.

Anghydfurfiai R.S. â sefydliad gwâr y Llan, mae'n wir, megis y profai R. Williams Parry wrth ganfod llwynog. Câl ar y waun y Duw nas câi o fewn y defosiynau sefydledig. Ac eto, gwyddai R.S. dawelwch a mawredd y llan, nas gwyddai R.W. Parry.

*It was like a church to me
I entered it on soft foot.* ('The Moor')

Gwelai ffaeledigrwydd y glerigiaeth, unig, fethedig. Ond yr oedd ganddo hefyd reswm dros ymestyn ati, a chyd-deimlo â'r geiriau sanctaidd a offryment i galonnau dynion a meddyliau plant:

*God in his time
Or out of time will correct this.*

Mae'n gofyn am swyddogaeth y Llan:

*Is this where God hides
from my searching?* ('In Church')

Y clod gan anghredinwyr o ddarllenwyr yw mor 'onest' y gallai fod. Addolwr natur oedd. A diau fod bod yn synhwyrus fyw mewn gonestrwydd yn rhinwedd gelfyddydol.

Beth felly oedd y gwahaniaeth canolog rhwng Waldo ac R.S.? Crynhown rai credoau.

Yn eu Cristnogaeth yn gyntaf, yr oedd gan R.S. ymwybod cryf a rhyfeddol, os achlysurol, o fodolaeth Duw – *Sensus Divinitatis*. Yr oedd ganddo hefyd ymwybod cryf o bechod dyn: o arwahanrwydd creulon cudd, ac o fod ar fai neu'n felltigaid. Ond yr oedd yna wendidau creiddiol wyneb yn wyneb â hyn. Oherwydd y 'myth' propagandaidd yn erbyn diwinyddiaeth Feiblaidd Paul-Awstin-Calfin, ffodd ef rhag cynnwys cadarn uniongredd dysgeidiaeth. Ac oherwydd ei gymhellion tenau wrth fynd yn brofiadol i mewn i'r offeiriadaeth, yr oedd wedi ymgaedu'n ofnus yn erbyn profiadaeth bersonol, a milwrio'n erbyn ildio'n llwyr. Drachefn, fe'i doluriwyd ef yn ddeallol gan ei oes. Nid

oedd Waldo wedi profi'r un caledrwydd profiadol, er iddo gael ei fowldio o fewn cyddestun o 'ddiwinyddiaeth' gymdeithasol. Ni chafodd ef ei garcharu gan grefydd fel R.S.. Cafodd Waldo ei garcharu gan ddirgelwch ac ymostyngiad y tu allan i'r eglwys. Wedi cyfarfod â Duw unwaith, wyneb yn wyneb, heb gyfrwystra na ffoi na gwyrddroi, anodd iawn fu – hyd yn oed yn nannedd oes amheugar – beidio â gwybod agosrwydd yr Arglwydd hwnnw byth wedyn. A phrofodd Waldo ganddo ras cariadus a gwybodaeth athrawiaethol mewn amlygrwydd.

Felly, brodyr oedd Waldo ac R.S. mewn sawl peth,... megis hefyd eu dosbarth cymdeithasol od. Brodyr oeddent yn eu cyd-bresenoldeb o fewn blinder Cristnogol. Brodyr oeddent drachefn, cymrodyr yn wir, yn eu perthynas genedlaethol. Brodyr oeddent yn ogystal, yn eu cydgloffni emosiynol. Dodai cymuned Cymru hithau hwy gyda'i gilydd mewn fframwaith ysbrydol o ras cyffredin.

Cymharwyd Cymru yn fynych ar hyd y canrifoedd ag Israel gan y Cymry eu hunain. Digon teg, gan fod Moses a'i ysgrifwyr ym Mhum Llyfr cyntaf y Beibl, a'r Croniclwyr afrifed wedyn, wedi cyflwyno llwythau'r genedl honno heb flewyn ar eu tafodau. Darlunient yn flodeuog Jacob a'i ddisgynyddion fel lladron, bradwyr, llofruddion, cablwyr, hil-laddwyr, seicopathiaid, treiswyr, godinebwyr, amlwreicwyr, anghredinwyr, eilunaddolwyr, llosgachwyr, sodomiaid, ffyliaid, puteiniaid, ac weithiau (yn brin) yn edifeiriol. Hyn (a Duw) a adeiladodd y genedl. Ond fel arfer, darlunnir hyd yn oed rhai o'r arwyr pennaf hyn yn ôl eu gwarth a'u cywilydd oll. Dyna'i hysbyseb i'r sawl a ddymunai ymuno â hwy. Dyna Israel yn ei noethni. Pe dymunid gan yr awduron a'r Ysbryd Glân adrodd hanes wedi'i sensro a allai ennill tröedigaethau i ffydd Israel, ac ennill edmygedd i'r wlad honno gan eraill, ni byddent byth dros eu crogi wedi sgrifennu'r fath lyfr. Dim ond ufudd-dod i Dduw, ac awydd i ddweud y gwir a allai fod wedi cynhyrchu'r cronicl dychrynlyd hwn. Llais Duw oedd hyn, yn ceryddu. Dyma gefndir i feirniadaeth gariadus R.S. a Waldo o'u pobl.

Cenedl fel yna yw'r gymhariaeth weddus mewn cyfnod arall i ddelwedd finiog R.S. o Gymru. Ni ddaeth R.S. i hysbysebu ar ran y Bwrdd Croeso. Ond gwelsom, wrth fwrw golwg dros fanylion cerddi Waldo, fel y gallai ef hefyd fflangellu Cymru. Hynny yw, agosrwydd at Israel a golwg ar Israel oedd yr hyn a brofodd Waldo ac R.S. ac a ddarluniwyd yn eu cas serch at Gymru. Dyma ran ryfedd yn eu haddysg. Ond hyn hefyd

a'u gwnaeth hwy'n frodyr. Ar ôl cyrraedd *H'm*, ni allwn lai na chlywed ieithwedd a rhythmau o'r Beibl ym mhob cerdd o eiddo R.S..

Drosodd a thro, clywn Dduw yn holi Jacob, 'Beth yw d'enw?' Ac ar y dechrau teimlwn y bydd R.S. Thomas yn ateb: 'Ni'th ollyngaf heb it fy mendithio.' Ond mae'n ymgodymu rhwng y nos a'r wawr, a blino, a chlywn:

Do you want to know his name?

It is forgotten. Would you learn

what he was like? He was like

anyone else...

He had no power to pray.

His back turned on the interior

he looked out on a universe

that was without knowledge

of him and kept his place

there for an hour on that lean

threshold, neither outside nor in. (The Porch.... teitl Herbertaidd)

Cyfeddyf dro a thrachefn, yn ei waed:

Time

is a main road, eternity

the turning that we don't take. (The Signpost)

Yna, – Ust! – gall rhywun llai na chydymdeimladol ymateb i hyn yn arwynebol: fe gloffa rhyw feirniad call gorgryno i mewn, a murmur yn nawddogol, 'Roedd yn onest iawn ta beth.' Ond gwyddai R.S. yn burion, fel Paul a Phedr a'r Thomas arall hwnnw, nad Barn oedd hynny, ac na weithiai perffeithrwydd gras ar neb a erys o fewn y cwlwm dynol naturiol. Rhaid mynd ymhellach. A'r hyn sy'n cyfrif yn y diwedd iddo ef, hyd yn oed mewn barddoniaeth, yw codi oddi ar y cyffredinedd cytuno-neu-beidio i ansawdd y profiadau o ras sy'n foisol, yn esthetig, ac yn ddychmyglon. Rhyfedd fel y bydd darllenwyr R.S. a darllenwyr Waldo fel ei gilydd, er pob amwysedd, yn chwilota o hyd ac yn 'disgwyl' o hyd am y gerdd sydd hyd yn oed mewn anobaith yn gorfod gobeithio.